Arsyllfa **Wledig** Cymru
Wales **Rural** Observatory

# DADANSODDIAD O EFFAITH ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL DIWYGIADAU I'R PAC AR GEFN GWLAD CYMRU

## ADRODDIAD CAMAU 3, 4 a 5

## YR EFFAITH AR Y GYMDEITHAS A'R ECONOMI WLEDIG

## 2013

**ADRODDIAD AR GAMAU TRI A PHEDWAR Y PROSIECT YMCHWIL:**

**DADANSODDIAD O EFFAITH ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL DIWYGIADAU I'R PAC AR GEFN GWLAD CYMRU**

**YR EFFAITH AR Y GYMDEITHAS A'R ECONOMI WLEDIG**

## Adran Un Cyflwyniad

**1.1** Yr adroddiad hwn yw'r ail ar brosiect ymchwil aml-gam a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru [LlC]. Ceir tri nod i'r prosiect ymchwil. Yn gyntaf, i ddarogan sut y gallai ffermwyr, y diwydiant gwasanaethau cynnal ffermydd a'r diwydiant prosesu bwyd a manwerthu, yn eu trefn, ymateb i'r newidiadau i incymau fferm a achosir gan reoliadau newydd y PAC. Yn ail, i archwilio beth allai'r sgil-effeithiau fod ar gymdeithas cefn gwlad a'r economi yng Nghymru wledig. Yn drydydd, i nodi beth allai'r newidiadau hyn ei olygu i bolisïau ac ymyriadau Llywodraeth Cymru ac i hysbysu gwaith Llywodraeth Cymru i ddatblygu Cynllun Datblygu Gwledig newydd i Gymru ar gyfer 2014-20.

Trefnwyd pum cam ymchwil a cham i gloi ar gyfer y prosiect.
Roedd y rhain fel a ganlyn:

### Cam Un. Dadansoddi incwm

Man cychwyn y prosiect oedd y gwaith modelu ariannol a wnaed gan dîm Gwasasnaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru, sy'n nodi effaith ariannol newidiadau rhagweledig i'r PAC. Defnyddiwyd y data hyn i nodi pa wahaniaeth y byddai'r newidiadau hyn yn ei wneud i incymau aelwydydd fferm. Rhoddwyd sylw penodol i effeithiau daearyddol ac o ran sector fferm; maint effeithiau penodol; a'r broses o nodi clystyrau daearyddol.
Disgrifir y cam hwn yn adroddiad Camau Un a Dau.

### Cam Dau. Sut mae cartrefi fferm yn ymateb

Yn sylfaenol, casglwyd hyn o'r arolwg o aelwydydd fferm. Nod dadansoddiad yr arolwg oedd nodi pa newidiadau, os oedd rhai o gwbl, allai cartrefi ffermio eu gwneud ar ôl diwygio'r PAC. Er enghraifft, pa un a fyddai cartrefi fferm yn newid eu harfer ffermio, yn ehangu neu'n lleihau, yn gadael ffermio, yn arallgyfeirio eu ffermio neu'n chwilio am gyflogaeth arall neu ategol oddi ar y fferm. At hynny, lle y rhagwelwyd newidiadau i arferion presennol gan y gwaith dadansoddi, aethpwyd ati i fesur yr effaith ar gynhyrchu nwyddau ffermio a chyflogaeth ffermio. Disgrifir y cam hwn yn adroddiad Camau Un a Dau.

### Cam Tri. Yr effaith ar y diwydiant gwasanaethau cynnal ffermydd

Disgrifir y cam hwn o waith yn yr adroddiad hwn.

### Cam Pedwar. Yr effaith ar y diwydiannau prosesu bwyd a manwerthu

Disgrifir y cam hwn o waith yn yr adroddiad hwn.

**Cam Pump. Yr effaith ar y gymdeithas a'r economi wledig**

Disgrifir y cam hwn o waith yn yr adroddiad hwn.

**Cam Chwech. Dadansoddiad o themâu a goblygiadau i bolisïau ac ymyriadau Llywodraeth Cymru**

Disgrifir y cam hwn o waith mewn adroddiad ar wahân. Fel cam olaf y prosiect, mae'n crynhoi themâu cyffredin a phwysig o'r pum cam ymchwil ac yn asesu eu goblygiadau i bolisi ac ymyriadau Llywodraeth Cymru. Mae Cam Chwech y prosiect yn ystyried yr hyn y mae'r newidiadau a ragwelir a'r ymatebion ar y cyfan yn ei olygu i Gymru wledig ac yn amcangyfrif i ba raddau, a pham, maen nhw'n bwysig ai peidio.

Fel y nodir uchod, disgrifir Cam Un a Cham Dau y prosiect ymchwil yn yr adroddiad ar Gamau Un a Dau. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn cynnig y cyd-destun a'r rhesymeg ar gyfer y prosiect ymchwil yn gyffredinol.

Mae strwythur yr adroddiad hwn ar Gamau Tri, Pedwar a Phump fel a ganlyn:

Adran 1 Cyflwyniad

Adran 2 Dulliau

Adran 3 Cyd-destun i'r cwestiynau prynu a gwerthu

Adran 4 Mapio prynu a gwerthu

Adran 5 Dadansoddiad o'r cyfweliadau gyda ffermwyr

Adran 6 Crynodeb

Sylwer, fel y disgrifir isod, bod y cyfweliadau gyda ffermwyr yn cynnwys cwestiynau a oedd yn gofyn am safbwyntiau ar rai o'r materion eraill, yn ogystal â phrynu a gwerthu, a drafodwyd yn yr arolwg. O'r herwydd, mae'r dadansoddiad o'r cyfweliadau yn mynd i'r afael â'r materion hyn ac yn atgyfnerthu dadansoddiad yr arolwg.

## Adran DauDulliau

### 2.1 Cam Tri: Yr effaith ar y diwydiant gwasanaethau cynnal ffermydd


Roedd y dulliau a ddefnyddiwyd ar gyfer Cam Tri yn dilyn ymlaen o'r rhai a ddefnyddiwyd ar gyfer Cam 2 ac yn seiliedig ar gyfweliadau trylwyr gyda ffermwyr. Cofiwch mai prif nodwedd gwaith ymchwil Cam Dau oedd arolwg o aelwydydd ffermio. Rhannwyd yr arolwg hwn yn ddwy elfen. Yn gyntaf, roedd prif arolwg o 2,400 o gartrefi ledled Cymru wedi ei haenu ar dair lefel flaenoriaeth:

- Blaenoriaeth 1: pum categori o ran maint fferm economaidd, gyda chwota ym mhob categori
- Blaenoriaeth 2: pum categori o ran math o fferm, gyda chwota ym mhob categori
- Blaenoriaeth 3: saith rhanbarth amaethyddol, gyda chwota ym mhob categori

Yn ail, o ddadansoddiad o ddata'r prif arolwg, dewiswyd tair ardal ddaearyddol ar gyfer gor-samplu. Roedd y tair ardal a ddetholwyd o fewn cwmpas 30km o amgylch yr aneddiadau hyn:

- Arberth yn y de-orllewin – llaeth yn bennaf
- Blaenau Ffestiniog yn y gogledd-orllewin – SDA a DA yn bennaf
- Llanidloes yng nghanolbarth Cymru - cymysg

Mae Ffigur 1.1 yn dangos y tair ardal hon a dosbarthiad cyfweliadau'r arolwg.


0
12.5
25
50 Kilometers
British National Grid
1:700,000

Mae Tabl 2.1, sy'n ailadrodd Tabl 5.3 o adroddiad Camau Un a Dau, yn dangos cyfrannau'r mathau o fferm a arolygwyd yn y tair ardal.

**Tabl 2.1 Mathau o fferm a gyfwelwyd**

| | Godro | Defaid | Eidion | Defaid gydag eidion | Arall/cymysg |
|---|---|---|---|---|---|
| | % | % | % | % | % |
| **Y de-orllewin** | 24 | 12 | 26 | 9 | 29 |
| **Y gogledd-orllewin** | 4 | 48 | 12 | 27 | 8 |
| **Canolbarth Cymru** | 2 | 43 | 9 | 34 | 12 |
| **Prif Arolwg** | **8** | **30** | **19** | **17** | **26** |

Gosodwyd targed o 200 o gyfweliadau arolwg ar gyfer pob un o'r tair ardal, wedi eu haenu yn ôl maint a math o fferm.

Gan mai'r ardaloedd hyn a ddefnyddiwyd yn y prif arolwg hefyd, dywedwyd eu bod wedi eu 'gor-samplu'. Mae Tabl 2.2, sy'n ailadrodd Tabl 2.4 o adroddiad Cam Dau, yn dangos faint o gyfweliadau arolwg a gwblhawyd yn ystod y gor-samplu ym mhob ardal, ynghyd â nifer cyfweliadau'r arolwg a gynhaliwyd ym mhob ardal yn ystod y prif arolwg. Mae cydgrynhoi'r niferoedd hyn yn rhoi cyfanswm cyfweliadau'r arolwg ar gyfer pob un o arolygon y tair 'ardal ddaearyddol'.

**Tabl 2.2 Cyfweliadau arolwg a gynhaliwyd ym mhob ardal ddaearyddol**

| Ardal | Cyfweliadau gor-samplu | Cyfweliadau yn y prif arolwg | Cyfanswm y cyfweliadau yn yr ardal |
|---|---|---|---|
| Arberth<br>Y de-orllewin | 204 | 274 | 478 |
| Blaenau Ffestiniog<br>Y gogledd-orllewin | 200 | 159 | 359 |
| Llanidloes<br>Y canolbarth | 201 | 238 | 439 |

Mae'r tri arolwg hyn, gan gyfuno'r cyfweliadau a orsamplwyd a'r elfennau o fewn ardal o'r prif arolwg, yn cyfateb i arolwg ar hap o ffermwydd ym mhob ardal. O ganlyniad, gallai'r canlyniadau fod wedi'u cyffredinoli o fewn pob ardal. Darparodd y dadansoddiad o ddata'r arolwg o'r tair ardal

hon y sail ar gyfer y cyfweliadau dilynol gyda ffermwyr, a'r cyfweliadau ar gyfer cyfnod 3, 4 a 5 o'r prosiect.

10 oedd nifer targed y cyfweliadau ym mhob ardal ddaearyddol, ond cynhaliwyd naw cyfweliad yn Llanidloes, ardal y Canolbarth, 11 ym Mlaenau Ffestiniog, ardal gogledd-orllewin Cymru a 10 yn Arberth, ardal de-orllewin Cymru, a gyrhaeddodd y cyfanswm targed o 30 cyfweliad. Dewiswyd y cyfweliadau hyn trwy ddefnyddio'r meini prawf canlynol: math o fferm (e.e. godro, eidion, defaid ac ati), meddu ar incwm oddi ar y fferm ac arallgyfeirio.

Recordiwyd a thrawsgrifiwyd y cyfweliadau. O ran math, roeddent wedi eu lled-strwythuro; dangosir yr 'amserlen gyfweld' yn Atodiad Un yr adroddiad hwn. Yn ystod y cyfweliad, gofynnwyd cyfres o gwestiynau i'r ffermwyr a ymatebodd am brynu a gwerthu nwyddau a gwasanaethau ar gyfer y fferm, gan gynnwys ble roeddent yn prynu a gwerthu a faint roeddent yn ei wario a'i gasglu, a pha effaith y byddai newidiadau i gymhorthdal y PAC yn ei chael ar y patrymau prynu a gwerthu hyn. Cofnodwyd eu hymatebion ar siartiau a baratowyd ymlaen llaw - a ddangosir yn Atodiad Un hefyd. Casglwyd yr ymatebion i'r cwestiynau prynu a gwerthu mewn cronfa ddata ac fe'u dadansoddwyd. O'r dadansoddiad hwn, lluniwyd diagramau 'rhosyn' o'r patrymau prynu a gwerthu hyn. Datgelodd y dadansoddiad leoliadau proseswyr bwyd a darparwyr gwasanaethau hefyd. Gofynnwyd cwestiynau eraill i'r ffermwyr a gyfwelwyd hefyd, yn ymwneud â materion fel ffynonellau incwm oddi ar y fferm, arallgyfeirio a mentrau amgen, cynlluniau ar gyfer y dyfodol ac olyniaeth, a'r gymuned leol. Dadansoddwyd y cyfweliadau â'r ffermwyr ac fe'u disgrifiwyd yn thematig.

### 2.2 Yr effaith ar y sectorau prosesu bwyd a manwerthu

### Yr effaith ar y gymdeithas a'r economi wledig.

Roedd manyleb y prosiect ymchwil hwn yn galw am archwiliad o'r effeithiau posibl ar y sectorau prosesu bwyd a manwerthu, ac ar yr economi a'r gymdeithas wledig ehangach. Gellir dadlau bod y gwaith gyda ffermwyr, a amlinellir uchod, yn gwneud llawer iawn o'r archwilio hwn. Roedd ffermwyr yn rhannau pwysig, a'r mwyaf blaenllaw mae'n debyg, o'r cymunedau a astudiwyd ac yn gyfranwyr mawr at yr economïau lleol sy'n gysylltiedig â'r cymunedau hynny. Hefyd, gellid darganfod, i ryw raddau, unrhyw effeithiau ar y sectorau prosesu bwyd a manwerthu a allai ddigwydd oherwydd newidiadau posibl i incymau cartrefi ffermio yn sgil diwygio'r PAC, o'r ymatebion i'r cwestiynau prynu a gwerthu yn nata'r arolwg a'r cyfweliadau. Serch hynny, er mwyn cynnig darlun mwy cyflawn, rhagwelwyd yn wreiddiol y byddai cyfres o gyfweliadau gyda chynrychiolwyr y sectorau prosesu bwyd a manwerthu.

Fodd bynnag, cafwyd problemau'n trefnu'r cyfweliadau hyn. O ran dull, nodwyd darpar gyfweleion drwy'r dull 'pêl eira'. Hynny yw, cafwyd enwau'r manwerthwyr a'r darparwyr gwasanaeth lle'r oedd y ffermwyr yn prynu, a'r proseswyr bwyd a'r marchnadoedd roeddent yn gwerthu iddynt, yn ystod y cyfweliadau fferm trylwyr. Ychwanegwyd at y gronfa hon o ddarpar gyfweleion trwy chwilio ar y rhyngrwyd. Ond wrth geisio trefnu cyfweliadau, roedd diffyg

cydweithrediad eang a bron yn llwyr. Treuliodd ymchwilwyr Arsyllfa Wledig Cymru oriau lawer yn ceisio trefnu cyfweliadau, dim ond i gael eu hatal gan achosion o osgoi a gwrthodiadau llwyr. Mewn un achos er enghraifft, cysylltodd ymchwilydd Arsyllfa Wledig Cymru â phrosesydd dros y ffôn ac fe'i trosglwyddwyd i'r unigolyn priodol. Yn gyntaf, bu holi hirfaith a dealladwy i ddarganfod cymwysterau'r ymchwilydd a chyd-destun y prosiect ymchwil. Yna, cynigodd yr ymchwilydd gyfweliad dros y ffôn, ar amser cyfleus i'r darpar gyfwelai, neu gyfweliad wyneb yn wyneb, unwaith eto ar amser ac mewn lle a fyddai'n gyfleus i'r cyfwelai. Dywedodd y cyfwelai, 'byddwn yn mynnu ar gyfweliad wyneb yn wyneb ar gyfer rhywbeth fel hyn', a gofynnodd i'r ymchwilydd anfon e-bost yn gwneud cais ffurfiol ac yn awgrymu rhai dyddiadau posibl yn ystod yr wythnos ganlynol. Nodwyd hefyd gan gynrychiolydd y prosesydd y byddai'r e-bost yn brawf pellach o ddilysrwydd yr ymchwilydd. Anfonwyd yr e-bost yn briodol. Wedi rhai diwrnodau heb ateb, ffoniodd yr ymchwilydd eto ac fe'i hysbyswyd gan ysgrifennydd 'y bydd i ffwrdd am rai wythnosau ac mae'n dweud na fydd amser ganddo beth bynnag'. A 'na - nid oedd unrhyw un arall yn barod nac yn gallu cynnig cyfweliad'. Er bod hon yn enghraifft hynod rwystredig, bu sawl achos lle gofynnwyd i ymchwilwyr ffonio yn ôl neu anfon e-bost dim ond i gael eu hysbysu gan ysgrifenyddion bod y darpar gyfwelai wedi penderfynu peidio â chynnig cyfweliad. Yn y pen draw, dim ond un cyfweliad, gyda busnes a oedd yn gweithredu marchnadoedd da byw yn ne-orllewin Cymru, gafodd ei drefnu ac mae'r data hwn wedi ei gynnwys gyda data'r cyfweliadau eraill yn yr adroddiadau. Yn dilyn trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru, ac o ystyried yr amserlen ar gyfer y prosiect ymchwil cyffredinol, penderfynwyd peidio â dilyn y dull archwilio hwn ymhellach ond i ddod i gasgliadau o'r data a dderbyniwyd gan ffermwyr eisoes.

## Adran 3 Cyd-destun i'r cwestiynau prynu a gwerthu

Mae'r adran hon yn atgynhyrchu data a dadansoddiadau o'r adroddiad Camau Un a Dau. Felly, mae'n nodi'r cyd-destun ar gyfer prynu a gwerthu ledled Cymru o'r prif arolwg ac yn y tair ardal astudio.

### 3.1 Prynu nwyddau a gwasanaethau ledled Cymru

O'r arolwg cyffredinol, prynwyd 82 y cant o nwyddau a gwasanaethau yn lleol. Mae Tabl 3.1 yn dangos lle'r oedd ffermydd yn prynu eu nwyddau a'u gwasanaethau yn ôl maint fferm.


**Tabl 3.1 Prynu mewnbynnau a gwasanaethau yn ôl maint fferm**

| Lleoliad | Ymwybyddiaeth | Mawr iawn | Mawr | Canolig | Bach | Bach iawn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | % | % | % | % | % | % |
| **Yr ardal leol – o fewn cwmpas 25 milltir** | 82 | 58 | 62 | 70 | 80 | 88 |
| **Rhywle arall yng Nghymru** | 7 | 12 | 13 | 12 | 9 | 5 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhywle arall ym Mhrydain** | 10 | 25 | 21 | 17 | 10 | 6 |
| **Tu allan i Brydain** | 1 | 5 | 4 | 1 | 1 | 1 |

Mae Ffigur 3.1 yn dangos y data hwn yn raffigol.

**Ffigur 3.1 Prynu mewnbynnau a gwasanaethau yn ôl maint fferm**




Mae Tabl 3.2 yn dangos y data yn ôl math o fferm.

**Tabl 3.2 Prynu mewnbynnau a gwasanaethau yn ôl math o fferm**

| Lleoliad | Ymwybyddiaeth | Godro | Defaid | Eidion | Defaid gydag eidion | Arall/cymysg |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | % | % | % | % | % | % |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Yr ardal leol – o fewn cwmpas 25 milltir** | 82 | 66 | 85 | 84 | 79 | 82 |
| **Rhywle arall yng Nghymru** | 7 | 12 | 7 | 6 | 10 | 7 |
| **Rhywle arall ym Mhrydain** | 10 | 20 | 8 | 9 | 10 | 11 |
| **Tu allan i Brydain** | 1 | 3 | 0% (0.26%) | 1 | 1 | 1 |

Y pwynt amlwg o'r dadansoddiad yw bod mwyafrif llethol, 82 y cant, o nwyddau a gwasanaethau sy'n gysylltiedig â'r fferm yn cael eu prynu yn yr ardal leol – o fewn radiws o 25 milltir i'r fferm. Dangosir pwynt pwysig arall gan Ffigur 3.1, sy'n dangos y graddiant o ffermydd mwy i ffermydd llai o ran prynu lleol , â ffermydd llai yn prynu'n fwy lleol. Yn ogystal, roedd ffermydd llaeth, sy'n dueddol o fod yn fwy, yn prynu cyfran lai o'u nwyddau a'u gwasanaethau yn lleol o gymharu â mathau eraill o ffermydd. Fodd bynnag, nid yw'r dadansoddiad hwn yn dangos gwerth y nwyddau a'r gwasanaethau a brynwyd. Mae'n bosibl yr oedd gwerth y nwyddau a brynwyd yn lleol gan ffermydd mwy o faint yn fwy na gwerth yr hyn a brynwyd gan ffermydd llai, er bod cyfran y ffermydd llai yn fwy. Mae'r dadansoddiadau sy'n dilyn, yn Adrannau 4 a 5, yn archwilio'r patrymau prynu hyn yn fwy trylwyr.

### 3.2 Gwerthu cynnyrch ledled Cymru

Mae Tabl 3.3 a Thabl 3.4 yn dangos lle'r oedd ffermydd yn y prif arolwg yn gwerthu eu cynnyrch, yn ôl maint fferm a math o fferm, yn eu trefn. Mae'r tablau yn dangos pa gyfran o gyfanswm yr arolwg, a pha gyfran o bob maint a math o fferm, oedd yn gwerthu i bob math o fan gwerthu.

**Tabl 3.3** **Mannau gwerthu cynnyrch fferm yn ôl maint fferm**

| Man gwerthu | Ymwybyddiaeth | Mawr iawn | Mawr | Canolig | Bach | Bach iawn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | % | % | % | % | % | % |
| **Cwmnïau prosesu llaeth** | 8.6 | 81.2 | 55.8 | 23.7 | 2.0 | 1.3 |
| **Marchnadoedd da byw** | 86.9 | 81.2 | 86.4 | 92.8 | 89.7 | 83 |
| **Lladd-dai mawr** | 41.8 | 68.8 | 61.5 | 70.3 | 50.4 | 21.0 |
| **Lladd-dai bach** | 24.4 | 37.5 | 39.4 | 25.4 | 23.3 | 22.8 |
| **Yn uniongyrchol i'r cyhoedd yn yr ardal leol – o fewn 25 milltir** | 17.8 | 8.3 | 9.6 | 10.0 | 12.7 | 26.5 |
| **Yn uniongyrchol i'r cyhoedd yn rhywle arall** | 6.6 | 6.2 | 1.9 | 4.7 | 4.3 | 10.0 |
| **Siopau, gwestai a bwytai yn yr ardal leol – o fewn 25 milltir** | 6.3 | 6.2 | 4.8 | 5.7 | 5.1 | 7.8 |
| **Siopau, gwestai a bwytai – yn rhywle arall** | 1.3 | 2.1 | 1.0 | 1.8 | 0.9 | 1.5 |
| **Archfarchnadoedd** | 2.3 | 0 | 6.7 | 5.7 | 2.7 | 0.4 |
| **Cwmnïau prosesu bwyd yng Nghymru** | 4.2 | 14.6 | 15.4 | 7.2 | 3.8 | 1.8 |
| **Cwmnïau prosesu bwyd yn rhywle arall** | 2.6 | 16.7 | 3.8 | 7.5 | 1.6 | 1.3 |

Mae Tabl 3.4 yn dangos pa gyfran o gyfanswm yr arolwg, a pha gyfran o bob math o fferm, oedd yn gwerthu i bob math o fan gwerthu.

**Tabl 3.4** **Mannau gwerthu cynnyrch fferm yn ôl math o fferm**

| Man gwerthu | Ymwybyddiaeth | Godro | Defaid | Eidion | Defaid gydag eidion | Arall/cymysg |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | % | % | % | % | % | % |
| **Cwmnïau prosesu llaeth** | 8.6 | 84.9 | 0.6 | 1.4 | 0.2 | 4.7 |
| **Marchnadoedd da byw** | 86.9 | 87.6 | 94.2 | 87.9 | 94.4 | 70.1 |
| **Lladd-dai mawr** | 41.8 | 56.5 | 38.6 | 37.6 | 62.8 | 27.4 |
| **Lladd-dai bach** | 24.4 | 36.0 | 20.6 | 24.1 | 23.5 | 26.2 |
| **Yn uniongyrchol i'r cyhoedd yn yr ardal leol – o fewn 25 milltir** | 17.8 | 9.1 | 10.6 | 14.8 | 8.3 | 40.7 |
| **Yn uniongyrchol i'r cyhoedd yn rhywle arall** | 6.6 | 2.7 | 3.0 | 5.5 | 3.4 | 16.2 |
| **Siopau, gwestai a bwytai yn yr ardal leol – o fewn 25 milltir** | 6.3 | 3.8 | 3.5 | 4.6 | 3.7 | 14.5 |
| **Siopau, gwestai a bwytai – yn rhywle arall** | 1.3 | 1.6 | 0.3 | 0.7 | 1.5 | 2.9 |
| **Archfarchnadoedd** | 2.3 | 2.2 | 1.6 | 1.8 | 4.2 | 2.2 |
| **Cwmnïau prosesu bwyd yng Nghymru** | 4.2 | 10.2 | 2.3 | 2.5 | 3.7 | 6.3 |
| **Cwmnïau prosesu bwyd yn rhywle arall** | 2.6 | 4.8 | 1.0 | 1.4 | 2.4 | 5.3 |

Gan ystyried y ddau dabl gyda'i gilydd, er mai dim ond naw y cant o gyfanswm yr arolwg a oedd yn gwerthu cynnyrch i gwmnïau prosesu llaeth, roedd 81 y cant o ffermydd mawr yn gwneud. Mae Tabl 3.4 yn dangos bod 85 y cant o ffermydd godro yn gwerthu llaeth i gwmnïau prosesu llaeth.

Defnyddiwyd marchnadoedd da byw bron yn gyffredinol, gydag 87 y cant o ddefnydd drwy'r arolwg cyfan. Ffermydd defaid a ffermydd defaid â chig eidion oedd y mwyaf tebygol o ddefnyddio marchnadoedd da byw, sef 94.2 y cant a 94.4 y cant yn y drefn honno. Ffermydd eraill/cymysg oedd y lleiaf tebygol o ddefnyddio marchnadoedd da byw, er iddynt gofnodi 70 y cant o hyd.

Defnyddiwyd lladd-dai mwy, sy'n dueddol o fod ymhellach i ffwrdd, gan gyfrannau uwch o ffermydd na lladd-dai bach, sy'n dueddol o fod yn fwy lleol. Roedd ychydig yn fwy na 17 o bwyntiau canran rhwng y cyfrannau o'r arolwg a oedd yn defnyddio'r ddau fath o ladd-dy.

Roedd llai nag un o bob pum fferm (18 y cant) yn gwerthu'n uniongyrchol i'r cyhoedd yn lleol, o fewn cwmpas 25 milltir. Ffermydd bach iawn oedd â'r gyfran fwyaf a oedd yn gwerthu'n uniongyrchol i'r cyhoedd yn lleol, sef 27 y cant. Fodd bynnag, yn ôl math o fferm, roedd 41 y cant o ffermydd eraill/cymysg yn gwerthu'n uniongyrchol i'r cyhoedd yn lleol.

Prin oedd y ffermydd a oedd yn gwerthu'n uniongyrchol i siopau, gwestai a bwytai lleol. Eto, ffermydd bach iawn gydag wyth y cant a ffermydd eraill/cymysg, gyda 15 y cant, oedd y mwyaf tebygol o wneud hynny. Prin iawn oedd y ffermydd a werthai i siopau, gwestai a bwytai yn rhywle arall. Yn bennaf, ffermydd eraill/cymysg oedd y mwyaf tebygol o wneud hynny.

Nid oedd unrhyw ffermydd mawr iawn yn gwerthu cynnyrch i archfarchnadoedd er i ffermydd mawr a chanolig gofnodi'r cyfrannau mwyaf, sef saith y cant a chwech y cant yn y drefn honno.

Roedd y cyfrannau cyffredinol a oedd yn gwerthu cynnyrch i gwmnïau prosesu bwyd yng Nghymru yn isel, sef pedwar y cant. Roedd ffermydd mawr iawn, ffermydd mawr a ffermydd llaeth yn gymharol uchel, sef 15 y cant, 15 y cant a deg y cant yn y drefn honno. Roedd y cyfrannau a werthai i gwmnïau prosesu bwyd yn rhywle arall yn isel yn gyffredinol, er bod ffermydd mawr iawn a ffermydd canolig yn sylweddol uwch na'r ffigur cyffredinol o dri y cant, sef 17 y cant ac wyth y cant yn y drefn honno.

### 3.3 Prynu nwyddau a gwasanaethau fferm yn yr ardaloedd astudio

Mae Tabl 3.5 yn dangos cyfran gyfartalog y mewnbynnau a'r gwasanaethau a brynwyd ym mhob categori lleoliad mewn perthynas â ffermydd ym mhob lleoliad astudio.

**Tabl 3.5** **Cyfrannau’r mewnbynnau a’r gwasanaethau a brynwyd**

| | Yr ardal leol | Rhywle arall yng Nghymru | Rhywle arall ym Mhrydain | Y tu allan i Brydain |
|---|---|---|---|---|
| | % | % | % | % |
| Y de-orllewin | 79 | 8 | 11 | 2 |
| Y gogledd-orllewin | 84 | 7 | 8 | <1 |
| Canolbarth Cymru | 78 | 10 | 11 | 1 |
| **Prif Arolwg** | **81** | **8** | **10** | **1** |

Roedd ffermwyr ym mhob un o’r tair ardal astudio yn prynu’r rhan fwyaf o’u gwasanaethau a’u mewnbynnau o’r ardal leol, ac roedd pob un o’r tri yn agos at y ffigur Cymru gyfan o 81 y cant. Cafwyd y gyfran uchaf o bryniadau lleol yn y gogledd-orllewin, sef 84 y cant. Efallai y gellid fod wedi disgwyl cyfran uwch o achosion o brynu o fannau eraill ym Mhrydain o’r canolbarth, o ystyried y ffaith ei fod yn agos at y ffin â Lloegr. Roedd gan y de-orllewin fwy o bryniadau o'r tu allan i Brydain, o gymharu â gweddill Cymru, er bod y cyfrannau yn y categori hwn yn gyson isel.

### 3.4 Gwerthu cynnyrch fferm yn yr ardaloedd astudio

Mae Tabl 3.6 yn dangos ble roedd ffermydd yn y tair ardal astudio yn gwerthu eu cynnyrch.

**Tabl 3.6 Cyfran y ffermydd sy'n gwerthu cynnyrch mewn mannau gwerthu penodedig**

| | Cyfran y ffermydd sy'n defnyddio'r man gwerthu (De-orllewin) | Cyfran y ffermydd sy'n defnyddio'r man gwerthu (Gogledd-orllewin) | Cyfran y ffermydd sy'n defnyddio'r man gwerthu (Canolbarth Cymru) | **Cyfran y ffermydd sy'n defnyddio'r man gwerthu (Prif Arolwg)** |
|---|---|---|---|---|
| | % | % | % | **%** |
| Cwmnïau prosesu llaeth | 23 | 5 | 5 | **8** |
| Marchnadoedd da byw | 72 | 89 | 89 | **81** |
| Lladd-dai mawr | 43 | 36 | 36 | **39** |
| Lladd-dai bach | 33 | 19 | 19 | **23** |
| Yn uniongyrchol i'r cyhoedd yn lleol - o fewn 25 milltir | 14 | 10 | 10 | **17** |
| Yn uniongyrchol i'r cyhoedd mewn mannau eraill | 5 | 3 | 3 | **6** |
| Siopau, gwestai a bwytai yn yr ardal leol | 7 | 3 | 3 | **6** |
| Siopau, gwestai a bwytai yn rhywle arall | 1 | 1 | 1 | **1** |
| Archfarchnadoedd | 2 | 1 | 1 | **2** |
| Cwmnïau prosesu bwyd yng Nghymru | 8 | 2 | 2 | **4** |
| Prosesu bwyd mewn mannau eraill | 3 | <1 | <1 | **3** |

Roedd marchnadoedd da byw yn allfa gyffredin i gynnyrch. Roedd dros saith o bob deg o ffermydd yn gwerthu i'r math hwn o allfa ym mhob ardal astudio. Roedd ffermydd yn y de-orllewin yn llai tebygol o ddefnyddio'r allfa hon nag ardaloedd astudio eraill ac roedd ganddynt gyfran uwch o ffermydd a oedd yn gwerthu i gwmnïau prosesu llaeth (23 y cant). Defnyddiwyd lladd-dai mawr a bach yn y de-orllewin gan 43 y cant a 33 y cant yn y drefn honno - yn uwch nag ardaloedd astudio eraill. Defnyddiwyd allfeydd eraill gan gyfrannau is o ffermydd.

Mae Tabl 3.7 yn dangos cyfran gyfartalog y cynnyrch a werthwyd ym mhob man gwerthu. Gwerthwyd y gyfran uchaf o gynnyrch mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru (59 y cant), roedd ffermydd yn y gogledd-orllewin yn gwerthu mwy o gynnyrch ar gyfartaledd (74 y cant) i'r allfa hon nag ardaloedd astudio eraill. Ar gyfartaledd, roedd ffermydd o ganolbarth Cymru yn gwerthu'r gyfran uchaf o gynnyrch (27 y cant) i ladd-dai mawr. O'r ardaloedd astudio, y de-orllewin, yn ôl y disgwyl yn sgîl y gyfran uchel o ffermydd llaeth, oedd yn gwerthu'r gyfran uchaf o gynnyrch i gwmnïau prosesu llaeth. Gwerthwyd cyfran isel o gynnyrch yn yr allfeydd eraill a restrir yn y tabl.

**Tabl 3.7 Cyfran y cynnyrch a werthwyd ym mhob man gwerthu**

| | Cyfran cyfanswm y cynnyrch a werthwyd yn y man gwerthu (De-orllewin) | Cyfran cyfanswm y cynnyrch a werthwyd yn y man gwerthu (Gogledd-orllewin) | Cyfran cyfanswm y cynnyrch a werthwyd yn y man gwerthu (Canolbarth Cymru) | Cyfran cyfanswm y cynnyrch a werthwyd yn y man gwerthu **(Prif Arolwg)** |
|---|---|---|---|---|
| | % | % | % | **%** |
| Cwmnïau prosesu llaeth | 18 | 3 | 2 | **6** |
| Marchnadoedd da byw | 43 | 74 | 60 | **59** |
| Lladd-dai mawr | 19 | 15 | 27 | **18** |
| Lladd-dai bach | 5 | 4 | 3 | **4** |
| Yn uniongyrchol i'r cyhoedd yn lleol - o fewn 25 milltir | 6 | 3 | 2 | **7** |
| Yn uniongyrchol i'r cyhoedd mewn mannau eraill | 2 | 1 | 1 | **2** |
| Siopau, gwestai a bwytai yn yr ardal leol | 1 | 1 | 1 | **1** |
| Siopau, gwestai a bwytai yn rhywle arall | <1 | <1 | <1 | **<1** |
| Archfarchnadoedd | 1 | 0 | 1 | **1** |
| Cwmnïau prosesu bwyd yng Nghymru | 3 | <1 | 1 | **1** |
| Prosesu bwyd mewn mannau eraill | 1 | 0 | 1 | **1** |

Yn yr un modd â'r prif arolwg, mae'n ymddangos bod ffermydd yn y tair ardal astudio yn prynu mwy yn lleol nag y maent yn ei werthu'n lleol. Fodd bynnag, roedd gwerthiannau i farchnadoedd da byw a lladd-dai yn bwysig.

**Adran Pedwar** **Mapio Patrymau Gwerthu a Phrynu**

## 4.1 Cyflwyniad

Roedd y cyfweliadau manwl gyda ffermwyr yn y tri maes astudiaeth yn cynnwys cwestiynau ynghylch prynu nwyddau a gwasanaethau fferm, a gwerthu nwyddau a gwasanaethau fferm: h.y. unrhyw gynnyrch a gwasanaeth a ddarparai incwm i aelwyd y fferm. Yn benodol, roedd y cwestiynau fel a ganlyn:

a. *Gan ddefnyddio'r rhestr hon – Yn flynyddol, faint mae eich busnes ffermio yn ei wario ar nwyddau i'r fferm?'*
b. *'Pe bai eich cymhorthdal PAC yn newid – beth fyddai'r effaith ar y busnesau hyn a grybwyllwyd gennych yn eich barn chi?' '*
c. *'Gan ddefnyddio'r rhestr hon, ble rydych yn gwerthu eich cynnyrch fferm ac yn darparu gwasanaethau?'*
d. *'A, phe bai eich cymhorthdal PAC yn newid – beth fyddai'r effaith ar y busnesau a'r marchnadoedd hyn a grybwyllwyd gennych yn eich barn chi?'*
e. *'Atgoffwch fi* – A oes gan eich teulu ffermio unrhyw ffynonellau incwm oddi ar y fferm?'

Nodwch fod y rhestri cyfweld, a nodir yn Atodiad Un, yn cynnwys gridiau a baratowyd ymlaen llaw ar gyfer yr atebion i'r cwestiynau hyn.

Yn gryno felly, ar gyfer 30 o ffermwyr a holwyd, mae'r data yn dangos:

Y lleoedd a'r pellteroedd o'r fferm lle y gwnaethant brynu a gwerthu;

Faint a wariodd bob fferm ar nwyddau i'r fferm;

Yr incwm/incymau a wnaethant.

Noder: Darparodd chwe ffermwr o'r 30 a holwyd ddata ariannol anghyflawn. O ganlyniad, defnyddiwyd data ar gyfer y 24 o ffermydd a oedd yn weddill yn y dadansoddiad.

## 4.2 Dulliau

Gan ddefnyddio'r data a ddarparwyd gan y cwestiynau hyn, paratowyd tri math o gynrychiolaeth graffigol.

1. Ar gyfer pob un o'r 24 o ffermydd, diagram cylch yn dangos lle y gwnaethant brynu nwyddau a gwasanaethau i'r fferm.

2. Cafodd y data hyn ar gyfer 24 o'r 30 o ffermydd a holwyd eu plotio ar graff (Ffigur 4.1) gydag echelau 'gwariant lleol' a dibyniaeth ar PAC/Taliad Sengl. Mae allwedd yn cyd - fynd â Ffigur 4.1. Yn dilyn Ffigur 4.1 mae dadansoddiad dehongliadol. Mae'r dadansoddiad hwn yn ystyried pob chwarter o Ffigur 4.1 yn ei dro ac yn cynnwys tabl ar gyfer pob un o'r chwarteri, sy'n darparu allwedd. Ar gyfer pob un o'r 24 o ffermydd mae'r tablau yn dangos y cod a nodweddion allweddol perthnasol y ffermydd hynny a ddarparodd ddata ar wariant a'r Taliad Sengl.

3. Ar gyfer pob un o’r tri maes astudiaeth (Canolbarth Cymru, De-orllewin Cymru a Gogledd-orllewin Cymru), diagram cylch yn dangos lle y gwnaeth y ffermwyr a holwyd werthu eu nwyddau a’u gwasanaethau. Dangosir y diagramau cylch hyn, gydag allwedd, yn dilyn y dadansoddiadau dehongliadol unigol o’r ffermydd.

## 4.3 Dadansoddiad Dehongliadol o Batrymau Prynu a Gwario Ffermydd (Incymau)

Fel y nodwyd isod, mae Ffigur 4.1 yn plotio ‘gwariant lleol’ a dibyniaeth ar PAC/Taliad Sengl ar gyfer 24 o ffermydd.


Nodwyd y pwyntiau ar Ffigur 4.1 drwy gyfuno data o’r arolwg a’r cyfweliadau manwl: -

(a) Ar yr echelin *x* neu lorweddol caiff y gwariant lleol ar nwyddau fferm ar gyfer pob un o’r 24 o ffermydd ei blotio. Casglwyd y data hyn o’r cyfweliadau manwl, pan ofynnwyd i’r sawl a holwyd nodi eu gwariant lleol - defnyddiwyd y symiau i lenwi’r gridiau a baratowyd ymlaen llaw, a gaiff eu cynnwys gyda’r rhestrau cyfweld a nodir yn Atodiad Un. Lleolbwynt echel*in* x yw’r gwariant canolrifol (h.y. gwerth canol y gyfres) ar gyfer y 24 o ffermwyr a holwyd, sef £33,500 y flwyddyn. Ystyrir bod gan ffermydd i’r dde o’r ffigur hwn wariant ‘uwch’ a bod gan y ffermydd i’r chwith o’r lleolbwynt wariant ‘is’.

(b) Ar yr *echelin* y neu fertigol caiff cyfran yr incwm ar gyfer yr aelwyd ffermio a gynrychiolir gan yTaliad Sengl ar gyfer pob un o’r 24 o ffermydd ei phlotio. Daeth y data hyn o’r arolwg. Unwaith eto, lleolbwynt echelin *y* yw’r gwerth canolrifol: lle yr oedd yTaliad Sengl yn cynrychioli 20 y cant o incwm yr aelwyd ffermio. Ystyriwyd bod gan ffermydd a oedd uwchben y ffigur hwn ‘annibyniaeth uwch’ neu ‘ddibyniaeth is ar yTaliad Sengl’ a bod gan ffermydd o dan y lleolbwynt ‘ddibyniaeth uwch ar yTaliad Sengl’.

**Ffigur 4.1 Mapio Gwario Lleol a'r Taliad Sengl**

(e.e.) C1 = Canolbarth Cymru Cyfweliad 1)




Mae’r dadansoddiadau dehongliadol sy’n dilyn yn cynnwys yr elfennau canlynol:

Ffigur 4.1 – uchod

Tabl ar gyfer pob chwarter o Ffigur 4.1, sy’n nodi nodweddion allweddol pob fferm ym mhob chwarter

Testun dehongliadol ar gyfer pob fferm

Diagram cylch sy’n dangos patrwm prynu pob fferm – nodir yr allwedd ar gyfer y diagramau cylch hyn isod:



Allwedd:

X = y cod ar gyfer y fferm
Mae 'gweoedd' y diagram wedi'u gosod ar bellteroedd arwyddol oddi wrth y fferm: - Lleol, rhywle arall yng Nghymru a'r tu allan i Gymru.
Nodir nwyddau fferm ar y breichiau rheiddiol neu'r 'sbôcs' yn y diagramau ar gyfer pob fferm: e.e. bwyd anifeiliaid, peiriannau, da byw ac ati.
Mae diamedr y 'pwyntiau' yn nodi ystod y gwariant blynyddol ar bob math o nwydd fferm.

### 4.3.1 Dadansoddiad Dehongliadol o Chwarter Effaith Isel/Dibyniaeth Isel ar y Taliad Sengl

**Ffigur 4.1 (Mapio Gwario Lleol a'r Taliad Sengl )**

Dengys Tabl 4.1(a) nodweddion y chwe fferm yn y chwarter Effaith Isel/Dibyniaeth Isel ar y Taliad Sengl yn Ffigur 4.1. Darperir gwybodaeth gyd-destunol ar gyfer pob fferm ar ôl y tabl hefyd.

**Tabl 4.1(a) Nodweddion allweddol y ffermydd yn y Chwarter Effaith Isel/Dibyniaeth Isel ar y Taliad Sengl yn Ffigur 4.1 (Mapio Gwario Lleol a'r Taliad Sengl)**

| | Mai-nt | Math | Deiliadaeth C1 | % o Gynhyrchu | % o'r Taliad Sengl | % o AmaethAm g | % o Arallgyfeiri o | % o Rent | % o Oddi ar y | TROSIANT C27 | Heb gymhorthda l | INCWM C30 HH |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CC1 | BI | Defaid ac Eidion | Perchnogaet | 9 | 0.5 | 0.5 | 0 | 0 | 90 | Llai na £25k | Mantoli | £31k-51k |
| CC2 | BI | Defaid | Perchnogaet | 15 | 15 | 15 | 0 | 20 | 35 | Llai na £25k | Mantoli | Llai na£10k |
| CC3 | B | Defaid | Rhent | 30 | 20 | 0 | 50 | 0 | 0 | £200k-£249k | Elw | Gwrthod ateb |
| DC2 | BI | Eidion | Perchnogaet | 10 | 5 | 5 | 0 | 0 | 80 | Gwrthod ateb | Colled | £15.5k - 20k |
| DC5 | B | Arall/Cymysg | Perchnogaet | 20 | 5 | 0 | 0 | 5 | 70 | Llai na £25k | Colled | £21k - 30k |
| GC5 | B | Defaid ac Eidion | Perchnogaet | 5 | 5 | 0 | 0 | 0 | 90 | Llai na £25k | Elw | £21k - 30k |

**Fferm CC1**

Roedd Fferm CC1 yn fferm fach iawn (ESU) o 28 hectar. [1] Roedd yn eiddo i berchen-feddianwyr ac yn cynnal dwy aelwyd. Roedd y ffermwr a'i wraig yn byw ar y fferm gyda'u dau o blant. Roeddent mewn partneriaeth â'i rieni ef, a oedd hefyd yn byw ar y fferm. Roedd y gweithlu yn cynnwys tri aelod o'r teulu, a oedd yn gweithio'n rhan-amser ar y fferm. Nid oedd unrhyw gynlluniau olyniaeth gan nad oedd y cenedlaethau gweithio presennol am lwytho'r plant â fferm nad oedd yn gynhyrchiol:

> *'Pe bai'n ddau gan neu dri chan erw, yna fe fyddai'n amlwg yn fy meddwl, bod yna fab i gymryd y fferm drosodd gobeithio. Yr hyn dwi ddim am ei wneud yw cyrraedd y pwynt hwnnw….mae ond yn 70 erw, a bod y plant yn cael eu gorfodi i aros yng nghanolbarth Cymru i geisio dod o hyd i swydd, dim ond er mwyn cymryd y fferm drosodd. Mae'n fach…fe allech ddweud ei fod yn hobi o dyddyn neu beth bynnag, a dwi ddim am gael y cyfyngiad hwnnw, felly gallai olyniaeth ar gyfer y fferm hon fod yn gyfyngedig. Mae'n bosib mai fi fydd y genhedlaeth olaf a fydd yn ffermio yma. Ond dyna reality bywyd mae arnai ofn.'*

> *'Ydy, mae'n gymhleth, ond o ran ein busnes, gadewch i ni ganolbwyntio ar y 20 i 30 mlynedd nesaf a cheisio sicrhau ei fod yn gynnig hyfyw ac os bydd rhywun am aros yn yr ardal hon a chadw'r fferm i fynd, neu bydd y fferm yno i'w gwerthu.'*

Busnes craidd y fferm oedd cig eidion Du Cymreig pedigri o safon uchel ynghyd â defaid, a oedd yn darparu naw y cant o incwm yr aelwyd. Nid oedd unrhyw gynlluniau arallgyfeirio ar waith. Roedd gan y ffermwr a'i wraig swyddi oddi ar y fferm, yr oeddent yn bwriadu parhau â hwy. Roedd y rhain yn darparu'r rhan fwyaf o incwm yr aelwyd. Roedd y Taliad Sengl a chynlluniau amaeth-amgylcheddol yn darparu cyfrannau bach o incwm y cartref.

Pe bai'r Taliad Sengl yn cynyddu byddent yn parhau â busnes fel arfer, ond yn ceisio gwella. Ar hyn o bryd roedd y fferm yn cael taliad hanesyddol isel o lai a £1,000 y flwyddyn. Roedd y sawl a holwyd yn amcangyfrif y byddai newid i daliadau ar sail ardal yn rhoi hawl i'r fferm gael £5,000 - £6,000 y flwyddyn. Byddai cynnydd mewn cymhorthdal yn eu galluogi i ddechrau symud ymlaen â chynlluniau i ddatblygu'r fferm megis gwella glaswelltir (gwrtaith, ailhau); gwella seilwaith y pridd a draenio; a gwella eu da byw ymhellach.

Byddai gostyngiad yn y Taliad Sengl o lai nag 20 y cant yn golygu y byddent yn lleihau maint eu gweithrediadau ffermio, a byddai unrhyw ostyngiad mwy yn eu gorfodi i ymhel â rhyw fath o weithgaredd arallgyfeirio. Roedd y ffermwr yn flaengar ac yn graff o ran ei fusnes, roedd wedi ymwneud â Tir Mynydd ac roedd yn ystyried Glastir. Fel fferm ran-amser a'r ffaith bod gan y gŵr a'r wraig swyddi


---

[1] Yn yr adroddiad hwn caiff ffermydd eu categoreiddio yn ôl Uned Maint Economaidd [ESU]. Mae'r categorïau fel a ganlyn: bach iawn, bach, canolig, mawr a mawr iawn.

diogel a oedd yn talu'n dda a dibyniaeth isel ar y Taliad Sengl, roedd y busnes hwn yn wydn. Fodd bynnag, gan nad oedd unrhyw gynllluniau olyniaeth ar waith, nid oedd ei ddyfodol yn sicr.

O ran effaith ar yr economi leol, er bod yn well gan y ffermwr brynu'n lleol, nid oedd y fferm yn prynu symiau mawr.

**Ffigur 4.2** **Nwyddau a gwasanaethau fferm ar gyfer Fferm CC1**



**Fferm CC2**

Roedd hon yn fferm fynydd fach iawn (ESU) ychydig o dan 10 hectar a oedd yn cadw defaid. Ar adeg y gwaith ymchwil roedd y cadw stoc bach iawn o 78 o ddefaid (yn cynnwys oen). Roedd yn fferm lawn amser ac yn eiddo i berchen-feddianwyr, a gâi ei rhedeg gan un dyn, heb deulu. Roedd yn gwneud rhywfaint o waith contractio ar gyfer ffermydd cyfagos (gwaith tractor a thorri perthi). Nid ystyriwyd bod safle'r fferm yn hyfyw ar gyfer ynni amgen (gwynt, solar) o ganlyniad i'w wynebwedd.

Ar 15 y cant o incwm yr aelwyd, roedd y ddibyniaeth ar y Taliad Sengl yn gymharol isel. Ymhlith y cydrannau eraill o incwm yr aelwyd roedd busnes craidd y fferm (15 y cant), contractio (35 y cant) a rhentu tir (20 y cant), tra bod taliadau Tir Mynydd yn cyfrannu at y 15 y cant a oedd yn weddill, ac roedd hyn yn dod i ben. Fodd bynnag, nid oedd y ffermwr yn awyddus i ymrwymo i Glastir, gan ddadlau bod 'pris cymharol wael ' a bod yr amodau yn rhy gyfyngedig. Er enghraifft, roedd y gofynion ar gyfer ffensys dwbl yn cyflwyno problemau penodol. Ond:


*'Gallai edrych yn fwy atyniadol pe bai prisiau oen yn gostwng.'*

Yn achos cynnydd a gostyngiad yn y Taliad Sengl, roedd y ffermwr hwn yn bwriadu parhau gyda 'busnes fel arfer', ond pe bai'r Taliad Sengl yn gostwng dros 20 y cant byddai'n lleihau ei weithrediadau amaethyddol ac yn edrych at gynyddu ei ffynonellau incwm eraill, a oedd yn cynnwys busnes trwsio crefftus bach yn y cartref.

O ran y ffaith bod y ffermwr hwn yn ymrwymedig i 'fusnes fel arfer' ac nad oedd ganddo unrhyw gynlluniau olyniaeth, roedd y fferm hon yn agos at ochr Fregus y continwwm. Fodd bynnag, roedd cyfran fawr o incwm yr aelwyd (35 y cant) yn dod o incymau oddi ar y fferm, a nododd y ffermwr yn ei holiadur mai gwaith oddi ar y fferm fyddai elfen bwysicaf incwm yr aelwyd yn y dyfodol.

O ran effaith ar yr economi leol, roedd y ffermwr hwn yn gwario symiau cymharol fach.

**Ffigur 4.3** **Nwyddau a gwasanaethau fferm ar gyfer Fferm CC2**



**Fferm CC3**

Roedd y fferm hon yn fferm fach (ESU) lawn amser defaid a gwartheg o 148 hectar a gâi ei rhedeg gan ŵr a gwraig a phedwar mab. Roeddent yn denantiaid ar hyn o bryd ond roeddent wrthi'n ceisio prynu'r fferm. Roedd cynlluniau olyniaeth clir, a oedd yn pwysleisio ehangiad y busnes er mwyn i'r meibion ei gymryd drosodd.

Roedd y Taliad Sengl yn cyfateb i 20 y cant o incwm yr aelwyd, roedd gwerthiannau o fusnes craidd y fferm yn cyfrannu 30 y cant, ac roedd contractio – pob math o waith fferm, yn cynnwys gweithgareddau megis codi ac adeiladu siediau a gwerthu rhywfaint o rawn, ŷd a gwellt – yn cyfrannu 50 y cant o incwm yr aelwyd. Yn wir, ystyriwyd mai contractio oedd y ffynhonnell incwm bwysicaf yn y dyfodol.

Er eu bod yn ystyried eu hunain yn ymwybodol o'r amgylchedd ac yn gyfrifol, nid oeddent o blaid Glastir ac roeddent yn dadlau, er eu bod wedi gwella'r amgylchedd o'u gwirfodd, y byddai eraill ond yn gwneud pe caent eu talu. Dadleuwyd bod cynlluniau amaeth-amgylcheddol yn annog y meddylfryd hwn.

Byddai cynnydd yn y Taliad Sengl yn cael ei ddefnyddio i ehangu ochr gontractio'r busnes. O ran da byw, byddai'n lleihau nifer y defaid ac yn prynu mwy o wartheg. Roedd gwartheg yn haws i ofalu amdanynt a gallai wneud hyn tra bod ei feibion yn gwneud mwy o waith contract. Yn ogystal, pe bai cynnydd o 20 y cant yn y Taliad Sengl, byddai'n ystyried prynu fferm leol fach ar gyfer un o'i feibion.

Pe caed gostyngiad yn y Taliad Sengl byddai'n rhaid iddynt fod yn fwy darbodus a gohirio'r cynlluniau i gynyddu nifer y gwartheg. Byddai'n ystyried stoc fwy caled o ddefaid, i leihau costau bwydo.


Yn gyffredinol, roedd yn ymddangos bod y busnes yn wydn: roeddent yn ymddangos yn ymwybodol yn economaidd ac yn ariannol, yn hyblyg ac yn barod i fod yn aml-swyddogaethol. Fodd bynnag, roedd rhai agweddau bregus. Y mwyaf o'r rhain oedd y ffaith bod y fferm yn cael ei rhentu. Roeddent yn ceisio prynu'r fferm ond roeddent wedi cael rhybudd i roi'r gorau i'r ddeiliadaeth ar gyfer diwedd Medi 2013. Ymhlith y ffactorau bregus eraill roedd y ffaith eu bod wedi gwrthod cynlluniau amaeth-amgylcheddol i bob pwrpas, wedi gwrthod TG (ond yn tybio y byddai'r genhedlaeth ifanc a fyddai'n eu holynu yn hyddysg mewn cyfrifiadura), ac mae'n debyg eu bod yn benderfynol o beidio â dibynnu ar y llywodraeth.

O ran effaith leol, roedd prynu stoc wrth gymdogion yn yr ardal leol yn holl bwysig i'r ffermwr, oherwydd gellid ymddiried yn ansawdd y stoc ac roedd wedi'i brofi bod y stoc yn ymdopi'n dda mewn amodau lleol. Deuai'r mwyafrif o nwyddau'r fferm a'r busnes oddi wrth gyflenwyr lleol. Dadleuwyd bod y rhain yn rhoi gwell gwasanaeth a bod cydberthnasau'n cael eu cynnal:

> *'Dyna pam y byddai'n well gen i roi'r busnes iddo ef. Dwi ddim am roi dwbl i unrhyw un pan fedrai ei gael yn rhywle arall ond does dim ots gen i roi ychydig o bremiwm iddo ef am ei fod yn rhoi'r gwasanaeth i chi'.*

Fel y dengys y diagram cylch, nid oedd y fferm yn prynu llawer.

**Ffigur. 4.4 Nwyddau a gwasanaethau fferm ar gyfer Fferm CC3**



**Fferm DC 2**

Roedd hon yn fferm cig eidion fach iawn (ESU) o 13 hectar. Roedd y teulu yn berchen arni ac roedd y ffermwr a'i wraig, a oedd â tair merch, yn rhedeg y fferm. Er bod cynlluniau olyniaeth ar waith ac y byddai'r tair merch yn etifeddu'r fferm, ac y byddai un am symud yn ôl i fyw yno, roedd yn anhebygol y byddai'n parhau fel fferm:

*Ni fydd olyniaeth i'r hyn rydym yn ei wneud ar fferm. Dim ond tair merch sydd gen i, ac mae gan bob un ohonynt swyddi da. Byddai'r ferch hynaf fwy na thebyg am ddod i fyw yma – mae hynny'n iawn cyhyd â'i bod yn talu cyfran y ddwy arall iddynt.*

Nid oedd y ffermwr hwn yn ffermio er elw ond yn gwerthu da byw i'r marcnadoedd i gadw'r fferm i fynd ac i gynnal y tir. Gan na allai wneud y gwaith trymach mwyach ac nad oedd gan ei dair merch ddiddordeb mewn ffermio, roedd bob un ohonynt â swyddi yn Lloegr, roedd dyfodol y fferm yn ansicr. Roedd ei wraig yn gweithio yn Hwlffordd ac yng Nghaerfyrddin. Roedd y ddau yn hawlio pensiwn, sef prif ffynhonnell incwm yr aelwyd:

> *'Fe allem ymdopi'n hawdd ar y pensiynau pe bai unrhyw beth yn digwydd i unrhyw beth arall gan nad oes gennym unrhyw fenthyciadau.'*


Gan fod y Taliad Sengl ond yn cyfateb i gyfran fach o incwm yr aelwyd, sef tua £600 y flwyddyn, dywedodd y ddau na fyddai unrhyw newidiadau i'r Taliad Sengl yn effeithio arnynt hwy mewn gwirionedd:

> *'Mae ond yn £600 felly p'un a fydd yn gostwng 20 y cant, dim ond £120 yw hwnnw, sef £2 yr wythnos, na fydd yn gwneud rhyw lawer o wahaniaeth.'*

Fel fferm roedd hon yn fregus. Roedd yn gwneud elw bach ac yn ymddangos fel pe byddai'n rhoi'r gorau i weithredu fel fferm yn y dyfodol agos.

O ran effaith ar yr economi leol, fel busnes fferm bach iawn roedd gwerth nwyddau fferm yn isel. Yn ogystal, roedd y wraig yn prynu nwyddau i'r aelwyd pan oedd yn teithio i'r gwaith.

**Ffigur 4.5** **Nwyddau a gwasanaethau fferm ar gyfer Fferm DC2**




**Fferm DC5**

Roedd hon yn fferm fach (ESU) o 20 hectar. Cig eidion oedd ei busnes ffermio craidd ac roedd yn arallgyfeirio i geffylau. Roedd dau aelod o'r cartref yn gweithio ar y fferm yn llawn amser. Roedd hon yn fferm fach a arferai fod yn fferm laeth ond a symudodd i ffwrdd

oddi wrth y math hwn o ffermio dros y blynyddoedd o ganlyniad i gostau cynyddol y nwyddau i'r fferm ac amharodrwydd proseswyr llaeth i ymgysylltu â ffermydd llaeth llai o faint. Roedd menyw hŷn yn berchen ar y fferm ac roedd ei merch yn rhedeg y fferm ar hyn o bryd. Cafwyd cymysgedd o weithgareddau ffermio megis gwartheg, defaid, moch a cheffylau, ac roeddent yn tyfu llysiau ar gyfer eu hunain. Nid oedd eu harfer ffermio yn gemegol. Yn ogystal ag ethos organig roedd ffactor o ran cost:

> *'I fod yn onest, mae mor ddrud. Rydym yn gweld nawr bod ein caeau yn mynd yn ôl i fwy o feillion, felly mae'n bachu nitrogen yn naturiol beth bynnag, ond mae'r pris yn chwerthinllyd. Nid wyf yn defnyddio plaladdwyr; chwynladdwyr na chemegion eraill.'*

Roeddent wedi gosod paneli solar a phwmp gwres o'r ddaear i helpu i bweru'r fferm.

Pwynt diddorol oedd bod y ffermwr yn amharod i ymwneud â Glastir, a allai fod wedi lleddfu ei sefyllfa ariannol, ar y sail nad oedd Glastir yn gynllun priodol ar gyfer yr amgylchedd.

I sicrhau bod y fferm yn goroesi, gosodwyd podiau gwersylla ar dir eu fferm fel ffynhonnell incwm. Ni châi'r rhain eu dosbarthu fel rhan o'r fferm ac felly ystyriwyd eu bod yn incwm oddi ar y fferm (er eu bod yn weithgaredd arallgyfeirio). Roedd y rhain bellach yn hanfodol i oroesiad y fferm ac roeddent yn fwy proffidiol na phetai'r tir wedi'i ddefnyddio ar gyfer da byw:

> *'Dyna pam mae'n rhaid i ni ymhel â'r busnes podiau gwersylla oherwydd nid ydym yn gwneud digon o arian, ni allaf oroesi ar yr hyn rydym yn ei gael o werthu gwartheg yn unig.'*

Darparodd y busnes cig eidion craidd 20 y cant o incwm yr aelwyd a darparodd ffynonellau nad oeddent yn ymwneud â ffermio, megis y podiau gwersylla a rhent 75 y cant arall. Roedd y Taliad Sengl yn cyfrannu at y pump y cant a oedd yn weddill:

Gan nad oeddent yn cael swm sylweddol o'r Taliad Sengl, nid oedd yn pennu eu harfer ffermio, er ei fod yn ddefnyddiol fel incwm ychwanegol. O ran costau rhedeg y fferm, prin yw'r gwahaniaeth y byddai unrhyw gynnydd nes ostyngiad yn y Taliad Sengl yn ei wneud:

> *'I fod yn onest mae'n rhaid dod o hyd i'r holl bethau hyn felly o ran y cymhorthdal – dwi'n cael ychydig dros £800 y flwyddyn, yna dwi'n cael ychydig yn ychwanegol ar Tir Mynydd felly o ran y swm dwi'n ei gael mewn gwirionedd ni fyddai'n gwneud rhyw lawer o wahaniaeth.'*

Fodd bynnag, pe byddai cynnydd yn y Taliad Sengl efallai byddent yn gwella eu peiriannau fferm:

> *'Er, o'n safbwynt i, yr hyn y byddwn yn ei wneud â'r arian pe bai cynnydd fyddai ceisio mynd i'r afael â'r tractors sydd gen i. Felly byddwn fwy na thebyg yn gwario mwy ar beiriannau. Ond ar wahân i hynny, o ran popeth dwi'n ei wneud, ni allwn wneud unrhyw beth yn wahanol mewn gwirionedd.'*

Roedd y fferm hon yn fregus oherwydd ei maint. I raddau roedd yn amlygu ffactorau allweddol a oedd yn ymwneud â bregusrwydd:

- Roedd yn fferm laeth hyfyw ar un adeg ond roedd yn rhy fach i ddelio â'r proseswyr llaeth a oedd bellach yn dominyddu'r farchnad.
- Pwysigrwydd incymau oddi ar y fferm i ffermydd bach – pan oedd y ffermwr yn briod, roedd incwm oddi ar y fferm ei gŵr wedi sicrhau bod yr aelwyd yn ddiogel yn ariannol ac nad oedd mewn trafferthion.
- Prisiau'r farchnad ac arbedion maint.

Roedd y ffermwr yn amlwg yn ymrwymedig i'r fferm ac i ffermio fel ffordd o fyw, ac roedd yn cymryd camau pendant i sicrhau y byddai'r aelwyd ffermio yn parhau.

Prynwyd y rhan fwyaf o'r nwyddau a'r gwasanaethau i'r fferm yn lleol:


> *'Ydyn, rydyn yn ceisio cadw'r fasnach yn lleol os gallwn.'*

Roedd y fferm yn gwario swm mawr o arian ar weithgareddau ffermio a oedd yn gofyn am beiriannau. Câi'r rhain eu gosod allan ar gontract i bobl leol:

> *'Rydym yn cael contractwyr i mewn i ladd gwair, rolio, unrhyw beth na allwn ei wneud am nad ydym yn teimlo'n gyfforddus â'r peiriannau.'*

Fodd bynnag, fel y dengys y diagram isod, nid oedd y symiau yn fawr.

**Ffigur. 4.6 Nwyddau a gwasanaethau fferm ar gyfer Fferm DC5**



**Fferm GC5**

Fferm fach oedd hon (90 o ddefaid, 30 o oen, 10 o wartheg a hawliau pori i 200 ar y mynydd). Câi ei rhedeg yn rhan-amser gan bâr a oedd â chyflogaeth lawn amser oddi ar y fferm: gweithiai ef i ddiwydiant Llechi Gogledd Cymru ac roedd hi yn nyrs. Roedd yr incymau hyn oddi ar y fferm yn darparu 90 y cant o incwm yr aelwyd. Roedd ef yn gwneud yr holl waith corfforol ar y fferm, ac roedd hi'n gwneud y gwaith cyfrifiadur: e.e. symudiadau da byw ar-lein. Arferai ei fam a'i dad redeg y fferm fel busnes llawn amser pan oedd yn fwy proffidiol i wneud hynny. Bellach nid oedd yn broffidiol fel busnes ar ei ben ei hun, felly roedd yn rhywbeth yr oedd ef yn parhau i wneud fel ymrwymiad i'r ffordd o fyw, gwir fwynhad o ffermio ac anifeiliaid, a'r daliad lle yr oedd wedi'i fagu a lle yr oedd am barhau i fyw. Roedd cynlluniau olyniaeth ar waith ar gyfer eu merch, a oedd yn 14 ar y pryd.


Roeddent yn ystyried buddsoddi mewn busnes llety ar y fferm, unwaith y byddai'r morgais wedi'i glirio neu pe bai grantiau cychwyn a datblygu busnes ar gael i wella'r adeiladau a oedd ar gael. Roedd gan y wraig ddiddordeb mawr mewn darparu llety gwarchod.

Nid oedd y ffermwyr yn ymwybodol o'r newidiadau i'r Taliad Sengl. Gan mai dim ond £5500 oedd eu cymhorthdal eleni, nid oeddent o'r farn y byddai 20 y cant o newid yn y naill gyfeiriad neu'r llall yn gwneud gwhaniaeth.

Fel fferm ran-amser a oedd yn defnyddio dulliau hen ffasiwn ac nad oedd wedi arallgyfeirio, roedd y fferm hon, i ryw raddau, yn fregus. Fodd bynnag, roedd gan y ddau bartner gyflogaeth sicr oddi ar y fferm ac ymddengys eu bod yn ymrwymedig i ffermio fel ffordd o fyw. Mae'n bosib y gwelir y gwir brawf o wytnwch pan fydd y genhedlaeth nesaf yn olynu.

Er eu bod yn prynu eu nwyddau fferm yn lleol, fel y dengys y diagram, roedd y symiau yn fach.

**Ffigur 4.7** **Nwyddau a gwasanaethau fferm ar gyfer Fferm GC5**




**Crynodeb o'r chwarter Effaith Isel/Dibyniaeth Isel**

Yn ôl Tabl 4.1(a), roedd pob un o'r ffermydd yn y chwarter hwn naill ai'n fach neu'n fach iawn ac roeddent yn canolbwyntio'n bennaf ar ddefaid a chig eidion. Prin yr oedd fferm CC3 yn gymwys fel fferm 'â dibyniaeth isel ar y Taliad Sengl', gyda'r Taliad Sengl yn cyfateb i 20 y cant o incwm y cartref. Yn yr un modd, roedd gan fferm CC2 gyfran gymharol uchel o Daliad Sengl, sef 15 y cant o

incwm. Roedd gan y pedair fferm a oedd yn weddill yn y chwarter ddibyniaeth isel iawn ar y Taliad Sengl. Yn unigol, nid oedd gan un o'r ffermydd hyn effaith fawr ar yr economi leol. Fodd bynnag, pe bai nifer o ffermydd bach wedi'u lleoli yn yr un ardal a phe bai newidiadau yn y Taliad Sengl yn effeithio ar bob un ohonynt yn yr un modd, gallai'r effaith gronnol fod yn sylweddol.

### 4.3.2 **Dadansoddiad Dehongliadol o Chwarter Effaith Uchel/D**ibyniaeth Isel ar y Taliad Sengl

**Ffigur 4.1 (Mapio Gwario Lleol a'r Taliad Sengl )**

Dengys Tabl 4.1(b) nodweddion y pedair fferm yn chwarter Effaith Isel/Dibyniaeth Isel ar y Taliad Sengl Ffigur 4.1. Darperir gwybodaeth gyd-destunol ar gyfer pob fferm ar ôl y tabl hefyd.

**Tabl 4.1(b) Nodweddion allweddol y ffermydd yn Chwarter Effaith Uchel/Dibyniaeth Isel ar y Taliad Sengl**

**Ffigur 4.1 (Mapio Gwario Lleol a'r Taliad Sengl )**

| | Mai-nt | Math | Deiliadaeth C1 | % o Gynhyrchu | % o'r Taliad Sengl | % o AmaethAm g | % o Arallgyfeiri o | % o Rent | % o Oddi ar y | TROSIANT C27 | Heb gymhorthda l | INCWM C30 HH |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| GC2 | B | Defaid | Rhent | 88 | 5 | 5 | 0 | 0 | 2 | £68k - £99k | Mantoli | £15.5k - 20k |
| DC6 | MI | Godro | Cymysgedd | 40 | 10 | 0 | 0 | 0 | 50 | £500k neu fwy | Elw | £52k-77k |
| DC7 | M | Godro | Perchnogaet | 77 | 10 | 1 | 5 | 0 | 7 | £200k-£249k | Elw | £15.5k - 20k |
| DC9 | Can | Godro | Rhent | 90 | 10 | 0 | 0 | 0 | 0 | £68k - £99k | Elw | Llai na£10k |

### Fferm GC2

Fferm fynydd fach (ESU) oedd hon o 446 hectar, a oedd yn cynnal defaid. Câi'r fferm ei rhentu oddi wrth yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol gan ffermwr a'i wraig a'u dau o blant. Roedd gan y ffermwr a'i wraig a'u merch hynaf swyddi rhan-amser oddi ar y fferm. Y busnes ffermio defaid craidd a ddarparai'r rhan fwyaf o incwm yr aelwyd, sef 88 y cant, ac roedd y Taliad Sengl yn cyfrannu pump y cant. Deuai gweddill incwm yr aelwyd o'u swyddi oddi ar y fferm (dau y cant) gyda phump y cant o Tir Gofal, yr oeddent ar fin ei golli. Fodd bynnag, roeddent yn amharod i ymrwymo i Glastir. Ymddengys fod y penderfyniad hwn yn seiliedig ar lefel ganfyddedig y cyfyngiadau ac ar adroddiadau gan gyfoedion – nid oedd y ffermwyr yn gwybod am unrhyw un a oedd yn mynd i gofrestru ar gyfer Glastir; roedd hyn yn gwneud gwahaniaeth ac yn dylanwadu arno.

Pe bai eu Taliad Sengl yn cynyddu byddent yn parhau â busnes fel arfer. Fodd bynnag, er nad oeddent yn ddibynnol iawn ar y Taliad Sengl, byddai unrhyw ostyngiad sylweddol yn y Taliad Sengl yn golygu y byddent yn ceisio gadael ffermio.

Roeddent yn prynu gan gyflenwyr lleol yn bennaf er mwyn lleihau costau.

Roeddent wedi ymchwilio i lawer o gynlluniau arallgyfeirio a ffyrdd o ehangu'r busnes, nad oeddent wedi dwyn ffrwyth. Ymddengys fod rhai o'r problemau yn deillio o'u cydberthynas â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol – bu rhai materion dadleuol.

Nid oedd unrhyw gynlluniau olyniaeth ar waith. Yn wir, nododd y ffermwr hwn:

*'Ni allai gynghori ei ferched i ymhel â ffermio o ystyried ei brofiad ef.'*

Yn wir, roedd yn ystyried gadael ffermio ac roedd:


*'….wedi treulio'r 10 mlynedd ddiwethaf yn difaru ei fod wedi ymhel â ffermio'*

Yn gyffrediol, roeddent yn teimlo'n ddigalon ynghylch ffermio ac roeddent yn pryderu am y dyfodol a'u sicrwydd ariannol. Roedd ef o'r farn nad oedd wedi cael unrhyw ddewis, yn gwneud yr hyn yr oedd disgwyl iddo'i wneud ar fferm deuluol. Gydag amser roedd ei deimladau ynghylch ffermio wedi newid er gwaeth. Roeddent ynghlwm wrth y fferm nid yn unig gan y teulu, y lle a'r diwylliant ond gan ddiffyg dewis amgen hyfyw.

Roedd y fferm hon mewn trafferthion ac yn fregus. Roedd y ffermwr hwn yn gyfyngedig am ei fod yn denant ac yn sgïl ei gydnerthynas wael a'i landlord, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. O ganlyniad, ni allai weld unrhyw opsiwn ond parhau â 'busnes fel arfer', tra'n meddwl am ffyrdd o adael ffermio.

Fel y dengys y diagram cylch isod ar gyfer y fferm hon, prynwyd yr holl nwyddau ar gyfer y fferm yn yr ardal leol.

**Ffigur. 4.8 Nwyddau a gwasanaethau fferm ar gyfer Fferm GC2**



**Fferm DC 6**

Roedd hon yn fferm laeth fawr iawn (ESU) a oedd yn cynnwys pedair ardal ar wahân o dir, gyda 2,500 o wartheg ar draws 648 hectar a phedair fferm. Roedd yn cyflogi 18 o bobl, yn cynnwys tri aelod o'r teulu yn llawn amser. Roedd y Taliad Sengl yn cyfrannu 10 y cant at incwm yr aelwyd, roedd y busnes llaeth craidd yn cyfrannu 40 y cant ac incymau oddi ar y fferm yn cyfrannu 50 y cant.

Roedd gan wraig y ffermwr incwm oddi ar y fferm fel athrawes. Fodd bynnag, ystyriwyd bod hwn yn atodol ac nad oedd yn hanfodol i ddyfodol y fferm ac nid oedd ganddo unrhyw ddylanwad ar y ffordd yr oedd y fferm yn gweithredu. Yn ogystal, roedd gan y teulu fusnes rhentu, nad oedd yn gysylltiedig â busnes y fferm:

> *'Mae gen i eiddo rhent, ond nid yw hyn yn gysylltiedig â'r fferm. Mae fy ngwraig a finnau'n gwneud hwnnw fel menter breifat.'*

Roedd mab y ffermwr yn rhedeg un o'r pedair ardal o dir ac ystyriwyd mai ef fyddai'r olynydd i'r busnes.

Yn ddiweddar roeddent wedi buddsoddi mewn paneli solar ar gyfer y fferm, yn costio £70,000, nad oedd mor broffidiol â'u gosod ar gyfer defnydd y cartref. Awgrymodd y byddai'n gwneud elw ymhen chwe blynedd:

> *'Maent yn tybio y bydd elw ymhen chwe blynedd. Ar raddfa fasnachol maent yn llai atyniadol na phe baech yn eu gosod ar gyfer eich tŷ – hyd at bedwar cilowat. Byddech wedi cael 42 ceiniog ar gyfer pob cilo a gynhyrchir gennych, ond yn fasnachol, pan ewch yn uwch na phedwar cilowat, pan ewch i 50 cilowat, fe gewch 13.5 ceiniog, felly mae'n llai o lawer ond mae'n werth chweil ei wneud o hyd.'*

Roedd y ffermwr yn gwbl ymwybodol o'r newid i daliadau'r Taliad Sengl ar sail ardal a dadleuodd nad oedd y Taliad Sengl yn effeithio ar y ffordd y câi'r fferm ei rhedeg mewn gwirionedd. Gan fod y fferm yn cael ei rhedeg yn y ffordd fwyaf effeithlon posibl ar hyn o bryd, byddai unrhyw newid yn y Taliad Sengl yn effeithio ar swm yr elw. I'r graddau hynny roedd y Taliad Sengl yn elfen bwysig o incwm y fferm:

> *'Rwy'n gwario'r swm o arian mwyaf posibl nawr yn fy marn i felly pe câi'r cymhorthdal ei ostwng ni fyddwn yn gwario mwy neu lai. Ni welaf sut y byddai'n newid unrhyw beth. Byddech ond yn gwneud llai o elw ar ddiwedd y flwyddyn. Ond rydym yn ceisio gwneud cymaint o arian â phosibl nawr, felly dwi ddim yn meddwl y byddai'n gwneud unrhyw wahaniaeth'*
>
> *'Pe bai gen i fwy o gymhorthdal ni fyddwn yn cynhyrchu llai neu fwy o laeth. Mae cymhorthdal yn effeithio ar y llinell sylfaen, yr elw cyffredinol, ond pe na bai gennych unrhyw gymhorthdal neu lai o gymhorthdal, byddech ond yn gwneud llai o elw.'*

Byddai unrhyw gynnydd yn y Taliad Sengl yn cael ei ddefnyddio i wella'r broses o gynhyrchu llaeth a phe bai gostyngiad yn y Taliad Sengl byddai'n parhau â busnes fel arfer.


Ymddengys fod y ffermwr hwn yn wydn. Er ei fod yn ymrwymedig i 'fusnes fel arfer', roedd hyn am ei fod wedi cyfrifo y byddai'n gwneud elw o hyd. Yn ogystal, roedd incymau oddi ar y fferm ac roedd y fferm yn rhan o gynlluniau amaeth-amgylcheddol.

Er bod gwariant mwyaf y fferm, tua £70,000 y flwyddyn, ar fwyd anifeiliaid, a brynwyd oddi wrth gwmni yn Lloegr, roedd hwn yn fusnes mawr a brynai'r rhan fwyaf o'i nwyddau yn lleol. Yn ogystal, roedd y fferm yn cyflogi pobl leol ac yn defnyddio contractwyr lleol ar gyfer rhai swyddi, ac yn y cyd-destun hwn, ystyriai'r ffermwr ei fod yn bwysig i'r gymuned leol:

> *'Credaf ei fod yn bwysig iawn yn yr ardal hon gan nad oes ryw lawer o unrhyw beth arall o amgylch yr ardal hon, Hwlffordd yw'r dref agosaf ac mae llawer o gystadleuaeth rhwng y trefi felly credaf ei fod yn bwysig iawn.'*

Fel y dengys y diagram cylch, roedd y busnes ffermio hwn yn cael effaith fawr ar yr economi leol.

**Ffigur 4.9** **Nwyddau a gwasanaethau fferm ar gyfer Fferm DC6**



**Fferm DC 7**

Roedd hon yn fferm laeth gynhyrchiol fawr (ESU) o 101 hectar a gâi ei rhedeg gan y teulu. Câi'r gwartheg eu cadw o dan do ac roedd y ffocws ar unedau mwy o faint, mwy o wartheg yn cael eu godro ac arbedion maint. Rhoddwyd tua 45 erw ar gyfer indrawn a grawn i fwydo'r gwartheg. Roedd yn fferm yr oedd y teulu yn berchen arni, ac roedd yn cynnal dwy aelwyd. Roedd dau aelod o'r teulu yn gwethio ar y fferm yn llawn amser, roedd un aelod o'r teulu yn gweithio'n rhan-amser ac roedd y busnes hefyd yn cyflogi unigolyn arall nad oedd yn aelod o'r teulu a oedd yn gweithio'n rhan-amser. Dyn, rhwng 55 a 64 oed oedd yn rheoli'r aelwyd. Byddai ei fab, a oedd yn 32 oed ac yn gweithio'n llawn amser ar y fferm yn olynydd ar gyfer y busnes ffermio.

Roedd y ffermwr hwn a'i fab yn ymwybodol o'r duedd mewn ffermio llaeth tuag at unedau mwy o faint. Dadleuent mai dim ond i raddau penodol y gallent ehangu oherwydd na allent fforddio prynu mwy o dir:

> *'Gan ein bod yn gyfyngedig o ran maint, roedd yn rhaid i ni ddod o hyd i ffordd o gael mwy o refeniw. Ni allwn gystadlu â'r ffermydd mawr oherwydd byddai prynu mwy o dir yn yr ardal hon yn costio ffortiwn i ni am fod llawer o bobl sydd oll yn edrych am yr un darn o dir.'*

O ganlyniad, roeddent yn edrych ar ffyrdd eraill o barhau â'u fferm deuluol, megis y gosodiadau ynni amgen yr oeddent wedi buddsoddi ynddynt: roedd gan y fferm baneli solar ac roeddent yn bwriadu gosod tyrbin gwynt. Dadleuent eu bod yn buddsoddi mewn ynni amgen fel un ffordd o ddiogelu eu fferm deuluol, a oedd yn cael ei pheryglu gan y duedd mewn ffermio llaeth tuag at unedau mwy o faint:

> *'Fel teulu, rydym yn edrych ar ynni adnewyddadwy fel ffynhonnell incwm i allu cadw'r teulu at ei gilydd.'*

Fodd bynnag, roedd costau cyfalaf a chostau benthyg yn cyflwyno problemau:

> *'Benthyg yr arian yw'r ffactor gyfyngedig mewn gwirionedd, oherwydd nid ydym yn poeni am y dechnoleg, fe wyddom fod y dechnoleg yn gweithio, mae'n fwy na thalu am ei hun yn barod. Y buddsoddiad cyfalaf yw'r broblem, o ran y tyrbin gwynt byddwn wedi buddsoddi hanner miliwn o fewn blwyddyn ond fyddwn?'*

Mae'n debyg bod y buddsoddiad eisoes yn talu am ei hun. Roeddent am fuddsoddi mwy ond nid oedd y banciau yn cytuno ac roedd arainnwyr preifat am gael cyfran rhy fawr o'u buddsoddiad.

Dadleuwyd mai gwneud gwell defnydd o adnoddau naturiol oedd y ffordd ymlaen:

> *'Dwi ddim yn credu ein bod yn gwbl ymwybodol eto o ba adnoddau sydd ar gael i ni mewn gwirionedd. Dim ond newydd ystyried y gwynt a'r haul yr ydym.'*

Roedd y busnes ffermio llaeth craidd yn cyfrannu 77 y cant o incwm yr aelwyd. Roedd gan wraig y ffermwr a'i ferch yng nghyfraith swyddi diogel oddi ar y fferm, ac roedd gan y mab, a weithiai'n llawn amser ar y fferm, swydd ran-amser fel asiant ar gyfer cwmni ynni amgen. Roedd y swyddi hyn oddi ar y fferm yn cyfrannu saith y cant o incwm yr aelwyd. Ymhlith y cyfraniadau eraill at incwm roedd gweithgareddau arallgyfeirio (gwerthwyd hufen tolch yn uniongyrchol i'r cyhoedd o'r fferm a gyfrannai bump y cant at incwm) a Tir Gofal a Glastir, a gyfrannai un y cant.

Yn gyfrannol, roedd y Taliad Sengl yn cyfateb i 10 y cant o incwm yr aelwyd. Er bod hyn yn gosod y busnes ffermio yn y categori 'dibyniaeth lai ar y Taliad Sengl, ystyriwyd bod y Taliad Sengl yn bwysig iawn i'r busnes ffermio:

> *'Mae hyn yn bwysig nid yn unig i ni, ond i bawb. Mae'r taliad sengl yn holl bwysig.'*

Sylwyd bod busnesau lleol yn ymwybodol o pryd y byddai ffermwyr yn cael y Taliad Sengl ac y byddent yn amseru eu biliau yn unol â hynny:

> *'Mae pawb, yr holl fusnesau lleol yn gwybod pryd mae ffermwyr yn cael eu taliad sengl onid ydynt? Maent yn galw'r contractwyr. Mae'n rhaid bod ganddynt broblemau difrifol o ran llif arian oherwydd nid ydynt yn cael llawer yn ystod y flwyddyn ac yna maent yn cyflwyno'r biliau enfawr hyn ym mis Rhagfyr am eu bod yn gwybod y cânt eu talu.'*

Pe caed gostyngiad yn nhaliadau'r Taliad Sengl, dadleuwyd y byddai'r fferm yn ei chael yn anodd gweithredu. Yn wir, dadleuwyd, i lawer o ffermwyr, bod y Taliad Sengl yn cynrychioli eu helw:

> *'Credaf pe bai'r cymhorthdal yn cael ei ostwng neu'n dod i ben, y byddai cryn dipyn o ffermwyr yn ei chael yn anodd ymdopi. Oherwydd, o siarad â phobl, eich taliad sengl yw eich elw. Oherwydd rydych yn gwario popeth arall, popeth yr ydych yn ei ennill, a phan edrychwch ar y sefyllfa, dyna'r hyn rydych yn ei gael wedyn, dyna eich arian ar gyfer ailfuddsoddi.'*

I'r gwrthwyneb, pe bai taliadau'r Taliad Sengl yn cynyddu, byddent yn cynyddu niferoedd eu stoc. Yn ei dro, byddai hyn yn cynhyrchu mwy o elw, y byddent yn ei fuddsoddi yn y busnes ffermio. Ac, fel y dadleuwyd ganddynt, byddai hyn yn cynyddu eu gwariant ar nwyddau i'r fferm megis bwyd anifeiliaid a biliau milfeddyg. Byddai'r rhan fwyaf o'r gwariant hwn yn yr ardal leol.

Ar un llaw, roedd y fferm hon yn fregus mewn sector llaeth a oedd yn cael ei gyfeirio at unedau mwy o faint. Er ei bod yn fferm fawr o ran ESU, roedd ei thwf wedi'i gyfyngu gan yr angen am dir, nad oedd ar gael neu a oedd yn rhy ddrud. Yn ogystal, roedd yn dibynnu'n ormodol ar y Taliad Sengl. Ar y llaw arall, roedd y ffermwr yn dangos craffter busnes sylweddol. Roedd wedi buddsoddi mewn ynni amgen ac wedi arallgyfeirio i fusnes hufen tolch proffidiol. Roedd incymau oddi ar y fferm hefyd. Ac roeddent yn rhan o

Glastir ac yn chwilio am gyfleoedd busnes. Fel busnes ffermio a gâi ei redeg gan y teulu roeddent wedi nodi problemau posibl ac yn ceisio adeiladu gwytnwch.


Fel y nodwyd uchod, prynwyd y rhan fwyaf o nwyddau i'r fferm yn lleol. Roedd rhai symiau yn fawr: er enghraifft, £5,000 y mis ar fwyd anfeiliaid. Dadleuodd y ffermwr y gallai brynu'n rhatach drwy fynd i ardaloedd pellach i ffwrdd ond roedd am gefnogi'r economi leol:

> *'Ond yr hyn sy'n peri pryder i fi ynghylch hynny yw, gallaf, fe allaf ei brynu'n rhatach, ond os ydych yn parhau i'w brynu ychydig yn rhatach, yna rydych yn rhoi pawb arall allan o fusnes. Mae un llaw yn dweud, "Mae'n rhaid i fi brynu fy nwyddau ar gyfer fy musnes ffermio yn rhatach", ond mae'r llaw arall yn dweud, "Aros funud, beth am gyflogaeth leol a phopeth arall?" Mae gennym blant. Yr hyn nad yw pobl yn sylweddoli yw bod hanes economaidd gymdeithasol yn dweud llawer wrthym a weithiau mae'n rhaid i chi edrych ar, dwi'n meddwl, gall fod yn hanes fodern ynghyd â hen hanes, ac (ochneidia) oes, mae gennym gyfrifoldeb oherwydd os cefnogwch gymunedau lleol, mae'n golygu y bydd gan y to ifanc swyddi ac y byddant yn aros yn yr ardal.'*

Roedd unrhyw gontractwyr a ddefnyddiwyd yn rhai lleol. Prynwyd unrhyw dda byw yn lleol. Dadleuwyd ei bod yn bwysig bod cyflenwyr lleol yn aros mewn busnes, ac er bod cyflenwyr cenedlaethol mwy yn cynnig gostyngiadau, pe bai cyflenwyr lleol yn mynd allan o fusnes byddai cyflenwyr cenedlaethol yn codi eu prisiau:

> *'Ac ie, rydych yn anghywir os na fyddwch yn ei brynu yn rhatach, ond rydych yn gwneud hynny yn y pen draw, yn talu mwy yn y pen draw oherwydd wrth i'r cwmnïau llai neu gwmnïau cydweithredol eraill leihau eu maint neu roi'r gorau i fasnachu, yna byddwch mewn sefyllfa lle bydd Anglia Farmers yn codi'r pris. Gallwch brynu cerbydau, gallwch brynu popeth, gallwch brynu tanwydd, gallwch brynu popeth drwy Anglia Farmers. O ran tanwydd, daw hyn drwy'r cylch peiriannau, ac rydyn ni'n rhan o gylch peiriannau Sir Benfro.'*

**Ffigur 4.10 Nwyddau a gwasanaethau fferm ar gyfer Fferm DC7**



**Fferm DC 9**

Roedd hon yn fferm deuluol ganolig (ESU) ar fferm a gâi ei rhentu a oedd yn berchen i'r cyngor, o 52 hectar. Roedd yn fferm laeth â buchod Jersi. Câi'r busnes ei redeg gan ŵr a gwraig a oedd rhwng 55 a 64 oed, ac roedd mab hŷn a oedd yn gweithio ar y fferm. Roeddent yn cynhyrchu llaeth ar gyfer Suputo, a oedd yn darparu caws ar gyfer cadwyni manwerthu pizza.

Nid oedd unrhyw gynlluniau ar gyfer olyniaeth; pan fyddent yn rhoi'r gorau i ffermio byddent yn symud ac yn ymddeol:

> *'Nid ydyn nhw [y Cyngor] yn caniatáu hynny..fe fyddwn yn ymddeol ymhen ryw dair blynedd.. a dyna ni wedyn. Byddwn yn ymddeol ac yn gorfod symud allan a byw yn rhywle arall.'*


Mae'n debyg nad oedd unrhyw ffynonellau incwm oddi ar y fferm na gweithgareddau arallgyfeirio.

Roedd y busnes llaeth craidd yn cyfrannu 90 y cant o incwm yr aelwyd. Roedd y Taliad Sengl yn cyfrannu 10 y cant. Pe câi eu Taliad Sengl ei gynyddu 20 y cant, byddent yn cynyddu gwariant a chynhyrchiant. I'r gwrthwyneb, gyda gostyngiad o 20 y cant, byddai'n rhaid iddynt leihau. Yn gyffredinol, byddent yn parhau â busnes fel arfer gan amrywio graddfa a maint eu harfer ffermio.

Roedd y fferm hon yn fregus. Llaeth oedd ei unig ffynhonnell incwm ac ymddengys nad oedd posibilrwydd o incwm arall, am ei fod yn cael ei rhentu gan y cyngor. Yn ogystal, roedd ynghlwm wrth un prosesydd llaeth, a oedd yn datgan y prisiau. Ym mis Mawrth 2013, cyhoeddodd y prosesydd llaeth hwn ei fod yn mynd i gau. Gallai fferm laeth gymharol fach fel hon gael problemau i ddod o hyd i farchnad arall ar gyfer ei llaeth. Mae tueddiad i'r proseswyr llaeth mwy ddelio â ffermydd llaeth mwy o faint er mwyn cyflawni arbedion maint. Roedd y ffermwyr hyn yn bwriadu ymddeol ymhen tair blynedd. Fel fferm sy'n eiddo i'r cyngor, tybir beth yw cynlluniau'r cyngor ar ei chyfer.

Prynwyd y rhan fwyaf o nwyddau i'r fferm yn lleol, yn cynnwys rhywfaint o lafur contract, am oddeutu £5,000 y flwyddyn. Deuai'r nwydau eraill o rannau eraill o Gymru a Swydd Amwythig.

**Ffigur 4.11 Nwyddau a gwasanaethau fferm ar gyfer Fferm DC9**




**Crynodeb o’r chwarter Effaith Uchel/D ibyniaeth Isel**

Ac eithrio fferm GC2, fferm ddefaid a oedd yn fferm ar wahân i ryw raddau, roedd y ffermydd yn y chwarter hwn yn ffermydd llaeth yn ne-orllewin Cymru. Er bod ganddynt ddibyniaeth isel ar y Taliad Sengl yn fethodolegol, dadleuodd rhai ffermwyr ei fod yn bwysig

iawn i’w busnes. Fel gwarwyr cymharol uchel yn lleol, roedd y mathau o ffermydd yn y cwadrant hwn yn cael effaith uchel yn unigol ar yr economi leol. Lle y mae grwpiau mawr o’r mathau hyn o ffermydd, megis yn ne-orllewin Cymru, gallai unrhyw newidiadau yn nhaliadau’r Taliad Sengl gael effaith sylweddol o bosibl ar economïau lleol.

### 4.3.3 Dadansoddiad dehongliadol o Chwarter Effaith Uchel/D ibyniaeth Uchel ar y Taliad Sengl

**Ffigur 4.1 (Mapio Gwario Lleol a’r Taliad Sengl)**

Dengys Tabl 4.1(c) nodweddion yr wyth fferm yn chwarter Effaith Isel/Dibyniaeth Isel ar y Taliad Sengl Ffigur 4.1. Darperir gwybodaeth gyd-destunol ar gyfer pob fferm ar ôl y tabl hefyd.

**Tabl 4.1(c) Nodweddion allweddol y ffermydd yn Chwarter Effaith Uchel/Dibyniaeth Uchel ar y Taliad Sengl**

**Ffigur 4.1 (Mapio Gwario Lleol a’r Taliad Sengl)**

| | Mai-nt | Math | Deiliadaeth C1 | % o Gynhyrchu | % o’r Taliad Sengl | % o AmaethAmg | % o Arallgyfeirio | % o Rent | % o Oddi ar y | TROSIANT C27 | Heb gymhorthdal | INCWM C30 HH |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CC4 | Can | Defaid ac Eidion | Cymysgedd | 25 | 50 | 0 | 0 | 0 | 25 | £100,000 - | Elw | £31k – 51k |
| CC5 | Can | Defaid ac Eidion | Perchnogaet | 60 | 40 | 0 | 0 | 0 | 0 | £100k - £149k | Colled | £52k-77k |
| GC6 | M | Defaid ac Eidion | Perchnogaet | 20 | 70 | 10 | 0 | 0 | 0 | £200k-£249k | Elw | £78k neu fwy |
| GC7 | Can | Eidion | Perchnogaet | 20 | 60 | 10 | 10 | 0 | 0 | £25k - £67k | Elw | Ddim yn |
| DC3 | Can | Defaid ac Eidion | Cymysgedd | 40 | 40 | 5 | 7.5 | 0 | 7.5 | £68k - £99k | Colled | £21k - 30k |
| DC4 | Can | Godro | Perchnogaet | 60 | 20 | 0 | 20 | 0 | 0 | £100k - £149k | Elw | £10k - £15.5k |
| DC8 | MI | Godro | Cymysgedd | 30 | 20 | 0 | 50 | 0 | 0 | £500k neu fwy | Elw | £78k neu fwy |
| DC10 | B | Eidion | Perchnogaet | 40 | 40 | 0 | 15 | 5 | 0 | £100k - £149k | Colled | £31k-51k |

#### Fferm CC4

Roedd hon yn fferm ddefaid a chig eidion o faint canolig (ESU) mewn ardal cymharol ffrwythlon ar dir isel. Roedd 140-150 o wartheg, gyda’r rhan fwyaf o wartheg cadw wedi’u magu ar y fferm, a thua 750 o famogiaid i’w magu ar gyfer oen. Roedd deiliadaeth y fferm yn gymysg, gyda’r ffermwr yn berchen ar rywfaint o dir ac yn rhentu’r gweddill. Roedd y ffermwr (35-44 oed) yn rhedeg y busnes ar ei ben ei hun. Roedd ganddo ef a’i wraig ddau o blant a oedd yn rhy ifanc i fod ynghlwm â’r fferm ar hyn o bryd. Er nad oeddent wedi

gwneud unrhyw gynlluniau ffurfiol ar gyfer olyniaeth, y bwriad oedd y byddai un o'i feibion yn cymryd y fferm drosodd. Yn wir, ei obaith oedd ehangu'r busnes fel y gallai'r ddau fab ymwneud â'r fferm. Fodd bynnag, yn yr hinsawdd presennol nid oedd hyn yn ymddangos yn debygol:

> *'Hoffwn ei drosglwyddo i un o'r ddau fachgen yma, neu'r ddau. Byddai'n dda pe gallem ehangu ddigon fel y gallai'r ddau weithio yma ond ni allaf weld hynny'n digwydd ar y foment.'*

Nid oedd unrhyw gynlluniau arallgyfeirio neu ynni amgen ac nid oedd y fferm yn rhan o unrhyw gynlluniau amaeth-amgylcheddol. Dadleuodd y byddai'n rhaid iddo leihau ei stoc pe bai'n ymrwymo i Glastir, ac nid oedd ganddo unrhyw dir sbâr ar gyfer coetir, ffensio, a gofynion eraill:

> *'Byddai'n rhaid i mi neidio drwy gynifer o gylchau i gael ychydig bach o arian yn ôl. Rwy'n credu y byddai'n costio mwy nag y byddwn yn ei ennill ohono.'*

Mynegodd ei ddicter tuag at y ffermydd amgylchynol nad oeddent yn ffermydd gweithiol a gaent eu rhedeg gan ffermwyr a oedd wedi ymddeol neu ffermwyr 'hobi' a oedd yn gwneud gwaith amgylcheddol a chadwraethol er mwyn cael cymhorthdal i gadw'r fferm i fynd. Ymhlith ei sylwadau roedd: *'Roedd yn arian am wneud dim byd'*, ac: *'Mae ganddynt ffensys gorau'r byd ond dim stoc yn eu caeau'*. Dadleuodd fod y math hwn o arfer yn cyfyngu ar gyfleoedd i ffermwyr iau.

Roedd y busnes ffermio craidd sef defaid a chig eidion yn cyfrannu 25 y cant o incwm yr aelwyd. Roedd gwraig y ffermwr yn gweithio'n rhan-amser i'r GIG, a oedd yn cyfrannu 25 y cant. Roedd y Taliad Sengl yn cyfateb i gyfran fwyaf o incwm yr aelwyd sef 50 y cant.


Pe bai cynnydd yn y Taliad Sengl byddai'r ffermwr yn ceisio mwy o dir er mwyn ehangu'r busnes. Pe bai gostyngiad, byddai'n parhau â busnes fel arfer. Dadleuodd y gallai ymdopi â gostyngiadau dros y pum mlynedd gyntaf drwy leihau costau cyffredinol ar draws y fferm (llai o waith cynnal ac ati). Ond wedi hynny byddai'n rhaid iddo ystyried ei sefyllfa yn fwy gofalus, oherwydd byddai lefelau stoc yn lleihau a byddai llai i werthu. Pwysleisiodd nad yw ffermio yn rhywbeth y gallwch ymhel ag ef un funud a rhoi'r gorau iddi y funud nesaf: roedd yn cymryd amser i adeiladu stoc (h.y. roedd newydd fagu heffrod na fyddai'n gwneud unrhyw elw arnynt am bum mlynedd).

O ran gwytnwch a bregusrwydd gallai'r fferm hon fynd y naill ffordd neu'r llall. Ar un llaw roedd y ffermwr yn ymrwymedig i gynhyrchiant amaethyddol ac nid oedd yn ymddangos fel pe bai o blaid aml-swyddogaetholdeb. Yn ogystal, roedd yn ystyried mai'r Taliad Sengl fyddai'r ffynhonnell bwysicaf o incwm yn y dyfodol. Ond ar y llaw arall roedd yn amlwg yn graff o ran y busnes, yn gyfarwydd â chyfrifiaduron, yn meddu ar gynlluniau clir ac yn ymwybodol o broblemau posibl .

Prynwyd y rhan fwyaf o'r nwyddau i'r fferm yn lleol. Fodd bynnag, prynwyd bwyd anifeiliaid gan gyflenwyr yng Nghymru a phrynwyd da byw o Ynys Môn a Merthyr Tudful, ac Amwythig ac Ellesmere Port yn Lloegr. Anfonwyd y rhan fwyaf o dda byw i'w difa i Ynys

Môn a Merthyr Tudful, ac Amwythig neu Ellesmere Port. Aeth rhywfaint i'r farchnad yn y Trallwng ond dadleuodd fod hyn yn cymryd gormod o amser.

**Ffigur 4.12 Nwyddau a gwasanaethau fferm ar gyfer Fferm CC4**



**Fferm CC5**

Roedd Fferm CC5 yn fferm da byw o faint canolig (ESU) a oedd yn cynnal defaid, gwartheg a moch. Roedd y teulu yn berchen ar y busnes ffermio. Fe’i rhannwyd rhwng drwy fferm gyfagos, gan gwmpasu cyfanswm o 400 erw. Roedd cynlluniau olyniaeth yn cael eu hystyried ar gyfer un o’r meibion. Roedd hon yn fferm â stoc cymharol uchel (750 o famogiaid, 180 o dyrchod, 40 o wartheg a’u dilynwyr).

Roedd pump o bobl ar yr aelwyd: roedd y tad a’r mab yn gweithio ar y fferm yn llawn amser, gyda gwraig y ffermwr yn gweithio’n rhan-amser ar y fferm ac yn rhan-amser mewn swydd arall. Roedd mab arall yn rhedeg y fferm bartner, gyfagos ac roedd y trydydd mab yn gweithio mewn lladd-dy. O ran olyniaeth, y bwriad oedd rhannu’r busnes ffermio (dwy fferm 200 erw yr un) rhwng dau o’i feibion. Fodd bynnag, roedd yn pryderu bod 200 erw yn dir annigonol i fod yn hyfyw. O dan yr amodau presennol roedd yn angenrheidiol cadw niferoedd uwch o dda byw i wneud elw. A chyda tir mor ddrud, roedd yn anodd ehangu. Felly, efallai y bydd y fferm yn cael ei gwerthu, os na fydd y meibion am gymryd yr awenau arni.

Bu’r ffermwr (63 oed) yn ffermio ers cryn amser, roedd yn dilyn dulliau ffermio ‘traddodiadol’ ac nid oedd am newid. Nid oedd unrhyw weithgareddau arallgyfeirio na mentrau amgen, er ei fod yn ystyried paneli solar ar safle’r fferm arall, a oedd yn wynebu’r de, ac roedd cynigion ar gyfer tyrbinau gwynt ar y bryniau uwchlaw’r fferm ar gyfer llinell bŵer newydd gerllaw. Byddai’n cael tua £15,000 ar gyfer tyrbin ar ei dir. Er bod y fferm yn rhan o gynllun Tir Mynydd, nid oedd y ffermwr am ymwneud â Glastir:

> *‘Na, mae cryn dipyn o waith dan sylw. Rhaid i chi wario llawer o arian, gyda chontractwyr a phethau er mwyn ei wneud. Mae'n un neu'r llall on'd yw e? A thrwy wneud y ffensio dwbwl hwn ac ati, wel rwy'n cael trafferth cadw fy ffensys yn daclus fel y mae - y rhai sydd gennyf eisoes, heb wneud dwywaith cymaint ohonynt.’*

Fodd bynnag byddai yn ymuno ag unrhyw gynllun pe bai’n gwneud elw:

> *‘Byddwn yn ymuno ag unrhyw gynllun pe bawn yn well fy myd;  pe bai’r wobr ariannol yno.’*


Ar hyn o bryd, roedd y Taliad Sengl yn cyfrannu 40 y cant o incwm yr aelwyd ac ystyriwyd mai dyma’r ffynhonnell bwysicaf o incwm yn y dyfodol. Dim ond cyfran fach yr oedd incymau oddi ar y fferm yn ei chyfrannu ac roedd y busnes ffermio craidd yn cyfrannu’r 60 y cant a oedd yn weddill.

Er bod y ffermwr yn rhagweld y byddai’n dioddef o ganlyniad i symudiad i daliadau cymhorthdal ar sail ardal, byddai’n parhau â busnes fel arfer. Fodd bynnag, credodd y gallai fod yn well ei fyd petai’n rhentu’r tir yn hytrach na ffermio yn yr hinsawdd presennol.

Ar hyn o bryd, roedd y fferm hon yn ymddangos yn fregus. Roedd y ffermwr yn bwriadu ymddeol ac nid oedd am newid ei ddulliau nac arallgyfeirio. Bydd y dyfodol yn dibynnu ar yr hyn y bydd ei feibion yn gwneud.

Prynwyd nwyddau i'r fferm yn lleol. Fel y dengys y diagram cylch isod, roedd gan y fferm effaith gymharol fawr ar yr economi leol. Gwethwyd da byw ym marchnad y Trallwng. Roedd anifeiliaid i'w difa yn mynd i Randall Parker Foods (Lladd-dy) yn Llanidloes, i'w gwerthu i Waitrose.

**Ffigur 4.13 Nwyddau a gwasanaethau fferm ar gyfer Fferm CC5**



**Fferm GC 6**

Roedd hon yn fferm fawr (ESU) defaid a chig eidion o 405 hectar, ac er ei bod yn is i lawr na'r ffermydd mynydd eraill yn y sampl hon, roedd yn gymwys ar gyfer Tir Mynydd o hyd. Câi'r fferm ei rhedeg gan dad (65) a mab yn llawn amser ac roeddent yn cyflogi unigolyn arall nad oedd yn aelod o'r teulu. Yn ogystal â'r tir yma roeddent yn berchen ar dir yn Ynys Môn a ger Harlech, ac yn rhentu tir yn Ynys Môn. Roeddent yn cynnal 1,400 o famogiaid a 140 o wartheg a dilynwyr. Nid oedd unrhyw gynllun arallgyfeirio er bod tyrbin gwynt wedi'i osod yn ddiweddar.

Roedd cynllun olyniaeth ar waith ar gyfer y mab, i'w ddilyn gan ei fab ef.

Roedd y busnes ffermio craidd yn cyfrannu 20 y cant at incwm yr aelwyd, cynlluniau amaeth-amgylcheddol yn 10 y cant, a'r Taliad Sengl yn 70 y cant. Nid oedd unrhyw incymau oddi ar y fferm. Yn gyntaf, dadleuent na fyddai amser ganddynt, fel y trafodwyd isod, roedd angen mwy o lafur arnynt, ac yn ail, nid oeddent am newid yr hyn yr oeddent yn ei wneud yn barod.

Roedd y fferm yn cael swm fawr o'r Taliad Sengl sef £110,000. Roeddent yn rhan o Tir Cynnal ac yn mynd i ymuno â Glastir er mwyn gwneud yn iawn am yr arian yr oeddent yn mynd i'w golli pan fyddai Tir Cynnal yn dod i ben. Roedd ymgynghorydd wedi'i gyflogi i'w harwain gyda'r cais Glastir. Nid oeddent o reidrwydd yn ceisio newid rhyw lawer gyda'r fferm, gan na allent feddwl am lawer o ffyrdd i newid yr hyn yr oeddent yn ei wneud yn barod. Nid oeddent yn awyddus i arallgyfeirio mewn unrhyw ffordd na gwerthu eu cynnyrch yn wahanol. Ar y pryd, roeddent yn ei chael yn anodd ymdopi â'r llafur cynyddol ac o'r farn y dylent fod wedi cyflogi rhywun arall ar y fferm yn llawn amser. Ond roedd hwn yn faes lle yr oeddent yn arbed costau, er eu bod yn defnyddio contractwyr ar gyfer gwaith arbenigol:

> *'I fod yn onest dylem gyflogi rhywun arall gan fod digon o waith gennym i rywun arall yma ond ni allwn gael yr un iawn. Yna rydych yn cael contractwyr i mewn i wneud llawer o waith. Mae gennym gontractwyr i mewn ar y foment yn gwneud gwaith codi waliau.'*

Dywedodd y ffermwr y byddai unrhyw ostyngiad yn y Taliad Sengl yn achosi anawsterau i'r fferm. Credodd y byddent yn colli cymhorthdal yn dilyn diwygiadau i'r PAC gan fod y system daliadau bresennol wedi eu ffafrio:

> *'Wel rwy'n gwybod cryn dipyn amdano ond rwy'n siŵr y byddwn ar ein colled. Rwy'n credu fy hun y byddwn ar ein colled. Wel dwi ddim cweit yn siŵr faint y byddant yn ei dalu i, chi'n gwybod, dwi ddim yn gwybod faint y byddant yn ei dalu yr erw ar ôl hynny ac fel mae'n digwydd rydym yn cael taliad da oherwydd yn 2000, 2001 a 2002 roeddem yn gwneud y pethau cywir ar yr adeg gywir chi'n gwybod. Wel, roeddem mewn cynlluniau gwahanol lle roedd dad-ddwysáu yn bremiwm i raddau ac mae ein premiwm newydd, premiwm buchod sugno, premiwm llo, roedd popeth yn gweithio.'*

Beth bynnag oedd canlyniad diwygio'r PAC y bwriad oedd parhau â 'busnes fel arfer'. Roeddent yn gobeithio y byddai'r incwm o'r tyrbin gwynt yn mynd i'r afael ag unrhyw ddiffyg. Ystyriwyd bod busnes yn gymharol lewyrchus a'r unig senario a fyddai'n gwneud iddynt feddwl am adael ffermio fyddai pe bai'r busnes ffermio yn gwneud colledion na ellid eu cynnal.

Er eu bod yn ymrwymedig i 'fusnes fel arfer' ac yn cael swm mawr o'r Taliad Sengl, roedd y fferm hon yn ymddangos yn wydn. Roeddent wedi buddsoddi mewn tyrbin gwynt ac yn parhau i ymuno â chynlluniau amaeth-amgylcheddol.

Er bod y ffermwr hwn yn teithio i Aberystwyth am hyrddod o safon ac i Stirling am deirw:


> *Dwi wedi bod yn prynu fy nheirw yn Stirling yn yr Alban. Dyna lle y mae'r teirw gorau.'*

Roedd yn prynu gwartheg yn fwy lleol. Byddai wedi bod eisiau prynu stoc gwell ond roedd yn ceisio arbed costau:

> *'Rydym yn cael yr hyn rydym yn talu amdano. Hoffwn brynu'n well ond mae'r rhai gorau yn rhy ddrud.'*

Yn fwy cyffredinol, dadleuwyd eu bod, fel ffermwyr yn yr ardal, yn cyfrannu'n sylweddol at yr economi leol.

**Ffigur 4.14 Nwyddau a gwasanaethau fferm ar gyfer Fferm GC6**



**Fferm GC 7**

Roedd Fferm GC7 yn fferm fynydd deuluol o faint canolig (ESU) o dan yr Wyddfa, gyda chymysgedd o ddefaid a chig eidion, a thua 100 o ddofednod. Roedd y teulu'n rhedeg dwy fferm gyfagos: y prif fusnes ffermio o 600 hectar gyda thir wedi'i rentu a thir isel a fferm ym Methel. Roeddent yn ffermio cyfanswm o 810 hectar. Rhwng y ddwy fferm roeddent yn cynnal 'system hafod / hendre' neu system drawstrefa.  Roedd ganddynt ddaliad newydd hefyd, a gâi ei redeg yn bennaf fel gwersyllfa. Roedd y teulu yn berchen ar y ffermydd a caent eu rhedeg gan y pâr (45-54) a'r nain a'r taid, ynghyd â llafur achlysurol gan y ferch ar y wersyllfa. Roeddent ganddynt fechgyn iau a oedd yn helpu gyda'r dofednod a bwriadwyd i'r plant gymryd y fferm drosodd yn y dyfodol. Roedd wyth o bobl ar yr aelwyd.  Yn ogystal, roeddent yn cyflogi dyn ifanc yn llawn amser ar y fferm. Roeddent hefyd yn cyflogi llafur achlysurol yn yr haf.

Roedd y ffermydd wedi'u lleoli yn agos at y prif lwybr i dwristiaid i fyny'r Wyddfa, ger yr YHA uwch Llanberis, ac er bod nifer o dai bynciau, gwestai gwely a brecwast a llety hunanddarpar prin oedd y gystadleuaeth ar gyfer y wersyllfa. Y wersyllfa oedd prif incwm y wraig ac roedd yn talu holl filiau'r aelwyd.  Er bod gwersyllfa wedi bod yn gysylltiedig â'r fferm erioed, gwnaethant ddechrau canolbwyntio mwy arni chwech i saith blynedd yn ôl pan oedd prisiau stoc yn isel ac roedd y fferm mewn trafferthion mawr. Roeddent hefyd wedi buddsoddi yn un o fythynnod y fferm i'w redeg fel llety hunanddarpar, ond nid oedd hwn mor llwyddiannus yn sgîl y gystadleuaeth. Roedd y wersyllfa yn dda ond yn ddibynnol iawn ar y tywydd, ac roeddent wedi cael blwyddyn wael iawn.

Byddent wedi hoffi gosod system hydro, ac roeddent wedi dechrau ar y gwaith o gael astudiaeth ddichonoldeb, ond nid oedd ganddynt y cyfalaf angenrheidiol eto. Ystyriwyd bod hon yn strategaeth dda i'w cynnal yn ystod unrhyw newidiadau i gymhorthdal yn y dyfodol. Nid oedd ganddynt lawer o opsiynau eraill, oherwydd teimlent na allent ehangu na newid y busnes presennol. Fodd bynnag, byddent yn hoffi agor siop fferm pe bai ganddynt y cyfalaf a byddai eu merch yn rhedeg hwn. Roeddent yn ymrwymedig i ffermio teuluol ac yn dweud mai dim ond salwch, henaint ac, yn y pen draw, marwolaeth a fyddai'n gwneud iddynt adael ffermio. Roedd ganddynt gynllun olyniaeth i'r mab 11 oed gymryd y busnes drosodd.

Roeddent wedi ymuno â Glastir er mwyn disodli'r arian y byddent yn ei golli pan fyddai Tir Mynydd yn dod i ben. Mae'n debyg mai un o'r prif bwyntiau o blaid ymyno â'r adran 'Cymru gyfan' oedd eu bod yn cael buddion o dyfu maip:

> *'Wel nid oedd hynny'n rhy ddrwg oherwydd rydych yn tyfu dwbl nifer y maip sy'n rhoi pwyntiau i gadw llawer o'r tir pori rhag cael ei gyfyngu mewn gwirionedd. Felly beth yw'r dyfodol o ran hynny dwi ddim yn gwybod. Dim ond oherwydd gallem gael y pwyntiau o'r maip oherwydd pe bai wedi rhoi'r hawliau stocio ar y mynydd ni fyddai wedi bod yn hyfyw mewn gwirionedd. Mae'n iawn cyn belled nad yw'n effeithio ar yr hawliau stocio.'*

Ni fyddai wedi bod yn hyfyw ymuno â'r adran 'wedi'i dargedu'. Byddai wedi ei gwneud yn ofynnol cael dad-stocio difrifol ar y fferm, gyda sgîl-effeithiau ar gyfer yr economi leol o ran llai o angen am lafur ar y fferm a gwario ar fewnbynnau fferm:

> *'Stocio fu'r ergyd farwol….Oherwydd pan fyddwch yn meddwl am yr holl dir dim ond hyn a hyn o ddefaid oedd gennych i ddechrau ni fyddai rhaid i chi brynu unrhyw fwyd anifeiliaid felly ni fyddai angen y contractwr cneifio arnoch, ni fyddai angen bêls arnoch felly mewn gwirionedd byddai'n effeithio ar ein holl wariant, byddai'n diflannu allan o'r wlad, byddai'n diflannu oni fyddai?'*

Dadleuwyd fod yr elfennau 'wedi'u targedu' o Glastir yn talu ffermwyr i leihau llafur a chyfleoedd gwario, a oedd yn niweidiol i'r economi, yn enwedig yn ystod dirwasgiad.

Roedd y busnes ffermio craidd yn cyfateb i 20 y cant o incwm yr aelwyd; arallgyfeirio yn 10 y cant, cynlluniau amaeth-amgylcheddol yn 10 y cant, a'r Taliad Sengl yn 60 y cant.

Pe bai ganddynt fwy o'r Taliad Sengl byddent yn rhoi mwy o ddwysfwyd i'w gwartheg er mwyn gwella eu cyflwr, ac yn buddsoddi mewn gwelliannau i ffiniau. Yn ogystal, byddent yn buddsoddi yn eu hadeiladau fferm ac mewn siop fferm.

Gyda llai o'r Taliad Sengl byddent yn lleihau'r llafur ac yn lleihau'r swm o dir rhent o bosib:

> *'Rhoi'r gorau i'r holl dir rhent, dwi'n credu y byddai hynny'n un peth a fyddai'n cael effaith ganlyniadol, a byddai'n rhaid i chi leihau rhywfaint o'r stoc yn amlwg. '*


Roedd y ffermwyr hyn yn realistig ynghylch diwygiadau i'r PAC ac roedd ganddynt gynlluniau amlinellol i ddelio ag unrhyw newidiadau. Er eu bod yn ymrwymedig i'r fferm deuluol, roeddent wedi arallgyfeirio, wedi ymuno â Glastir ac yn ystyried hydro-bŵer. Yn gyffredinol, felly, roedd yn fusnes ffermio gwydn.

Prynwyd nwyddau i'r fferm yn bennaf gan gyflenwyr lleol. Roeddent bob amser yn edrych am y prisiau gorau. Yn gyffredinol, dadleuwyd bod ffermwyr yn cefnogi'r economi leol drwy wariant a'r galw am lafur:

> *'Meddyliwch am yr holl gontractwyr sy'n mynd o gwmpas pob un o'r ffermydd, mae'n amlwg yn eu cadw mewn gwaith. Dwi'n tybio ei fod yn cadw'r masnachwyr bwyd mewn gwaith hefyd a'r cyflenwyr a'r contrac twyr gwahanol.'*

Roedd y da byw a'r stoc ar gyfer y lladd-dy yn mynd i farchnadoedd a lladd-dai lleol.

**Ffig 4.15 Nwyddau a gwasanaethau fferm ar gyfer Fferm NW7**



**Fferm DC 3**

Fferm maint canolig (ESU) o 122 hectar oedd hon. Roedd 50 y cant o'r tir mewn perchnogaeth a 50 y cant wedi ei rentu, mewn lleoliad arall, y ddau ar dir ALFf. Defaid ac eidion oedd busnes craidd y fferm. Roedd dau gartref yn y busnes ac roedd yn cyflogi tri aelod o'r teulu yn llawn amser a thri aelod o'r teulu yn rhan-amser. Er eu bod wedi arallgyfeirio i lety gwely a brecwast a gwyliau, eu hathroniaeth oedd ei bod yn well canolbwyntio ar gynhyrchu bwyd yn dda:

> *'Rydym ni wedi ystyried gwneud pethau eraill ond y gyfrinach yw gwneud yr hyn rydych chi ei wneud, ei wneud yn well.'*

Byddent yn hoffi cael eu gadael i barhau â'r hyn y maent wedi dod yn arbenigwyr ynddo ac wedi bod yn ei wneud trwy gydol eu bywydau. Y bwriad oedd parhau gyda'r hyn y mae'n ei wneud ond cynyddu'r cynnyrch fesul mamog a sianelu arian ychwanegol at wella ansawdd y pridd fel y gallent wario llai o arian ar wrtaith.

Er bod mab y ffermwr yn rhan o'r busnes ac y byddai'n cymryd drosodd pan fyddai'r ffermwr (65) yn ymddeol, roedd y mab yn 45, yn ddi-briod a heb unrhyw deulu ei hun. O'r herwydd, roedd yn anodd edrych y tu hwnt i'r genhedlaeth nesaf.

Roeddent wedi arallgyfeirio i lety ar y fferm ond yn dadlau ei bod yn anodd gwneud arian gan fod y farchnad hon yn orlawn. Roedd y fferm wedi bod yn rhan o Dir Mynydd a Thir Gofal ac roedd bellach yn rhan o Dir Cynnal. Roeddent wedi gwneud llawer o waith dan y cynlluniau hyn, fel codi ffensys dwbl, a phlannu coed a pherthi. Fodd bynnag, nid oeddent yn gallu ymuno â Glastir gan nad oeddent yn gallu ennill digon o bwyntiau. Nid oeddent yn gallu cynnwys eu tir rhent gan nad oedd y perchnogion yn barod i ymrwymo i gynllun pum mlynedd, yn enwedig gan mai lesoedd o ddim ond blwyddyn oedd ganddynt:

> *'Rydym ni yn Nhir Cynnal, sy'n dod i ben eleni. Nawr Glastir yw'r un sy'n dilyn, ac ni allwn gael digon o bwyntiau i ymuno â'r cynllun ar hyn o bryd. Ac ni allwn ddefnyddio'r tir rhent gan nad yw'r bobl rydym yn rhentu ganddyn nhw, ac mae hyn yn eithaf pwysig, yn fodlon cael eu clymu i gynllun amaeth-amgylcheddol. Felly gan nad ydynt ar denantiaethau pum mlynedd - rydym ni ar denantiaethau blynyddol ac mae'n debyg y byddwn ni ar denantiaethau blynyddol am flynyddoedd - nid ydynt eisiau ei ymrwymo ar sail bum mlynedd felly mae hynny'n diystyru'r holl dir hwnnw.'*

Dadleuwyd, ar yr adeg hon, nad oeddent eisiau gostwng eu dwysedd stocio, fel y byddai'n ofynnol ar dir yn Glastir.

Roedd y ffermwr a'i wraig yn derbyn pensiynau'r wladwriaeth a phreifat. Hefyd, roedd mab y ffermwr, a oedd yn rhan o fusnes y fferm, yn gweithio'n rhan-amser ar ffermydd eraill.

Roedd incwm y cartref yn cynnwys y busnes craidd, 40 y cant, arallgyfeirio, 7.5 y cant, cynlluniau amaeth-amgylcheddol, pump y cant, incymau oddi ar y fferm, 7.5 y cant, a'r Taliad Sengl, a oedd yn 40 y cant o'u hincwm.

Dadleuodd y ffermwr y Taliad Sengl yn gymhorthdal. Roeddent yn addasu eu lefelau stoc mewn perthynas â'r farchnad, nid faint o Daliad Sengl a dderbyniwyd:

*'Dim ond cymhorthdal yw'r taliad sengl i ffermwyr. Mae'n incwm angenrheidiol ar hyn o bryd, felly dyna'r gwahaniaeth mewn gwirionedd. Felly i ateb y cwestiynau, dyna'r marc cwestiwn mawr sy'n gysylltiedig ag ef. Os yw'n fwy buddiol bwydo mwy o fwyd anifeiliaid hyd yn oed heb y taliad sengl i ffermwyr, yna byddwn yn gwneud hynny. Os nad yw'r elw yna, yna mae'n amlwg y dylem leihau ein niferoedd felly byddai faint o fwyd anifeiliaid rydym ni'n ei fwydo yn llawer llai.'*

Ar yr adeg hon, roedd ganddynt lawer o stoc ac angen y Taliad Sengl fel cefnogaeth. Ond pe bai'r Taliad Sengl yn cynyddu yna byddent yn parhau â busnes fel rheol, a pe bai'r Taliad Sengl yn gostwng yna byddai'n rhaid iddynt leihau lefelau stoc, lleihau crynodiadau a bod yn fwy organig:

*'Os bydd hynny'n gostwng a bydd maint yr elw'n gostwng, yna bydd cyfanswm y bwyd anifeiliaid yn lleihau hefyd gan y bydd yn rhaid i ni gadw llai o stoc. Bydd yn rhaid i ni redeg system o fath mwy organig â llai o stoc a llai o fewnbynnau.'*


Dadleuodd nad oedd y cymhorthdal i'r ffermwr ond i ddefnyddiwr y bwyd a'r tir. Y ffermwr sy'n cynnal a chadw'r tir fel ei fod yn edrych yn ddeniadol i'r rhai sy'n dod i'r ardal. Roedd yn teimlo pe na bai ffermydd yn derbyn cymorthdaliadau yna byddai'n rhaid i'r arian fynd i asiantaethau eraill i ofalu am y tir. Awgrymodd y ffermwr pe bai cymorthdaliadau yn rhy isel neu'n dod i ben, yna efallai y byddai'n rhaid i'w fab, pan roedd yn cymryd y fferm drosodd, werthu.

O ran cadernid a bod yn agored i niwed, roedd hon yn fferm deuluol ag olyniaeth i'r genhedlaeth ganol oed nesaf wedi ei sicrhau. Roeddent yn amlwg yn ffermwyr arbenigol â gwybodaeth dda am ochr fusnes ffermio. Fodd bynnag, roedd yn ymddangos eu bod yn dibynnu ar gymorthdaliadau a'u bod yn credu bod cymorthdaliadau yn angenrheidiol i gynnal ffermio, cynhyrchiant bwyd a'r amgylchedd dan y cyfundrefnau cyfredol. Er eu bod wedi arallgyfeirio, gallai'r fferm fod yn agored i niwed yn y genhedlaeth nesaf.

Roedd y gwariant mwyaf ar fwyd anifeiliaid a gwrtaith, a phrynwyd y mwyafrif llethol yn yr ardal leol. Dywedodd bod ffermwyr lleol wedi eu gwreiddio yn y gymuned a'r economi leol ac y byddai unrhyw ostyngiad i gymorthdaliadau, yn sgil terfynu cynlluniau amaeth-amgylcheddol neu ostyngiad i'r Taliad Sengl, yn cael ei adlewyrchu gan wario llai o arian yn lleol:

*'Rydym ni wedi colli Tŷ Cynnal, fel y soniais wrthych chi. Fel taliad ucheldir, roedd hwnnw'n daliad da gan y byddai'n cynnwys ein tir rhent hefyd. Ac i mi, roedd Tŷ Mynydd yn cefnogi'r bobl rydym ni'n eu cyflenwi'n lleol yn ogystal â mi. Mae unrhyw grantiau rydym ni'n eu cael yn ein helpu i gadw pobl eraill mewn cyflogaeth. Nid ni yn unig. Mae'n debyg ein bod yn ysgrifennu tua saith siec bob mis i bobl leol, yn amrywio o ran maint yn amlwg, yn dibynnu ar yr hyn rydych chi'n ei brynu, ond rydym ni'n prynu deunydd ffensys o'r ganolfan nwyddau metel leol ac rydym ni'n defnyddio rhywun arall sy'n lleol ar gyfer bwcedi a chlwydi a phethau felly. Mae'r garej rydym ni'n ei defnyddio'n lleol, mae'r contractwr yn lleol, mae Crymych yn lleol, ac mae'r cwbl yn y cyffiniau. Bydd hyn a gostwng y taliad unigol i ffermwyr yn eich gwneud chi ystyried eich gwariant yn fwy gofalus, oni fydd?'*

**Ffig 4.16 Nwyddau a gwasanaethau fferm ar gyfer Fferm SW3**




**Fferm DC 4**

Fferm odro maint canolig (ESU) o 53 hectar oedd hon, ym mherchnogaeth ac yn cael ei rhedeg gan deulu o siaradwyr Cymraeg, a oedd wedi eu geni a'u magu ar y fferm. Roedd dau gartref yn y busnes (roedd y mab yn briod) ac roedd yn cyflogi dau aelod o'r teulu

ac un nad oedd yn aelod o’r teulu. Roeddent yn canolbwyntio ar ffermio gwartheg godro effeithlon, a phrin oedd yr amser neu’r lle yr oedd hyn yn ei adael ar gyfer unrhyw beth arall :

> *‘Nid ydym yn gwneud unrhyw beth â siopau te ar y fferm, nid ydym yn gwneud unrhyw beth â gwerthu o siopau fferm, rydym ni yn contractio, nid ydym yn gwneud unrhyw beth o ran hamdden, ond byddwn yn dod yn ôl at hynny. Nid ydym yn gwneud unrhyw beth â llety, nid ydym yn gwneud unrhyw beth â chnydau ynni. Nid ydym yn gwneud unrhyw beth â dofednod, felly nid ydym yn gwerthu cnydau, dim ond cnydau a dyfir at ein defnydd ein hunain sydd yma.’*

Y bwriad oedd i’r mab olynu. Roedd yn rhan o’r busnes ac roedd gan ei wraig incwm llawn amser oddi ar y fferm. Roeddent wedi bod yn ffermio trwy gydol eu hoes ac yn bwriadu parhau:

> *‘Yr unig ffordd y gwnaf i adael ffermio yw mewn arch.’*

Roedd y ffermwr (55-64) yn meddwl bod arallgyfeirio yn dinistrio cymunedau ffermio mewn gwirionedd. Roedd yn destun gofid braidd gan eu bod wedi cael problem gyda chaniatâd cynllunio i’w mab fyw drws nesaf a gweithio ar y fferm. Mae’n debyg y byddai wedi bod yn rhwydd ei droi’n ystafell de. Nid oeddent yn gweld synnwyr hyn gan y byddai’n denu Saeson mwy cefnog i’r ardal ac yn gwanedu’r gymuned a’r ethos ffermio:

> *‘Wel dyna beth sy’n sbwylio ffermio, onid ai? Ein dewis gorau fyddai rhoi’r gorau i ffermio, troi’r holl adeiladau yn dai i Saeson ddod i fyw ynddyn nhw ac yna byddai’r llywodraeth yn dweud fy mod i’n wych yn rhoi cartrefi i’r holl Saeson yma a byddent yn rhoi comisiwn i mi. Wel, byddai pawb yn hapus wedyn a bydden nhw’n rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer pob adeilad sydd ar gael. Ond roedd fy mab eisiau adeiladu tŷ ar y fferm er mwyn gweithio ar y fferm, mae e wedi cael ei fagu yng Nghymru, roedd yn cyflogi pobl leol, cymerodd dair blynedd i ni gael caniatâd cynllunio…a lot o arian. Ond roedden nhw’n ddigon parod i ni roi’r gorau i ffermio ac ailwampio’r holl adeiladau. Felly dyna lle mae dyfodol ffermio….a dyna beth mae pobl yn ei wneud, byddai’n dewis ni yn haws, ailwampio’r rheini, eu gwerthu nhw’n blotiau adeiladu ar gyfer tai - ac agor ystafell de. Felly dyna lle mae dyfodol ffermio, pobl fel ni sy’n ceisio cadw ffermio’n fyw. Efallai rhyw ddydd y bydd bwyd yn bwysicach i bobl na gwyliau dramor.’*

Roedd y fferm yn rhan o Glastir. Ond awgrymodd y ffermwr bod diffyg gwybodaeth a dealltwriaeth o ffermio gan swyddogion Glastir:

> *‘Rydym ni yn hwnnw yn barod-rydym ni yn Glastir. Ac mae hynny’n waith caled pan fo’n rhaid i chi ymdrin â phobl nad ydynt yn deall am beth maen nhw’n sôn. Wel, dyma’r enghraifft berffaith – rydym ni ar y ffôn ac maen nhw’n gofyn i mi – “ beth yw bustach ?” Wel, wyddoch chi, oes angen i mi ddweud mwy?’*

Roeddent yn dadlau bod ffermio godro yn waith llawn amser nad yw’n gadael unrhyw amser ar gyfer gwaith arall. Fodd bynnag, roedd gan y wraig swydd oddi ar y fferm, ond ni ystyriwyd ei bod yn hanfodol i incwm y cartref, ac roedd gan y mab incwm oddi ar y fferm. Roeddent yn gwneud gwaith contract achlysurol hefyd, a oedd yn ennill rhwng £40,000 a £50,000 y flwyddyn. Ac eithrio, felly,

yr incymau oddi ar y fferm hyn, awgrymwyd bod incwm y cartref yn dod o'r ffermio godro craidd, 60 y cant, cynlluniau amaeth-amgylcheddol, pump y cant a'r Taliad Sengl, 35 y cant.

Roedd y ffermwr yn bwriadu parhau â busnes fel arfer. Dadleuodd y byddai unrhyw newid i gymorthdaliadau yn cael ei adlewyrchu yn lefel yr elw yn hytrach nag arfer y fferm neu'r busnes neu fewnbynnau'r fferm hyd yn oed:

*'A bod yn onest gyda chi, ni allaf weld pam y bydd unrhyw beth rwy'n ei wneud yn newid, os bydd y cymhorthdal yn mynd y naill ffordd neu'r llall. Oherwydd nid ydym yn gwario mwy na'r hyn sydd ei angen arnom ar fwyd anifeiliaid yn barod, felly os bydd cymorthdaliadau yn cynyddu, byddwn yn gwario'r un faint i gadw ein hanifeiliaid yma, os bydd cymorthdaliadau yn gostwng, os yw'r un faint o anifeiliaid gennym, mae'n dal rhaid i ni…Yr unig ffordd y byddai llawer yn newid fyddai pe bai ein menter ffermio yn dirywio, nid y byddai'r fenter ffermio yn dirywio oherwydd y rheini, ond ni allaf weld sut y gall hynny effeithio ar y rheini gan ein bod yn ceisio bod mor effeithlon â phosibl beth bynnag. Felly byddai'n golygu mwy o elw neu golled.*

*Y taliad sengl yw ein hunig ffynhonnell o beth-chi'n-galw, os bydd hwnnw'n gostwng 20 y cant, a ydym ni'n mynd i leihau ein bwyd anifeiliaid o 20 y cant? Yr unig ffordd o leihau bwyd anifeiliaid yw lleihau nifer yr anifeiliaid, onid ai? Pobl sy'n cael swm enfawr mewn taliad sengl, dydyn nhw ddim yn dibynnu ar eu hamaethyddiaeth i ddarparu incwm iddyn nhw. Efallai y byddai'n wahanol, ond i ni, ni allwn fyw ar y taliad sengl, mae yno i roi hwb i bethau i ni.'*

Yn gryno, roeddent yn dadlau eu bod yn cael eu gyrru gan y farchnad yn hytrach na chymorthdaliadau. Y brif broblem oedd pris llaeth, yr ystyriwyd oedd yn cael mwy o effaith na'r Taliad Sengl. Ystyriwyd y Taliad Sengl yn incwm atodol i'r ffermwr i helpu i gadw prisiau i lawr i'r defnyddiwr.

Gwerthwyd yr holl laeth i First Milk, ar gyfer gwneud caws. Roedd gwerthiannau da byw yn cynnwys naill ai lloeau neu eidion, neu wartheg hesb a oedd yn mynd i'r lladd-dy, trwy farchnad Caerfyrddin fel rheol.

Wrth ystyried cadernid a bod yn agored i niwed, roedd hon yn fferm a redir gan deulu ffermio hirdymor, wedi ei wreiddio yn yr ardal, ac yn benderfynol o barhau i ffermio. Fel fferm odro ynghlwm i un prosesydd, roedd, i raddau yn agored i rymoedd y farchnad. Hefyd, er dadleuon i'r gwrthwyneb, roedd y Taliad Sengl yn rhan sylweddol o incwm y fferm. Fodd bynnag, roedden nhw yn rhan o Glastir ac, er dadleuon i'r gwrthwyneb unwaith eto, roedd ganddynt incwm o ffynonellau eraill.


Prynwyd y rhan fwyaf o fewnbynnau'r fferm yn lleol a dadleuwyd bod gan ffermio swyddogaeth bwysig i'w chyflawni yn y gymuned o ran darparu swyddi a defnyddio adnoddau lleol, ac o ran cynnal y gymuned leol:

*'Rydym ni yn cyflogi pobl leol, ac mae'r fferm yn chwarae rhan, ni fyddwn yn dweud pwysig, ond mae'n chwarae rhan fawr yn y gymuned leol.'*

*'Wel, yn yr ardal yma, pe nai bai gennych chi ffermio yna ni fyddai gennych chi lawer ar ôl, na fyddai? Fel diwydiant neu fel cyflogaeth, oherwydd y peth yw ar ddiwedd y dydd, os byddwch yn cymryd amaethyddiaeth o'r ardal yma ac mae gennych*

*chi eich holl werthwyr peiriannau a'ch holl gynrychiolwyr yn dibynnu ar ffermwyr. Ni fyddai unrhyw beth yn yr ardal yma, oni bai eich bod ond mynd lawr i Ddinbych-y-pysgod, ond rydych chi'n siarad am y ffordd yma , amaethyddiaeth yw'r prif gyflogwr.'*

**Ffigur 4.17 Nwyddau a gwasanaethau fferm ar gyfer Fferm DC4**



**Fferm DC 8**

Mae'r fferm hon wedi bod yn y teulu ers 1929. Roedd yn fferm fawr iawn (ESU) ac wedi tyfu o 30 erw i 220 erw sy'n eiddo i'r teulu, a chaiff 250 erw arall eu rhentu. Godro oedd y prif fusnes, ynghyd â rhywfaint o wartheg eidion. Roedd 300 o wartheg godro Jersi mewn buches gaeedig a 150 o loeau, oll wedi'u pesgi ar borfa. Defnyddiwyd semen tarw wedi ei fewnforio i fridio gwartheg newydd. Roedd y teulu ffermio yn cynnwys y ffermwr (65 oed neu hŷn), ei wraig a'i ddau fab. Roeddent yn cyflogi un aelod o'r teulu'n llawn amser, un aelod o'r teulu'n rhan-amser ac un unigolyn nad oedd yn aelod o'r teulu yn llawn amser. Roedd un o'r ddau fab yn gweithio ym musnes y fferm a byddai'n olynu.

Roedd y busnes godro craidd yn bwysig iawn ar gyfer y dyfodol ac roedd cynlluniau i ehangu:

> *'Rydym o'r farn bod y busnes yn tyfu. Fe wnaethom ni gymryd fferm wedi ei thenantio drosodd yr hydref diwethaf ac rydym ni'n chwilio am fferm arall nawr i sefydlu ail uned odro arni. Felly'r syniad yw y byddwn yn ceisio dyblu'r fuches odro yn ystod y ddwy i bum mlynedd nesaf.'*

Roeddent wedi ymrwymo i ffermio, cyn belled â'i fod yn gwneud elw.

Dadleuwyd bod cynlluniau amaeth-amgylcheddol presennol yn llawer gormod o drafferth am rhy ychydig o adenillion:

> *'Nid wyf yn dweud na fyddem fyth yn eu hystyried nhw ond a bod yn onest nid yw maint yr adenillion ohonynt o'u cymharu â'r drafferth yn eu gwneud yn hyfyw.'*

Roedd incwm y cartref yn deillio o nifer o ffynonellau. Roedd y busnes ffermio craidd, â gwerthiannau llaeth i First Milk, yn cyfrannu 30 y cant o'r incwm, arallgyfeirio yn darparu 50 y cant a'r Taliad Sengl yn darparu 20 y cant. Hefyd, roeddent wedi arallgyfeirio i fusnes buddsoddi, a oedd yn rheoli cartrefi preswyl a swyddfeydd ac wedi ei leoli yn Sweden. Roedd y fenter hon mewn partneriaeth â ffermwyr eraill, yn lleol ac yn rhyngwladol, ac yn dod â thua £120,000 y flwyddyn i mewn i'r cartref. Roedd ganddynt fusnes buddsoddi mewn eiddo llai yn ne Cymru hefyd. A'r sawl a gyfwelwyd oedd cyfarwyddwr cyfredol First Milk hefyd: swydd a oedd yn cynnwys cyflog. Dadleuwyd bod yr incymau hyn oddi ar y fferm yn gwbl ar wahân i incwm y cartref.

Dadleuwyd nad oedd y Taliad Sengl yn debygol o gael unrhyw effaith ar y ffordd y rhedir y fferm gan ei fod yn fach o'i gymharu â throsiant (llai na dau y cant):

*‘Roedd gennym ddyraniad cwota bach iawn pan gyflwynwyd y cwotâu gyntaf, ac felly roedd gennym ddyraniad taliad sengl bach iawn. Mae ein cymhorthdal yn fychan iawn o’i gymharu â throsiant. Felly prin iawn yw’r dylanwad mae’n ei gael o ran a fyddem ni’n rhedeg y busnes yn wahanol pa un a yw’r cymhorthdal yno ai peidio mewn gwirionedd.’*

Fodd bynnag, pe bai’r Taliad Sengl yn cynyddu, byddent yn cynhyrchu mwy o laeth ac yn gwneud mwy o elw. Ar y llaw arall, pe bai’n gostwng, byddent yn cynhyrchu llai o laeth ac yn gwneud llai o elw.

Dywedodd y ffermwr bod newidiadau i’r Taliad Sengl yn fwy tebygol o gael effaith ar ffermydd llai lle’r oedd y Taliad Sengl yn gyfran fwy o’r incwm; ac awgrymodd nad oedd y ffermydd hyn yn cael eu rhedeg yn dda. Roedd newidiadau i’r Taliad Sengl hefyd yn debygol o effeithio ar ffermydd nad oeddent wedi tyfu; ac awgrymodd bod cydberthynas rhwng ffermydd nad oeddent yn tyfu a’r rhai a oedd yn derbyn symiau uchel drwy’r Taliad Sengl. Ar y llaw arall, roedd gwledydd eraill yn Ewrop yn cael eu rheoleiddio llai, a oedd wedi gorfodi ffermydd i fod yn gadarn ac wedi galluogi twf yn y sector ffermio. Ystyriwyd bod cymorthdaliadau yn annog ffermwyr a oedd yn llai gweithgar.

*‘Os yw’r taliad sengl yn fwy nag ugain y cant o’ch elw, rwy’n credu bod gennych fusnes sy’n agored iawn i niwed.'*

Roedd y busnes yn canolbwyntio ar y farchnad:

*‘Rydym ni’n gwbl ddibynnol ar y farchnad ac rydym ni’n canolbwyntio’n fawr ar wneud yr hyn y mae’r farchnad yn ei wneud ac rydym ni’n canolbwyntio’n fawr ar ddylanwadu’r pethau y mae gennym rywfaint o reolaeth drostynt, felly rydym ni’n edrych ar ein costau cynhyrchu yn benodol ac rydym ni’n canolbwyntio’n fawr ar hynny ac felly rydym ni’n tueddu i weithredu system sy’n gallu ymdopi ag anweddolrwydd pris yn y farchnad ac yn ein galluogi i, rydym ni’n gweithredu â gorswm gweithredu gweddol uchel, os caf ei roi felly, sy’n ein galluogi i ymdopi ag anweddolrwydd ac felly nid ydym mor ddibynnol â hynny ar y taliad sengl na’r cymhorthdal o ran ein proffidioldeb.’*

O ran cadernid a bod yn agored i niwed, roedd gan y busnes fferm deuluol hwn gadernid. Nid oedd yn or-ddibynnol ar y Taliad Sengl ac roedd ganddo sawl ffrwd incwm. Roedd yn cael ei redeg gydag arbenigedd busnes hefyd. Awgrymodd y ffermwr, fel gŵr busnes rhyngwladol, ei fod yn ymwybodol bod yn rhaid i ffermwyr mewn gwledydd heb systemau cymorthdaliadau ymdrin â mwy o anweddolrwydd prisiau, a oedd, yn ei farn ef, yn eu gwneud yn fwy cadarn.


Prynwyd y rhan fwyaf o fewnbynnau’r fferm gan gwmnïau lleol, ac eithrio semen tarw, ac roedd rhai yn dod o rannau eraill o Gymru a Lloegr. Dadleuwyd bod y prif fudd roedd y fferm yn ei gynnig i’r gymuned yn economaidd:

*‘Cyflogaeth yw e mae’n debyg ac rydym ni’n cynhyrchu gwerth economaidd sy’n, mae’n rhan o’r gwerth economaidd a gynhyrchir gan yr hufenfa yn Hwlffordd. Rydym ni’n cymryd adnodd tir ac yn cynhyrchu tri chwarter miliwn o werth oddi arno mewn blwyddyn ac mae’r rhan fwyaf ohono, y cwbl yn ôl fy ngwraig, ond mae’r rhan fwyaf ohono yn cael ei*

*wario yn yr ardal leol, felly mae'n cael ei rannu tuag allan ar ryw ffurf neu'i gilydd yn yr ardal leol, naill ai ar ffurf cyflogaeth mewn busnesau eraill neu trwy ddarparu nwyddau a gwasanaethau.'*

Yn fwy cyffredinol, dadleuwyd bod ffermio yn bwysig i ardaloedd gwledig: roedd yn darparu cyflogaeth sy'n ymddangos yn gyflog isel ond sydd hefyd â chostau personol isel, fel teithio i'r gwaith.

**Ffig 4.18 Nwyddau a gwasanaethau fferm ar gyfer Fferm SW8**



**Fferm DC 10**

Fferm eidion fach (ESU) 142 hectar â buches gaeedig oedd hon, a oedd yn eiddo i deulu. Roedd uned fferm ar wahân dair milltir i ffwrdd. Adnabuwyd hon fel y fferm 'all-lein' a hwn oedd lleoliad y llety i'w rentu. Roedd y ffermwr (45-54), a oedd yn gyfreithiwr gynt, yn gwneud newidiadau i'w fuches. Yn gyffredinol, roedd yn lleihau proffil oedran y fuches, a fyddai'n lleihau biliau milfeddygol. Ac roedd yn symud oddi wrth fridiau cyfandirol a mwy tuag at fridiau brodorol, a oedd yn fwy gwydn ac yn llai dibynnol ar fwyd anifeiliaid a llety a brynwyd. Dadleuodd nad oedd y bridiau cyfandirol, a oedd yn boblogaidd, mor wydn â bridiau gwartheg brodorol a'u bod angen diet ŷd. Byddai angen ŷd ar gyfer pobl yn hytrach na gwartheg yn y dyfodol. O'r herwydd, roedd yn symud yn ôl i fridiau gwartheg brodorol:

> *'Ydym, rydym ni'n bridio mwy oddi wrth frid cyfandirol yr ydym ni i gyd wedi bod yn ei fridio ers y 70au a mwy yn ôl at ein bridiau brodorol neu wedi eu croesi â'n brid brodorol i weddu ein tir. Yr hyn rydym ni'n credu fydd yn digwydd yn y dyfodol yw na fyddwn yn gallu bwydo ŷd iddyn nhw gan y bydd y galw am ŷd yn cynyddu wrth i'r boblogaeth gynyddu ar draws y byd.'*

Roedd yn bwriadu parhau i ffermio:

> *'Mae ffermwyr yn marw neu'n mynd yn fethdalwyr, un neu'r llall, dydyn nhw ddim yn ymddeol llawer ydyn nhw? Prin iawn yw'r ffermwyr sy'n mynd yn fethdalwyr mewn gwirionedd, ond maen nhw i gyd yn marw yn y pen draw.'*

Roedd y fferm yn cefnogi un teulu o bump o bobl ac yn cyflogi dau aelod o'r teulu yn llawn amser. Nid oedd unrhyw gynlluniau olyniaeth. Serch hynny, awgrymodd y ffermwr hwn mai olyniaeth deuluol oedd diben ffermio, fel y gallech roi rhywbeth o werth emosiynol ac ariannol i'r teulu yn y dyfodol. Fodd bynnag, dadleuodd y byddai llai o olyniaeth deuluol yn y dyfodol gan fod ffermydd teuluol yn cael eu cymryd drosodd a'r ffaith bod gan lawer o bobl swyddi eraill yn hytrach na ffermio:

> *Yr holl arwyddion, o ble rwyf i'n eu gweld nhw, yw bod llai a llai o ffermydd teuluol yn mynd i gael eu pasio i lawr o fewn y teulu, ond nid yw hynny'n golygu bod ffermydd teuluol ar ben, byddwn yn dweud eu bod yn tyfu gan y bydd ffermydd teuluol eraill yn eu cymryd drosodd. Dyna beth sy'n digwydd, onid ai? Pan roeddwn i'n ŵr ifanc, roedd fy nhad yn ffermio 70 erw. Rwyf i'n ffermio 350 - 400 erw. Pe bai fy mab neu ferch yn ffermio, byddwn yn disgwyl y byddent yn ffermio 600 neu 700 erw. Nid wyf yn dweud eu bod yn mynd i fod yn fwy llewyrchus, mae'n debyg na fyddant, ond maen nhw'n aros yn y diwydiant wedyn. Bydd olyniaeth yn dal i fod yn bwysig ond i nifer lai o bobl wrth i'r niferoedd a gyflogir yn ein diwylliant ostwng. Mae'n broblem go iawn.'*

Roeddent wedi arallgyfeirio i osod eiddo (gan gynnig tai fforddiadwy £60-£80 yr wythnos). Roeddent yn ceisio gosod i bobl leol pan yn bosibl, gan ei fod yn eu galluogi i archwilio cefndir darpar denantiaid:

*‘Rydym ni’n ceisio tyfu’r sector llety, rydym ni’n ceisio tyfu hynny. Mae’r sgubor a addaswyd ar y fferm all-lein a fflatiau ac ati. Dechreuwyd hynny yn 2002, gwelsom fod pethau’n dechrau mynd o chwith, ac rydym ni wedi bod yn gwario arian arnyn nhw ers hynny er mwyn eu troi nhw’n osodiadau preswyl i bobl nad ydynt yn gallu fforddio prynu. Maen nhw oddeutu £60 - £80 yr wythnos, sydd braidd yn isel ar gyfer yr ardal hon. Maen nhw o ansawdd da, ond mae’n ddibynadwy gan y bydd yr un bobl yn aros am flynyddoedd. Mae ein tenantiaid hiraf wedi bod yna ers 1999. Mae’r tenantiaid bob amser yn lleol. Nid ydym yn fodlon rhentu i bobl o ardaloedd eraill gan ein bod ni wedi cael rhywfaint o brofiadau gwael. Er bod ein tenant gorau erioed o Loegr. Rydym ni’n parhau i gynyddu’r adran lety gan nad ydym ni wedi gorffen eto. Rydym ni’n parhau i arallgyfeirio gan ei fod yn talu.’*

Roedd gwaith gosod tyrbin gwynt wedi ei drefnu ar gyfer y gwanwyn:

*‘Rydym ni’n codi tyrbin, mae gennym ni dyrbin 40 metr a fydd yn cael ei godi’n fuan. Bydd hwnnw’n cael ei godi yn y gwanwyn rwy’n credu.’*

Roedd y ffermwr yn ansicr am ymuno â Glastir. Dadleuodd bod defnydd Glastir yn gyfyngedig i’r rhan fwyaf o ddaliadau yng Nghymru, ond ei fod yn gweddu mwy ar gyfer yr ucheldir neu unedau dwys yn hytrach na ffermydd tir isel fel ei un ef. Dywedodd ei bod yn debygol y byddai’n gwneud cais i ymuno, gan ei fod eisiau gwella’r amgylchedd:

*‘Edrychais i ar Glastir. Mae’n ymddangos bod defnydd Glastir yn gyfyngedig i’r rhan fwyaf o ddaliadau yng Nghymru. Mewn geiriau eraill, mae lle iddo, ond mae’n edrych - yn fy nhyb i - mai’r ucheldir neu unedau mwy dwys yw’r lle iddo. Dyna fy nhyb i. Nid yw hynny’n dweud ein bod yn ei ddiystyru. Rwy’n credu bod ceisiadau yn agored tan fis Mehefin y flwyddyn nesaf ar gyfer y cam nesaf ac rydym ni’n ei ystyried. Efallai’n wir y byddwn yn gwneud cais i ymuno, ond mae’n sicr yn benderfyniad ymylol. Mae’n benderfyniad anodd o ystyried yr arian a’r ymdrech dan sylw. A dweud y gwir, byddwn yn dweud ein bod yn debygol o ymuno, neu o wneud cais i ymuno. Ond mae’n debyg mai penderfyniad emosiynol yw e. Hoffem ni wella’r cynefin cyn belled nad yw’r cyfyngiadau yn rhy feichus, a bod yr arian i’n cael ni i wneud hynny’n unig. Ond nid oedd erioed yn gymhelliad ariannol gan mai’r cwbl roedd yn mynd i’w wneud oedd disodli cynhyrchiant a gollir.’*

Roedd incwm y cartref yn dod o fusnes craidd y fferm, 40 y cant, arallgyfeirio, 15 y cant, rhent, pump y cant, a’r Taliad Sengl, 40 y cant.

Awgrymodd y ffermwr hwn y bydd y rhan fwyaf o ffermydd fel ei un ef yn derbyn taliad llai a’u bod eisoes yn colli ar sail net oherwydd y gostyngiad i werth sterling. Gan ei fod yn gwario fwyaf ar beiriannau, tanwydd, bwyd anifeiliaid a gwrtaith, awgrymodd y ffermwr hwn y byddai’n lleihau’r mewnbynnau hyn pe bai ei Daliad Sengl yn gostwng. Dadleuodd y byddai’r rhan fwyaf o ffermwyr da byw yng Nghymru yn mynd i sefyllfa argyfwng pe bai’r cymhorthdal yn cael ei ddiddymu’n gyfan gwbl, gan eu bod yn fach ac nad oedd unrhyw bosibilrwydd iddynt wneud arbedion maint;

*‘Wel dyna beth mae’r rhan fwyaf ohonom ni’n ei wynebu oherwydd mae’n edrych fel mai ni ar y tir isel sy’n mynd i golli ar sail net hyd yn h yn yn sgil y gostyngiad i’r gyfradd cyfnewid sterling rydym ni wir wedi colli ar sail net eleni ac rydym ni’n ymdrin â’r sefyllfa eisoes. Mae’n rhwydd, prynu peiriannau sy’n mynd i gael ei effeithio. Yr eitemau mawr. Pe baech chi’n mynd yn ôl i fferm 50 mlynedd yn ôl, y peth mwyaf y byddech chi’n ei sylwi yw na fyddai gennych chi gerbyd newydd ar y clos , ni fyddai gennych chi un o’r rhain, ni fyddai gennych chi un o’r rheina.’*

Yn ei achos ef, pe bai’r holl gymorthdaliadau yn cael eu diddymu, byddai’n rhoi’r gorau i gynhyrchu eidion, yn cael gwared ar asedau (fel peiriannau a gwartheg) ac yn prynu mwy o ddefaid, sydd angen ci a ffon yn unig.

Awgrymodd y byddai llawer o ffermwyr yn rhoi’r gorau iddi, oherwydd oedran a gorfod ffermio heb beiriannau. Byddent yn rhentu eu ffermydd allan i denantiaid. Byddai gwerth ffermydd yn gostwng yn sylweddol. Er bod ymlyniad emosiynol i’w ystyried o ran ffermio gwartheg, a oedd yn galluogi ffermwyr i wneud penderfyniadau afresymol ac aros ym myd ffermio yn ystod cyfnodau gwael, byddai ffermwyr yn gadael y diwydiant pe bai’r Taliad Sengl yn dod i ben:

*‘Ceir ymlyniad emosiynol i ffermio gwartheg ac mae cymaint o ffermwyr gwartheg yn canfod nad yw’r ffigurau yn edrych fel pe baent yn gwneud llawer o synnwyr, ond os cymerwch chi’r Taliad Sengl i ffwrdd, nid yw’r diwydiant ffermio yn gwneud llawer o synnwyr hyd yn oed ac yna mae’n dod i ben.’*

Dadleuodd y ffermwr bod cymorthdaliadau yn cefnogi trefn mewnbwn uchel, cost uchel. O gael gwared ar gymhorthdal yr UE, ni fyddai ffermwyr yn gallu talu costau mewnbwn uchel mwyach, nac am beiriannau, ac mae’n debyg y byddent yn newid i systemau mwy cost-effeithlon. Dadleuodd nad oedd llywodraeth ranbarthol yn deall eto y ffaith y byddai’r rhan fwyaf o ffermwyr da byw yn rhoi’r gorau iddi pe b ai cymhorthdal yn cael ei ddiddymu dros nos; byddai ymateb o banig. Flynyddoedd yn ôl, roedd ffermwyr yn arfer bod yn gynilwyr i’w cadw i fynd yn ystod amseroedd caled, ond roedd hyn wedi diflannu yn ystod yr ugain mlynedd diwethaf oherwydd dibyniaeth ar gynlluniau cymorth a chwyddiant. Felly pe bai’r system wedi cael ei diddymu yn y gorffennol efallai mai’r ymateb fyddai i barhau gan ddefnyddio arian wrth gefn, ond byddai’r rhan fwyaf o ffermwyr yn rhoi’r gorau i ffermio ar unwaith bellach:


*‘Rwy’n credu mai’r gwirionedd nawr yw y byddai’r rhan fwyaf o ffermwyr yn troi’n ôl ar unwaith gan nad yw’r arian wrth gefn ganddynt. Byddent yn troi’n ôl yn syth, a pe baem ni eisiau archwilio’r syniad hwnnw yna gallech chi anfon rhywun draw i Seland Newydd wrth gwrs, i weld beth ddigwyddodd iddyn nhw pan ddiddymwyd eu systemau cymorth.’*

Roedd y fferm hon yn dangos arwyddion o fod yn agored i niwed a chadernid. Roedd yn ymddangos ei bod yn agored i niwed gan fod ganddi ddibyniaeth uchel ar y Taliad Sengl. Fodd bynnag, roedd y ffermwr yn cydnabod y ddibyniaeth hon ac roedd yn ymddangos bod y gallu ganddo i ragweld y dyfodol er mwyn mynd i’r afael â’r mater pe bai angen. Roeddent wedi arallgyfeirio i ddarparu llety, ac roeddent yn ei ehangu ac yn gosod tyrbin gwynt. Hefyd, mae’n debygol y byddent yn ymuno â Glastir.

Gwerthwyd da byw yn y farchnad leol yn Hendy-gwyn ar Daf. Caiff mewnbynnau'r fferm eu prynu'n lleol neu o rannau eraill o Gymru. O ran peiriannau, y gwariwyd llawer arnynt, roedd hyn am resymau ymarferol yn bennaf:

> *'Maen nhw i gyd yn werthwyr o Gymru fwy neu lai. Ni fyddem yn mynd allan o'r ardal; ni fyddem yn mynd allan o'r rhanbarth. Bydd y bobl rydym ni'n cyflawni busnes â nhw mor lleol â phosibl, yn bennaf am y rheswm os byddwch yn prynu gan werthwr o Loegr ac y bydd rhywbeth yn mynd o'i le, beth ydych chi'n mynd i' w wneud, rydych chi'n mynd i ffo nio ac ni fyddant yn ateb eu galwadau ffôn tra gyda hwn, gallaf i ei roi ar drelar, mynd ag ef yn ôl i fyny i Gaerfyrddin, ei adael yn y clos a dweud, mae e wedi torri, trwsiwch e. Fe werthoch chi e i mi gyda gwarant, trwsiwch e dan eich gwarant ac felly byddai'r rhan fwyaf o ffermwyr yn dweud yr un fath. Anaml iawn y byddwn yn mynd allan o'r rhanbarth i brynu peiriannau.'*

**Ffig 4.19** **Nwyddau a gwasanaethau fferm ar gyfer Fferm SW10**



**Crynodeb o'r cwadrant Effaith Uchel/Dibyniaeth Uchel**

Mae'r cyfuniad o effaith uchel a dibyniaeth uchel ar y Taliad Sengl yn gwneud y mathau hyn o ffermydd yn hynod arwyddocaol i economïau lleol o bosibl. Yn wir, mae'r ffaith bod ganddynt effaith uchel a dibyniaeth uchel yn eu gwneud hyd yn oed yn fwy arwyddocaol na ffermydd yn y cwadrant effaith uchel a llai dibynnol. Er bod rhai ffermwyr yn y cwadrant hwn yn dadlau bod y Taliad Sengl yn gymharol ddi-nod o'r safbwynt ei fod yn cynrychioli cyfran fach o drosiant y busnes, roedd y ffermydd hyn yn fusnesau mawr a byddai eu heffaith ar economïau lleol yn gyfatebol fawr. Awgrymodd ffermydd eraill yn y cwadrant bod y Taliad Sengl yn bwysig iawn i'w busnes. Fel gwarwyr cymharol uchel yn lleol, roedd y mathau o ffermydd yn y cwadrant hwn yn cael effaith uchel yn unigol ar yr economi leol. Unwaith eto, roedd yn ymddangos bod grŵp o'r mathau o fferm effaith uchel a dibyniaeth uchel hyn yn ne-orllewin Cymru. Yn sgil hynny, gallai effeithiau cronnus fod yn arwyddocaol o bosibl.

### 4.3.4 Dadansoddiad Deongliadol o Gwadrant Effaith Isel/Dibyniaeth Uchel ar y Taliad Sengl

**Ffigur 4.1 (Mapio Gwario Lleol a'r Taliad Sengl)**

Mae Tabl 4.1(d) yn dangos priodweddau'r chwe fferm yng nghwadrant Effaith Isel/Dibyniaeth Uchel ar y Taliad Sengl yn Ffigur 4.1. Darperir gwybodaeth gyd-destunol ar gyfer pob fferm ar ôl y tabl hefyd.

**Tabl 4.1(d) Priodweddau allweddol y ffermydd yng Nghwadrant Effaith Isel/Dibyniaeth Uchel ar y Taliad Sengl**

**Ffigur 4.1 (Mapio Gwario Lleol a'r Taliad Sengl)**

| | Mai-nt | Math | Deiliadaeth C1 | % o Gynhyrchu | % o'r Taliad Sengl | % o Amaeth Amg | % o Arallgyfeirio | % o Rent | % o Oddi ar y | TROSIANT C27 | Heb gymhorthdal | INCWM C30 HH |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| MW9 | B | Defaid ac Eidion | Rhent | 30 | 28 | 10 | 0 | 0 | 32 | £25k - £67k | Elw | £31k – 51k |
| NW1 | B | Defaid ac Eidion | Rhent | 25 | 25 | 45 | 5 | 0 | 0 | £68k - £99k | Colled | £15.5k - 20k |
| NW3 | BI | Eidion | Perchnogaet | 34 | 33 | 0 | 33 | 0 | 0 | Ddim yn gwybod | Mantoli | Ddim yn |
| NW4 | Can | Defaid ac Eidion | Cymysgedd | 5 | 40 | 5 | 0 | 0 | 50 | £25k - £67k | Colled | £15.5k - 20k |
| NW9 | M | Defaid ac Eidion | Rhent | 57 | 40 | 3 | 0 | 0 | 0 | £150k - £199k | Elw | Ddim yn |
| NW1 | BI | Defaid | Perchnogaet | 15 | 30 | 30 | 0 | 0 | 25 | Llai na £25k | Colled | £21k - 30k |

### Fferm CC9

Fferm fach (ESU) 72 hectar oedd hon. Roedd wedi ei rhentu. Roedd y ffermwr (45-54) yn cadw defaid ac eidion a byddai'n hoffi gwella'r pedigri yn y tymor hir - beth bynnag sy'n digwydd i'r Taliad Sengl - gan ei fod eisiau gwella gwerth ased y fferm ar gyfer pan fydd yn rhaid iddo werthu ei stoc pan fydd yn ymddeol yn ystod y 10-15 mlynedd nesaf. Y bwriad oedd gwella'r stoc ond cadw'r un system o ffermio a gwerthu i Waitrose.

Roedd tri o bobl yn y cartref; roedd un aelod o'r teulu yn gweithio'n llawn amser ac un yn rhan-amser. Roedd y wraig yn gweithio oddi ar y fferm ac wedi gwneud erioed. Roedd ei swydd yn hanfodol i incwm y cartref.

Nid oedd unrhyw gynlluniau olyniaeth. Roedd eu plant yn y brifysgol.

Roedd incwm y cartref yn deillio o'r ffynonellau canlynol: 30 y cant o gynhyrchu craidd, 10 y cant o gynlluniau amaeth-amgylcheddol, 32 y cant o gyflogaeth oddi ar y fferm, a 28 y cant o'r Taliad Sengl. Soniwyd ganddynt hefyd eu bod yn berchen ar adeiladau eraill a oedd yn cael eu rhentu allan. Fodd bynnag, nid oedd y ffynhonnell incwm hon wedi ei chynnwys yng nghyfrifiadau incwm y cartref.

Ystyriwyd mai'r Taliad Sengl oedd y ffynhonnell bwysicaf o incwm yn y dyfodol. Eu hymateb i gynnydd neu ostyngiadau posibl i'r Taliad Sengl fyddai parhau â busnes fel arfer:

*‘Wel rwy’n gwybod ei fod yn dod fel pe tai ond rwy’n, sut allaf i ddweud, gyda ffermio dros y blynyddoedd nid wyf yn disgwyl cyflog mawr. Rwy’n gwybod ei fod yn mynd i newid ac rwy’n gwybod ei fod yn mynd i ostwng, felly dyna pam, fel rwy’n dweud, yr wyf yn ceisio gwella’r stoc rhyw fymryn efallai ac yna nid wyf yn credu y bydd yn gwneud llawer o wahaniaeth i mi o ystyried fy oedran, fel pe tai, oherwydd, fel rwy’n dweud, rydym ni wedi prynu cwpl o dai a dyna ein pensiwn.’*


Roedd y fferm hon yn agored i niwed oherwydd ei dibyniaeth cymharol uchel ar y Taliad Sengl a’r ffaith y rhagwelwyd dibyniaeth barhaus. Fodd bynnag, roedd elfennau o gadernid yn bodoli o ran cynlluniau hirdymor, incwm oddi ar y fferm a oedd yn ymddangos yn ddiogel ac incwm rhent o eiddo roeddent yn berchen arno.

O ran effaith ar yr economi leol, nid oedd y fferm hon yn wariwr na chyflogwr mawr. Yn wir, roedd y ffermwr hwn yn aelod o Cadwyn Cymru Link, cyn-gylch peirannau a oedd wedi troi’n grŵp prynu cydweithredol. Roeddent yn chwilio am y prisiau gorau am fwyd anifeiliaid a gwrtaith. Mae’n debyg bod y bwyd anifeiliaid a’r gwrtaith yn dod o Stone, Swydd Stafford. Prynwyd da byw ym marchnad y Trallwng**.**

Rhagwelodd y ffermwr hwn y byddai’r strwythur cymunedol yn newid dros y degawd nesaf wrth i ffermwyr heneiddio ac nad oedd eu plant yn cymryd y ffermydd drosodd:

*‘Mae rhai bythynnod bach ac ati wedi cael eu prynu. Ni fyddwn yn dweud bod cymaint â hynny o ail gartrefi ond mae pobl yn symud i’r ardal. Rydych chi’n ymddeol neu beth bynnag ond na, mae’r ffermwr yn y rhan fwyaf o ffermydd er nad ydynt yn ffermio’r fferm mewn gwirionedd, maen nhw’n ei rhentu allan neu nid ydynt yn gwybod beth sy’n mynd i ddigwydd yn ystod y 10 mlynedd nesaf oherwydd rwy’n gallu meddwl am dri neu bedwar yn yr ardal hon sydd yn eu 70au ac mae’r 10 mlynedd nesaf yn mynd i fod yn hollbwysig gan na fyddant yn ffermio gan ei bod yn debygol na fydd canran weddol uchel ohonynt yma hyd yn oed.’*

**Ffig 4.20** **Mewnbynnau a gwasanaethau fferm ar gyfer Fferm MW9**



**Fferm GC1**

Fferm dan denantiaeth yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol oedd hon, ychydig islaw Cwm Idwal yn Nant Ffrancon, lleoliad poblogaidd i dwristiaid. Roedd yn sicr yn fferm fynydd fach (ESU) â thir clogwynog hynod serth. Roedd y safle hwn yn 321 hectar ac roedd safle arall o 120 erw. Roedd y fferm yn organig ac yn cadw amrywiaeth o wahanol anifeiliaid: defaid, gwartheg eidion, moch a geifr. Roedd yn cyflogi'r ffermwr (65 oed neu hŷn), a oedd yn byw ar ei ben ei hun, ac un gweithiwr rhan-amser. Er bod ei ferched wedi dewis gyrfaoedd eraill, roedd ganddo obeithion y byddai ei wyrion, a oedd yn dal i fod yn ifanc iawn, yn ffermio, er mwyn parhau llinach deuluol faith o ffermwyr. Yn fwy eang, fodd bynnag, dywedodd pa mor anodd oedd hi i bobl ifanc ymuno â'r byd ffermio:

> *'Yn anffodus gyda'r ffermio, mae ein pobl ifanc yn ei chael hi mor anodd yn dod o hyd i ffermydd neu ddechrau ffermio oherwydd y costau ac maen nhw bellach yn gadael ac yn mynd i ddiwydiannau eraill gan eu bod wedi gweld y trafferthion mae eu rhieni wedi eu cael yn gweithio saith diwrnod yr wythnos ac ansicrwydd cymorth y llywodraeth i amaethyddiaeth a'r prisiau yn codi a gostwng. Nid yw'n ddiwydiant y gallwch chi ddweud, iawn gallaf i aros yn y fan yma a gallai fod yn swydd am oes, yn yr un modd ag athro neu beiriannydd neu beth bynnag, neu weithiwr cyngor. Mae hi i fyny ac i lawr bob blwyddyn, onid yw?'*

Gan sylweddoli na fyddai ffermio ar ei ben ei hun yn darparu incwm digonol, roedd yn symud i drefniant aml-swyddogaeth. Gan ddefnyddio grantiau arallgyfeirio LlC, roedd wedi sefydlu bwthyn hunanddarpar, â thwb poeth, trwy ailwampio un rhan o'r ffermdy. Roedd hefyd yn cychwyn fan luniaeth i werthu ei gynnyrch a chynhyrchion organig lleol eraill, fel bara gan bobydd crefft ym Methesda, llysiau o Ynys Môn a choffi Dwyfor. Bydd hon wedi ei lleoli ar ben uchaf ei dir wrth ymyl maes parcio Cwm Idwal, gan gynnig mynediad i gwsmeriaid sy'n dwristiaid wrth iddynt adael y mynydd.

O ran ynni amgen, roedd yn datblygu cynllun ynni dŵr, mewn cydweithrediad â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, ac yn buddsoddi mewn paneli solar i gyflenwi'r twb poeth a'r ffermdy. Fel y dadleuodd, ysgogwyd llawer o'r buddsoddiad hwn mewn cynlluniau newydd gan y pwysau o golli Tir Mynydd a Thir Gofal y flwyddyn nesaf. Yn wahanol i ffermwyr eraill yn y dyffryn, roedd yn amlwg yn optimistaidd a chadarnhaol iawn.

Roedd y ffermwr hwn wedi bod yn rhan o Dir Gofal a Thir Mynydd ac roedd yn bwriadu ymuno â Glastir. Roedd cynlluniau amaeth-amgylcheddol yn ffrwd incwm bwysig:

> *'Dyna un o'r pethau y byddaf yn eu hystyried yn y Flwyddyn Newydd i siarad â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Os rwy'n mynd i ymuno â Glastir, a gofynnwyd i mi ymuno â Glastir nawr , roeddwn i'n ystyried gwneud hynny beth bynnag, ond fe wnaethon nhw ofyn i mi a oedd gen i ddiddordeb mewn mynd i'r lefel uwch, a oedd yn wych i mi ar ôl colli Tir Gofal a Thir Mynydd.'*

Roedd yn rhagweld '*gostyngiad enfawr i incwm'* pan fyddai ei Dir Gofal yn dod i ben, a dyna pam roedd yn bwriadu ymuno â Glastir a bwrw ymlaen â rhagor o arallgyfeirio.

Roedd incwm y cartref wedi ei gyfansoddi ar sail y cyfrannau canlynol: ffermio craidd, 25 y cant, arallgyfeirio, pump y cant, cynlluniau amaeth-amgylcheddol, 45 y cant ac yr ystyriwyd fel y ffynhonnell bwysicaf o incwm yn y dyfodol, a'r Taliad Sengl, 25 y cant.

*Roedd y ffermwr yn feirniadol o'r hyn* yr oedd yn cyfeirio ato fel y llwybr cymorthdaliadau:

> *'Rhedeg fferm a oedd yn fferm fynydd nodweddiadol, ransio, gwneud yr hyn roedd y llywodraeth ei eisiau a dilyn y llwybr cymorthdaliadau. Roedd yn system ffermio yn seiliedig ar gymorthdaliadau â niferoedd mawr o ddefaid yn cael eu cadw ar gyfer y taliadau mwyaf a waeth beth oedd ansawdd y defaid, ansawdd yr ŵyn, y bywyd gwyllt, roedd yn cael ei ransio ac yn gwneud llawer o arian oherwydd bod y llywodraeth yn cynnig yr abwyd.'*

Dadleuodd y gallai wedi bod yn or-ddibynnol ar gymorthdaliadau - *'ac wedi mynd yn fethdalwr pe bai'r llywodraeth wedi gwneud yr hyn a wnaethant yn Seland Newydd a chymryd y cymorthdaliadau i ffwrdd.'* Yn hytrach, roedd wedi buddsoddi mwy yn Nhir Gofal ac wedi troi'n organig er mwyn diogelu ansawdd a tharddiad ei gynnyrch fferm.

Yn gyffredinol, roedd yn ymddangos bod gan y ffermwr hwn wybodaeth dda am fusnes a ffermio, a'i fod yn gadarn. Gan werthfawrogi anawsterau gwneud bywoliaeth o ffermio yn unig, roedd yn mabwysiadu dull aml-swyddogaeth.


O ran ffermwyr a'r economi leol, dadleuodd bod ffermio yn bwysig i'r gymuned leol o safbwynt economaidd. Roedd ffermwyr yn ffordd o ddosbarthu arian drwy'r economi leol:

> *'Mae'n arbennig o bwysig, yn arbennig o bwysig ydy gan nad wyf yn derbyn yr incwm hwn gan Gynulliad Cymru, dim ond y bancer ydw i, mae'n dod i mewn ac rwy'n ei ddosbarthu, oherwydd os edrychwch chi ar fy nghyfrifon fferm nid wyf yn gwneud llawer o arian yn y pen draw. Mae'n dod i mewn ac mae'n mynd, wyddoch chi, pobl fel y mecanig a'r garej arall rwy'n ei defnyddio neu'r car, y contractwr, y trydanwyr, mae rhywun sy'n cael gwaith gan y ffermydd bob amser ac maen nhw i gyd yn lleol, nid ydym yn defnyddio unrhyw gwmnïau o'r tu allan wyddoch chi, mae'r cwbl yn bobl leol gan ein bod i gyd yn adnabod ein gilydd ac rydym ni'n chwarae pŵl yn y pentref gyda'n gilydd - mae'n braf.'*

Fel ffermwr organig, roedd prynu mewnbynnau fferm wedi ei gyfyngu i gyflenwyr penodol i raddau. Roedd llawer o'i wario yn lleol ac roedd yn defnyddio pobl leol i gynnal a chadw peiriannau ac ar gyfer llafur dros dro. Fodd bynnag, roedd weithiau'n anodd prynu bwyd anifeiliaid organig yn lleol, felly roedd yn defnyddio busnes yn Sir Benfro ac yn prynu rhai eitemau o Loegr:

> *'Roedd y llwyth olaf i mi ei brynu o High Peak, Swydd Derby. High Peak Feeds, organig unwaith eto. Wel, na, ychydig iawn sydd yma, mae gennych chi Wynnstays a c mae gennych chi CCFs, ond maen nhw i gyd yn prynu o felinau tebyg.'*

**Ffig 4.21 Nwyddau a gwasanaethau fferm ar gyfer Fferm NW1**



**Fferm GC3**

Fferm eidion a defaid draddodiadol fach iawn (ESU) oedd hon, â stoc bridio o ansawdd uchel a buches gaeedig ar y cyfan er mwyn sicrhau ansawdd. Roedd yn gorchuddio 41 hectar ac yn eiddo i deulu. Roedd y ffermwr (55-64) a'i wraig yn gweithio ar y fferm, â rhywfaint o lafur dros dro i helpu gyda'u ceffylau. Ni fu unrhyw fuddsoddiad na newidiadau sylweddol i fusnes y fferm dros y blynyddoedd, ac mae'n cael ei redeg gyda niferoedd isel o stoc a throsiant cymharol isel, â phwyslais ar ansawdd uchel:

> *'Mae gen i dda byw pedigri. Mae fy holl wartheg yn rhai pedigri, pedigri Simmental neu Eidion Du Cymreig. Mae fy holl ddefaid yn bedigri Suffolk. Rwy'n ceisio cynnal safon weddol uchel. Pan rwy'n mynd i'r farchnad, rwy'n tueddu i gael y rhai prisiau uwch, weithiau'r pris uchaf, ac mae hynny'n eithaf boddhaol, felly na nid wyf yn credu y gallaf wneud mwy na'r hyn rwyf wedi bod yn ei wneud.'*

Roedd hon yn strategaeth fwriadol â'r nod o sicrhau busnes cynaliadwy i gadw gweithwyr o'r teulu a gweithwyr lleol, ac i gynnal ansawdd y tir a'r amgylchedd. Nid oedd unrhyw ddyheadau i ehangu busnes y fferm. Roedd y fferm wedi bod yn y teulu ers cenedlaethau. Fodd bynnag, roedd plant y pâr, a oedd yn oedolion bellach, yn dilyn gyrfaoedd llwyddiannus mewn meysydd eraill. Roedd yn awyddus i'r fferm aros yn y teulu ond nid oedd ganddo unrhyw gynlluniau i ymddeol ar unwaith ac ni fyddai byth yn gadael ffermio:

> *'Mae gen i ddau ŵyr. Byddai'n braf i'r fferm barhau yn y teulu ac yn y blaen, ond nid yw hynny'n edrych yn ymarferol ar hyn o bryd. Mae gen i ddau nai ac efallai y bydd un ohonyn nhw yn cymryd drosodd. Byddaf yn gwneud popeth y gallaf i gadw'r fferm yn y teulu. Nid oes gennyf unrhyw gynlluniau i syrthio'n farw ar hyn o bryd, felly nid oes gen i unrhyw gynlluniau yn y byrdymor. Byddwn yn meddwl am yr hirdymor yn ddiweddarach.*'

Roedd gan y ffermwr ddyheadau mawr ar gyfer ochr bridio a hyfforddi ceffylau'r busnes. Roedd hwn yn fusnes rhyngwladol, â chleientiaid a stoc bridio o ansawdd uchel. O'r herwydd, nid oedd yn agored i'r perygl o orlenwi'r farchnad gan nad oedd yn cystadlu yn y farchnad hamdden marchogaeth leol. Yn wir, roedd eu ceffylau yn cystadlu mewn marchnadoedd byd-eang, yn fasnachol ac ym maes chwaraeon, ac wedi ennill sawl digwyddiad a gwobr uchel eu parch.

Er nad oedd y ffermwr hwn yn rhan o gynllun amaeth-amgylcheddol, dadleuodd ei bod yn hanfodol i'r tir gael ei ffermio mewn ffordd sy'n ystyriol o'r amgylchedd. O ran Glastir, dadleuodd bod y cynllun yn wallus:

> *'Wel, rwyf o blaid cynlluniau amaeth-amgylcheddol yn llwyr, ond rwy'n credu bod Glastir - maen nhw wedi colli eu ffordd yn llwyr yn hynny o beth. Rwy'n credu bod y rhan fwyaf o ffermwyr yn ffermio mewn ffordd ystyriol ac maen nhw yna i wella'r tir a gwneud yr hyn a allant. Mae rhai o'r cynlluniau ystyriol o'r amgylchedd hyn wedi bod braidd yn negyddol a dweud y gwir. Rwy'n credu bod angen gofalu am y tir. Mae angen agor, glanhau a draenio ffosydd, mae angen torri perthi ac yn y blaen, ac rwy'n credu eu bod wedi mynd dros ben llestri braidd o ran rhai o'r rheini. Maen nhw'n gwybod bod yr adar yn nythu o tua*

*mis Chwefror i bryd bynnag oedd hi ym mis Gorffennaf, nawr allwch chi ddim torri perth tan fis Hydref. Edrychwch ar y tywydd nawr. Rydych chi'n mynd i mewn i'r cae gyda thractor nawr ac yn dinistrio'r perthi'n llwyr, sy'n wallgof.'*

Roedd tair ffrwd y busnes ffermio hwn yn cyfrannu at incwm y cartref mewn cyfrannau cyfartal fwy neu lai: ffermio craidd defaid ac eidion, 34 y cant, arallgyfeirio (bridio a hyfforddi ceffylau), 33 y cant, a'r Taliad Sengl, 33 y cant.

Dadleuodd y ffermwr hwn bod angen diwygio'r Taliad Sengl ac, yn bwysicaf oll, ei gapio. Ar hyn o bryd, dadleuodd mai ffermydd mawr oedd yn derbyn y mwyaf ac nid oeddent ei angen gymaint â'r ffermydd llai, i'w helpu i arallgyfeirio, gan fod y cyfalaf ganddynt eisoes. Roedd y lefelau Taliad Sengl uwch i'r ffermydd mwy yn arwain at chwyddiant o ran prisiau tir ac offer hefyd, a oedd yn ei gwneud yn anoddach i ffermydd bach. Nododd bod masnachu hawliadau yn arfer cyffredin hefyd, a oedd yn gwaethygu ei rwystredigaeth â'r system Taliad Sengl gyfredol ymhellach:

*'Rwy'n credu bod y taliadau sengl yn angenrheidiol i rai o'r ffermydd llai, ond nid wyf yn credu y dylid eu capio ar ffigur fesul fferm. Dylid talu swm nominal i helpu i gadw'r ffermwyr ar y fferm ac i helpu gyda'r ffermio, ond nid wyf yn credu mai'r ffermwr mwyaf sydd â'r mwyaf o dir a'r mwyaf o anifeiliaid ddylai'r rhain fod yn y fy marn i. Mae llai o angen cymorthdaliadau arnyn nhw na'r dyn nad yw'n gallu ehangu'r ffermydd llai. Dylid ei gapio i ryw raddau. Rwy'n credu y dylai fod cymhorthdal i gadw'r fferm deuluol i fynd ac i gadw'r ffermwr ar y tir a byddwn yn credu y byddech yn gweld ffermio yn gwella'n gyffredinol pe bai strwythur cymorthdaliadau gwell.'*

Pe bai'r Taliad Sengl yn cael ei gynyddu neu ei ostwng ar gyfer eu fferm, dadleuodd na fyddai'n dymuno newid llawer, dim ond cadw digon ar gyfer ei deulu. Roedd yn uchelgeisiol o ran y ceffylau, ond nid oedd eisiau ehangu'r busnes trwy fynd ar ôl cymorthdaliadau. Roedd yn draddodiadol iawn o ran y ffordd roedd yn ffermio ar sawl lefel, ac yn cymryd balchder mewn dangos yr holl anifeiliaid ar ôl y cyfweliad. Yn gyffredinol, roedd yn bwriadu parhau â ffermio cynaliadwy lefel isel, effaith isel. Pe bai ei Daliad Sengl yn gostwng, byddai'n cynnal busnes y fferm yn hytrach na'i newid, trwy ganolbwynt mwy fyth ar ochr ceffylau'r busnes.

O ran busnes y fferm, roedd yn gwerthu gwartheg stôr ac ŵyn stôr mewn marchnadoedd lleol, ar Ynys Môn yn bennaf. Mae ochr ceffylau'r busnes wedi denu mwy o incwm ond roedd hwn yn fusnes rhyngwladol. Roedd yn gwerthu ŵyn a gwartheg stôr ar y pryd, ac roedd yn dadlau bod hwn yn opsiwn gwell na da byw gorffenedig o ystyried ei bod yn fferm fynydd. Pe bai'r Taliad Sengl yn dod i ben neu'n lleihau'n sylweddol, awgrymodd y byddai magu ŵyn hwrdd, teirw a heffrod cadw yn opsiwn posibl.


Roedd y busnes fferm hwn yn cael ei redeg mewn ffordd draddodiadol, hen ffasiwn hyd yn oed, ac nid oedd y ffermwr yn rhagweld y byddai'n gwneud newidiadau. Er bod y Taliad Sengl yn cyfrannu traean o incwm y cartref, roedd craffter busnes a llwyddiant ochr ceffylau'r busnes yn awgrymu llawer iawn o gadernid.

Dywedodd y ffermwr bod ffermio yn bwysig i'r gymuned leol, o ran cyflogaeth leol a'r economi leoli, yn enwedig twristiaeth:

*'Mae cryn dipyn o deuluoedd yn ddibynnol ac rwy'n credu yma, ym mhle rydym ni yn yr ardal hon, bod y diwydiant twristiaeth yn ddibynnol iawn ar ffermio lleol hefyd. Wel, caewyd yr holl westai pan gawsom glwy'r traed a'r genau yn 2000. Roedd Eryri gyfan wedi cau. Diflannodd y diwydiant twristiaeth oherwydd yr anhawster ym myd ffermio. Felly mae'n bwysig iawn.'*

O ran bwyd anifeiliaid a mewnbynnau fferm eraill, roedd yn well ganddo brynu'n lleol*, gan gynnwys prynu* 'cymysgedd arbennig' gan gymydog. Roedd yn pryderu am glefydau ac roedd prynu'n lleol yn sicrhau ansawdd a diogelwch.

**Ffig 4.22 Nwyddau a gwasanaethau fferm ar gyfer Fferm NW3**



**Fferm GC4**

Fferm fynydd maint canolig (ESU) yn y Parc Cenedlaethol oedd hon. Roedd y ffermwr (45-54) a'i dad (81) yn gweithio'n llawn amser ar y fferm (defaid ac eidion gymysg). Roedd wedi ymrwymo i ffermio er y caledi a'r straen; dyma yr oedd wedi eisiau ei wneud erioed. Roedd ei wraig yn nyrs ac roedd ei hincwm yn hanfodol i hyfywedd y cartref ffermio, ac wedi bod erioed. Roedd yn aelod o'r cyngor plwyf ac yn cymryd rhan fawr yn y gwaith o reoli a chytuno ar y comin, a oedd yn fater dadleuol. Roedd hefyd yn rhan o'r Undeb (FUW) ac yn cefnogi cymdogion llai a oedd yn gweithio'n rhan-amser ac angen cyngor a chymorth gyda gwaith papur. Roedd y fferm yn 122 hectar (280 erw, a 25 erw ar Ynys Môn a 30 erw wedi'u rhentu). Hefyd, roedd tir pori ar gyfer 960 o ddefaid ar y comin. Roedd ganddo 700 o famogiaid a 40 o wartheg sugno a dilynwyr. Roedd yn ddigon iddo weithio'n llawn amser ond nid oedd yn gwneud yn dda ohono. Roedd y fferm wedi'i rhentu gan stad Penbryn, ac nid oedd ganddo unrhyw gynlluniau pendant i brynu tŷ arall i ymddeol iddo. Roedd yn ymddangos ei fod eisiau parhau i weithio ar y fferm, gan ei fod wedi cael ei fagu yno. Nid oedd ganddynt unrhyw gynlluniau i arallgyfeirio na ffyrdd o ychwanegu gwerth at y cynnyrch, ond dywedodd y gallent dorri mwy yn ôl a chael gwared ar y tir rhent i ymdopi'n well. Roedd wedi bod yn rhan o Dir Cynnal a Thir Mynydd, ac roedd hefyd wedi derbyn iawndal blynyddol oherwydd Chernobyl. Nawr bod y cynlluniau hyn wedi dod i ben, roedd wedi ymuno â Glastir ond nid oedd yn credu bod rhai o'r gofynion yn gwneud llawer o synnwyr:

> *'Os byddan nhw'n dod ac yn dweud wrthyf mae'n rhaid i chi osod… deg bocs adar, deg bocs ystlumod… ym mhle mae'r adar wedi bod ers miliwn o flynyddoedd, maen nhw wedi bod yn iawn… jyst gosodwch y blydi bocs. Wyddoch chi beth rwy'n ei feddwl? Jyst gwnewch e a, a… jyst gwnewch y peth iawn a chymerwch yr arian. Ond rwy'n hoffi cadwraeth beth bynnag, mae gen i ddau focs fy hun wedi eu gosod, ond fe'u gosodais i nhw gyda'r plant flynyddoedd yn ôl, wyddoch chi? Ac rydych chi'n cadw llygad, ond mae rhai o'r pethau braidd yn wirion a dweud y gwir.'*

Roedd yn ystyried buddsoddi mewn ynni gwynt ac ynni dŵr ac roedd wedi gwneud ymholiadau ond yn disgwyl am ateb:

> *'Ie, rwy'n credu mwy… mwy o gyngor. Yr hyn roeddwn i'n meddwl amdano, un o'r pethau yr hoffwn ei wneud yw un ai ynni'r gwynt neu ynni'r dŵr , a dweud y gwir wrthych, rhywbeth felly, wyddoch chi? Ond nid oes unrhyw un wedi dod yn ôl eto. Mae'n werth ei ystyried, wyddoch chi? Ie, byddai hynny'n ddelfrydol, rhywbeth a fyddai'n dod ag arian i mewn beth bynnag. Byddwn i yn y ffenest yn gwylio a oedd y gwynt yn chwythu a… mae'n rhywbeth sy'n werth ei ystyried.'*

Gan fod nifer o chwareli yn yr ardal, nid oedd yn rhagweld gwrthwynebiadau cynllunio i dyrbin gwynt.

Er nad oedd unrhyw gynlluniau uniongyrchol i'r genhedlaeth nesaf olynu, roedd eu plant, sy'n oedolion, wedi gadael ac yn dilyn gyrfaoedd eraill, roedd y ffermwr yn gobeithio y byddai ei wyrion a'i wyresau yn cymryd y fferm drosodd:

*‘Ond mae’n debyg y byddaf yn cael fy ngorfodi i fynd mewn ffordd, gan na wnaf aros yma a gadael i’r lle syrthio’n ddarnau o’m cwmpas chwaith. Oni bai fod un o’r plant yma a chwpl o’r efeilliaid a ddaeth ychydig wythnosau yn ôl, ein hwyrion a’n hwyresau, felly wyddoch chi fyth, na wyddoch?’*

Roedd incwm y cartref yn deillio o’r canlynol: busnes craidd y fferm, pump y cant, cynlluniau amaeth-amgylcheddol, pump y cant, cyflogaeth oddi ar y fferm, 50 y cant a’r Taliad Sengl, 40 y cant.

Dywedodd bod y taliad Sengl mor bwysig iddo, ac eraill, a’u bod yn poeni gymaint am gydymffurfiad ei fod wedi creu ‘diwylliant o ofn’:

*‘Mae’r diwylliant yma gennych chi, mae’r Taliad Sengl yma mor bwysig, ac rydych chi’n meddwl… o na, arolygiad. Mae pawb yr un fath. Mae pawb yn ofn y blydi arolygiadau. Pob un ohonom ni. Wyddoch chi, a ydych chi wedi gwneud hyn, a ydych chi wedi gwneud y llall? Ar fy enaid i… rydych chi’n byw mewn diwylliant o ofn mewn ffordd, wyddoch hi, wir yr. Wel, dyna sut mae hi. Mae’n ffaith, mae’n ffaith, onid yw?’*

Roedd eisoes yn chwilio am ffyrdd o wneud toriadau, pe bai’r Taliad Sengl yn cael ei ostwng, fel y gallai barhau â ‘busnes fel arfer’. Y bwriad oedd parhau fel yr oeddent am gyhyd ag y gallent, trwy wneud toriadau yn ôl y gofyn:

*‘Byddaf yn parhau i weithio cyhyd ag y gallaf, fel fy nhad nawr ei fod yn 81. Fi sy’n gwneud y rhan fwyaf o’r gwaith. Ond gawn ni weld sut aiff hi, gweld sut aiff hi. Batno’r hatsys oedd y syniad yn ystod y ddwy flynedd nesaf, rwy’n credu, os bydd pethau’n mynd yn ôl y disgwyl, cadw pethau’n dyn a bwrw ymlaen.’*

Dywedodd pa mor agos roedd llawer o ffermydd yn yr ardal i fynd i’r wal:

*‘Ond dyma roeddwn i eisiau ei wneud erioed ac roedd e bob amser yno, wyddoch chi? Nid wyf yn gwybod a yw’n gwneud synnwyr a dweud y gwir ond… os ydych chi wedi dod i mewn fel cyfrifydd neu rywbeth - mae e wedi dweud wrthyf am ei heglu hi, wyddoch chi? Ond ar y llaw arall nawr, nid wyf ar y clwt, nid wyf mewn dyled, nid oes gen i forgais, nid oes arnaf i geiniog i unrhyw un felly mae’n… wyddoch chi, rydw i lle’r oeddwn i eisiau bod fwy neu lai, wyddoch chi? Wrth gwrs, byddem ni’n hoffi cael mwy, ac rwy’n poeni dipyn am y blydi peth yma, ond… wn i ddim, mae llawer o bobl yn waeth eu byd. Y ddau ohonom ni, wyddoch chi beth rwy’n ei feddwl, mae’n… ond cyn belled ag y mae hyfywedd yn y cwestiwn, mae llawer o’r ffermydd hyn yn agos i’r llinell, wyddoch chi? Yn agos iawn i’r llinell.’*


Hefyd, gan fod pobl sy’n derbyn cymorthdaliadau mawr yn cyflwyno tendrau gormodol pan ddaeth tir ar gael, roedd rhenti’n cael eu diwygio a’u codi’n barhaus.

Roedd yn ymddangos bod y fferm hon yn agored i niwed. Roedd incwm oddi ar y fferm wedi bod yn elfen hanfodol o incwm y cartref erioed, tra bod busnes y fferm ei hun yn gwneud colled. I raddau helaeth, llwyddodd i barhau trwy gyfuniad o incwm oddi ar y fferm, taliadau amaeth-amgylcheddol a’r Taliad Sengl.. Nid oedd unrhyw gynlluniau i arallgyfeirio, er bod y ffermwr yn ymchwilio i fuddsoddi

mewn ynni gwynt a dŵr. Wedi'u gyrru gan synnwyr o le a diwylliant, roedd penderfyniad i wneud toriadau a pharhau â 'busnes fel arfer.'

Roedd yn amwys o ran ffermio a'r economi leol. Dadleuodd bod ffermio yn bwysig i'r dirwedd, a oedd yn helpu'r gymuned yn ei dro, a'r economi leol o ran yr hyn y mae ffermwyr yn ei wario. Ond nid oedd yn siŵr am werth uniongyrchol ffermio i'r gymuned a'r economi leol. Prynwyd y rhan fwyaf o fewnbynnau'r fferm yn lleol.

**Ffig 4.23** **Nwyddau a gwasanaethau fferm ar gyfer Fferm NW4**



**Fferm GC9**

Roedd y fferm yn fferm ddefaid fynydd fawr (ESU), â hawliau pori ar Gomin Llanllechid. Mae'n debyg, yn ôl yr hyn a nodwyd gan bobl eraill a gyfwelwyd, y gallai hwn fod yn drefniant a fyddai'n peri problemau. Roedd yn cael ei rhedeg gan ffermwr sengl (55-64) yn byw gyda'i dad a'i chwaer, ac roedd wedi'i rhentu. Roedd y fferm, a oedd yn 162 hectar, wedi bod yn rhan o fusnes fferm mwy gyda'i ddau frawd a'u teuluoedd. Ond roedden nhw ar wahanol ddaliad ac roedd wedi penderfynu gwahanu'r busnes yn dilyn anghydfod. Roedd y teulu'n arfer rhedeg busnes godro, ond roeddent wedi gwerthu'r gwartheg. Roedd ganddo system bellach o reoli'r defaid ar y mynydd ac yna dod â nhw i mewn i siediau a'u bwydo yn ystod y gaeaf. Roedd yn cadw bridiau traddodiadol ac roedd yn ymddangos yn fodlon â hyn yn hytrach na cheisio arallgyfeirio neu gychwyn mentrau busnes newydd. Roedd gŵr lleol arall yn gweithio'n llawn amser ar y fferm hefyd. Nid oedd unrhyw ffynonellau o incwm oddi ar y fferm, er nad oedd yn eglur beth oedd ei chwaer yn ei wneud fel gwaith a faint roedd yn ei gyfrannu at y cartref. Roedd y fferm yn ei enw ef ac enw ei dad ac nid oedd unrhyw gynlluniau ar gyfer olyniaeth.

Nid oedd wedi arallgyfeirio, ac roedd yn well ganddo ganolbwyntio ar ei fusnes defaid craidd. Hefyd, dadleuodd y byddai arallgyfeirio i sefydlu busnes gwely a brecwast yn golygu cyflogi mwy o weithwyr a bod perygl o orlenwi'r farchnad yn hyn o beth:

> *'Os ydych chi'n mynd i mewn i rywbeth ac mae rhywun arall yn gwneud hynny, wel iawn, ond rydych chi'n rhoi ychydig mwy o bwysau fel ein cymdogion sy'n rhedeg busnes gwely a brecwast. Y mwyaf o bobl sydd â busnes gwely a brecwast yn yr ardal y lleiaf mae pobl yn ei wneud, wyddoch chi.  Os bydd rhywun yn dod o hyd i rywbeth maen nhw'n ei wneud yn dda, ac yna'n sydyn rydych chi'n cael llawer o bobl yn rhedeg at hynny, nid yw hynny'n dda. Gofalu am ddefaid yw'r hyn rwy'n ei ddeall felly mae'n rhaid i chi wneud yr hyn rydych chi'n dda am ei wneud ac mae'n cymryd amser o ran y ffordd rwy'n gofalu amdanyn nhw. Felly mae'n bosibl y byddai'n rhaid i mi gyflogi rhywun arall pe bawn i'n arallgyfeirio.'*

Roedd wedi bod yn rhan o Dir Mynydd a Thir Cynnal ond nid oedd yn bwriadu ymuno â Glastir. Dadleuodd bod gormod o gyfyngiadau ac roedd yn ofn methu â chydymffurfio â nhw rhag ofn iddo gael ei gosbi'n drwm:

> *'Ydw o bosibl, efallai fy mod i'n poeni gormod ond nid wyf yn hoffi ymuno â rhywbeth yr wyf yn gwybod y byddaf yn cael fy nghosbi, ond efallai y byddai'n well yn y pen draw i mi gymryd yr arian gyda'r cosbau, mae'n well na dim, ond yna mae'n teimlo fel beirniadaeth o'ch cymeriad os cewch eich cosbi.'*

Roedd y fferm hefyd yn dadlau nad oedd y rheoliadau a'r diffiniadau gan y llywodraeth o ran yr amgylchedd yn eglur. Ac nad oedd amcanion a dyheadau cynlluniau amgylcheddol wedi eu cyfathrebu'n eglur.


Roedd incwm y cartref yn dod o fusnes craidd y fferm, 57 y cant, cynlluniau amaeth-amgylcheddol, tri y cant, a'r Taliad Sengl, 40 y cant.

Ei frawd oedd wedi ymdrin â’r Taliad Sengl hyd yn hyn. Nawr y byddai busnes y fferm yn rhannu, nid oedd yn sicr faint o Daliad Sengl fyddai ei fferm yn ei dderbyn. Yn ei hanfod, ei ymateb i unrhyw newidiadau i’r Taliad Sengl fyddai parhau â busnes fel arfer ac addasu graddfa ei ffermio yn unol â’r cynnydd neu’r gostyngiad.

Roedd y fferm ar bwynt arbennig o agored i niwed. Roedd rhaniad busnes chwerw wrthi’n digwydd ac nid oedd y ffermwr yn sicr faint o Daliad Sengl roedd yn ei dderbyn ar hyn o bryd na faint y byddai’n ei dderbyn yn y dyfodol. Roedd yn ymddangos bod y Taliad Sengl yn gyfran fawr o incwm y cartref. Gan nad oedd unrhyw incwm oddi ar y fferm, cynlluniau ar gyfer arallgyfeirio nac ynni amgen, ac nad oedd cynlluniau ar gyfer olyniaeth i fferm wedi’i rhentu, roedd yn ymddangos bod busnes y fferm, fel yr oedd, yn agored i niwed.

Roedd y fferm yn prynu’r rhan fwyaf o’i mewnbynnau yn lleol.

**Ffig 4.24** **Nwyddau a gwasanaethau fferm ar gyfer Fferm NW9**



**Fferm GC11**

Fferm ddefaid fach iawn (ESU) oedd hon, a oedd hefyd ag arwynebedd bach o naw hectar. Roedd yn eiddo i bâr wedi ymddeol a symudodd i'r ardal dros 30 mlynedd yn ôl, a'u merch, ac yn cael ei rhedeg yn rhan-amser ganddynt. Prynwyd y safle ganddynt ym 1979, pan roedd yn lled-ddiffaith a bu'n rhaid iddynt ail-stocio'r tir. Roedd cynlluniau olyniaeth ar waith ar gyfer eu merch (33).

Roedd y fferm yn cael ei rhedeg ochr yn ochr â busnes hyfforddiant addysg awyr agored arbenigol llawn amser i'r gwasanaeth tân a gwasanaethau brys eraill. Roedd y pâr wedi gwerthu'r busnes hwn yn 2008, ond roedd eu 15 o weithwyr cyflogedig yn dal i fod gyda'r busnes. Mae'n debyg ei fod yn gwneud elw da a'i fod yn unigryw yn yr ardal (o ystyried yr elfen arbenigol a'r contractau oedd ganddynt â gwahanol ddarparwyr gwasanaeth). Roedd y ddau wedi eu hyfforddi ac wedi gweithio mewn meysydd y tu allan i ffermio: roedd y sawl a gyfwelwyd (65 neu hŷn) yn beiriannydd a chanddo brofiad ym myd busnes. Fodd bynnag, roedd yn dod o deulu ffermio ym Mannau Brycheiniog ac roedd ganddo ymlyniad i ffermio. Roeddent yn ymwneud llawer â threfniadau busnes a mentrau cymunedol lleol eraill: fel rhwydwaith band eang o'r enw rhwydwaith Gaia, yr oedd y mast ar ei gyfer wedi ei leoli ar eu tir.

O safbwynt ffermio, nid oeddent wedi arallgyfeirio ac roeddent yn dadlau bod y ddeddfwriaeth gyfredol yn ymwneud ag arallgyfeirio yn feichus. Ac roedd awdurdod y Parc Cenedlaethol yn tueddu i arafu pethau ar adegau. Roedd angen i hyn newid er mwyn meithrin mwy o entrepreneuriaeth. O ran ynni amgen, roeddent wedi bod eisiau gosod tyrbin gwynt, ond roedd y Parc Cenedlaethol wedi atal hyn. Roeddent yn bwriadu gwneud cais arall. Fel peiriannydd hyfforddedig, roedd hefyd wedi datblygu cynlluniau ar gyfer tŷ ynni isel. Roeddent wedi bod yn rhan o Dir Mynydd, ac roeddent o'r farn bod hwn yn syml iawn ac yn dda i ffermwyr, tan iddo ddod i ben.

Roedd incwm y cartref yn deillio o'r ffynonellau canlynol: ffermio, 15 y cant, cynlluniau amaeth-amgylcheddol, 30 y cant, incymau oddi ar y fferm, 25 y cant a'r Taliad Sengl, 30 y cant.


Roedd y pâr yn bwriadu ymddeol beth bynnag ac roedd yn ymddangos bod hyn, ynghyd â'r angen i gynnal gwerth asedau'r fferm (ansawdd y tir), yn llywio eu cynlluniau mwy nag unrhyw newidiadau i gymorthdaliadau. Roeddent wedi gostwng nifer y defaid ar eu tir ac wedi gwerthu 34 erw gyda'u busnes yn 2008, felly dim ond 20 erw oedd ganddynt bellach, gan gynnwys y tir comin lle'r oedd ganddynt hawliau pori ar gyfer 250 o anifeiliaid. Y cwbl roeddent yn ei wneud oedd ceisio cynnal ansawdd y tir tan iddynt ei werthu ar ôl iddynt ymddeol yn llawn. Beth bynnag sy'n digwydd gyda'r Taliad Sengl, ni fyddent yn dad-stocio ymhellach gan y byddai'n gwaethygu ansawdd y tir. Pe bai'r Taliad Sengl yn cynyddu byddent yn cynyddu i 100 o ddefaid a byddent yn hoffi buddsoddi mewn rhai mentrau eraill - fel manwerthu bwyd crefft gan ddefnyddio un o'u hadeiladau, yr oeddent wedi eu hadeiladu'n benodol i'r fanyleb gywir ar gyfer trin a pharatoi bwyd, a sgiliau ffrindiau sydd ganddynt yn yr ardal sydd wedi sefydlu eisoes: e.e. pobydd ym Methesda oedd eisiau ehangu.

O ran y Taliad Sengl, awgrymodd y ffermwr bod llawer o ffermwyr yn anffodus yn gwireddu eu henw am geisio cael rhywbeth am ddim, peidio â gwneud eu rhan ac, o'r safbwynt gwaethaf, yn godro cymorthdaliadau. Roedd yn credu bod hyn yn siom – ond yn bedant yn wir.

Gan mai ffermwyr hobi oedd y rhain yn eu hanfod, nad oeddent yn dibynnu ar y fferm, yr oedd ganddynt gynlluniau ar gyfer ymddeol a thu hwnt ac incymau oddi ar y fferm, roeddent yn gadarn. Fel awgrym o faint o arian oedd yn mynd i mewn i ffermio a pha mor aml-swyddogaeth oedd y ffermio, nododd nad oedd unrhyw un â llai na 70-80 erw yn gweithio'n llawn amser ar eu fferm. Roedd gan yr holl bobl hyn swyddi eraill yn yr ardal leol, contractio yn aml, ond amrywiaeth o weithgareddau. Dadleuodd hefyd bod olyniaeth yn creu problemau gan fod yn rhaid i ddau fab rannu'r fferm wedyn ac roedd yn tueddu i gael ei rannu'n unedau llai a chynyddol anymarferol o ran cynnal teulu.

Prynwyd mewnbynnau'r fferm yn lleol er cyfleustod er bod prisiau yn tueddu i fod yn uchel.

**Ffig 4.25 Nwyddau a gwasanaethau fferm ar gyfer Fferm NW11**




**Crynodeb o’r cwadrant Effaith Isel/Dibyniaeth Uchel**

Ac eithrio fferm MW9, roedd y ffermydd yn y cwadrant hwn yng ngogledd-orllewin Cymru. Roeddent oll yn ffermydd mynydd defaid neu ddefaid ac eidion ac yn tueddu i fod yn fach neu’n fach iawn. Fel ffermydd bach, nid oedd gwerth eu mewnbynnau fferm yn fawr. Unwaith eto, fodd bynnag, ceir effeithiau cronnus posibl ar yr economi leol Unwaith eto, fodd bynnag, ceir effeithiau cronnus posibl ar yr economi leol gan grwpiau o ffermydd o’r un math.

### 4.3.5 Dadansoddiad Deongliadol o batrymau Incwm Ffermydd yn ôl Ardal Ddaearyddol

I gwblhau’r dadansoddiad deongliadol hwn, mae’r diagramau rhosyn isod yn dangos o le’r oedd yr incwm ar gyfer y ffermydd ym mhob un o’r tair ardal ddaearyddol (canolbarth Cymru, de-orllewin Cymru a gogledd-orllewin Cymru) yn deillio. Dangosir yr allwedd ar gyfer y diagramau hyn hefyd.

**Allwedd i'r Diagramau Incwm**





X= Ardal Achos (Incwm) (e.e. Ardal y De-orllewin)

Adain yr olwyn = Ardal o Deipoleg Incwm (e.e. Prosesydd Bwyd)

Lleoliad y cylch o ganol y cylch = Pellter y gwasanaeth o'r fferm (mae'r cylch mewnol yn lleol, y cylch canol yn cynrychioli rhannau eraill o Gymru a'r cylch allanol yn cynrychioli y tu allan yn y DU)


Maint y cylch = Gwariant neu Incwm yn y lleoliad hwnnw

**Ffig 4.26** **Incwm ar gyfer ffermydd yn Ne-orllewin Cymru**





Mae'r diagram yn amlygu goruchafiaeth cynhyrchedd amaethyddol ar ffurf ffermio godro yn yr ardal hon. Mae'n dangos bod y mwyafrif llethol o incymau yn deillio o werthu llaeth. Gan fod incymau o gynlluniau amaeth-amgylcheddol yn deillio o'r llywodraeth, h.y. nid oeddent wedi eu sefydlogi'n ofodol, fe'u rhoddir y tu allan i'r diagram a dangosir eu maint yn unig.

**Ffig 4.27** **Incwm ar gyfer ffermydd yng Ngogledd-orllewin Cymru**




Mae’r diagram yn dangos bod y rhan fwyaf o incymau ffermwyr yn y gogledd-orllewin yn deillio o dda byw ( gwerthu, lladd a gwlân), cynlluniau amaeth-amgylcheddol a gweithgareddau arallgyfeirio.

**Ffig 4.28** **Incwm ar gyfer ffermydd yng nghanolbarth Cymru**




Fel y gellid disgwyl o ardal ffermio fwy cymysg, roedd incymau ffermwyr yng nghanolbarth Cymru yn deillio o amrywiaeth eang o ffynonellau. Roedd incwm o gynlluniau amaeth-amgylcheddol yn tueddu i fod yn is yn yr ardal hon.

#### 4.3.6 Crynodeb Cyffredinol o’r Dadansoddiad Deongliadol

Mae Tabl 4.2 yn crynhoi’r effeithiau posibl ar wario lleol, gan gymryd pob cwadrant o Ffig 4.1 yn ei dro:

**Tabl 4.2 Effeithiau Posibl ar wario lleol**

| Cwadrant | Nodweddion | Effaith bosibl ar wario lleol | Yr ardal yr effeithir arni fwyaf |
|---|---|---|---|
| De uchaf | Llai o ddibyniaeth ar y Taliad Sengl/Gwario uwch | Parhau ar yr un gyfradd | Y de-orllewin |
| Chwith uchaf | Llai o ddibyniaeth ar y Taliad Sengl/Gwario is | Parhau ar yr un gyfradd ond maent yn gwario llai | Canolbarth Cymru |
| Chwith isaf | Mwy o ddibyniaeth ar y Taliad Sengl/Gwario is | Effaith ond maent yn gwario llai | Y gogledd-orllewin |
| De isaf | Mwy o ddibyniaeth ar y Taliad Sengl/Gwario uwch | Effaith fawr bosibl wrth iddynt wario mwy | Y gogledd-orllewin<br>Y de-orllewin<br>Canolbarth Cymru |

Ceir pedair elfen i’r dadansoddiad hwn o batrymau prynu a gwerthu ffermydd. Yn gyntaf, mae Ffig 4.1 yn blot neu gynrychiolaeth anofodol. Mae’r ffigur yn dangos cwadrantau: effaith economaidd isel a dibyniaeth isel ar y Taliad Sengl; effaith uchel a dibyniaeth isel ar y Taliad Sengl; effaith uchel a dibyniaeth uchel ar y Taliad Sengl; ac effaith isel a dibyniaeth uchel ar y Taliad Sengl. Tynnir pob fferm unigol yn y tair ardal ddaearyddol o’i lleoliad gofodol ac fe’i rhoddir yn un o’r cwadrantau yn ôl ei dibyniaeth ar y Taliad Sengl ac effaith economaidd bosibl y fferm ar yr ardal leol. Yn ail, ceir diagramau rhosyn ar gyfer pob fferm yn dangos faint sy’n cael ei wario ar fewnbynnau fferm a phellter ffynonellau’r mewnbynnau hyn oddi wrth y fferm. Yn drydydd, mae testun sy’n gysylltiedig â phob fferm yn dehongli ei lleoliad yng nghwadrantau Ffig 4.1. Caiff y testunau hyn eu llunio o ddata holiaduron a data chyfweliadau ac arsylwadau. Yn olaf, gan ddychwelyd i ddull gofodol, ceir diagramau rhosyn ar gyfer pob un o’r tair ardal ddaearyddol (de-orllewin Cymru, canolbarth Cymru a gogledd-orllewin Cymru) yn dangos maint incymau ac o ble roedd incymau’r ffermydd yn yr ardaloedd hyn yn deillio.

Mae’r dadansoddiad yn cynnig gwybodaeth am sut y mae’r ffermydd a’r cartrefi hyn yn gweithredu. Er enghraifft, pwysigrwydd cymharol y ffynonellau sy’n ffurfio incwm y cartref; sut fyddai ffermwyr yn ymateb i’r newidiadau posibl a ragwelir i’r Taliad Sengl; eu

barn ar arallgyfeirio, ynni amgen a chynlluniau amaeth-amgylcheddol; eu perthynas â'r economi leol; eu cynlluniau olyniaeth; taflwybr y fferm; a'u cynlluniau mwy hirdymor. Daethpwyd i gasgliad am gadernid y cartref ffermio a pha mor agored yw i niwed o'r data hwn.

O ran effaith economaidd, tra'n nodi'r cafeat bod hwn yn sampl cymharol fach, mae'r dadansoddiad yn dangos bod tueddiad i fathau o ffermydd ffurfio grwpiau: yn enwedig ffermydd godro yn y de-orllewin a ffermydd defaid ac eidion mynydd llai yng ngogledd-orllewin Cymru. Felly, un goblygiad pwysig yw er y gallai rhai ffermydd ar eu pen eu hunain gael effaith isel ar yr economi leol, gallai'r effaith fod yn sylweddol o'u hystyried gyda'i gilydd fel grŵp. Lle ceir grwpiau o ffermydd sy'n warwyr mwy yn unigol, ynghyd â rhai sydd â dibyniaeth uchel ar y Taliad Sengl, fel y sector odro sydd flaenaf yn y de-orllewin, gallai effeithiau newidiadau i'r Taliad Sengl gael eu chwyddo'n sylweddol.

**Adran Pump Dadansoddiad o'r Cyfweliadau Manwl**

## 5.1 Cyflwyniad

Fel y trafodwyd yn y Crynodeb i Adran Pump o'r Adroddiad ar Gamau Un a Dau, cadarnhaodd gor-samplu o'r tair ardal ddaearyddol yn fras nifer uchel o rai mathau disgwyliedig o ffermydd ym mhob ardal: hynny yw, roedd y de-orllewin yn tueddu i fod yn ffermydd llaeth; roedd gan y gogledd-orllewin fwy o ffermydd defaid a ffermydd defaid ac eidion; ac roedd gan ganolbarth Cymru fwy o ffermydd cymysg. Fodd bynnag, ni wnaeth gor-samplu ddatgelu gwahaniaethau sylweddol rhwng y tair ardal na rhyngddynt hwy â sampl y prif arolwg. O ganlyniad, yn hytrach nag ymagwedd seiliedig ar ardal, mae'r dadansoddiad ansoddol hwn o'r cyfweliadau manwl yn cymryd ymagwedd thematig ar draws pob un o'r 30 o gyfweliadau. Lle y bo'n briodol, gwneir cyfeiriadau at ardaloedd daearyddol unigol. Mae'n bwysig gwerthfawrogi er na ellir cyffredinoli dadansoddiad ansoddol, o ystyried bod pob ffermwyr y cyfwelwyd ag ef mewn sefyllfa unigryw gyda barn bersonol, a oedd yn aml yn oddrychol ac weithiau'n benodol i'r hyn a oedd yn digwydd yn lleol, gall y dadansoddiad roi dealltwriaeth o'r hyn y mae cyfranogwyr mewn proses, sef ffermio yn yr achos hwn, yn ei feddwl am faterion sy'n bwysig i'r broses honno.

Yn ogystal â'r cyfweliadau manwl â ffermwyr, fel y trafodwyd yn Adran 2.2, roedd ymchwilwyr yn gallu cael cyfweliad â busnes sy'n gweithredu marchnadoedd da byw yn ne-orllewin Cymru. Gellir gweld yr amserlen gyfweld ar gyfer y cyfweliad hwn yn Atodiad Pedwar. Mae ymatebion o'r cyfweliad hwn wedi'u hintegreiddio â'r dadansoddiad.

## 5.2 Y dadansoddiad

Cyflwynir y dadansoddiad ar ffurf naratif o dan y penawdau canlynol: barn ar ddiwygio'r PAC, ffermio a'r economi leol, ffermio a'r gymuned, taflwybrau fferm, sy'n cynnwys ffermydd llaeth fel categori unigryw o fferm, incwm oddi ar y fferm, olyniaeth, arallgyfeirio, ynni amgen, cynlluniau amaeth-amgylcheddol, cymorth; a rhai sylwadau cyffredinol pwysig yn ymwneud â phrisiau tir a diogelu'r cyflenwad bwyd. Ceir, wrth gwrs, orgyffwrdd rhwng themâu. Mae'r naratif wedi'i ddangos gan ddyfyniadau o'r cyfweliadau manwl.

### 5.2.1 Barn ar ddiwygio'r PAC

O ystyried mai diwygio'r PAC ar ôl 2013 oedd diben bodolaeth y prosiect ymchwil hwn, mae'n ddefnyddiol dechrau'r naratif drwy archwilio beth oedd canfyddiad cyfweleion o gymorthdaliadau'r PAC ac, yn arbennig, y newidiadau posibl i'w Taliad Sengl. Gwnaeth y ffermwr ar fferm ganolig, ddefaid ac eidion yn ne-orllewin Cymru achos ar gyfer cymorthdaliadau. [2] Dadleuodd nad oedd cymorthdaliadau ar gyfer y ffermwr ond ar gyfer y defnyddiwr bwyd a'r tir. Y ffermwr sy'n cynnal a chadw'r tir fel ei fod yn edrych yn ddeniadol i'r rhai sy'n dod i'r ardal. Honnodd pe na bai'r ffermydd yn cael cymhorthdal byddai'r arian yn gorfod mynd i asiantaethau eraill i ofalu am y tir, oherwydd ni allai ffermwyr fforddio cynhyrchu bwyd ac amgylchedd heb gymorthdaliadau:

> *'Y ffaith y gallant edrych allan a gweld caeau sy'n cael eu rheoli ac nad ydynt yn llawn tafol, ysgall a danadl. Mae gennym hen ffotograff a dynnwyd yma, yn y 1920au siŵr o fod a phrysgwydd yn unig oedd y fferm hon, dim ond tŷ, yng nghanol prysgwydd yng nghanol y tir comin ac edrychwch o amgylch yma. Mae pobl wedi gweithio'n galed, maent wedi trin y tir, tyfu bwyd ar gyfer y wlad, maent wedi tyfu,*

2

*gofalu amdano fel bod pobl am ddod i'w weld. Mae nifer o bobl yn dod yma ar ddiwrnod braf o haf - dim ond i eistedd a gweld y golygfeydd heb draffig - dim byd chi'n gwybod. Nawr rhaid i rywun dalu am hyn. Os nad ydym yn cael ein talu drwy gymorthdaliadau bydd rhaid talu rhywun arall i ofalu amdano oherwydd ni allwn ni wneud popeth. Ni allwn gynhyrchu bwyd, ni allwn edrych ar ôl yr amgylchedd. Yr holl bethau hyn rydym yn gofalu amdanynt - dim taliadau, dim amgylchedd.'*

(De-orllewin Cymru C – canolig, defaid ac eidion)

Gan ategu rhai o'r teimladau uchod, pwysleisiodd y ffermwr hwn yng ngogledd-orllewin Cymru ei bod yn bwysig annog ffermwyr i gynnal a chadw'r tir yn gynhyrchiol yn hytrach na thalu ffermwyr i'w adael i fynd yn wyllt, fel yr oedd yn ymddangos bod rhai yn ei wneud. Roedd yn bryderus y byddai'r diwygiadau i'r PAC yn annog hyn:

*'Ni ddylen nhw dalu'r ffermwyr gweithredol dylen nhw? Ond maent yn gosod y tir ac yn cymryd yr arian. O mae llawer o bobl sy'n gweithio'r system, chi'n gwybod. Maen nhw'n prynu'r hawliau drud onid ydyn nhw?'*

(Gogledd-orllewin Cymru F – Mawr, defaid ac eidion)

Er bod y ffermwr hwn yng ngogledd-orllewin Cymru o blaid y taliad sengl, dadleuodd y dylid talu symiau mwy i ffermydd llai, teuluol yn hytrach nag i ffermydd mwy. Dadleuodd ymhellach fod angen diwygio'r taliad sengl ac, yn bwysig, capio. Ar hyn o bryd, nododd, roedd y ffermydd mawr yn cael y mwyaf ac nid oedd ei angen arnynt cymaint â'r ffermydd llai, i'w helpu i arallgyfeirio, oherwydd bod ganddynt y cyfalaf eisoes. Roedd y lefelau Taliad Sengl uwch i'r ffermydd mwy yn arwain at chwyddiant o ran prisiau tir ac offer hefyd, a oedd yn ei gwneud yn anoddach i ffermydd bach. Nododd bod masnachu hawliadau yn arfer cyffredin hefyd, a oedd yn gwaethygu ei rwystredigaeth â'r system Taliad Sengl gyfredol ymhellach:

*'Rwy'n credu bod y taliadau sengl yn angenrheidiol i rai o'r ffermydd llai, ond nid wyf yn credu y dylid eu capio ar ffigur fesul fferm. Dylid talu swm nominal i helpu i gadw'r ffermwyr ar y fferm ac i helpu gyda'r ffermio, ond nid wyf yn credu mai'r ffermwr mwyaf sydd â'r mwyaf o dir a'r mwyaf o anifeiliaid ddylai'r rhain fod yn y fy marn i. Mae llai o angen cymorthdaliadau arnyn nhw na'r dyn nad yw'n gallu ehangu'r ffermydd llai. Dylid ei gapio i ryw raddau. Rwy'n credu y dylai fod cymhorthdal i gadw'r fferm deuluol i fynd ac i gadw'r ffermwr ar y tir a byddwn yn credu y byddech yn gweld ffermio yn gwella'n gyffredinol pe bai strwythur cymorthdaliadau gwell.'*

(Gogledd-orllewin Cymru C – bach iawn, defaid ac eidion)

Roedd ffermwyr eraill hefyd yn feirniadol o gymorthdaliadau gan ddadlau eu bod yn niweidiol i ffermio. Roedd tair agwedd ar y dadleuon hyn.

Y gyntaf, a fynegwyd gan ffermwr â fferm laeth fawr iawn (Canolbarth Cymru – H), oedd bod y taliad sengl yn cael ei gyfalafu i bryniadau tir, yn enwedig gan ffermwyr mynydd gyda thaliadau Ardal Lai Ffafriol [ALFf]. Un canlyniad negyddol o hyn oedd ehangu daliadau, gyda phobl yn prynu parseli o dir ymhellach ac ymhellach i ffwrdd oddi wrth eu prif ddaliad. Rhoddodd sawl ffermwr arall enghreifftiau o'r taliad sengl yn cael ei gyfalafu i bryniadau tir ac, yn eironig, nodwyd mai ffermydd llaeth oedd y prif dramgwyddwyr; caiff y materion penodol yn ymwneud â ffermydd llaeth eu trafod yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn.

Cafodd y dadleuon bod y taliad sengl yn cael ei gyfalafu i bryniadau tir a gwerthoedd tir cynyddol eu hategu gan yr arwerthwr hwn, a roddodd ddwy enghraifft:

*‘Rhaid i mi ddweud bod y Taliad Sengl ynghyd â chyfraddau llog wedi cynyddu gwerth y tir-mae'n debygol ei fod wedi cynyddu 50 y cant o gymharu â phedair neu bum mlynedd yn ôl. Rwy'n gwerthu tir am £8000 yr erw yn awr. Bedair blynedd yn ôl, ni fyddwn wedi dweud £5000. Er enghraifft, es i weld bloc o dir ddydd Iau. Mae yna 50 erw, rwy'n debygol o'i werthu am swm fydd yn agosach at £400000 na £300000. Ac rydych yn gwybod bod gennyf siŵr o fod pum neu chwe fferm yn yr ardal honno sy'n ceisio ehangu.’*

*‘Mae gennyf un ffermwr ac mae'n berchen ar 250 erw, roedd wedi bod yn rhentu drws nesaf, a oedd yn 180 erw arall ac felly gwerthais hynny iddo y llynedd ac yna bu farw ei gymydog drws nesaf arall ac roeddent am ei werthu. Mae bellach yn ffermio mewn ardal hawdd iawn. Mae'n ffermio 600 neu 700 o erwau ei hun a bydd llawer o ffermwyr sydd wedi cyrraedd y maint hwnnw mor gyflym â hynny. Cododd y cyfle ac maent wedi manteisio arno, ac mae'r Taliad Sengl yn ei ariannu.’*

(De-orllewin Cymru – arwerthwr)

A rhoddodd y ffermwyr hyn enghreifftiau o'r ail agwedd ar y ddadl yn erbyn y taliad sengl: yn dilyn diwygio'r PAC byddai ffermwyr ‘anweithgar’ o hyd, na fyddent yn cynhyrchu unrhyw beth a byddent yn dal i hawlio cymhorthdal:

*‘Gadewch i ni ddweud, er enghraifft, bod eich Taliad Sengl yn £20,000 y flwyddyn, rydych yn 70 oed ac rydych wedi ymddeol, wel, pam y byddech yn gwerthu pan y gallwch gadw'r tir, ei rentu a dal i hawlio'r Taliad Sengl? Mae'n system hollol wallgof mewn gwirionedd. Yn ariannol, mae'n debygol y byddwn yn well fy myd o lawer drwy rentu fy nhir a hawlio'r Taliad Sengl a mwynhau ffordd hawdd o fyw. Ond gobeithio y daw'r dyddiau hynny i ben ar ôl diwygio'r PAC ond…’*

(Canolbarth Cymru D –canolig, defaid ac eidion)

*‘Wel dwi ddim yn gwybod a ydynt yn gwneud digon ar gyfer hynny. Pobl, chi'n gwybod, nad ydynt yn cynhyrchu unrhyw beth mewn gwirionedd. A ydynt yn gwneud digon i'w hatal rhag godro'r system - wn i ddim? Oherwydd mae gennych y bobl sy'n cael y cymorthdaliadau ac maent yn rhentu'r tir i rywun nad yw'n cael unrhyw gymhorthdal oddi ar y tir y maent yn talu amdano mewn gwirionedd.*

(Gogledd-orllewin Cymru G – canolig, defaid ac eidion)

Y drydedd agwedd ar y ddadl yn erbyn y taliad sengl oedd bod y system gymhorthdal yn ddiffygiol yn y bôn o ran ei bod yn cynorthwyo cyfundrefn amaethyddol mewnbwn uchel, cost uchel, a allai arwain at gwymp y diwydiant ffermio. Roedd y ffermwr hwn yn ne-orllewin Cymru yn un o blith llawer a ddadleuodd y byddai'n well ganddynt gael pris teg am eu cynnyrch na chael cymorthdaliadau. Awgrymodd fod rhai ffermwyr llaeth yn dibynnu ar eu taliad sengl i brynu'r symiau mawr o wrtaith sydd eu hangen ar gyfer eu harferion ffermio dwys:

*‘Byddai’n braf pe na bai angen i ni gael unrhyw gymorthdaliadau o gwbl. Byddai’n braf pe bai pob ffermwr yn cael pris teg am yr hyn y mae'n ei wneud ond mae'n amlwg bod honno'n system wahanol. Rwy'n gwybod am lawer o ffermwyr sy'n aros i gael y cymorthdaliadau ac yna'n talu am y gwrtaith ac i lawer o ffermwyr mae hynny'n ffordd dda o wneud hynny. Y ffermydd llaeth yw'r rhai hynny. Mae'n rhaid iddynt fwydo nitrogen i'r glaswellt oherwydd fel arall nid ydynt yn mynd i gael dim yn ôl o gwbl. Mae cymorthdaliadau'n iawn ond ni ddylai fod eu hangen arnom, ni ddylem orfod dibynnu arnynt, yn amlwg ar fy ngraddfa i nid wyf yn dibynnu arnynt – ni fyddai'n gwneud llawer o wahaniaeth i mi pe na bawn yn cael unrhyw beth o gwbl.*

*Mae'n braf pan dwi'n eu cael ond y ffermydd mwy sy'n yn dibynnu arnynt yn llwyr. Mae'n - wel mae popeth yn lladd y diwydiant.'*

(De-orllewin Cymru E – bach, cymysg)

Yn yr un modd, roedd y ffermwyr hyn o ben arall Cymru yn feirniadol o'r hyn a elwid gan un ohonynt yn '*llwybr cymhorthdal'*. Awgrymodd y ffermwr defaid bach hwn (Gogledd-orllewin Cymru L) fod llawer o ffermwyr, yn anffodus, yn gwireddu eu henw drwg am geisio cael rhywbeth am ddim, peidio â gwneud eu rhan, ac ar eu gwaethaf yn godro cymorthdaliadau. Roedd yn credu bod hyn yn siom – ond yn bedant yn wir.

Ac roedd y ffermwr hwn yn feirniadol o gymorthdaliadau fferm ac wedi ceisio dod yn llai dibynnol arnynt:

*'Roeddwn yn rhedeg farm a oedd yn fferm fynydd nodweddiadol - ffermio, gwneud yr hyn roedd y llywodraeth ei eisiau a dilyn y llwybr cymhorthdal. Roedd yn system ffermio yn seiliedig ar gymorthdaliadau â niferoedd mawr o ddefaid yn cael eu cadw ar gyfer y taliadau mwyaf a waeth beth oedd ansawdd y defaid, ansawdd yr ŵyn, y bywyd gwyllt, roedd yn cael ei ransio ac yn gwneud llawer o arian oherwydd bod y llywodraeth yn cynnig yr abwyd.'*

(Gogledd-orllewin Cymru A – bach, defaid ac eidion)

Dadleuodd y gallai wedi bod yn or-ddibynnol ar gymorthdaliadau - *'ac wedi mynd yn fethdalwr pe bai'r llywodraeth wedi gwneud yr hyn a wnaethant yn Seland Newydd a chymryd y cymorthdaliadau i ffwrdd.'* Yn fwy diweddar, roedd wedi buddsoddi mewn cynlluniau amaeth-amgylcheddol, arallgyfeirio a mynd yn organig i ddiogelu ansawdd a tharddiad ei gynnyrch fferm.

### 5.2.1.1 Model Seland Newydd

Nododd nifer o gyfweleion fodel Seland Newydd ac roedd rhai wedi ymweld â Seland Newydd i gael profiad o ffermio yno. Roedd hyn wedi eu harwain i ddamcaniaethu ynghylch yr hyn allai ddigwydd yng Nghymru pe bai'r taliad sengl yn cael e dynnu yn ôl. Yn ddamcaniaethol, pe bai'r cymhorthdal yn cale ei ddileu, dadleuwyd na fyddai ffermydd bellach yn gallu talu costau mewnbwn uchel ac yn prynu peirianwaith drud a byddent yn debygol o symud i systemau mwy cost-effeithlon. Byddai baich ariannol y symudiad hwn yn cael ei drosglwyddo i'r diwydiant cynorthwyo ffermydd yn hytrach na ffermwyr.

Dadleuodd ffermwr eidion yn ne-orllewin Cymru fod Llywodraeth Cymru wedi methu deall y ffaith pe bai cymhorthdal yn cael ei ddatgymalu dros nos byddai'r rhan fwyaf o ffermwyr da byw yn rhoi'r gorau iddi - byddai ymateb panig. Ei ddadl oedd bod ffermwyr yn y gorffennol yn arfer bod yn gynilwyr i'w cynorthwyo yn ystod amseroedd anodd, ond bod y diwylliant o gynilo wedi'i erydu dros y 20 mlynedd diwethaf oherwydd dibyniaeth ar gynlluniau cymorth a chwyddiant. Yn y gorffennol pe bai'r system gymhorthdal wedi'i datgymalu efallai mai'r ymateb fyddai cadw i fynd gan ddefnyddio cronfeydd wrth gefn. Ond nawr byddai'r rhan fwyaf o ffermwyr yn rhoi'r gorau i ffermio ar unwaith:

*'Rwy'n credu mai'r gwirionedd nawr yw y byddai'r rhan fwyaf o ffermwyr yn troi'n ôl ar unwaith gan nad yw'r arian wrth gefn ganddynt. Byddent yn troi'n ôl yn syth, a pe baem ni eisiau archwilio'r syniad hwnnw yna gallech chi anfon rhywun draw i Seland Newydd wrth gwrs, i weld beth ddigwyddodd iddyn nhw pan ddiddymwyd eu systemau cymorth.'*

(De-orllewin Cymru K – bach, eidion)

Roedd y ffermwr yn rhagweld y byddai gofyniad yn Ewrop ar gyfer cyfundrefn cynhyrchu da byw mewnbwn isel-, cost isel:

> *'Gall fod cyfnod trosglwyddo poenus iawn os bydd y gwleidyddion yn dweud wrthym mai'r unig beth y mae'r system cymhorthdal amaeth yn Ewrop yn ei gwneud yw cynorthwyo cyfundrefn ffermio cost uchel oherwydd bod y ffermwyr yn gwario'r arian arni a mewnbynnau. Yna os byddwch yn cymryd y cymhorthdal i ffwrdd bydd y ffermwyr yn mynd yn ôl i weithredu systemau sy'n llawer mwy effeithlon o ran costau. Wrth gwrs bydd niwed cyfochrog yn sgîl hynny, nid ar ffermwyr eu hunain oherwydd bydd y rhan fwyaf ohonynt yn addasu am eu bod yn berchen ar y fferm, ond bydd yn niweidio pawb y maent fel arfer yn gwario arian arnynt a fydd yn gorfod addasu eu hunain. Os bydd yn digwydd bydd yn broses boenus.'*
>
> (De-orllewin Cymru K – bach, eidion)

Awgrymodd y byddai llawer o ffermwyr yn rhoi'r gorau iddi, oherwydd oedran a gorfod ffermio heb beiriannau. Byddent yn rhentu eu ffermydd allan i denantiaid. Byddai gwerth ffermydd yn gostwng yn sylweddol. Er bod ymlyniad emosiynol i'w ystyried o ran ffermio gwartheg, a oedd yn galluogi ffermwyr i wneud penderfyniadau afresymol ac aros ym myd ffermio yn ystod cyfnodau gwael, byddai ffermwyr yn gadael y diwydiant pe bai'r Taliad Sengl yn dod i ben:

> *'Ceir ymlyniad emosiynol i ffermio gwartheg ac mae cymaint o ffermwyr gwartheg yn canfod nad yw'r ffigurau yn edrych fel pe baent yn gwneud llawer o synnwyr, ond os cymerwch chi'r Taliad Sengl i ffwrdd, nid yw'r diwydiant ffermio yn gwneud llawer o synnwyr hyd yn oed ac yna mae'n dod i ben.'*
>
> (De-orllewin Cymru K – bach, eidion)

Yn ei achos ef, pe bai'r holl gymorthdaliadau yn cael eu dileu, byddai'n rhoi'r gorau i gynhyrchu eidion, yn hylifo asedau (megis peiriannau a gwartheg) a phrynu mwy o ddefaid, ac awgrymodd y byddai dim ond angen ci a ffon i wneud hynny.

Awgrymodd ffermwr gyda fferm laeth fawr iawn (De-orllewin Cymru – H), ei fod, fel gŵr busnes rhyngwladol, yn ymwybodol bod yn rhaid i ffermwyr mewn gwledydd heb systemau cymhorthdal ddelio â mwy o ansefydlogrwydd pris, a dadleuodd fod hyn yn eu gwneud yn fwy cadarn.

### 5.2.2 Effeithiau diwygio'r PAC ar fusnesau fferm

O ran sut y byddai newidiadau posibl i'r taliad sengl yn effeithio ar fusnesau fferm, cafwyd galwad am newid graddol i leddfu'r baich ar y ffermydd hynny a fyddai'n colli cymhorthdal:

> *'Rwy'n credu bod y ffordd y mae'r UE am ei gwneud yn debycach i 'cwblhewch hyn yn y saith mlynedd nesaf', ond yma rwy'n credu ein bod yn dweud bod angen iddo ddigwydd ymhen 10 mlynedd er mwyn iddo allu bod… Ar gyfer rhai pobl mae'n mynd i fod yn wych a byddant am ei gael yn gyflym, am gael yr arian yn gyflym ond rwy'n credu i rai pobl os ydych yn mynd i fod yn colli llawer nid yw'n deg gwneud hynny mewn un ergyd fawr.'*
>
> (Gogledd-orllewin Cymru G – canolig, defaid ac eidion

Yn fras, roedd dwy farn ar sut y gallai diwygio'r PAC effeithio ar fusnesau fferm. Y gyntaf oedd bod y taliad sengl yn gyfran rhy fach o incwm i newidiadau gael effaith sylweddol neu byddent yn effeithio ar elw yn unig. Ac, yn ail, roedd y farn bod y taliad sengl yn gydran

hanfodol o incwm yr aelwyd ffermio. Yn ategu'r ddwy farn hyn roedd penderfyniad cyffredin mai'r cynllun oedd parhau â busnes fel arfer, beth bynnag fyddai canlyniad diwygio'r PAC.

Roedd y rhai a feddai ar y farn gyntaf naill ai'n ffermydd â throsiant uchel a allai ymdopi â gostyngiad neu hyd yn oed colli'r taliad sengl; ffermydd a fyddai'n gwnweud elw beth bynnag fyddai'r taliad sengl y byddent yn ei gael; neu ffermydd yr oedd eu taliad sengl mor fach fel ei fod yn ddibwys. Er enghraifft, gwnaeth ffermwr a chanddo fferm ddefaid fach (Canolbarth Cymru-C), a oedd hefyd yn cynnwys rhywfaint o wartheg, sylweddoli oherwydd bod ei fusnes fferm yn gwneud elw cyn cael y taliad sengl, pe bai cymhorthdal y taliad sengl yn lleihau gallent barhau â busnes fel arfer. I raddau roeddent wedi creu clustog drwy arallgyfeirio i mewn i waith contractio. Fodd bynnag, awgrymodd pe baent yn fferm ddefaid yn unig (fel llawer o'r ffermydd yn yr ardal gyfagos) yna byddent yn cael trafferth gwneud elw heb y taliad sengl. Byddai cynnydd mewn SFP yn cael ei ddefnyddio i ehangu ochr gontractio'r busnes. O ran da byw, byddai'n torri i lawr ar ddefaid ac yn prynu mwy o wartheg. Roedd gwartheg yn haws i ofalu amdanynt a gallai wneud hyn tra bod ei feibion yn gwneud mwy o waith contract. Yn ogystal, pe bai cynnydd o 20 y cant mewn SFP, byddai'n ystyried prynu fferm leol fach ar gyfer un o'i feibion. Pe bai'r taliad sengl yn cael ei ostwng byddai'n rhaid iddynt fod yn fwy darbodus a gohirio unrhyw gynnydd yn eu buchesi. Byddai'n ystyried stoc fwy caled o ddefaid, i leihau costau bwydo.

Fel grŵp, roedd ffermydd llaeth yn dueddol o fynegi bwriad i barhau â busnes fel arfer. Dadleuodd y ffermwr llaeth canolig hwn yn ne-orllewin Cymru y byddai unrhyw newid mewn cymhorthdal yn cael ei adlewyrchu yn lefel yr elw yn hytrach nag mewn arferion ffermydd neu fusnesau neu hyd yn oed o ran cyflenwadau fferm:

> *'A bod yn onest gyda chi, ni allaf weld pam y bydd unrhyw beth rwy'n ei wneud yn newid, os bydd y cymhorthdal yn mynd y naill ffordd neu'r llall. Am nad ydym yn gwario mwy na'r hyn sydd ei angen arnom ar borthiant bwyd eisoes felly os bydd y cymorthdaliadau'n cynyddu byddwn yn gwario'r un swm i gadw ein hanifeiliaid yma. Os bydd y cymorthdaliadau'n gostwng, os bydd gennym yr un swm o anifeiliaid mae dal angen i ni…Yr unig ffordd y byddai llawer yn newid os bydd ein menter ffermio yn lleihau ond ni allaf weld sut y gall hynny effeithio arno oherwydd rydym yn ceisio bod mor effeithlon â phosibl beth bynnag. Felly byddai'n golygu mwy o elw neu golled.*
>
> *y taliad sengl yw ein hunig ffynhonnell o beth chi'n ei alw - os bydd hynny'n gostwng 20 y cant a ydym yn mynd i gwtogi ein bwyd anifeiliaid 20 y cant? Yr unig ffordd o leihau bwyd anifeiliaid yw lleihau nifer yr anifeiliaid, onid ai? Pobl sy'n cael swm enfawr mewn taliad sengl, dydyn nhw ddim yn dibynnu ar eu hamaethyddiaeth i ddarparu incwm iddyn nhw. Efallai y byddai'n wahanol, ond i ni, ni allwn fyw ar y taliad sengl, mae yno i roi hwb i bethau i ni.'*
>
> (De-orllewin Cymru D – canolig, llaeth)

Yn gryno, roeddent yn dadlau eu bod yn cael eu gyrru gan y farchnad yn hytrach na chymorthdaliadau. Y brif broblem oedd pris llaeth, ac ystyriwyd bod hyn yn cael mwy o effaith na'r taliad sengl, a ystyriwyd yn incwm atodol i'r ffermwr i helpu i gadw'r prisiau i lawr ar gyfer y defnyddiwr

Yn yr un modd, dadleuodd y ffermwr llaeth mawr iawn hwn yn ne-orllewin Cymru nad oedd y taliad sengl yn effeithio ar y ffordd roedd y fferm yn cael ei rhedeg mewn gwirionedd. Gan fod y fferm yn cael ei rhedeg yn y ffordd fwyaf effeithlon posibl ar hyn o bryd, byddai unrhyw newid mewn SFP yn effeithio ar swm yr elw. I'r graddau hynny roedd SFP yn elfen bwysig o incwm y fferm:

> *'Rwy'n gwario'r swm o arian mwyaf posibl nawr yn fy marn i felly pe câi'r cymhorthdal ei ostwng ni fyddwn yn gwario mwy neu lai. Ni welaf sut y byddai'n newid unrhyw*

*beth. Byddech ond yn gwneud llai o elw ar ddiwedd y flwyddyn. Ond rydym yn ceisio gwneud cymaint o arian ag y gallwn nawr, felly dwi ddim yn yn credu y byddai'n gwneud unrhyw wahaniaeth.*

*Pe bawn yn cael mwy o gymhorthdal ni fyddwn yn cynhyrchu mwy na llai o laeth. Mae cymhorthdal yn effeithio ar y llinell waelod, yr elw cyffredinol, ond pe na fyddech yn cael cymhorthdal neu'n cael llai o gymhorthdal, rydych ond yn gwneud llai o elw.*

*Wel byddai'r cymhorthdal yn gwneud gwahaniaeth wrth gwrs oherwydd dyna lle mae eich elw. Oherwydd dyna sy'n ychwanegu at eich elw. Oni bai am y cymhorthdal ni fyddai'r rhan fwyaf o ffermydd yn broffidiol, mae'n ddrwg gennyf ddweud.'*

(De-orllewin Cymru F – mawr iawn, llaeth)

Dadleuodd ffermwr llaeth mawr iawn arall yn ne-orllewin Cymru oherwydd bod y taliad sengl yn fach o gymharu â throsiant (llai na dau y cant) nid oedd yn debygol o effeithio ar y ffordd roedd y fferm yn cael ei rhedeg:

*'Roedd gennym ddyraniad cwota bach iawn pan gyflwynwyd y cwotâu gyntaf, ac felly roedd gennym ddyraniad taliad sengl bach iawn. Mae ein cymhorthdal yn fychan iawn o'i gymharu â throsiant. Felly prin iawn yw'r dylanwad mae'n ei gael o ran a fyddem ni'n rhedeg y busnes yn wahanol pa un a yw'r cymhorthdal yno ai peidio mewn gwirionedd.'*

(De-orllewin Cymru H – mawr iawn, llaeth)

Fodd bynnag, pe bai'r Taliad Sengl yn cynyddu, byddent yn cynhyrchu mwy o laeth ac yn gwneud mwy o elw. Ar y llaw arall, pe bai'n gostwng, byddent yn cynhyrchu llai o laeth ac yn gwneud llai o elw.

Nododd y ffermwr fod newidiadau i'r taliad sengl yn fwy tebygol o effeithio ar ffermydd bach lle roedd y taliad sengl yn gyfran uwch o'r incwm; ac awgrymodd nad oedd y ffermydd hyn yn cael eu rhedeg yn dda. At hynny, dadleuodd fod newidiadau i'r taliad sengl hefyd yn debygol o effeithio ar ffermydd nad oedd wedi tyfu; ac awgrymodd bod cydberthynas rhwng ffermydd nad oeddent yn tyfu a'r rhai a oedd yn derbyn symiau uchel drwy'r Taliad Sengl. Ar y llaw arall, roedd gwledydd eraill yn Ewrop yn cael eu rheoleiddio llai, a oedd wedi gorfodi ffermydd i fod yn gadarn ac wedi galluogi twf yn y sector ffermio. Gwelwyd bod cymhorthdal yn annog ffermwyr nad oeddent yn cael eu hysgogi cymaint gan waith:

*'Os yw'r taliad sengl yn fwy nag ugain y cant o'ch elw, rwy'n credu bod gennych fusnes sy'n agored iawn i niwed.'*

(De-orllewin Cymru H – mawr iawn, llaeth)

Mae'n bosibl bod y ffermydd llaeth mawr yn ne-orllewin Cymru wedi tueddu i ddiystyru pwysigrwydd y taliad sengl, oherwydd fel y nododd yr arwerthwr hwn yn yr ardal:

*'Y taliad sengl? Dwi ddim yn credu bod neb yn poeni amdano. Gadewch i ni ddweud nad oes neb yn poeni amdano.'*

(De-orllewin Cymru – arwerthwr)

I ffwrdd o'r ffermydd llaeth mawr iawn, ond gan aros yn ne-orllewin Cymru, sylwodd y ffermwr hwn gyda fferm eidion fach iawn fod y taliad sengl yn cyfateb i gyfran fach yn unig o'u hincwm aelwyd, sef tua £600 y flwyddyn, ac ni fyddai unrhyw newidiadau i'r taliad sengl yn effeithio arnynt mewn gwirionedd:

*‘Dim ond £600 ydyw, felly p'un a fydd yn gostwng, os yw'n gostwng 20 y cant, dim ond £120 yw hynny. Felly nid yw £2 yr wythnos yn mynd i wneud llawer o wahaniaeth.’*

(De-orllewin Cymru B – bach iawn, eidion)

Roedd ffermwr gyda fferm ddefaid fach (Gogledd-orllewin Cymru-H) yn bwriadu parhau â busnes fel arfer, beth bynnag fyddai'r newidiadau i'w daliad sengl. Yn anarferol i lawer o'r cyfweleion roedd yn ymwybodol iawn o'r newidiadau a'r posibilrwydd y byddai'n elwa o ddiwygio'r PAC. Oherwydd bod ei daliad sengl yn gymharol fach, awgrymodd na fyddai unrhyw newid yn gwneud llawer o wahaniaeth ac y byddai unrhyw gynnydd yn cael ei gynilo ar gyfer ei ymddeoliad.

Yn yr un modd, roedd y ffermwr hwn yn ymwybodol o ddiwygio'r PAC a byddai'n gwneud penderfyniad o ran i ba raddau y byddai'n mynd ar drywydd cynhyrchu bwyd neu ‘fesurau gwyrdd’, yn amodol ar gyfrifiad economaidd:

*‘Pe bai'r cynigion ar gyfer y PAC wedi bod ar gyfer y £900 hwnnw yn unig, ein Taliad Sengl presennol, mae'n debygol y byddwn yn tynnu'n ôl o'r Taliad Sengl hefyd er mwyn i mi gynyddu cynhyrchiad. Ond os bydd y taliad arwynebedd yn £6,000 hefyd, wel nid wyf yn mynd i wrthod hynny yn yr un modd, chi'n gwybod. Felly bydd yn benderfyniad diddorol i'w wneud yn ddiweddarach.’*

(Canolbarth Cymru) A - bach iawn, eidion a defaid)

Roedd yr ail grŵp yn cynnwys ffermwyr a oedd o'r farn bod y taliad sengl yn un o gydrannau hanfodol incwm y fferm. Dadleuodd ffermwr â fferm ganolig, ddefaid ac eidion (Canolbarth Cymru-F) y byddai unrhyw ostyngiad mewn cymhorthdal yn effeithio'n sylweddol ar eu busnes ac o bosibl yn ei wneud yn anymarferol. I oroesi byddai'n rhaid iddynt dyfu mwy o rawn a dod yn hunangynhaliol o ran bwyd anifeiliaid. Pe bai'r cymhorthdal yn cynyddu ei gynllun cyffredinol oedd parhau i wella'r tir y maent yn ei ffermio ac ansawdd eu da byw. Fodd bynnag, nid oedd ganddynt gynlluniau i ehangu'r stoc na'r tir yn sgîl prisiau uchel tir a llafur. Byddai unrhyw ehangu yn ei gwneud yn ofynnol cael cynnydd o fwy nag 20 y cant yn y taliad sengl.

Roedd ffermwr gyda fferm ddefaid fach (Gogledd-orllewin Cymru B) yn ymwybodol ei bod *‘yn amser tyngedfennol’* o ran y taliad sengl a'u bod mewn cyfnod o newid. Roedd yn besimistaidd ac ni allai weld beth allai wneud yn wahanol nawr. Roedd y fferm wedi wynebu sawl newid dros y blynyddoedd: er enghraifft, gwerthwyd y gwartheg i leihau costau. Un peth roedd yn ei ystyried oedd rhentu llai o dir, oherwydd dyna lle roedd mwyafrif yr incwm fferm yn cael ei wario ar hyn o bryd.

Ac ar fferm ganolig, ddefaid ac eidion (Canolbarth Cymru-B), roeddent yn teimlo'n rhwystredig ac yn isel eu hysbryd oherwydd swm y gwaith caled roeddent wedi'i roi i mewn i'r busnes i ymdopi, ac o ran y ffordd roedd amaethyddiaeth wedi datblygu yn fwy cyffredinol. Mewn gwirionedd, roedd y taliad sengl yn cynrychioli eu helw a hebddo ni allai'r busnes oroesi. Fodd bynnag, gwnaethant ddadlau nad oeddent am gael cymorthdaliadau. Yn hytrach, roeddent am gael tâl teg a realistig am yr hyn roeddent yn ei gynhyrchu, a chanolbwyntio ar gynhyrchu bwyd fel rhan graidd y busnes.

Roedd rhai wedi'u cynnal gan arallgyfeirio. Er enghraifft, roedd y ffermwr hwn yn bwriadu parhau â ffermio cynaliadwy lefel isel, effaith isel. Pe bai ei daliad sengl yn gostwng, yn hytrach na newid busnes y fferm, roedd yn bwriadu cynnal incwm drwy ganolbwyntio hyd yn oed yn fwy ar y busnes bridio ceffylau yr oeddent wedi arallgyfeirio iddo:

*'Os byddaf yn colli'r taliad sengl, bydd angen i mi adennill yr arian hwnnw o rywle arall, ac yn bersonol rwy'n credu y gallai fod yn haws i mi y tu allan i ffermio ac oherwydd bod fy arbenigedd ym maes ceffylau, byddwn bendant yn dilyn yr arbenigedd sydd gennyf ac rwy'n credu y gallwn barhau i fynd felly oherwydd er na fyddai fy safon byw yn wych, byddwn yn byw, yn goroesi a byddai popeth fyddai gennyf yn eithaf da ar y cyfan. Mae gennyf ddyletswydd gofal i'r fferm, mae gennyf ddyletswydd gofal i'r tir ac mae gennyf ddyletswydd gofal hyd yn oed yn fwy i'r anifeiliaid. Felly yn gyntaf oll, rhaid cynnal hynny i gyd felly byddai angen i mi ddod o hyd i arian i alluogi i hynny gario ymlaen.'*

(Gogledd-orllewin Cymru C – bach iawn, defaid ac eidion)

Er ei fod eisoes yn ystyried ffyrdd o dorri yn ôl er mwyn iddo allu parhau â 'busnes fel arfer', nododd y ffermwr hwn fod y taliad sengl mor bwysig iddo ef ac, fe awgrymodd, i eraill, a'u bod mor bryderus ynghylch cydymffurfio fel bod hyn wedi creu *'diwylliant o ofn'*:

*'Mae'r diwylliant yma gennych chi, mae'r Taliad Sengl yma mor bwysig, ac rydych chi'n meddwl… o na, arolygiad. Mae pawb yr un fath. Mae pawb yn ofn y blydi arolygiadau. Pob un ohonom ni. Wyddoch chi, a ydych chi wedi gwneud hyn, a ydych chi wedi gwneud y llall? Ar fy enaid i… rydych chi'n byw mewn diwylliant o ofn mewn ffordd, wyddoch hi, wir yr. Wel, dyna sut mae hi. Mae'n ffaith, mae'n ffaith, onid yw?'*

(Gogledd-orllewin Cymru D – canolig, defaid ac eidion)

Roedd ffermwr arall yng ngogledd-orllewin Cymru, a oedd yn ymwybodol o ddiwygio'r PAC a'i oblygiadau ac yn derbyn taliad sengl mawr, o'r farn y byddent yn colli cymhorthdal yn dilyn diwygio'r PAC oherwydd bod y system daliadau bresennol wedi bod o'u plaid:

*'Wel rwy'n gwybod cryn dipyn amdano ond rwy'n siŵr y byddwn ar ein colled. Rwy'n credu fy hun y byddwn ar ein colled. Wel dwi ddim cweit yn siŵr faint y byddant yn ei dalu i, chi'n gwybod, dwi ddim yn gwybod faint y byddant yn ei dalu yr erw ar ôl hynny ac fel mae'n digwydd rydym yn cael taliad da oherwydd yn 2000, 2001 a 2002 roeddem yn gwneud y pethau cywir ar yr adeg gywir chi'n gwybod. Wel, roeddem mewn cynlluniau gwahanol lle roedd dad-ddwysáu yn bremiwm i raddau ac mae ein premiwm newydd, premiwm buchod sugno, premiwm llo, roedd popeth yn gweithio.'*

(Gogledd-orllewin Cymru F – Mawr, defaid ac eidion)

Roedd y ffermwr hwn, gyda fferm ganolig, ddefaid ac eidion yn Ne-orllewin Cymru, yn ansicr o ran y taliad sengl. Dadleuodd mai taliad cymorth ydoedd. Roedd lefelau stoc yn cael eu haddasu i'r farchnad, nid swm y taliad sengl a dderbyniwyd. Fodd bynnag, cydnabu fod y taliad sengl, ar hyn o bryd, yn gydran bwysig o incwm oherwydd ar yr adeg hon roedd ganddynt lawer o stoc ac roedd angen y taliad sengl arnynt fel cymorth. Pe bai'r taliad sengl yn gostwng byddai'n rhaid iddynt leihau lefelau stoc, lleihau dwysfwyd a dod yn fwy organig:

*'Dim ond cymhorthdal yw'r taliad sengl i ffermwyr. Mae'n incwm angenrheidiol ar hyn o bryd, felly dyna'r gwahaniaeth mewn gwirionedd. Felly i ateb y cwestiynau, dyna'r marc cwestiwn mawr sy'n gysylltiedig ag ef. Os yw'n fwy buddiol bwydo mwy o fwyd anifeiliaid hyd yn oed heb y taliad sengl i ffermwyr, yna byddwn yn gwneud hynny. Os nad yw'r elw yna, yna mae'n amlwg y dylem leihau ein niferoedd felly byddai faint o fwyd anifeiliaid rydym ni'n ei fwydo yn llawer llai.'*

*‘Os bydd hynny’n gostwng a bydd maint yr elw’n gostwng, yna bydd cyfanswm y bwyd anifeiliaid yn lleihau hefyd gan y bydd yn rhaid i ni gadw llai o stoc. Bydd yn rhaid i ni redeg system o fath mwy organig â llai o stoc a llai o fewnbynnau.’*

(De-orllewin Cymru C – canolig, defaid ac eidion)

Awgrymodd y ffermwr pe bai cymorthdaliadau yn rhy isel neu’n dod i ben, yna efallai y byddai’n rhaid i’w fab, pan roedd yn cymryd y fferm drosodd, werthu.

Cafwyd dadleuon y gellid ‘goddef’ unrhyw ostyngiadau mewn cymhorthdal am y pum mlynedd cyntaf drwy leihau costau cyffredinol: e.e. llai o gynnal a chadw a pheiriannau newydd. Ond ar ôl pum mlynedd, byddai'n rhaid i ffermwyr ystyried eu sefyllfa yn fwy gofalus. Nid oedd ffermio yn rhywbeth y gallech neidio i mewn ac allan ohono yn gyflym. Roedd yn cymryd amser i adeiladu stoc ac wrth i lefelau stoc ostwng byddai llai i'w werthu.

Yn olaf, i amlygu natur oddrychol data ansoddol, aeth y ffermwr llaeth mawr hwn yn ne-orllewin Cymru yn erbyn tuedd y ffermwyr llaeth mwy a ddiystyrodd bwysigrwydd y taliad sengl. Dadleuodd fod y taliad sengl yn bwysig iawn i'w fusnes fferm ac i fusnesau fferm eraill. Pe bai'r taliad sengl yn gostwng, byddai ei fferm yn wynebu trafferthion. Yn wir, awgrymwyd bod y taliad sengl yn cynrychioli elw llawer o ffermwyr:

*‘Credaf pe bai’r cymhorthdal yn cael ei ostwng neu’n dod i ben, y byddai cryn dipyn o ffermwyr yn ei chael yn anodd ymdopi. Oherwydd, o siarad â phobl, eich taliad sengl yw eich elw. Oherwydd drwy wario popeth arall, popeth rydych yn ei ennill a phan dechreuwch chi edrych arno, dyna'r hyn rydych yn ei gael, dyna eich arian chi wedyn i'w ail-fuddsoddi.*

*Ac mae hyn yn wir am bawb, nid dim ond ni. Mae'r taliad sengl yn llinell bywyd.’*

(De-orllewin Cymru G – mawr, llaeth)

### 5.2.3 Y Taliad Sengl a'r Economi Leol

Gwnaeth rhai o'r cwestiynau yn yr arolwg archwilio'r effeithiau posibl y byddai newidiadau i'r taliad sengl yn eu cael ar yr economi leol. Ceisiodd dadansoddiad y cyfweliad ddod o hyd i ddealltwriaeth ddyfnach. Er enghraifft, nododd y ffermwr llaeth mawr hwn yn ne-orllewin Cymru fod busnesau lleol yn ymwybodol o ran pryd y byddai ffermwyr yn cael eu taliad sengl ac amserwyd eu biliau yn unol â hynny:

*‘Mae pawb, yr holl fusnesau lleol yn gwybod pryd mae ffermwyr yn cael eu taliad sengl onid ydynt? Maent yn galw’r contractwyr. Mae’n rhaid bod ganddynt broblemau difrifol o ran llif arian oherwydd nid ydynt yn cael llawer yn ystod y flwyddyn ac yna maent yn cyflwyno’r biliau enfawr hyn ym mis Rhagfyr am eu bod yn gwybod y cânt eu talu.’*

(De-orllewin Cymru D – mawr, llaeth)

Fel y dywedodd ymatebydd arall yn ne-orllewin Cymru:

*‘Mae ffermwyr yn dda iawn am wario eu Taliad Sengl cyn iddynt ei dderbyn.’*

(De-orllewin Cymru – Arwerthwr)

Yn achos cynnydd yn y taliad sengl, awgrymodd y ffermwr hwn y byddai ffermwyr yn dueddol o brynu mwy o beiriannau a cherbydau:

*'Pe bai cynnydd yn y cymhorthdal, sy'n debygol i rai pobl - nid i ni ond ar gyfer pobl eraill - fe welwch y byddant, yn lle gyrru o amgylchedd mewn rhyw hen Land Rovers â rhif cofrestru 'P' byddant yn prynu lori fechan newydd ac yn newid eu tractor.'*

(De-orllewin Cymru K – bach, eidion)

Fodd bynnag, nododd arwerthwr yn ne-orllewin Cymru yn hytrach na phrynu peiriannau mewn arwerthiannau lleol, a fyddai'n golygu defnyddio arian parod, bod ffermwyr yn mynd yn uniongyrchol at werthwyr ac yn prynu ar delerau credyd estynedig.

Dadleuodd rhai ffermwyr oherwydd bod y taliad sengl yn cyfateb i gyfran gymharol fach o incwm, prin fyddai effaith colledion neu enillion. Fodd bynnag, fel yr awgrymodd y ffermwr hwn yng nghanolbarth Cymru, byddai hyd yn oed darbodion bach yn cael eu trosglwyddo i fusnesau lleol. Dadleuodd oherwydd bod y taliad sengl y llynedd yn £5000 yn unig, ni fyddai gostyngiad o 20 y cant yn cael llawer o effaith ac mai'r unig beth byddai'n rhaid iddynt ei wneud fyddai torri costau cyffredinol (e.e. bwyd anifeiliaid, gwrtaith, ffensio contractwyr). Byddai hyn yn golygu bod llai yn cael ei wario ar fusnesau lleol:

*"Po leiaf y maent yn ei roi i ni, lleiaf y byddwn ei wario yn y dref".*

(Canolbarth Cymru) E – bach, defaid ac eidion)

Yn achos cynnydd yn y taliad sengl, awgrymwyd y byddai'n rhaid ei ddefnyddio i dalu am gynnydd dilynol ym mhrisiau ŵyn, bwyd anifeiliaid, tanwydd a thrydan. O ganlyniad, byddai cynnydd mewn cymhorthdal yn cael ei ddosbarthu ar draws y cyflenwyr presennol.

Ac amlygodd y ffermwr hwn yn ne-orllewin Cymru ryng-gysylltedd ffermwyr a'r economi leol ac awgrymodd y byddai unrhyw ostyngiad mewn cymorthdaliadau, naill ai drwy roi'r gorau i gynlluniau amaeth-amgylcheddol neu ostyngiad yn y taliad sengl, yn arwain at wario llai o arian yn lleol:

*'Rydym ni wedi colli Tŷ Cynnal, fel y soniais wrthych chi. Fel taliad ucheldir, roedd hwnnw'n daliad da gan y byddai'n cynnwys ein tir rhent hefyd. Ac i mi, roedd Tŷ Mynydd yn cefnogi'r bobl rydym ni'n eu cyflenwi'n lleol yn ogystal â mi. Mae unrhyw grantiau rydym ni'n eu cael yn ein helpu i gadw pobl eraill mewn cyflogaeth. Nid ni yn unig. Mae'n debyg ein bod yn ysgrifennu tua saith siec bob mis i bobl leol, yn amrywio o ran maint yn amlwg, yn dibynnu ar yr hyn rydych chi'n ei brynu, ond rydym ni'n prynu deunydd ffensys o'r ganolfan nwyddau metel leol ac rydym ni'n defnyddio rhywun arall sy'n lleol ar gyfer bwcedi a chlwydi a phethau felly. Mae'r garej rydym ni'n ei defnyddio'n lleol, mae'r contractwr yn lleol, mae Crymych yn lleol, ac mae'r cwbl yn y cyffiniau. Bydd hyn a gostwng y taliad unigol i ffermwyr yn eich gwneud chi ystyried eich gwariant yn fwy gofalus, oni fydd?'*

(De–orllewin Cymru C – canolig, defaid ac eidion)

Fodd bynnag, cafwyd dadleuon nad oedd ffermio yn gyffredinol, yn enwedig y taliad sengl, o fudd i'r economi leol. Canolbwyntiodd y dadleuon hyn ar gostau ffermio ar dir mynydd gwael mewn ardaloedd llai ffafriol a'r angen i rentu tir o safon well ar gyfer yr Hafod / Hendre neu'r system trawstrefa. Er enghraifft, dadleuodd y ffermwr hwn yng ngogledd-orllewin Cymru nad oedd ffermio yn cadw arian yn yr economi leol ac nad oedd y system cymhorthdal yn gweithio i gefnogi'r fferm a'r gymuned leol. Dywedodd nad oedd y taliad sengl yn aros yn yr ardal: nid oedd ffermwyr yn cael ei gadw, am ei fod yn mynd yn syth allan i dalu rhent ar dir yn Ynys Môn. Yn wir, dadleuodd fod yr economi rentu yn Ynys Môn wedi sbarduno'r fath gystadleuaeth fel bod trefniadau tymor hwy bellach yn ansefydlog ac yn annibynadwy. Dyma oedd ei ddisgrifiad o'r busnes fferm:

*'Mewn drwy un llaw ac allan drwy'r llall, gyda big treth mawr yn y canol'.*

(Gogledd-orllewin Cymru B – bach, defaid)

Yn fras, dadleuwyd bod yr economi leol yn dibynnu'n drwm ar ffermwyr: pe bai'r ffermwyr yn colli arian byddai sgîl-effeithiau:

*'Mae'n mynd i wneud llawer mwy o niwed - nid dim ond i'r ffermwyr oherwydd rydym yn gwario llawer o arian mewn mannau, chi'n gwybod.'*

(Gogledd-orllewin Cymru K – bach, defaid)

'*Byddem â throsiant o rhwng £1.4 a £1.8m y flwyddyn. Byddwn yn debygol o ddweud, o gynnyrch amaethyddol yn unig, tua 50 y cant, o'n cysylltiadau ym myd amaeth, mae'n debygol eich bod yn cael tua 70-80 y cant.'*

(De-orllewin Cymru – Arwerthwr)

### 5.2.4 Ffermio a'r economi leol

O'r naratif hyd yma, er bod barn i'r gwrthwyneb, gallwn ddechrau gweld darlun o natur ryng-gysylltiol ffermwyr a'r economi leol. Mae dadansoddiad yr arolwg yn nodi bod, ar 82 y cant, mwyafrif helaeth y nwyddau a'r gwasanaethau sy'n ymwneud â'r ffermydd wedi'u prynu yn lleol – o fewn radiws o 25 milltir i'r fferm. Yn yr un modd, mae Tabl 3.6 a Thabl 3.7 yn dangos bod cyfrannau cymharol fawr o gynnyrch ffermydd yn cael eu gwerthu mewn allfeydd o fewn radiws o 25 milltir i'r fferm. Cafodd y canfyddiadau hyn eu hatgyfnerthu gan ymatebion i'r cwestiynau prynu a gwerthu penodol a oedd yn rhan o'r cyfweliadau manwl. Fel y trafodwyd yn yr adran Dulliau ac Adran Tri uchod, cafodd yr ymatebion hyn eu mapio ar ddiagramau rhosyn. Ar gyfer pob un o'r tair ardal astudio, lluniwyd diagram rhosyn yn dangos lle roedd y ffermwyr y cyfwelwyd â hwy yn gwerthu eu nwyddau a'u gwasanaethau, a dangosir y rhain yn Atodiad Dau. Ac am bob un o'r 30 o ffermwyr y cyfwelwyd ag ef, lluniwyd diagram rhosyn yn dangos lle roedd wedi prynu cyflenwadau a gwasanaethau fferm: ceir y rhain yn Atodiad Tri. Mae'r diagramau rhosyn hyn yn dangos patrymau prynu a gwerthu'r 30 o ffermwyr y cyfwelwyd â hwy ac yn dangos tueddiadau amlycaf yr economi leol.

Pwynt allweddol a ddaeth i'r amlwg o'r dadansoddiad ansoddol o'r cyfweliadau manwl oedd y dystiolaeth o'r ffaith bod ffermwyr yn rhan greiddiol o'r economi leol. Nid oedd y rhesymau a grybwyllwyd i gefnogi busnesau lleol oherwydd bod prisiau yn is – mae'n debyg eu bod yn aml yn uwch. Yn hytrach, roedd y ffermwyr yn dewis prynu yn lleol am resymau eraill, yn bennaf dymuniad amlwg i gefnogi'r economi leol am ei bod yn cael ei gweld fel rhan annatod o'r gymuned leol. Mae'r dyfyniadau o'r cyfweliadau manwl sy'n dilyn yn dangos meddyliau ffermwyr yn ymwneud â'r economi leol ac yn dechrau dangos cydberthnasau ffermwyr â chymunedau lleol.

Er enghraifft, awgrymwyd bod y fferm laeth fawr iawn hon yn ne-orllewin Cymru yn cylchredeg llawer o arian yn y gymuned leol ac mae'r dyfyniad yn nodi'r rhwydwaith cymhleth o fusnesau sy'n ymwneud â rhedeg y fferm:

*'Rydym yn gwario llawer o arian yn y gymuned leol - chi'n gwybod, rydym yn cefnogi llawer o fusnesau o ran prynu, chi'n gwybod, gyda siediau adeiladu mae gennym bobl yn gosod concrit, mae gennym drydanwyr, milfeddygon, plymwyr, adeiladwyr, rydym yn cefnogi llawer o fusnesau. Cynhaliwyd astudiaeth rai blynyddoedd yn ôl ac roedd un fferm a gefnogodd tua 120 o fusnesau dros flwyddyn chi'n gwybod...*

*Rydym yn fusnes gyda throsiant mawr. Am wn i mae ein hincwm oddeutu hanner miliwn, ond rydym yn gwario llawer o hynny, ac mae llawer o hynny yn cael ei wario ac yn cylchredeg yn yr economi yn barhaus, hynny yw mae yn yr economi leol oherwydd mae angen arnom iddynt fod yn lleol felly os bydd rhywbeth yn mynd o'i le yn y tŷ godro, mae rhaid i hwnnw fod yn gweithio 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos mewn gwirionedd. Felly mae angen i chi gael pobl a all ddod allan ar unwaith felly does dim pwynt iddyn nhw fod yn Birmingham neu lle bynnag, felly rydych yn dibynnu'n drwm ar weithlu medrus lleol i gefnogi ein busnes hefyd.'*

(De-orllewin Cymru A – mawr iawn, llaeth)

Gan gynnig barn wahanol a chyferbynnu ffermydd llaeth mwy â ffermydd llai, dadleuodd ffermwr arall yn ne-orllewin Cymru fod ffermydd teuluol yn cynnig mwy o gymorth i'r economi leol na ffermydd mwy oherwydd bod yr olaf yn dueddol o brynu mewn swmp gan gyflenwyr nad ydynt yn rhai lleol:

*'Mae'r fferm deuluol o'r maint sydd gennym ni yn cefnogi mwy o'r gymuned leol na'r fferm 2000 erw oherwydd bod y fferm 2000 erw yn prynu llawer o'r deunyddiau crai gan gyflenwyr ymhellach i ffwrdd. Ac mae llai yn talu mwy am bopeth'*

(De–orllewin Cymru C – canolig, defaid ac eidion)

Roedd yn well gan rai cyfweleion gyflenwyr bwyd anifeiliaid lleol, gan ddadlau bod hyn yn sicrhau bwyd anifeiliaid o ansawdd gwell. Mae'n debyg bod rhai wedi cael problemau gyda chyflenwyr mawr yn y gorffennol, a bod hynny wedyn yn gwneud Gwarant Fferm yn anodd. Nodwyd sawl achos o gwmnïau mawr yn cyflenwi bwyd anifeiliaid gwael neu wedi dyddio a nodwyd bod eu ffrindiau ym maes ffermio wedi cael profiadau tebyg. Er enghraifft, nododd fferm laeth fawr iawn (Canolbarth Cymru-H) sawl profiad gwael gyda chwmnïau mawr nad oeddent wedi mynd i'r afael â'u cwynion, oherwydd bod gan y cwmnïau gymorth cyfreithiol cryf. Yn fwy cyffredinol, dadleuwyd ei bod yn bwysig defnyddio cyflenwyr lleol, ar gyfer ansawdd gwasanaeth a chynnyrch, yn foesegol, ac ar gyfer ymrwymiad i'r gymuned leol. Roeddent yn glir iawn ynglŷn â hyn.

Prif reswm arall dros brynu yn lleol oedd ei fod yn cael ei weld fel rhywbeth a oedd yn sicrhau gwell ansawdd gwasanaeth. Fel y nododd y ffermwr hwn yng Nghanolbarth Cymru, mae cyflenwyr lleol yn darparu gwell gwasanaeth ac yn cynnal cydberthnasau:

*'Dyna pam y byddai'n well gen i roi'r busnes iddo ef. Dwi ddim am roi dwbl i unrhyw un pan fedrai ei gael yn rhywle arall ond does dim ots gen i roi ychydig o bremiwm iddo ef am ei fod yn rhoi'r gwasanaeth i chi.'*

(Canolbarth Cymru A – bach, defaid)

Cafodd teimladau'n ymwneud â gwasanaeth gwell gan gyflenwyr lleol eu hadleisio gan sawl ffermwr o wahanol rannau o Gymru:

*'Maen nhw i gyd yn werthwyr o Gymru fwy neu lai. Ni fyddem yn mynd allan o'r ardal; ni fyddem yn mynd allan o'r rhanbarth. Mae'r bobl rydym yn cynnal busnes â hwy mor lleol â phosibl yn bennaf oherwydd os byddwch yn prynu o werthwr o Loegr a bod rhywbeth yn mynd o'i le, beth rydych yn mynd i'w wneud, rydych yn mynd i ffonio ac ni fyddant yn ateb eich galwadau ffôn. Ond gyda hyn gallaf ei roi ar drelar, ei gludo yn ôl i Gaerfyrddin, ei adael yn y buarth a dweud mae hwn wedi torri, trwsiwch ef. Fe werthoch chi e i mi gyda gwarant, trwsiwch e dan eich gwarant ac felly byddai'r rhan fwyaf o ffermwyr yn dweud yr un fath. Anaml iawn y byddwn yn mynd allan o'r rhanbarth i brynu peiriannau.'*

(De–orllewin Cymru K – bach, eidion)

Dadleuwyd ei bod yn bwysig i gyflenwyr lleol aros mewn busnes: er bod cyflenwyr cenedlaethol mwy yn cynnig gostyngiadau, pe bai cyflenwyr lleol yn mynd allan o fusnes byddai'r cyflenwyr cenedlaethol yn codi eu prisiau.

*'Ac ie, rydych yn anghywir os na fyddwch yn ei brynu yn rhatach, ond rydych yn gwneud hynny yn y pen draw, yn talu mwy yn y pen draw oherwydd wrth i'r cwmnïau llai neu gwmnïau cydweithredol eraill leihau eu maint neu roi'r gorau i fasnachu, yna byddwch mewn sefyllfa lle bydd Anglia Farmers yn codi'r pris. Gallwch brynu cerbydau, gallwch brynu popeth, gallwch brynu tanwydd, gallwch brynu popeth drwy Anglia Farmers.*

(De–orllewin Cymru G – mawr, llaeth)

Dadleuodd y ffermwr hwn yng ngogledd-orllewin Cymru fod gweithgarwch arallgyfeirio megis eu gwersyllfa o fudd i'r economi leol:

*'Mae'r rhan fwyaf o'r gwersyllwyr a ddaw, maent yn cefnogi'r pentref. Maent yn mynd i lawr i'r tafarnau, maent yn mynd i'r siop. A phan fyddant yn cerdded ar y mynydd, maent yn siŵr o gerdded yn ôl i'r pentref a chael paned neu beth bynnag y maent ei eisiau. Maent i gyd yn mynd i ymweld â Steffan - rydych wedi bod i le Steffan, ac maent i gyd yn mynd i gael paned a siocled poeth neu rywbeth gyda Steffan neu'n mynd i'r pentref a'r siopau gwersylla yn y pentref hefyd. Mae siop wersylla wedi agor yma'n ddiweddar oherwydd y bobl sy'n teithio drwyddo i Lanberis oherwydd mae llawer o gaffis a phethau iddynt eu gwneud hefyd.'*

(Gogledd-orllewin Cymru G – canolig, defaid ac eidion

Cafodd llawer o dda byw eu prynu a'u gwerthu yn lleol. Dadleuodd ffermwyr defaid ac eidion bach iawn (Gogledd-orllewin Cymru – C) fod prynu yn lleol yn sicrhau ansawdd a diogelwch. O ran gwerthu da byw ar gyfer eu lladd, am y pedair blynedd diwethaf roedd ffermwr defaid ac eidion yng ngogledd-orllewin Cymru wedi rhoi'r gorau i werthu i archfarchnadoedd. Dadleuodd y gallai gael pris gwell drwy werthu'n uniongyrchol i ladd-dai lleol:

*'Rwyf wedi rhoi'r gorau i werthu i'r archfarchnadoedd oherwydd roeddent yn llywio'r prisiau a rheswm arall dros ddechrau defnyddio'r fan yw fy mod i wedyn yn cadw'r anifeiliaid hynny yn yr un busnes felly maent yn mynd o'r fan hon i ladd-dy ac rwy'n mynd i gynyddu gwerth yr anifeiliaid hynny drwy werthu'n uniongyrchol fy hun a pheidio â'u rhoi i Tesco i'w gwerthu.'*

(Gogledd–orllewin Cymru A – bach, defaid ac eidion)

Ac roedd yn feirniadol o sut roedd archfarchnadoedd yn rheoli'r farchnad ar gyfer cig coch:

*'Roeddwn yn dibynnu ar yr archfarchnadoedd i brynu fy nghynnyrch organig am eu bod yn gwerthu 82 y cant o gig coch drwy eu drysau ac rydych wedi'ch cyfyngu os ydych yn gynhyrchydd cig coch, ble arall gallwch chi werthu eich cig? Mae'r archfarchnadoedd wir wedi cornelu'r farchnad chi'n gwybod. Maent wedi cornelu Prydain Fawr onid ydynt a gwledydd eraill hefyd.'*

(Gogledd–orllewin Cymru A – bach, defaid ac eidion)

Yn yr un ardal o Gymru, roedd ffermwr defaid ac eidion bach arall (Gogledd-orllewin Cymru-E) yn dadlau y gellid gwneud mwy o farchnata cynnyrch lleol yn yr ardal; i fwytai ac archfarchnadoedd werthu cig lleol - er y cydnabu mai prin oedd yr allfeydd yn Nyffryn

Ogwen. Mae'n debyg bod yr Aldi lleol yn gwneud, a chafodd hyn ei ganmol, ond nid oedd Tesco yn gwneud. Dadleuwyd bod prisiau rhad archfarchnadoedd, o gymharu â phrisiau uwch mewn cigyddion lleol llai ym Methesda ac ar Ynys Môn, yn atal cwsmeriaid. Ystyriwyd bod y rhwystr hwn ac anghysondeb yn broblem o ran cynaliadwyedd yr economi fferm leol. Yn fwy cyffredinol, dadleuwyd bod gwaith gan y wladwriaeth i warchod a rhoi cymorth i ddiwydiannau a chynnyrch lleol yn allweddol i'r economi genedlaethol.

Wrth gwrs, roedd cyflenwadau fferm a brynwyd o'r tu allan i'r ardal leol. Er enghraifft, roedd y ffermwr hwn yn ne-orllewin Cymru yn rhan o 'gylch peiriannau', wedi'i leoli yn Sir Benfro, a oedd yn cwmpasu de Cymru, ac roedd yn prynu tanwydd ar gyfer y fferm drwyddo:

> *Tanwydd - daw hwn drwy'r cylch peiriannau, rydym yn rhan o gylch peiriannau Sir Benfro.'*
>
> (De–orllewin Cymru G – mawr, llaeth)

Roedd rhai 'cylchoedd peiriannau' wedi ehangu o ran eu cwmpas. Er enghraifft, roedd Cadwyn Cymru, hen gylch peiriannau, wedi trosi yn grŵp prynu cydweithredol a oedd yn cwmpasu rhannau helaeth o Gymru. Roeddent yn chwilio am y prisiau gorau am fwyd anifeiliaid a gwrtaith. Mae'n debyg bod y bwyd anifeiliaid a'r gwrtaith yn dod o Stone, Swydd Stafford.

Roedd cyflenwadau fferm eraill arbenigol yn anodd i'w prynu yn lleol. Ar gyfer y ffermwr organig hwn, i raddau roedd prynu cyflenwadau fferm wedi'i gyfyngu i rai cyflenwyr. Er bod llawer o'i wariant yn lleol a'i fod yn defnyddio pobl leol i gynnal a chadw peiriannau a llafur achlysurol, weithiau roedd yn anodd prynu bwyd anifeiliaid organig yn lleol, felly roedd yn defnyddio busnes yn Sir Benfro ac roedd yn prynu rhai eitemau o Loegr:

> *'Roedd y llwyth olaf i mi ei brynu o High Peak, Swydd Derby.  High Peak Feeds, organig unwaith eto. Wel, na, ychydig iawn sydd yma, mae gennych chi Wynnstays a c mae gennych chi CCFs, ond maen nhw i gyd yn prynu o felinau tebyg.'*
>
> (Gogledd–orllewin Cymru A – bach, defaid ac eidion)

Roedd y fferm ddefaid fach hon yng ngogledd-orllewin Cymru yn prynu mwyafrif y cyflenwadau fferm, gan gynnwys da byw, yn lleol, ond cafwyd gwrtaith a chalch o Mole Valley Farmers yn Nyfnaint. Roeddent yn archebu dros y ffôn a byddai Mole Valley yn danfon yr archebion. Mae'n debyg bod Mole Valley wedi hysbysebu yn Sioe Frenhinol Cymru. Ac am 30 mlynedd roeddent wedi prynu defaid Cheviot yn Lockerbie, yr Alban:

> *'Maent yn gwneud yn well na'r Cymry ar y mynydd i ni a bydd y bobl yn cael gwell ŵyn a gwell gwlân a phopeth a phris am y mamogiaid.'*
>
> (Gogledd-orllewin Cymru K – bach, defaid)

Er gwaethaf y ffermwyr hynny a oedd yn masnachu, am ba bynnag resymau, y tu allan i'r ardal leol, roedd awydd amlwg i gefnogi'r economi leol oherwydd fe'i gwelwyd fel rhan annatod o'r gymuned leol:

> *'Wel fel sylwch nad wyf yn prynu pethau na deunydd ar-lein nac yn prynu o fannau i ffwrdd, rwy'n tueddu i brynu popeth yn lleol. Ie, rwy'n credu rhwng cyflogi bechgyn lleol yn rhan-amser ac rydym yn prynu cynnyrch lleol….felly hoffwn feddwl ein bod yn cefnogi'r gymuned leol.'*
>
> (De–orllewin Cymru D – canolig, llaeth)

*'Ond yr hyn sy'n peri pryder i fi ynghylch hynny yw, gallaf, fe allaf ei brynu'n rhatach, ond os ydych yn parhau i'w brynu ychydig yn rhatach, yna rydych yn rhoi pawb arall allan o fusnes. Beth sy'n digwydd allan o'r economi? Mae un llaw yn dweud, "Mae'n rhaid i fi brynu fy nwyddau ar gyfer fy musnes ffermio yn rhatach", ond mae'r llaw arall yn dweud, "Aros funud, beth am gyflogaeth leol a phopeth arall?" Mae gennym blant. Nid yw pobl yn sylweddoli bod hanes economaidd gymdeithasol yn dweud llawer wrthym ac weithiau rhaid i chi ystyried, rwy'n meddwl, gall fod yn hanes modern yn ogystal â hen hanes, ac … ie, mae gennym gyfrifoldeb oherwydd os byddwch yn cadw cymunedau lleol i fynd, mae'n golygu bod gan y bobl ifanc swyddi a byddant yn aros yn yr ardal.'*

(De–orllewin Cymru G – mawr, llaeth)

### 5.2.5 Ffermio a'r gymuned

Gan gyd-fynd â'r dyfyniadau uchod, roedd llawer o'r dadleuon yn cysylltu ffermio â chymunedau lleol yn ymwneud â'r economi leol; mai mantais economaidd oedd prif fantais y fferm i'r gymuned. Gwelwyd bod ffermio yn economaidd bwysig i ardaloedd gwledig: roedd yn darparu cyflogaeth a ymddangosai fel un cyflog isel ond roedd hefyd yn cynnwys costau personol isel, megis teithio i'r gwaith:

*'Cyflogaeth yw e mae'n debyg ac rydym ni'n cynhyrchu gwerth economaidd sy'n, mae'n rhan o'r gwerth economaidd a gynhyrchir gan yr hufenfa yn Hwlffordd. Rydym yn cymryd ein hadnoddau tir ac rydym yn cynhyrchu tri chwarter miliwn o werth ohonynt mewn blwyddyn ac mae'r rhan fwyaf ohono, neu'r cyfan ohono yn ôl fy ngwraig, ond mae'r rhan fwyaf ohono yn cael ei wario yn yr ardal, felly mewn rhyw ffordd neu'i gilydd mae'n cael ei wasgaru allan i'r ardal naill ai ffurf cyflogaeth mewn busnesau eraill neu o ran darparu nwyddau a gwasanaethau.*

*Mae'n darparu cyflogaeth, mae'n cynhyrchu gwerth, mae'r rhan fwyaf o'r busnesau, well yr holl fusnesau fferm, yn fusnesau hunangyflogedig. A dweud y gwir, os ydych yn edrych ar gyfrifon fferm byddech yn dweud bod y rhan fwyaf o'r bobl yn hunangyflogedig ar ffermydd. Erbyn hyn mae'r gyflogaeth gyffredinol tua deg i bymtheg mil sy'n eithaf isel mewn gwirionedd. Mae'n wir, mae'n is na'r cyfartaledd ac eto os edrychwch ar bobl sy'n ffermwyr, ar y cyfan maent yn mwynhau ansawdd bywyd da er bod yr incwm yn isel. Yr hyn nad yw'n cael ei gostio i'r incwm yw ffaith y swydd, felly mae pobl yn tueddu i ddiystyru hynny. Nid oes ganddynt gostau cymudo am eu bod yn llythrennol yn cerdded allan o'r drws cefn i'w gweithle. Mae rhai costau megis trydan a thanwydd efallai y byddwch yn eu talu ond maent yn dueddol o gael eu cwmpasu gan gost y busnes.*

*'Felly mae rhai manteision a phethau felly ac ar yr amod nad oes pwysau ariannol o bwys nid yw'n ffordd rhy ddrwg o wneud bywoliaeth. Yr anhawster rwy'n ei weld hhediw yw bod llawer o fusnesau fferm o dan bwysau ariannol.*

(De-orllewin Cymru H – mawr iawn, llaeth)

Ar y pen arall, o ran Cymru a'r raddfa fferm, awgrymodd y ffermwr defaid ac eidion bach hwn yng ngogledd-orllewin Cymru fod ffermwyr yn gyfrwng i arian gael ei ddosbarthu drwy'r economi leol:

*'Mae'n arbennig o bwysig, yn arbennig o bwysig ydy gan nad wyf yn derbyn yr incwm hwn gan Gynulliad Cymru, dim ond y bancer ydw i, mae'n dod i mewn ac rwy'n ei ddosbarthu, oherwydd os edrychwch chi ar fy nghyfrifon fferm nid wyf yn gwneud llawer o arian yn y pen draw. Mae'n dod i mewn ac mae'n mynd, wyddoch chi, pobl fel y mecanig a'r garej arall rwy'n ei defnyddio neu'r car, y contractwr, y trydanwyr, mae rhywun sy'n cael gwaith gan y ffermydd bob amser ac maen nhw i gyd yn lleol, nid ydym yn defnyddio unrhyw gwmnïau o'r tu allan wyddoch chi, mae'r cwbl yn bobl leol gan ein bod i gyd yn adnabod ein gilydd ac rydym ni'n chwarae pŵl yn y pentref gyda'n gilydd - mae'n braf.'*

(Gogledd-orllewin Cymru A – bach, defaid ac eidion)

Gwnaeth ddwyn i gof yr adeg pan oedd y fferm, a redwyd gan ei nain a'i daid, yn hunangynhaliol ac roedd yr arian yn aros yn yr economi leol. Roedd hon yn sefyllfa roedd yn ceisio ei chyrraedd unwaith eto:

'*Roedd popeth ar y fferm chi'n gwybod a dyna fu fy nod wrth gwrs, bod popeth yn lleol, bod modd olrhain popeth rydym yn ei ddefnyddio. Pobl sy'n gweithio yn yr ardal ac nid yw'r arian hwnnw wedyn yn mynd i Tesco er mwyn adeiladu siop ar gyrion Mongolia, mae'n aros yma ac mae'n aros yn ein cornel bach ni o Gymru a gobeithio bydd yn ein cadw i fynd.'*

(Gogledd-orllewin Cymru A – bach, defaid ac eidion)

Eto yng ngogledd-orllewin Cymru, arsylwodd y ffermwr defaid ac eidion bach hwn fod ffermio yn bwysig i'r gymuned leol, o ran cyflogaeth leol a'r economi leol, yn enwedig twristiaeth:

*'Mae cryn dipyn o deuluoedd yn ddibynnol ac rwy'n credu yma, ym mhle rydym ni yn yr ardal hon, bod y diwydiant twristiaeth yn ddibynnol iawn ar ffermio lleol hefyd. Wel, caewyd yr holl westai pan gawsom glwy'r traed a'r genau yn 2000. Roedd Eryri gyfan wedi cau. Diflannodd y diwydiant twristiaeth oherwydd yr anhawster ym myd ffermio. Felly mae'n bwysig iawn.'*

(Gogledd-orllewin Cymru C – bach iawn, defaid ac eidion)

Dadleuwyd bod ffermio yn angor i ddiwylliant Cymru – dylid ei gefnogi er mwyn iddo ddarparu swyddi i bobl leol Cymru:

*'Ond hefyd y tu ôl i'r cyfan, mae'n cadw iaith a diwylliant Cymru yn fyw, oherwydd os yw'r holl bobl ifanc yn symud i ffwrdd ac yna pobl eraill yn symud i mewn, byddwch yn glastwreiddio'r iaith ymhellach, byddwch yn glastwreiddio'r diwylliant, oherwydd nid yw llawer o'r bobl ddwad erioed wedi clywed am, alla'i ddim â meddwl amdano nawr, Eisteddfodau, nid ydynt yn ymddiddori yng ngweithgareddau'r ffermwyr ifanc.'*

(De-orllewin Cymru G – mawr, llaeth)

Yn ddiwylliannol, gwelwyd ffermio fel angor a oedd yn galluogi pobl i fyw a gweithio yng Nghymru wledig. Nododd ffermwr defaid ac eidion bach (Gogledd-orllewin Cymru-E) hyd yn oed os oedd llawer o ffermydd bach lle roedd yn rhaid i deuluoedd chwilio am waith arall, roedd ymdeimlad bod y ffermydd yn cadw pobl yn yr ardal ac roedd ffermio'n lud diwylliannol pwysig o hyd.

Tynnodd rhai o'r cyfweleion eraill sylw at gymuned o ffermwyr. Er enghraifft, dadleuodd ffermwr eidion bach (De-orllewin Cymru-K) fod yna gymuned o ffermwyr yn hytrach na chymuned ffermio. Roedd gan ffermwyr o wahanol wledydd fwy yn gyffredin na ffermwyr a phobl nad oeddent yn ffermio yn yr un wlad. Roedd y gwahaniaeth diwylliannol hwn yn dod yn fwy amlwg yn lleol wrth i fwy o bobl drefol brynu eiddo gwledig gan olygu mai nhw oedd y

grŵp cymdeithasol amlycaf yn yr ardal. Rhoddodd enghreifftiau gan ddadlau bod gwleidyddion yng Nghymru yn dueddol o fod o gefndir trefol. Nid oedd hyn yn wir ar y cyfandir, lle roedd gwleidyddion yn achos at bobl wledig ac nid oedd y rhaniad diwylliannol rhwng y gwledig a'r trefol mor fawr. Mae'r dyfyniadau hyn yn ategu'r syniad o gymuned o ffermwyr:

> *'I bob pwrpas mae'r gymuned yn gymuned amaethyddol. Hen ffermwyr drewllyd ydyw yn y bôn!'*
>
> (Canolbarth Cymru C – canolig, defaid ac eidion)
>
> *'Rydych yn helpu eich gilydd, chi'n gwybod, os oes problem neu os bydd rhywun am gael rhywbeth yng nghanol y nos, pan fydd buwch yn bwrw llo neu beth bynnag, wel chi'n gwybod byddant yn galw arnoch a byddwch chi'n mynd a byddan nhw yn dod atoch chi i wneud yr un peth. Ac mae'r un peth yn wir gyda'r cynhaeaf neu beth bynnag chi'n gwybod. Ie, fel y rhan fwyaf o'n cwsmeriaid maent bron yn debycach i'ch teulu nag y byddai cwsmer busnes pe baech yn y diwydiant adeiladu neu fasnach arall.'*
>
> (Canolbarth Cymru A – bach, defaid)

Fodd bynnag, roedd barn ansicr o ran ffermio a'r gymuned. Roedd y ffermwr canolig, defaid ac eidion hwn yng ngogledd-orllewin Cymru yn cytuno bod ffermio yn bwysig i'r dirwedd, a bod hyn yn ei dro wedi helpu'r gymuned a'r economi leol o ran gwariant ffermwyr. Ond roedd yn ansicr o ran gwerth uniongyrchol ffermio i'r gymuned leol:

> *'Mae'n gwestiwn anodd. Gallwch ddadlau amdano, gallwn ddweud wrthych ei fod yn bwysig iawn. O ran y dirwedd mae'n bwysig iawn, iawn, ond faint ohonom fel ffermwyr sy'n amser llawn, dim llawer a bod yn onest gyda chi, ond am ein bod yn gwario arian...mae'n bwysig rwy'n credu i'r gwerthwyr peiriannau a phobl lle rydym yn gwario ein harian, ond pa mor bwysig rydym i'r ysgol...mae pawb yn helpu ond mae llawer ohonynt yn gweithio hefyd y dyddiau hyn, mewn llawer o achosion, nid yw'n beth hyfyw i fod ynddo...yn enwedig yma. Ar y gwaelod yno, ceir ffermydd mwy …ond chi'n gwybod….mae un o'm ffrindiau sydd â thri o blant yna, chi'n gwybod, un arall sydd â thri... dyweder bod 12 o blant yn yr ysgol, a rhywbeth i'r siop. Ond rhaid i chi fesur pa mor bwysig eich hunain, ni allaf ateb hynny, chi'n gwybod, mae'n...Ond i'r dirwedd, mae'n bwysig iawn, iawn yn yr ardal hon oherwydd y waliau, waliau cerrig sych sy'n dyddio o 1700, rydym yn eu cynnal a'u cadw. Wel, rwy'n cynnal a chadw nifer dychrynllyd o waliau a phethau, chi'n gwybod? Ac os na fyddem yma, byddai lleoedd yn mynd â'u pennau iddynt yn fuan.'*
>
> (Gogledd-orllewin Cymru D – canolig, defaid ac eidion)

A chafwyd cyfweleion a awgrymodd fod y cysylltiad rhwng ffermio a 'r gymuned, ar ei orau, yn cyrraedd pen ei dennyn ac, ar ei waethaf, roedd eisoes wedi'i dorri. Rhoddwyd amrywiaeth o resymau am golli'r ymdeimlad hwn o gymuned. Awgrymodd y ffermwr hwn yng Nghanolbarth Cymru, ar fferm ddefaid ac eidion fach iawn, fod ffermydd wedi cael eu prynu a'u meddiannu gan bobl nad ydynt o gefndir ffermio a rhagwelodd y byddai strwythur y gymuned yn parhau i newid dros y degawd nesaf wrth i ffermwyr heneiddio a lle na fyddai'r awenau'n cael eu trosglwyddo i'w plant:

> *'Mae rhai bythynnod bach ac ati wedi cael eu prynu. Ni fyddwn yn dweud bod cymaint â hynny o ail gartrefi ond mae pobl yn symud i'r ardal. Rydych yn ymddeol neu beth bynnag ond na mae'r rhan fwyaf o ffermydd â ffermwyr ynddynt er nad ydynt wir yn ffermio, maent yn rhentu'r fferm*

*allan neu nid ydynt yn gwybod beth sy'n mynd i ddigwydd yn y 10 mlynedd nesaf oherwydd gallaf feddwl am dri neu bedwar yn yr ardal hon sydd yn eu 70au ac mae'r 10 mlynedd nesaf yn mynd i fod yn hanfodol oherwydd ni fyddant yn ffermio oherwydd mae'n debygol na fydd canran sylweddol ohonynt hyd yn oed yma.'*

(Canolbarth Cymru G – bach iawn, defaid ac eidion)

Roedd yn ymddangos bod gan ffermwyr yng ngogledd-orllewin Cymru farn gref ar ddirywiad y gymuned. Er enghraifft, yn achos ffermwr defaid bach (Gogledd-orllewin Cymru-H), er iddo gyfaddef bod ei gymdogion hŷn traddodiadol i gyd wedi'u 'clymu wrth y tir', a bod hyn yn sicrhau bod y diwylliant ffermio yn aros yn yr ardal, awgrymodd fod pethau wedi newid er gwaeth ac nad oedd landlordiaid absennol sy'n rhentu tir allan yn helpu ysbryd cymunedol. A nododd ffermwr defaid bach arall (Gogledd-orllewin Cymru-B) fod pethau wedi newid dros y 15 mlynedd diwethaf gyda phawb bellach yn gweithio oddi ar y fferm. Mae'n debyg mai un fferm yn unig yn y dyffryn oedd yn amser llawn. Roedd yn rhaid i'r ffermwyr eraill ymdopi â galwadau bywyd modern, a oedd yn golygu bod yn rhaid i deuluoedd deithio mwy, mynd â'r plant allan, mynd i'r dref, gwneud pethau, a phrynu pethau, gan arwain at gostau uwch. Dadleuodd fod y galwadau newydd hyn wedi arwain at dorri'r ffabrig cymdeithasol traddodiadol. Mae'n debyg bod ffermwyr yn dal i ddod at ei gilydd ac yn dal i helpu ei gilydd gyda rhai pethau, ond bod y cyd-ddibyniaeth a'r ysbryd cymunedol wedi mynd - nid oedd amser gan bobl ac roeddent i gyd yn rhoi eu hunain yn gyntaf. Dadleuodd y ffermwr defaid ac eidion mawr hwn nad oedd ffermio mae'n debyg mor bwysig i'r gymuned ag ydoedd yn flaenorol:

*'Mae'n anodd ateb oherwydd mae'n debyg 40 mlynedd yn ôl roedd pobl yn gweithio ond gall pobl weithio o gyfrifiadur a gallant gynnal trafodion gydag Affrica neu yn unrhyw le ac mae pawb yn eithaf annibynnol a gall fod wythnosau lle na fyddwch yn gweld braidd neb. Felly mae'n bwysig, ond pe baech yn siarad â rhywun yn y pentref ni fyddent yn hidio 'run botwm corn.'*

(Gogledd-orllewin Cymru J – mawr, defaid ac eidion)

Dangosir dadleuon a sylwadau tebyg ar golli cymuned gan y dyfyniadau canlynol:

*'Rydym yn gymuned ffermio yma er bod nifer y ffermydd wedi gostwng yn sylweddol ers i ni ddod yma 30 mlynedd yn ôl. Erbyn hyn, ni yw'r unig rai ar y ffordd hon sy'n berchen ar ein stoc ein hunain.'*

(De-orllewin Cymru B – bach iawn, eidion)

*'Nid oes cymuned fel y cyfryw, mae… chi'n gwybod, wedi colli ei hysgol, nid oes ganddi dafarn, mae ganddi ganolfan gymunedol ond nid oes ganddi ganolbwynt, felly does dim cymuned go iawn yno, felly mae'n fwy o le i fyw ynddo a gwneud pethau yn hytrach na, chi'n gwybod, nid yw'n un o nodweddion cymunedol nac unrhyw beth.'*

(Canolbarth Cymru B - bach iawn, eidion a defaid)

*'Lle mae gennych bobl, wel, cymdogion drws nesaf yma a does dim syniad ganddynt, ac maent wedi byw yng nghefn gwlad drwy gydol eu bywyd. Mae ganddynt eu swyddi o naw tan bump ac maent yn mynd i eistedd yn eu tŷ, nid ydynt wir yn cymryd rhan yn y gymuned neu unrhyw beth felly. Does dim o'i gyda'r ardal o gwbl, ond nid wyf yn gweld bod yna unrhyw ganolbwynt gwirioneddol ar ffermio yma.'*

(Canolbarth Cymru D –canolig, defaid ac eidion)

*'Roedd yn arfer bod, a chryn dipyn hefyd, roedd yn arfer bod yn gymuned go iawn. Pan oeddwn yn blentyn roedd y gymuned gyfan wir yn gefn i'w gilydd, unrhyw un â phroblem yna roeddech yn gwybod y gallech ofyn am gymorth a byddech yn cael dwsin o'ch cymdogion i roi help llaw i chi. Yn yr haf byddem i gyd yn helpu ein gilydd gyda'r cnydau. Nawr i bob pwrpas rydym yn ynys ar ein pen ein hunain ac rydych dim ond yn gweld eich cymdogion, wel ….oherwydd nid yw'r rhan fwyaf o'r ffermydd bellach yn ffermydd go iawn. Nid oes ceffylau ac ati ar y rhan fwyaf o'r tir. Maent yn rhentu'r tir i'r ffermydd mawr. Ac mae gennych ychydig o ffermydd mawr nad ydynt wir yn poeni am y cymdogion am eu bod yn canolbwyntio cymaint ar eu busnes eu hunain. Felly mae'r gymuned wedi diflannu dros oddeutu'r 15 mlynedd diwethaf.'*

(De-orllewin Cymru E – bach, cymysg)

Felly roedd y rhain yn farn amrywiol ar ffermio a'r gymuned leol. Er nad oedd patrwm amlwg, er enghraifft o ran daearyddiaeth na math a maint fferm o ran y farn hon, roedd ymdeimlad sylfaenol bod cysylltiadau'r gymuned ffermio draddodiadol o dan straen. O ystyried bod y ffactorau achosol canfyddedig yn cynnwys newid strwythurau fferm a gofynion newidiol bywyd modern, mae'r adran ganlynol o'r naratif yn archwilio taflwybrau'r ffermydd y cyfwelwyd â hwy, gan gynnwys materion incwm oddi ar y fferm, arallgyfeirio, ynni amgen, cynlluniau amaeth-amgylcheddol, deiliadaeth ac olyniaeth.

### 5.2.6 Taflwybrau ffermydd

Fel y mae'r arolwg yn ei nodi, roedd llawer o ffermwyr yn bwriadu parhau â busnes fel arfer. Fodd bynnag, bydd y potensial i gyflawni'r dyhead hwn yn dibynnu ar ffactorau diriaethol megis math a maint y fferm, oed, tirddaliadaeth, ac ar ffactorau ysgogol megis personoliaeth, diwylliant, cadernid a'r gallu i addasu.

#### 5.2.6.1 Taflwybrau Ffermydd Llaeth

I raddau roedd ffermydd llaeth yn unigryw o ran eu bod yn dueddol o ganolbwyntio ar gynhyrchu llaeth yn unig. Roeddent yn cael eu hysgogi gan y farchnad roedd ganddynt gynlluniau busnes, yn defnyddio technoleg, nid oeddent yn or-ddibynnol ar y taliad sengl; roeddent yn dueddol o beiddio ag arallgyfeirio; ac roeddent yn dymuno ehangu, fel y mae'r dyfyniadau hyn yn dangos:

*'Rydym yn gwbl ddibynnol ar y farchnad ac rydym yn canolbwyntio ar wneud yr hyn y mae'r farchnad yn ei wneud ac rydym yn canolbwyntio ar ddylanwadu ar y pethau y mae gennym rywfaint o reolaeth drostynt, felly rydym yn ystyried ein costau cynhyrchu yn benodol ac rydym yn canolbwyntio llawer ar hynny ac felly rydym yn dueddol o weithredu system a all ymdopi ag anwadalrwydd prisiau yn y farchnad. Rydym yn gweithredu gydag elw gweithredu eithaf uchel, gadewch i ni ddweud hynny felly, sy'n ein galluogi i ymdopi ag anwadalrwydd ac felly o ran ein proffidioldeb nid ydym yn dibynnu llawer ar y taliad sengl na'r cymhorthdal.'*

*'Rydym o'r farn bod y busnes yn tyfu. Fe wnaethom ni gymryd fferm wedi ei thenantio drosodd yr hydref diwethaf ac rydym ni'n chwilio am fferm arall nawr i sefydlu ail uned odro arni. Felly'r syniad yw y byddwn yn ceisio dyblu'r fuches odro yn ystod y ddwy i bum mlynedd nesaf.'*

(De-orllewin Cymru H – mawr iawn, llaeth)

Gwnaed y pwynt ei bod yn well canolbwyntio ar yr hyn rydych yn dda yn ei wneud, yn hytrach na gwanhau'r ymdrech drwy arallgyfeirio diangen:

> *‘Dyma'r hyn rydym yn ei wybod a dyna'r pwynt, mae bob amser risg pan fyddwch yn ystyried cyfle i arallgyfeirio, rydych o bosibl yn ei wneud oherwydd anobaith ac yn chwilio am bethau eraill i'w gwneud a chi'n gwybod rwy'n credu bod angen i ni adeiladu ar y sgiliau rydym yn dda iawn yn eu gwneud ac mae angen i ni adeiladu ar hynny. Felly rwy'n credu bod angen i ni weithiau ganolbwyntio ar y busnes craidd yn hytrach na gwanhau'r amser a'r ymdrech ar lawer o bethau bach na ydym o bosibl cystal yn eu gwneud ac na fyddwn mor llwyddiannus yn eu gwneud mewn gwirionedd.’*
>
> (De-orllewin Cymru A – mawr iawn, llaeth)

Cafodd y fferm laeth ei rhedeg gan deulu o siaradwyr Cymraeg, a oedd wedi eu geni a'u magu ar y fferm. Roeddent yn canolbwyntio ar ffermio llaeth effeithlon heb fawr o amser na lle i lawer o bethau eraill:

> *‘Peidiwch â gwneud unrhyw beth gyda siopau te ffermydd, peidiwch â gwneud unrhyw beth gyda gwerthiannau siopau fferm. Rydym yn gwneud gwaith contractio ond nid ydym yn gwneud unrhyw waith hamdden. Nid ydym yn gwneud unrhyw beth gyda llety na chnydau ynni. Nid ydym yn gwneud unrhyw beth o ran dofednod. Felly nid ydym yn gwerthu cnydau, dim ond cnydau a dyfir at ein dibenion ein hunain.’*
>
> (De-orllewin Cymru D – canolig, llaeth)

Er i'r ffermwr uchod nodi mai'r *‘unig ffordd y byddaf yn gadael ffermio yw mewn arch’,* fel pe bai'n atgyfnerthu natur unigryw ffermwyr llaeth a'u cymhellion o ran elw, mewn gwrthgyferbyniad â ffermwyr mewn meysydd eraill a oedd fel arfer yn gwneud honiadau megis y byddent yn gadael ffermio *‘pan fyddaf yn marw yn unig’* , nododd sawl ffermwr llaeth eu bod yn ymrwymedig i ffermio ‘ *ar yr amod ei fod yn broffidiol’* (De-orllewin Cymru H – mawr iawn, llaeth) ac y byddent yn *‘gadael ffermio pe na bai arian i'w ennill mewn llaeth’* (De-orllewin Cymru J – canolig, llaeth) .

Roedd gan lawer o'r ffermydd llaeth y cyfwelwyd â hwy gynlluniau busnes ac roeddent yn defnyddio technoleg. Er enghraifft, cafodd y llaethdy hwn ei redeg yn wyddonol gan ddefnyddio cyfrifiaduron, wedi'u cysylltu â'r system cofnodion Llaeth Cenedlaethol:

> *‘Mae gennyf dri chyfrifiadur yma ar gyfer ein busnes yn unig. Mae gennym un yn y sied, sy'n defnyddio ac yn rhedeg y tŷ godro cyfan. Mae honno'n system lefel uchel iawn o ran bod gan yr holl wartheg strapiau bach o amgylch eu coesau gyda pedometrau arnynt, dyna'r enw a roddwn arnynt, ac maent yn mesur eu gweithgarwch. Felly mae gennym fanylion adnabod awtomatig: pan fydd y gwartheg yn dod i mewn i'r tŷ godro maent yn cael eu hadnabod yn awtomatig o'r rhifau ar eu coesau a gallwch fesur faint o laeth maent yn cynhyrchu bob dydd a cheir trothwy felly os yw eu llaeth yn cynyddu neu'n gostwng bum neu 10 y cant mae'n amlwg bod rhywbeth o'i ar yr anifail. Yna maent yn mynd drwy'r tŷ godro ac yn cael eu rhannu'n gorlan benodol ac ati felly mae'n system eithaf gwyddonol. Felly o ran y system honno, mae'n hanfodol nad yw'n dibynnu ar fand eang na dim byd arall. Byddai'n ddefnyddiol pe bai gennym fynediad i fang eang yno ond nid yw ar gael yma.’*
>
> (De-orllewin Cymru A – mawr iawn, llaeth)

Yn ogystal, roeddent yn ystyried y posibilrwydd o ddefnyddio cyfrifiaduron i gofnodi pedigri gwartheg at ddibenion bridio, marchnata a gwerthu a defnyddio ‘apiau’ ar gyfer dyfeisiau symudol i bobl roi gwybod iddynt am y gwartheg drwy ddulliau rhyngweithiol.

Roedd ffermydd llaeth fel arfer yn gwerthu eu llaeth i un prosesydd. Yn wir, gellid dadlau bod proseswyr llaeth yn dylanwadu ar strwythur ffermio llaeth o ran awgrymwyd ei fod yn hanfodol i lwyddiant y diwydiant i gynnal màs critigol o ffermydd llaeth mewn ardal, i alluogi proseswyr llaeth i gyflawni darbodion maint. Fel y nododd y ffermwr godro hwn, byddai proseswyr yn gwasanaethu ardal dim ond pe bai màs critigol o ffermydd llaeth:

*'Roeddem yn cyflenwi Dairy Farms of Britain, aethant i'r wal ychydig o flynyddoedd yn ôl a chollom lawer o arian. Roedd gennym lawer o arian wedi'i fuddsoddi ynddynt. Felly mae'r dewisiadau sydd gennym o ran pwy rydym yn gwerthu ein llaeth iddynt wedi'u lleihau'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf. Pe bai Dairy Crest yn tynnu allan o'r ardal i ble rydych yn gwerthu eich llaeth mewn gwirionedd? Felly rwy'n credu bod yna risg. Rwy'n credu ein bod yn ffodus o safbwynt amaethyddol, o safbwynt llaeth lle rydym ni ceir cryn dbyn o ffermydd llaeth yma ac maent wedi lleihau'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf ond mae dal gennym fàs critigol i annog cwmnïau i ddod yma i godi llaeth, i brynu llaeth yn yr ardal. Y risg yw os bydd mwy o bobl yn gadael ffermio llaeth bydd llai ohonom felly bydd llai o fàs critigol felly pan fydd y tancwyr yn dod chi'n gwybod efallai y bydd rhaid iddynt deithio am bellter hir sy'n peryglu eu busnes mewn ffordd, nid ydynt mor effeithlon o ran y gost.'*

(De-orllewin Cymru A – mawr iawn, llaeth)

Ac un o'r rhesymau pam roedd y fferm fach hon wedi rhoi'r gorau i ffermio llaeth a symud i ffermio cymysg oedd amharodrwydd proseswyr llaeth i ymgysylltu â ffermydd llaeth llai:

*'Roeddent yn fodlon casglu o bobl fach ar yr ardeg honno, mae'n amlwg. Ar ôl iddynt fynd ymhellach i ffwrdd maent am aros ar gyfer swm mawr o laeth, onid ydynt? Roedd yn arfer bod yn fferm gynhyrchiol dda iawn a wnaeth fywoliaeth dda ond wrth gwrs mae popeth yn newid nawr – oni bai bod gennych 100 o wartheg nid oes gan y diwydiant llaeth ddiddordeb ynddoch. Roeddem yn arfer godro rhwng 35 a 40 yma pan oeddwn yn iau a gwnaeth hynny incwm da felly, i ni fely teulu ond ni chynyddodd pris llaeth o gwbl - mae pris bwyd gwartheg yn uchel ofnadwy erbyn hyn.'*

*'Felly rhaid i chi gynyddu eich cynhyrchiant o ran yr hyn rydych yn ei ffermio mewn gwirionedd felly os nad oes gennych 100, os nad ydych yn godro 100 nid yw'n werth ei wneud. Mae'n gwthio pobl fel ni allan – roeddem yn fferm hyfyw tan yn ddiweddar iawn.'*

(De-orllewin Cymru E – bach, cymysg)

Roedd hyd yn oed ffermwyr canolig a mwy yn gweld mai'r proseswyr a'r archfarchnadoedd a oedd yn rheoli'r diwydiant llaeth. Er enghraifft, roedd y fferm laeth hon yn gwerthu ei holl laeth i First Milk drwy Hufenfa Hwlffordd. Roedd y ffermwr yn pryderu nad oedd yr hufenfa leol yn talu ddigon ac y byddai hyn yn arwain at golli màs critigol, a fyddai'n effeithio ar yr economi leol:

*'Mae'n fy ngwylltio ychydig bach nawr nad yw Hufenfa Hwlffordd yn talu cymaint o arian ac mae llawer o bobl sydd bellach yn anfon eu llaeth i fannau eraill. Ond os byddant yn colli màs critigol, mae'n cyrraedd cam lle, efallai, y byddai'r Hufenfa honno yn aneconomaidd. Ac os daw'n aneconomaidd, yna'n sydyn, bydd yn rhaid i'r holl laeth fynd allan o Sir Benfro, neu'r de-Orllewin, beth bynnag rydych am ei alw …ac nid dim ond yma, mae Cernyw yn wynebu'r un broblem. Wedyn bydd y llaeth hwn yn mynd allan, ac mae hynny'n mynd â swyddi, mae'n mynd â refeniw, mae'n mynd â phob math o bethau. '*

(De-orllewin Cymru G– canolig, llaeth)

A nododd y ffermwr hwn fod ffermydd llaeth ar drugaredd y proseswyr llaeth mawr a oedd yn gosod y prisiau. Roedd yn gwerthu ei laeth i Saputo Cheese yng Nghastellnewydd Emlyn, a oedd yn cyflenwi Domino’s Pizza a Pizza Hut:[3]

> *‘Mae’n dibynnu a ydynt am ei dorri yn ôl neu ei gynyddu hanner ceiniog neu beth bynnag, allwch chi ddim â dweud mewn gwirionedd oherwydd yn y gwanwyn mae'n gweithio allan pan fydd gennym fwy o laeth oherwydd bod y pris yn isel, mae'n gostwng ac mae'r pris yn cynyddu felly mae'n…debyg i First Milk a'r gweddill ohonynt. Mae un yn gwneud y cyfan.’*
>
> (De-orllewin Cymru J – canolig, llaeth)

Er y deallwyd bod unedau llaeth yn cael eu gorfodi i ehangu er mwyn goroesi, dadleuodd rhai ffermydd, megis y tîm ffermwr a mab hwn y gallent dim ond ehangu i ryw raddau oherwydd ni allent fforddio prynu mwy o dir:

> *‘Gan ein bod yn gyfyngedig o ran maint, roedd yn rhaid i ni ddod o hyd i ffordd o gael mwy o refeniw. Ni allwn gystadlu â’r ffermydd mawr oherwydd byddai prynu mwy o dir yn yr ardal hon yn costio ffortiwn i ni am fod llawer o bobl sydd oll yn edrych am yr un darn o dir.’*
>
> (De-orllewin Cymru G– canolig, llaeth)

O ganlyniad, roeddent yn chwilio am ffyrdd eraill o barhau â'u fferm deuluol, megis y gosodiadau ynni amgen yr oeddent wedi buddsoddi ynddynt.

Dadleuodd ffermwyr eraill fod ffermio llaeth, wedi'i ysgogi gan ei strwythur prisiau, yn symud tuag at unedau cynyddol fwy, a oedd yn bygwth bodolaeth tymor hwy'r ffermydd teuluol:

> *‘Sut mae hynny’n cyd-fynd â'r ffermydd teuluol? Ceir llu o gwestiynau, mewn gwirionedd mae'n ddiddorol iawn, iawn.’*
>
> (De-orllewin Cymru G– canolig, llaeth)

Cododd y cyfweleion nifer o broblemau'n ymwneud â'r seilwaith prosesu yng Nghymru. Er enghraifft, dadleuodd ffermwr llaeth mawr iawn (Canolbarth Cymru-H) y dylai Llywodraeth Cymru fod wedi buddsoddi a chael mwy o weledigaeth ynghylch hyn. Roerdd yn rhaid cludo llaeth mor bell y dyddiau hyn ac roedd hyn yn ychwanegu at gostau. Yn gysylltiedig â hyn, nododd fod y cyfle i werthu mewn fformatau gwahanol yn anodd, unwaith eto yn rhannol oherwydd economeg cludo pellter hir. Roedd yn gwneud mwy o synnwyr rhoi'r llaeth mewn tancer mawr a mynd ag i'r ‘farchnad’ yn hytrach na cheisio ei gludo mewn poteli neu'r cynnyrch gorffenedig. Yn gyffredinol, dadleuwyd nad oedd Llywodraeth Cymru wedi dangos digon o arweinyddiaeth o ran cefnogi cymunedau gwledig a'r sector ffermio.

Y ffactor arall sy'n rheoli o ran strwythur pris llaeth yw'r archfarchnadoedd. Awgrymodd ffermwr llaeth mawr iawn (De-orllewin Cymru-H) fod y farchnad ar gyfer llaeth yn cael ei rheoli gan yr archfarchnadoedd a fyddai, pe bai'n cael ei herio gan ffermwr llaeth, yn dileu llaeth y ffermwr. Oherwydd bod llaeth yn gynnyrch mor ddarfodus, roedd yn anodd cyd-drafod yn yr amserlen ofynnol. Roedd yn gobeithio y byddai'r ombwdsmon archfarchnadoedd newydd yn mynd i'r afael â'r mater hwn.

Yn gyffredinol, ystyriwyd bod archfarchnadoedd yn broblem. Dadleuwyd eu bod yn ymrannu'r gymuned ac er eu bod yn darparu swyddi roedd y rhain yn ddibynnol ar lwyddiant yr archfarchnad ac roeddent yn anghydnaws â chymeriad yr ardal. Yn ogystal, ystyriwyd bod

[3] On 25 Ar 25 Chwefror 2013, yn fuan ar ôl y cyflweiad hwn, cyhoeddwyd bod safle Saputo Cheese yng Nghastell Newydd Emlyn yn mynd i gau. Cyhoeddwyd cyfnod ymgynghori o 30 diwrnod.

archfarchnadoedd yn cael effaith andwyol ar bris cynnyrch llaeth a dadleuwyd byddai llawer yn well i ffermwyr a ffermio pe na bai prisiau'n cael eu pennu gan y proseswyr llaeth a'r archfarchnadoedd:

> *'Wel os byddai gan ffermio- beth yw'r gair- lle ni allech bennu ond dweud pa bris rydych am ei gael am eich litr o laeth, fel y mae archfarchnadoedd yn dweud y mae'n rhaid i chi ei dalu. Nid oes gennym lais yn hynny, byddai'n dda pe bai gan y ffermwr ryw fath o lais yn y mater, nid yw hynny'n digwydd ar hyn o bryd. Rhaid iddynt dderbyn yr hyn a roddir iddynt. Onid ffermio yw'r unig fusnes nad yw'n cael dweud beth mae am ei gael am ei gynnyrch?'*
>
> (De-orllewin Cymru J – canolig, llaeth)

Dros amser, dadleuwyd bod cyfrannau'r pris llaeth wedi symud o fod o blaid y cynhyrchwr fferm i fod o blaid y manwerthwr (archfarchnad fel arfer):

> *'Gan ddefnyddio llaeth fel enghraifft, rydych wedi gweld, os ewch yn ôl i'r adeg pan gafodd y farchnad laeth ei dadreoleiddio cafodd ffermwyr tua 50 y cant o bris y llaeth, cafodd y prosesydd tua 40 y cant a chafodd y manwerthwr 10 y cant. Heddiw mae'r manwerthwr yn cael 30 i 40 y cant. Mae'r prosesydd wedi gostwng i tua 20 i 30 y cant ac mae'r ffermwr yn cael yr hyn sy'n weddill ac rydych wedi gweld erydiad mewn termau arian parod lle mae union ganran y cynnyrch sylfaenol sy'n eistedd, yn dod yn ôl atom ni ar y fferm wedi'i erydu'n sylweddol fel bod yr archfarchnad, os edrychwch ar litr o laeth yn yr archfarchnad heddiw mae'r archfarchnad yn cael tua 16 i 18 ceiniog y litr ac mae'r ffermwr fel pris gros dim ond yn cael tua 26, 27 cyn costau. Felly rydych wedi cael hyn a phan fydd yr archfarchnad, os ewch yn ôl 20 mlynedd roedd yr archfarchnadoedd yn cael tua dwy geiniog y litr, un i ddwy geiniog y litr am werthu'r llaeth … dim ond ei roi ar y silff. Felly cafwyd hyn, newid enfawr o ran gwerth ac a yw'r defnyddiwr wedi elwa? Na, oherwydd yr unig beth sydd wedi digwydd yw bod pris llaeth wedi cynyddu ond mae'r archfarchnad wedi cymryd mwy, rhan fwy, fwy a fwy drwy'r amser.'*
>
> (De-orllewin Cymru G– canolig, llaeth)

Er gwaethaf y problemau godro a'u cydnabyddiaeth bod ffermydd llaeth yn tueddu i ehangu, roedd rhai ffermwyr llaeth yn sensitif am eu delwedd. Er enghraifft, roedd y ffermwr llaeth mawr iawn hwn yn ne-orllewin Cymru yn teimlo bod ffermydd megis eu rhai hwy yn cael beirniadaeth ormodol a hoffent gael eu gwobrwyo am eu harbenigedd yn hytrach na chael eu gorfodi i wneud rhywbeth nad oeddent mor brwdfrydig â hynny yn ei gylch, megis cynlluniau amaeth-amgylcheddol neu arallgyfeirio. Roedd wedi'i gythruddo gan agweddau negyddol tuag at ffermydd dwys a dadleuodd fod y fferm yn gymharol olygfaol ac roedd yn ymrwymedig i'r hyn y mae'n ei wneud:

> *'Chi'n gwybod ar ddiwedd y dydd rwy'n credu, dwi ddim yn credu ei bod yn edrych mor wael yma o ystyried ein bod yn cael ein dosbarthu fel fferm laeth ddwys. Pan fydd pobl yn defnyddio'r gair dwys mae'n gwneud i chi feddwl am ffermio ffatri a'n bod yn gwneud gwaith ofnadwy. Wel rwy'n edrych o amgylch ac rwy'n gweld llawer o anifeiliaid gwyllt ac adar a phethau gwahanol o amgylch yma, efallai fy mod braidd yn naïf ond dwi ddim yn credu ei bod cynddrwg mewn gwirionedd.'*
>
> (De-orllewin Cymru A – mawr iawn, llaeth)

Roedd ffermwyr llaeth eraill yn pryderu y byddai'r duedd tuag at unedau llaeth cynyddol fawr, megis y rhai yn systemau America a Seland Newydd, yn dieithrio barn y cyhoedd. Cwestiynwyd a fyddai'r cyhoedd yn derbyn y materion lles anifeiliaid canfyddedig.

#### 5.2.6.2 Taflwybrau mathau eraill o fferm

Wrth gwrs, ac eithrio ffermydd llaeth, roedd taflwybrau'r mathau o ffermydd yn amrywio. Roedd rhai wedi'u cloi i mewn i un math o ffermio. Er enghraifft, nid oedd y fferm hon wedi arallgyfeirio, ac roedd yn well ganddi ganolbwyntio ar ei busnes defaid craidd. Yn ogystal, dadleuwyd y byddai arallgyfeirio i faes gwely a brecwast yn golygu talu am lafur ychwanegol a'i fod yn dueddol o fynd yn orlawn o ran y farchnad:

> *‘Os ydych chi’n mynd i mewn i rywbeth ac mae rhywun arall yn gwneud hynny, wel iawn, ond rydych chi’n rhoi ychydig mwy o bwysau fel ein cymdogion sy’n rhedeg busnes gwely a brecwast. Y mwyaf o bobl sydd â busnes gwely a brecwast yn yr ardal y lleiaf mae pobl yn ei wneud, wyddoch chi. Os bydd rhywun yn dod o hyd i rywbeth maen nhw’n ei wneud yn dda, ac yna’n sydyn rydych chi’n cael llawer o bobl yn rhedeg at hynny, nid yw hynny’n dda. Gofalu am ddefaid yw’r hyn rwy’n ei ddeall felly mae’n rhaid i chi wneud yr hyn rydych chi’n dda am ei wneud ac mae’n cymryd amser o ran y ffordd rwy’n gofalu amdanyn nhw. Felly mae’n bosibl y byddai’n rhaid i mi gyflogi rhywun arall pe bawn i’n arallgyfeirio.’*
>
> (Gogledd-orllewin Cymru J – mawr, defaid ac eidion)

Ar gyfer y fferm hon y cynllun oedd cario ymlaen fel yr oeddent am cyhyd ag y gallent, drwy dorri yn ôl lle bo angen:

> *‘Byddaf yn parhau i weithio cyhyd ag y gallaf, fel fy nhad nawr ei fod yn 81. Fi sy’n gwneud y rhan fwyaf o’r gwaith. Ond gawn ni weld sut aiff hi, gweld sut aiff hi. Batno’r hatsys oedd y syniad yn ystod y ddwy flynedd nesaf, rwy’n credu, os bydd pethau’n mynd yn ôl y disgwyl, cadw pethau’n dyn a bwrw ymlaen.’*
>
> (Gogledd-orllewin Cymru D – canolig, defaid ac eidion)

Roedd y ffermwr hwn yn y de-orllewin, yn bwriadu parhau â busnes fel arfer, ond nid oedd yn bwriadu paratoi cynlluniau busnes:

> *‘Maen nhw'n dweud os ydych chi eisiau gwneud i Dduw chwerthin, dywedwch eich cynlluniau wrtho. Felly, ni fyddwn yn rhoi gormod o bwys ar ddilysrwydd cynlluniau busnes. Ysbrydoliaeth ydynt, nid map o'r ffordd.’*
>
> (De-orllewin Cymru K – bach, eidion)

Fodd bynnag, nododd ffermwr ar fferm fawr, defaid ac eidion (Gogledd-orllewin Cymru-F) fod busnes yn weddol fywiog ac mai'r unig senario fyddai'n gwneud iddynt feddwl am adael ffermio fyddai pe bai'r busnes fferm yn gwneud colledion anghynaladwy. Eu cynllun oedd parhau â ‘busnes fel arfer’ ond roeddent yn gobeithio y byddai'r incwm o'r tyrbn gwynt, yr oeddent yn buddsoddi ynddo, yn mynd i'r afael ag unrhyw ddiffyg.

### 5.2.7 Arallgyfeirio

Roedd agweddau at arallgyfeirio yn amrywio ar draws y 30 o gyfweleion. Dadleuodd rhai nad oedd yr elw o arallgyfeirio yn ddigon i gyfiawnhau'r ymdrech ond roedd arallgyfeirio yn achubiaeth ariannol i eraill. Byddai eraill wedi hoffi arallgyfeirio ond mae'n debyg eu bod yn cael eu hatal gan amodau eu deiliadaeth neu gan gynllunio. Ac roedd cyfweleion a oedd yn gwrthwynebu arallgyfeirio ar egwyddor. Mae'r rhannau canlynol o'r cyfweliadau yn dangos y sefyllfaoedd amrywiol hyn.

Yng ngogledd-orllewin Cymru roedd nifer o gyfweleion a oedd wedi arallgyfeirio yn llwyddiannus. Er enghraifft, roedd ffermwr defaid ac eidion bach iawn (Gogledd-orllewin Cymru-C) wedi arallgyfeirio i fridio a hyfforddi ceffylau. Roedd hwn yn fusnes rhyngwladol, â chleientiaid a stoc bridio o ansawdd uchel. O'r herwydd, nid oedd yn agored i'r perygl o orlenwi'r farchnad gan nad oedd yn cystadlu yn y farchnad hamdden marchogaeth leol. Yn wir, roedd eu ceffylau yn cystadlu mewn marchnadoedd byd-eang, yn fasnachol ac ym maes chwaraeon, ac wedi ennill sawl digwyddiad a gwobr uchel eu parch.

Hefyd yng ngogledd-orllewin Cymru, roedd ffermwr defaid ac eidion bach wedi sylweddoli na fyddai ffermio ar ei ben ei hun yn darparu digon o incwm, ac roedd yn symud i mewn i swyddogaethau amryfal. Dadleuodd fod lleoliad ei fferm yn golygu bod arallgyfeirio yn angenrheidiol. Fferm dan denantiaeth yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol oedd hon, ychydig islaw Cwm Idwal yn Nant Ffrancon, lleoliad poblogaidd i dwristiaid. I raddau helaeth roedd yn fferm fynydd gyda thir serth iawn. Roedd y ffermwr yn organig ac yn cadw amrywiaeth o wahanol anifeiliaid: defaid, gwartheg eidion, moch a geifr. Er mai defaid ac eidion oedd yr anifeiliaid craidd, roedd hefyd yn cadw moch a geifr. Defnyddiwyd y moch i ddigroeni tir i leihau costau peiriannau, ac yna cawsant eu lladd ar gyfer cig, a chafodd y geifr eu lladd hefyd i'w gwerthu fel cig. Roedd cynlluniau i gadw byfflo dŵr ar gyfer cig.

Gan ddefnyddio grantiau arallgyfeirio LlC, roedd wedi sefydlu bwthyn hunanddarpar, â thwb poeth, trwy ailwampio un rhan o'r ffermdy. Roedd hefyd yn cychwyn fan luniaeth i werthu ei gynnyrch a chynhyrchion organig lleol eraill, fel bara gan bobydd crefft ym Methesda, llysiau o Ynys Môn a choffi Dwyfor. Roedd hon i'w lleoli ar ben uchaf ei dir ger maes parcio Cwm Idwal, gan roi mynediad i dwristiaid wrth iddynt adael y mynydd.

Fodd bynnag, nododd nad oedd ffermydd eraill cyfagos wedi arallgyfeirio:

> *'Mae ein lleoliad yn bwysig iawn i ni arallgyfeirio yma oherwydd swm y bobl sydd gennym yn pasio ac yn dod i'r mynyddoedd chi'n gwybod. Nid yw pob ffermwr am wneud hynny. Ceir wyth fferm yn y dyffryn yma ac mae'n ymddangos mai dim ond fi sydd ychydig bach yn rhyfedd.'*
>
> (Gogledd-orllewin Cymru A – bach, defaid ac eidion)

Dadleuodd fod arallgyfeirio, pan oedd yn cynnwys twristiaid ac ymwelwyr, yn helpu i gynnal ffermio a diwylliant Cymru:

> *'Wel rwy'n credu ei bod yn dibynnu ar eich agwedd at ymwelwyr chi'n gwybod. Nid yw fy nghymdogion yn eu hoffi felly os yw wedi ei drwytho ynoch i beidio â hoffi ymwelwyr a pheidio â hoffi'r dringwyr a'r cerddwyr yna nid ydych byth yn mynd i allu gwneud busnes ohonynt, felly rhaid i chi gadw'n dawel a dweud helo, sut ydych chi? Dewch i'n fferm a dyma sydd gennym i'w gynnig, ac yna mae'r siec yn y post ar gyfer y banc neu lle y bynnag y mae'n mynd iddo ond mae'n dod i mewn yn hytrach na'u bod yn defnyddio eich tir i gerdded arno ac i ddringo arno ac yna neidio i mewn i'r car a gyrru i ffwrdd a thrwy eu cael yma maent yn deall llawer mwy am ffermio am eu bod yn siarad â chi, mae ganddynt ddiddordeb yn yr hyn rydych yn ei wneud ac rydych yn gallu dweud mwy wrthynt am eich cynnyrch, yr ardal a sut rydym yn*

*ffermio, bod gennym ddiwylliant ac mae gennym iaith ac mae'n bwysig iawn ac mae'n bwysig iawn i gadw hynny i fynd, on'd yw e?'*

(Gogledd-orllewin Cymru A – bach, defaid ac eidion)

Yn ogystal â chyflogi ymgynghorwyr, gwnaeth ymchwil ac astudiaethau dichonoldeb helaeth ar yr holl fentrau ffermio ac arallgyfeirio. Roedd yr ymchwil hon yn cynnwys archwilio ymddygiad prynu ymwelwyr i sefydlu achos busnes gwell ar gyfer ei fentrau:

*'Wel yr hyn rydym wedi'i wneud dros y pedair blynedd diwethaf pan oeddwn yn cael caniatâd gan y Parc yw holi pobl a fyddent yn cefnogi menter o'r math hwn a do, dosbarthwyd holiaduron. Dosbarthwyd holiaduron yn ddiweddar hefyd i helpu fy achos o ran cael y gymeradwyaeth ac nid pobl felly maent eisoes wedi mynd am bethau fel beth fyddai pobl yn ei fwyta, beth fyddai ei angen arnynt yn yr ardal. A fyddent yn teithio o'r maes parcio i lawr yma i brynu eu cynnyrch neu a fyddent yn neidio i mewn i'r car a gyrru i ffwrdd a dywedodd 87 y cant y byddent yn neidio yn y car a gyrru i ffwrdd felly mae angen rhywbeth arnoch yno felly roedd hynny'n cryfhau fy achos i gael cerbyd i'w dal pan fyddant yn gadael y mynydd neu pan fyddant yn mynd i fyny'r mynydd ac am gael rhywbeth ar ôl taith hir yn y car.'*

(Gogledd-orllewin Cymru A – bach, defaid ac eidion)

Cafwyd hefyd enghreifftiau o arallgyfeirio ymhlith y cyfweleion yn ne-orllewin Cymru. I sicrhau goroesiad fferm fach gymysg, a redir gan fam sengl, wedi ysgaru, gyda help gan ei mam, roedd podiau gwersylla wedi'u codi ar eu tir fferm fel ffynhonnell o incwm. Ni châi'r rhain eu dosbarthu fel rhan o'r fferm ac felly ystyriwyd eu bod yn incwm oddi ar y fferm (er eu bod yn weithgaredd arallgyfeirio). Roedd y rhain bellach yn hanfodol i oroesiad y fferm ac roeddent yn fwy proffidiol na phetai'r tir wedi'i ddefnyddio ar gyfer da byw:

*'Dyna pam mae'n rhaid i ni fentro i'r busnes podiau gwersylla oherwydd does dim digon o arian, ni allaf dalu am hynny o'r hyn rwy'n ei gael yn ôl o werthu gwartheg. Yr arallgyfeirio – mae'n debygol mai dyna'r peth pwysicaf i ni. Gyda'r podiau gwersylla rydym yn gobeithio y bydd hynny'n dod ag incwm amser llawn i'r fferm ac o bosibl pe bai un o'r plant am ystyried hynny yn y dyfodol yna gallent ymestyn ar hynny a gosod cwpwl o bodiau ychwanegol ond rwy'n credu mai ein hapêl i lawer o bobl sydd wedi aros yma yw ei fod yn safle bach.'*

(De-orllewin Cymru E – bach, cymysg)

Oherwydd bod y sefyllfa ariannol yn anodd, roeddent yn chwilio am ffyrdd newydd o gadw'r fferm i fynd a'i gwneud yn hyfyw. Pwysleisiodd y ffermwr bod cynlluniau busnes yn bwysig iddi o ran cynllunio menter newydd:

*'Rwyf bellach yn paratoi cynllun busnes i fagu lloi. Mae'n fater o gyfrifo eich elw a'ch colledion – o ran magu lloi rhaid i mi fynd ati o ddifrif i gyfrifo fy ngwariant. Felly ydw, rwy'n credu bod cynlluniau busnes yn bwysig iawn. Mae angen i chi wybod beth rydych yn mynd i mewn iddo cyn i chi ddechrau ar brosiect newydd.'*

(De-orllewin Cymru E – bach, cymysg)

Byddent wedi hoffi ehangu'r gwaith o arallgyfeirio'r busnes, o ran incwm a buddsoddi mewn eiddo. Er eu bod yn teimlo bod cyfleoedd i arallgyfeirio roeddent yn ansicr ynghylch pa elw y gellid ei gael o'u buddsoddiadau. Gwnaethant arsylwi ei bod yn anodd iawn cael gwybodaeth am y farchnad o ran pa gyfleoedd oedd allan yno ar hyn o bryd ac, yn bwysicach, yr elw ariannol roedd y cyfleoedd hyn yn debygol o'u cynnig:

*‘Gwnes cryn dipyn o ymchwil ar hunanarlwyo o ran y math o incwm a lefelau a chostau pethau fel hynny ond o ran pethau y byddem efallai'n ystyried eu gwneud nawr i fynd â'r busnes hwnnw ymlaen a fydd yn helpu i ddod â mwy o bobl i'r ardal nid oes gennyf ddigon o wybodaeth i fod yn hyderus i fynd a gwario pump, 10, 15, 20 o filoedd o bunnoedd ar rywbeth. Mae angen i mi wybod bod marchnad, marchnad gynyddol neu duedd neu newid neu chi'n gwybod mae'n fater o gael y wybodaeth honno, nid ydych eisiau ei wneud dim ond er mwyn gwneud hynny. Mae angen i mi wybod, hynny yw gallaf wneud rhywfaint o ymchwil fy hun o ran y bobl sy'n mynd i ddod, byddwch yn siarad â phobl ac a fyddai o ddiddordeb pe bai gennym dwb poeth neu pe bai gennym hyn neu'r llall ond mae ychydig bach ar hap ac nid yw'n wyddonol iawn mewn gwirionedd ond rwy'n siŵr na fyddai'n anodd cael gafael ar y math yma o wybodaeth, arferion gwario pobl, beth maent yn edrych arno, i ble maent yn ystyried mynd a phethau felly chi'n gwybod.’*

(De-orllewin Cymru E – bach, cymysg)

Fodd bynnag, nododd cyfwelai arall yn ne-orllewin Cymru rai o'r problemau sy'n gysylltiedig ag arallgyfeirio. Roedd hon yn fferm ganolig, ddefaid ac eidion. Roedd y cwpl ffermio wedi darparu gwely a brecwast a chartrefi gwyliau hunanarlwyo, ac, i ddechrau, roeddent wedi gwneud elw. Fodd bynnag, roedd ffermydd eraill wedi eu dilyn ac roedd yr ardal bellach yn orlawn:

*‘Mae cyfyngiad ar faint y gallwch ei wneud. Rydym wedi bod yn gwneud hunanarlwyo. Rydym wedi bod yn cynnig gwely a brecwast yma a'r broblem oedd pan dechreuom ni roedd yn incwm da ond yna'n sydyn roedd pobl eraill yn cynnig gwely a brecwast yn yr ardal felly roedd yr hyn roeddem yn ei gael yn cael ei rannu rhwng pedwar.’*

(De-orllewin Cymru C – canolig, defaid ac eidion)

Yn ogystal, nododd fod y rhan o Sir Benfro lle roedd eu fferm wedi'i lleoli yn dueddol o ddenu cerddwyr a heicwyr yn unig a bod y tymor yn fyr:

*‘Mae nifer o bobl wedi gwario llawer o arian ar lety gwely ac rydym ond yn cael tymor byr iawn. Does dim byd i gymell pobl i ddod yma. Does dim theatrau ac ati er mwyn ymweld â Sir Benfro yn y gaeaf. Does dim atyniad arall heblaw am yr arfordir a'r cerdded. Felly os nad ydych yn hoffi cerdded ac nad ydych am gael gwyliau bach tawel does dim rheswm arall dros ddod yma. Mae ein heiddio ar gael drwy'r flwyddyn ond dim ond tymor byr sydd gennym.’*

(De-orllewin Cymru C – canolig, defaid ac eidion)

Nid oedd unrhyw rai o'r cyfweleion yng Nghanolbarth Cymru wedi arallgyfeirio, am resymau amrywiol. Roedd y ffermwr hwn yn credu ei fod yn y math anghywir o ardal ac nad oedd unhryw alw, er enghraifft, am siop fferm:

*‘Yn syml, rwy'n credu ein bod yn yr ardal anghywir ar gyfer hynny, rwy'n credu, ydyn. Pe bawn ar gyrion dinas, byddai siop fferm yn wych. Mae pobl wedi rhoi cynnig arni yn yr ardal hon ac oes, mae rhai sy'n gwneud hynny mewn ffordd fach, ond rwy'n credu ein bod yn rhy bell i ffwrdd o'r boblogaeth. Does dim galw. Bydd pobl yn… maent i gyd yn dweud, iawn, byddai'n well gennym ei brynu yn lleol ond ni fyddant, byddant dim ond prynu ar adegau arbennig efallai ac nid yw hynny'n mynd i gynnal siop fferm. Nid oes gan bobl yr arian sbâr, nid yn yr ardal hon, i warant siop fferm. Byddai’n braf cael siop fferm ar y buarth ond...nid yn yr ardal hon’.*

(Canolbarth Cymru C – canolig, defaid ac eidion)

Roedd wedi ystyried gosodiadau gwyliau ond nid oedd o'r farn eu bod yn hyfyw. Roedd yn galw am ymrwymiad mawr er mwyn gwneud elw ac eisoes roedd cystadleuaeth gan gryn dipyn o bobl a oedd yn eu cynnig yn yr ardal leol. Roeddent wedi ystyried gosod yr ail ffermdy fel cartref gwyliau ond penderfynwyd nad oedd digon o alw yn yr ardal ac nid oedd y safle yn denu masnach sy'n mynd heibio.

A nododd y fferm defaid ac eidion bach hwn yng Nghanolbarth Cymru, a oedd o'r farn bod ffermio organig yn arallgyfeirio, fod llawer o ffermwyr a oedd wedi mynd yn organig bellach yn troi yn ôl at ffermio confensiynol. Nid oedd digon o elw ac roedd y galw am gynnyrch organig yn lleihau:

> *'Y drafferth yw, o ran yr hyn rydych yn ei gael am yr anifeiliaid nid yw cymaint â hynny yn well nag anifeiliaid cyffredin. Ond mae'r bwyd anifeiliaid yn costio dwywaith y swm...felly nid yw'n talu ffordd.' 'Pan fydd pethau'n anodd nid yw pobl yn barod i dalu mwy am fwyd organig.'*
>
> (Canolbarth Cymru E – bach, defaid ac eidion)

Fodd bynnag, roedd y mab yn ystyried parc carafanau pan fyddai'n cymryd yr awenau ar y fferm.

Er bod nifer o enghreifftiau o arallgyfeirio llwyddiannus yng ngogledd-orllewin Cymru, cafwyd hefyd achosion o anawsterau gyda chynllunio:

> *'Ond cymerodd ddwy flynedd i ni gyda'r Cyngor i gael y cynllunio drwodd oherwydd roeddem am osod toiled a chawod ar gyfer safle gwersylla. Dywedodd y Cyngor y byddai'n mynd drwodd, rydych yn mynd i gael hwn drwodd fory pe bai'n estyniad ystafell wely yn unig ond am ei fod, am iddo gymryd dwy flynedd i ni gael y cynllunio drwodd, ac mae hynny'n amlwg yn eich dal yn ôl.'*
>
> (Gogledd-orllewin Cymru G – canolig, defaid ac eidion)

Roedd gan sawl un o'r cyfweleion yng ngogledd-orllewin Cymru ffermydd ym Mharc Cenedlaethol Eryri ac fel y nododd ffermwr defaid bach iawn (Gogledd-orllewin Cymru-L) mae'r awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn aml yn arafu pethau o ran arallgyfeirio. Dadleuodd fod angen i hyn newid er mwyn meithrin mwy o entrepreneuriaeth. Adroddodd ffermwr defaid ac eidion bach, y rhoddwyd ei fanylion arallgyfeirio uchod (Gogledd-orllewin Cymru-A), am ei anawsterau gydag awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Mae'n debyg iddo gymryd cwrs cigydd, wedi'i ariannu gan un o ragflaenwyr Cyswllt Ffermio, prynodd fan cigydd wedi'i hoeri ac roedd wedi gwerthu ei gig organig o gilfan ger llyn sy'n ffinio ei dir. Roedd yn gwneud yn dda iawn tan i'r awdurdod Parc Cenedlaethol ei atal am fod arno angen trwydded ganddynt i ddefnyddio'r gilfan, a oedd yn y Parc Cenedlaethol. Roedd ei dir ef ar ochr arall y ffordd, lle na fyddai wedi bod yn troseddu. Fodd bynnag, nid oedd safle addas yno. Dadleuodd ei fod wedi ceisio dilyn cyngor Llywodraeth Cymru ond roedd wedi ei atal rhag gwneud hynny gan fanylyn technegol. Yn fwy diweddar, roedd wedi cychwyn ar fenter gwerthu symudol arall a, chyda chymorth yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, roedd y Parc Cenedlaethol wedi cytuno iddo ddefnyddio'r safle newydd.

Ond er bod yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol wedi cynorthwyo'r ffermwr tenant uchod nid oeddent wedi gwneud hynny yn achos fferm ddefaid fach arall (Gogledd-orllewin Cymru-B). Ar gyfer y ffermwr hwn roedd yn broblem fawr mai tenant ydoedd ac nid y meistr o ran gwneud penderfyniadau ynghylch beth i'w wneud gyda'r busnes neu sut y ddylid buddsoddi yn y daliad neu a ddylid gwneud hynny. Roedd wedi bwriadu datblygu un o'r eiddo ar y fferm fel bwthyn gwyliau, gyda chymorth grant arallgyfeirio, ond roedd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol wedi atal y cynigion hyn. O'i safbwynt ef roedd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, ei landlordiaid, wedi rhwystro ei gynlluniau ar gyfer ehangu'r busnes.

Roedd yn ymddangos bod yr enghraifft derfynol o ymdrechion ofer i arallgyfeirio yn cyfuno problemau gyda chynllunio, teimladau gwrth-Seisnig o ran mewnfudwyr, a dadleuon bod arallgyfeirio yn niweidio ffermio. Dadleuodd cwpl a oedd yn ffermio ar fferm laeth ganolig yn ne-orllewin Cymru fod arallgyfeirio mewn gwirionedd yn dinistrio cymunedau ffermio. Roedd yn dipyn o destun gofid oherwydd iddynt gael problem o ran caniatâd cynllunio gydag eiddo ar y fferm, a fyddai wedi galluogi i'w mab fyw drws nesaf a gweithio ar y fferm. Mae'n debyg, byddai caniatâd cynllunio wedi ei roi i'w droi i mewn i ystafell de. Methwyd gweld rhesymeg hyn am iddynt ddadlau y byddai'n dod â Saeson mwy cefnog i'r ardal a gwanhau'r gymuned a'r ethos ffermio:

> *'Wel dyna beth sy'n sbwylio ffermio, onid ai? Ein dewis gorau fyddai rhoi'r gorau i ffermio, troi'r holl adeiladau yn dai i Saeson ddod i fyw ynddyn nhw ac yna byddai'r llywodraeth yn dweud fy mod i'n wych yn rhoi cartrefi i'r holl Saeson yma a byddent yn rhoi comisiwn i mi. Wel, byddai pawb yn hapus wedyn a bydden nhw'n rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer pob adeilad sydd ar gael. Ond roedd fy mab eisiau adeiladu tŷ ar y fferm er mwyn gweithio ar y fferm, mae e wedi cael ei fagu yng Nghymru, roedd yn cyflogi pobl leol, cymerodd dair blynedd i ni gael caniatâd cynllunio…a lot o arian. Ond roedden nhw'n ddigon parod i ni roi'r gorau i ffermio ac ailwampio'r holl adeiladau. Felly dyna lle mae dyfodol ffermio….a dyna beth mae pobl yn ei wneud, byddai'n dewis ni yn haws, ailwampio'r rheini, eu gwerthu nhw'n blotiau adeiladu ar gyfer tai - ac agor ystafell de. Felly dyna lle mae dyfodol ffermio, pobl fel ni sy'n ceisio cadw ffermio'n fyw. Efallai rhyw ddydd y bydd bwyd yn bwysicach i bobl na gwyliau dramor.'*
>
> (De-orllewin Cymru D – canolig, llaeth)

### 5.2.8 Ynni amgen a mastiau

Un ffurf benodol ar arallgyfeirio a oedd yn cael ei hystyried yn gynyddol gan ffermwyr oedd cynhyrchu ynni amgen. Er enghraifft, er nad oedd ffermydd llaeth yn tueddu i arallgyfeirio, byddai llawer yn ystyried buddsoddi mewn gosodiadau ynni amgen megis paneli haul ar eu siediau a'u hadeiladau fferm. Er enghraifft, yn ddiweddar roedd y ffermwr hwn wedi buddsoddi mewn paneli haul am gost o £70,000 am y fferm; mae'n debyg nid oedd hyn mor broffidiol â'u gosod at ddefnydd domestig. Awgrymodd y byddai'n gwneud elw ymhen chwe blynedd:

> *'Maent yn tybio y bydd elw ymhen chwe blynedd. Ar raddfa fasnachol maent yn llai atyniadol na phe baech yn eu gosod ar gyfer eich tŷ – hyd at bedwar cilowat. Byddech wedi cael 42 ceiniog ar gyfer pob cilo a gynhyrchir gennych, ond yn fasnachol, pan ewch yn uwch na phedwar cilowat, pan ewch i 50 cilowat, fe gewch 13.5 ceiniog, felly mae'n llai o lawer ond mae'n werth chweil ei wneud o hyd.'*
>
> (De-orllewin Cymru F – mawr iawn, llaeth)

Roedd gan fferm laeth fawr yn ne-orllewin Cymru baneli haul ac roedd yn bwriadu gosod tyrbin gwynt. Dadleuent eu bod yn buddsoddi mewn ynni amgen fel un ffordd o ddiogelu eu fferm deuluol, a oedd yn cael ei pheryglu gan y duedd mewn ffermio llaeth tuag at unedau mwy o faint:

> *'Fel teulu, rydym yn ystyried ynni adnewyddadwy fel ffynhonnell incwm i allu cadw'r teulu gyda'i gilydd 'Wel, mae'r Tariff Cyflenwi Trydan yma am gyfnod byr iawn o amser ac rydym yn ceisio manteisio i'r eithaf arno.'*
>
> (De-orllewin Cymru G – mawr, llaeth)

Roedd costau cyfalaf a chostau benthyca wedi cyflwyno problemau:

> *'Benthyg yr arian yw'r ffactor gyfyngedig mewn gwirionedd, oherwydd nid ydym yn poeni am y dechnoleg, fe wyddom fod y dechnoleg yn gweithio, mae'n fwy na thalu am ei hun yn barod. Y buddsoddiad cyfalaf yw'r broblem, o ran y tyrbin gwynt byddwn wedi buddsoddi hanner miliwn o fewn blwyddyn ond fyddwn?'*
>
> (De-orllewin Cymru G – mawr, llaeth)

Mae'n debyg, fodd bynnag, bod y buddsoddiad eisoes yn talu am ei hun. Roeddent am fuddsoddi mwy ond nid oedd y banciau yn cytuno ac roedd arainnwyr preif at am gael cyfran rhy fawr o'u buddsoddiad. Dadleuwyd mai gwneud gwell defnydd o adnoddau naturiol oedd y ffordd ymlaen:

> *'Dwi ddim yn credu ein bod yn gwbl ymwybodol eto o ba adnoddau sydd ar gael i ni mewn gwirionedd. Dim ond newydd ystyried y gwynt a'r haul yr ydym.'*
>
> (De-orllewin Cymru G – mawr, llaeth)

Yng Nghanolbarth Cymru, roedd gan y fferm ddefaid ac eidion fach hon saith panel haul, a oedd yn bwydo i mewn i'r grid. Roeddent yn archwilio a allent osod mwy ar sied gwartheg. Yn ogystal, roeddent yn ystyried tyrbin gwynt. Roedd ganddynt safle hyfyw ar gyfer tyrbin bach ond roedd yn edrych dros y dref; felly roedd rhai materion o ran cynllunio. Yn dibynnu ar ba dir a fyddai'n cael ei ddatblygu, ymhlith y posibiliadau eraill roedd mwy o dyrbinau gwynt:

> *'Yn bersonol rwy'n credu y dylem aros i weld. Gallai'r Swyddfa Gymreig benderfynu peidio â datblygu ac wedyn bydd yn rhaid i ni ystyried cael ychydig o felinau gwynt yn rhywle. Byddem yn prydlesu llain ar gyfer dwy neu dair melin wynt a chael incwm oddi ar hynny. Mae'r incwm mae hynny'n ei gynhyrchu yn dda iawn.'*
>
> (Canolbarth Cymru E – bach, defaid ac eidion)

Hefyd yng Nghanolbarth Cymru, er bod safle fferm ddefaid ac eidion ganolig (Canolbarth Cymru-F) yn anaddas ar gyfer ynni'r gwynt neu'r haul, roedd ganddo lif dŵr da ac roedd y ffermwyr wedi ystyried ynni dwr. Ond roedd y costau cychwynnol o £20,000 yn ataliol. Os gellid dangos bod ynni dŵr yn fuddsoddiad da, byddent yn ailystyried.

Roedd yn ymddangos bod ffermydd cyfweleion yng ngogledd-orllewin Cymru mewn sefyllfa dda i fuddsoddi mewn ynni amgen. Er enghraifft, roedd ffermwr defaid ac eidion bach wedi buddsoddi mewn paneli haul ac roedd yn dechrau ar gynllun ynni dŵr gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol:

> *'Dyna yw fy nyletswydd, os ydw i'n credu mewn organig, os ydw i'n credu mewn ynni cynaliadwy a gwyrdd, yna dylwn fod yn ei osod os gallaf felly byddaf yn ei osod, rydw i'n credu ynddo. Mae'n ffordd braf o redeg eich busnes. Prynais olew ddoe ar gyfer y gaeaf nawr neu ar gyfer rhan o'r gaeaf a dywedodd y dyn ar y ffôn iawn mae wedi cynyddu tua 64 pwynt rhywbeth y litr. Be gebyst? Byddai'n braf cadw golwg ar y nant ac edrych yn y draen.'*
>
> (Gogledd-orllewin Cymru A – bach, defaid ac eidion)

Ac roedd y ffermwr defaid ac eidion canolig hwn yn ystyried buddsoddi mewn ynni gwynt ac ynni dŵr. Roedd wedi gwneud ymholiadau ac roedd yn aros am ateb:

> *'Ie, rwy'n credu mwy… mwy o gyngor. Yr hyn roeddwn i'n meddwl amdano, un o'r pethau yr hoffwn ei wneud yw un ai ynni'r gwynt neu ynni'r dŵr, a dweud y gwir*

*wrthych, rhywbeth felly, wyddoch chi? Ond nid oes unrhyw un wedi dod yn ôl eto. Mae'n werth ei ystyried, wyddoch chi? Ie, byddai hynny'n ddelfrydol, rhywbeth a fyddai'n dod ag arian i mewn beth bynnag. Byddwn i yn y ffenest yn gwylio a oedd y gwynt yn chwythu a… mae'n rhywbeth sy'n werth ei ystyried.'*

(Gogledd-orllewin Cymru D – canolig, defaid ac eidion)

Roedd y ffermwr defaid ac eidion mawr hwn wedi gosod tyrbin gwynt yn ddiweddar, gyda Scottish Power. Nid oedd yn gwbl weithredol eto. Nid oeddent wedi defnyddio benthyciad ac roeddent yn gobeithio am elw da ar eu buddsoddiad, er nad oedd y ffermwr yn siŵr sut y byddai'r buddsoddiad yn cymharu â phrynu tŷ:

*'Oedd, roedd y cyfalaf ar gael gennym ar gyfer hyn ac yna mae fel prynu tŷ neu unrhyw beth neu wneud gwaith ar eich bwthyn, mae'n fuddsoddiad. Os byddwn yn prynu tŷ mae gennym dy yn y pen draw ymhen 20 mlynedd. Dwi ddim yn gwybod beth fydd gennym ymhen 30 mlynedd gyda'r un yma, dwi ddim yn gwybod ond mae'n siŵr na fyddaf i yma.'*

(Gogledd-orllewin Cymru F – mawr, defaid ac eidion)

Ond yn debyg i'r sefyllfa gydag arallgyfeirio, mae'n debyg y gallai'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, fel landlordiaid, ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri fod yn rhwystrol ynghylch gosodiadau ynni amgen a mastiau telathrebu. Er enghraifft, nododd ffermwr defaid bach (Gogledd-orllewin Cymru-H) fod yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a'r Awdurdodau Parciau Cenedlaethol wedi ei atal rhag cael mast telathrebu ar ei dir. A nododd ffermwr defaid bach iawn (Gogledd-orllewin Cymru-L) ei fod am osod tyrbin gwynt ond bod yr awdurdodau Parciau Cenedlaethol wedi atal hyn.

O safbwynt gwahanol iawn, nid oedd y ffermwr llaeth mawr iawn hwn yn ne-orllewin Cymru yn ymwneud â chynhyrchu ynni amgen a nododd nad oedd tir a ddefnyddir ar gyfer cynhyrchu ynni ar gael i gynhyrchu bwyd:

*'Mae angen gwerthfawrogiad yno, parch at beth rydym yn ei wneud o ran cynhyrchu bwyd ar gyfer y wlad, nid ydym yn elusen, nid oes yn rhaid i ni wneud e ac rwy'n credu mai dyna'r sylweddoliad nawr chi'n gwybod o ran bod gennym dir a gallem edrych ar hynny o ran cynhyrchu ynni amgen, gallem osod melinau gwynt, gallem osod paneli haul drosto, gallem osod peirianwaith bio-nwy a thyfu cnydau i gynhyrchu'r planhigion sy'n gwneud ffynonellau ynni amgen ac ati. Ac maent yn gweld hynny yn America lle maent wedi rhoi'r gorau i gynhyrchu ar ardaloedd mawr o dir. Ac yna mae'r sylweddoliad bod, arhoswch funud, ffermwyr yn tyfu cnydau i gynhyrchu ynni, nid ydynt yn cynhyrchu bwyd. Wel, fel busnes mae ein dyletswydd i'n hunain i wneud arian i gadw ein teuluoedd, i ddarparu ar ein cyfer mewn gwirionedd ac rwy'n credu bod hynny'n newid o ran bod pobl wedi dechrau parchu ffermwyr ychydig yn fwy.'*

(De-orllewin Cymru A – mawr iawn, llaeth)

### 5.2.9 Cynlluniau amaeth-amgylcheddol

I raddau helaeth, roedd trafodaethau am gynlluniau amaeth-amgylcheddol yn ymwneud â Glastir. Roedd llawer o'r cyfweleion wedi cael taliadau gan Tir Mynydd, Tir Cynnal a Tir Gofal ac roeddent wedi ymuno â Glastir, neu'n bwriadu gwneud hynny, i gymryd lle'r taliadau

hyn. Fodd bynnag, roedd rhai a oedd, er gwaethaf colli'r taliadau eraill, yn amharod i ymuno â Glastir, ac eraill a honnodd eu bod yn erbyn cynlluniau amaeth-amgylcheddol fel y cyfryw.

Gan gymryd enghreifftiau o'r grŵp cyntaf, a oedd naill ai yn Glastir neu'n bwriadu ymuno â'r cynllun, yn gyntaf, roedd y ffermwr hwn wedi bod yn rhan o Tir Gofal a Tir Mynydd ac roedd yn bwriadu ymuno â Glastir. Roedd cynlluniau amaeth-amgylcheddol yn elfen bwysig o ran incwm. Roedd yn rhagweld '*gostyngiad enfawr mewn incwm'* pan fyddai ei daliad Tir Gofal yn dod i ben, a dyna pam roedd yn bwriadu ymuno â Glastir a dechrau ar ragor o arallgyfeirio:

> *'Dyna un o'r pethau y byddaf yn eu hystyried yn y Flwyddyn Newydd i siarad â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Os rwy'n mynd i ymuno â Glastir, a gofynnwyd i mi ymuno â Glastir nawr, roeddwn i'n ystyried gwneud hynny beth bynnag, ond fe wnaethon nhw ofyn i mi a oedd gen i ddiddordeb mewn mynd i'r lefel uwch, a oedd yn wych i mi ar ôl colli Tir Gofal a Thir Mynydd.'*
>
> (Gogledd-orllewin Cymru A – bach, defaid ac eidion)

Ar gyfer fferm arall yng ngogledd-orllewin Cymru, a oedd wedi ymuno â Glastir i gael arian yn lle'r arian a gollwyd pan ddaeth Tir Mynydd i ben, un o'r pwyntiau allweddol o blaid ymuno â'r adran 'Cymru gyfan' oedd eu bod yn cael budd-dal am dyfu maip:

> *'Wel nid oedd hynny'n rhy ddrwg oherwydd rydych yn tyfu dwbl nifer y maip sy'n rhoi pwyntiau i gadw llawer o'r tir pori rhag cael ei gyfyngu mewn gwirionedd. Felly beth yw'r dyfodol o ran hynny dwi ddim yn gwybod. Dim ond oherwydd gallem gael y pwyntiau o'r maip oherwydd pe bai wedi rhoi'r hawliau stocio ar y mynydd ni fyddai wedi bod yn hyfyw mewn gwirionedd. Mae'n iawn cyn belled nad yw'n effeithio ar yr hawliau stocio.'*
>
> (Gogledd-orllewin Cymru G – canolig, defaid ac eidion)

Roedd rhai ffermwyr wedi defnyddio ymgynghorwyr neu Cyswllt Ffermio i'w harwain drwy broses Glastir:

> *'Fe helpodd ni i wneud yr un cychwynnol a gofynnwyd i ni gario ymlaen i wneud ail gam Glastir. Roeddent o gymorth mawr o ran gwneud y rhannau ychwanegol ac nid wyf yn credu y gallwn fod wedi ei wneud heb unrhyw ymgynghorwyr yn ystod y cam cychwynnol. A chyda'r symudiadau sy'n ymdrin ag ef, rydych yn ei chael yn anodd gyda rhywfaint o'r gyfraith.'*
>
> (Gogledd-orllewin Cymru K – bach, defaid)

Er bod rhai ffermydd yn Glastir roedd ganddynt amheuon am y cynllun. Er enghraifft, roedd y fferm hon yn Glastir ond awgrymodd y ffermwr nad oedd gan swyddogion Glastir wybodaeth a dealltwriaeth am ffermio:

> *'Rydym ni yn hwnnw yn barod-rydym ni yn Glastir. Ac mae hynny'n waith caled pan fo'n rhaid i chi ymdrin â phobl nad ydynt yn deall am beth maen nhw'n sôn. Wel, dyma'r enghraifft berffaith – rydym ni ar y ffôn ac maen nhw'n gofyn i mi – "beth yw bustach ?" Wel, wyddoch chi, oes angen i mi ddweud mwy?'*
>
> (De-orllewin Cymru D – canolig, llaeth)

Roedd y ffermwr hwn wedi ymuno â Glastir ond roedd o'r farn nad oedd rhai o'r gofynion yn gwneud llawer o synnwyr:

*'Os byddan nhw'n dod ac yn dweud wrthyf mae'n rhaid i chi osod… deg bocs adar, deg bocs ystlumod… ym mhle mae'r adar wedi bod ers miliwn o flynyddoedd, maen nhw wedi bod yn iawn… jyst gosodwch y blydi bocs. Wyddoch chi beth rwy'n ei feddwl? Jyst gwnewch e a, a… jyst gwnewch y peth iawn a chymerwch yr arian. Ond rwy'n hoffi cadwraeth beth bynnag, mae gen i ddau focs fy hun wedi eu gosod, ond fe'u gosodais i nhw gyda'r plant flynyddoedd yn ôl, wyddoch chi? Ac rydych chi'n cadw llygad, ond mae rhai o'r pethau braidd yn wirion a dweud y gwir.'*

(Gogledd-orllewin Cymru D – canolig, defaid ac eidion)

Ac yna roedd ffermwyr a oedd yn ansicr ynghylch ymuno â Glastir. Yn wreiddiol, roedd y ffermwr hwn yn erbyn ymuno â Glastir ond roedd yn ailystyried oherwydd bod rhai o'r rheolau'n mynd i gael eu llacio. Dadleuodd fod rhai rheolau'n broblemus ar ffermydd bach: e.e. roedd y cylchedd 20 metr o amgylch pwll yn anymarferol. Er bod cynlluniau amaeth-amgylchedd yn cael eu hystyried fel rhan o'r cymysgedd o incwm, roedd o'r farn mai cynhyrchu bwyd oedd prif dasg ffermio:

*'Mae'n debyg bod lle i Glastir i gymell ffermwyr i wneud pethau, oherwydd os ydym yn geidwaid y tir yna mae angen i ni gael ein talu am rai elfennau ohono ond mae'n debyg, i mi ar y funud, rwy'n cynyddu cynhyrchiant y busnes ac ar ryw adeg efallai y bydd angen i mi roi aradr yn y ddaear neu efallai y bydd angen i mi wneud rhywbeth nad gyda'r mwyaf ecogyfeillgar. Ond credaf mai hynny, chi'n gwybod, mae'n debyg… cynhyrchu bwyd ydw i ac nid gwasanaeth amgylcheddol.'*

(Canolbarth Cymru G – bach iawn, defaid ac eidion)

Roedd y ffermwr hwn yn ansicr ynghylch ymuno â Glastir. Dadleuodd bod defnydd Glastir yn gyfyngedig i'r rhan fwyaf o ddaliadau yng Nghymru, ond ei fod yn gweddu mwy ar gyfer yr ucheldir neu unedau dwys yn hytrach na ffermydd tir isel fel ei un ef. Dywedodd ei bod yn debygol y byddai'n gwneud cais i ymuno, gan ei fod eisiau gwella'r amgylchedd:

*'Edrychais i ar Glastir. Mae'n ymddangos bod defnydd Glastir yn gyfyngedig i'r rhan fwyaf o ddaliadau yng Nghymru. Mewn geiriau eraill, mae lle iddo, ond mae'n edrych - yn fy nhyb i - mai'r ucheldir neu unedau mwy dwys yw'r lle iddo. Dyna fy nhyb i. Nid yw hynny'n dweud ein bod yn ei ddiystyru. Rwy'n credu bod ceisiadau yn agored tan fis Mehefin y flwyddyn nesaf ar gyfer y cam nesaf ac rydym ni'n ei ystyried. Efallai'n wir y byddwn yn gwneud cais i ymuno, ond mae'n sicr yn benderfyniad ymylol. Mae'n benderfyniad anodd o ystyried yr arian a'r ymdrech dan sylw. A dweud y gwir, byddwn yn dweud ein bod yn debygol o ymuno, neu o wneud cais i ymuno. Ond mae'n debyg mai penderfyniad emosiynol yw e. Hoffem ni wella'r cynefin cyn belled nad yw'r cyfyngiadau yn rhy feichus, a bod yr arian i'n cael ni i wneud hynny'n unig. Ond nid oedd erioed yn gymhelliad ariannol gan mai'r cwbl roedd yn mynd i'w wneud oedd disodli cynhyrchiant a gollir.'*

(De-orllewin Cymru K – bach, eidion)

Hefyd yn ne-orllewin Cymru roedd y ffermwr godro hwn yn gobeithio ymuno â Glastir, er iddo ddadlau ei fod yn sylweddoli fwyfwy y byddai cynhyrchu bwyd yn gynyddol bwysig, a bod angen cydbwysedd rhwng cynhyrchu a diogelu'r amgylchedd:

*Am ein bod yn cael ein dosbarthu fel uned odro ddwys, weithiau mae hynny'n ei gwneud yn anodd manteisio ar gynlluniau amaeth-amgylchedd. Rydym wedi gwneud rhywfaint o'r pethau amaeth-amgylchedd o ran Tir Cynnal. Nid oedd Tir Gofal yn opsiwn i fferm fel ein un ni am na fyddem byth yn cael y pwyntiau i ymuno ag ef. Dyna'r pam nad ydynt wedi gwneud hynny ond gobeithio y gallwn ddod o hyd i ffordd*

*ymlaen gyda'r cynlluniau newydd. Ond rwy'n credu chi'n gwybod ei bod yn bwysig i ni gyd fanteisio ar gynlluniau o'r fath ac nid dim ond yn rhai mwy... Chi'n gwybod, rydym yn fferm laeth ucheldir ac rydym yn yr ALFf yma ond er efallai fod gennych ffermydd eidion a defaid sy'n llai dwys gallech ddadlau pe baem yn gwneud mwy o waith amgylcheddol yma byddem yn cael mwy o effaith efallai o ran newid ein systemau na rhywun nad yw'n ddwys beth bynnag. Dyna fy nadl i o ran ceisio cael gafael ar arian.'*

(De-orllewin Cymru A – mawr iawn, llaeth)

Yn y grŵp o'r rhai na fyddent yn ymuno â Glastir, roedd y teulu ffermio hwn yn adleisio barn y cyfwelai blaenorol. Er eu bod yn ystyried eu hunain yn ymwybodol o'r amgylchedd ac yn gyfrifol, nid oeddent o blaid Glastir ac roeddent yn dadlau, er eu bod wedi gwella'r amgylchedd o'u gwirfodd, y byddai eraill ond yn gwneud pe caent eu talu. Dadleuwyd bod cynlluniau amaeth-amgylchedd yn annog y math hwn o feddwl:

*'Wel yn y gorffennol ni fyddai wedi gweithio i ni oherwydd ni oedd y tenant a'r landlord, y math o gytundeb oedd gennym yma oedd bod isafswm o bum mlynedd a doedd dim sicrwydd gyda hynny felly ni fyddai hynny wedi gweithio ac rydym o blaid plannu coeden a blodau a gofalu am yr adar a phopeth arall ond yn hollol yn erbyn cael llywodraeth yn dweud wrthym beth gallwn a beth na allwn ei wneud a sut i ffermio eich fferm eich hun. Gyda phob parch, does dim syniad gan ryw lipryn sy'n eistedd mewn swyddfa.'*

(Canolbarth Cymru B – bach, defaid)

Yn yr un modd, roedd y ffermwr hwn yn gwrthwynebu Glastir a dadleuodd fod y cynllun yn ddiffygiol:

*'Wel, rwyf o blaid cynlluniau amaeth-amgylcheddol yn llwyr, ond rwy'n credu bod Glastir - maen nhw wedi colli eu ffordd yn llwyr yn hynny o beth. Rwy'n credu bod y rhan fwyaf o ffermwyr yn ffermio mewn ffordd ystyriol ac maen nhw yna i wella'r tir a gwneud yr hyn a allant. Mae rhai o'r cynlluniau ystyriol o'r amgylchedd hyn wedi bod braidd yn negyddol a dweud y gwir. Rwy'n credu bod angen gofalu am y tir. Mae angen agor, glanhau a draenio ffosydd, mae angen torri perthi ac yn y blaen, ac rwy'n credu eu bod wedi mynd dros ben llestri braidd o ran rhai o'r rheini. Maen nhw'n gwybod bod yr adar yn nythu o tua mis Chwefror i bryd bynnag oedd hi ym mis Gorffennaf, nawr allwch chi ddim torri perth tan fis Hydref. Edrychwch ar y tywydd nawr. Rydych chi'n mynd i mewn i'r cae gyda thractor nawr ac yn dinistrio'r perthi'n llwyr, sy'n wallgof.'*

(Gogledd-orllewin Cymru C – bach iawn, defaid ac eidion)

A dadleuodd fod y lobi amgylcheddol wedi diystyru synnwyr cyffredin ac anghenion pobl sy'n byw yng nghefn gwlad:

*'Mae 50, 60 o dai yno sy'n cael eu gorlifo am nad ydynt yn glanhau'r afon oherwydd dywedodd yr amgylcheddwr na ddylid gwneud hynny. Peidiwch â'm camddeall, dwi o blaid. Mae'r tir hwn fel y mae am i ni ofalu amdano am ganrifoedd. Na, ond wedi dweud hynny nawr, pe baech yn byw i lawr y ffordd yno a bod gennych blant ac ati a bod y dŵr yn dod i mewn drwy'r drws ac yn mynd â'ch holl eiddo allan o'r drws cefn, a yw hynny'n iawn? Oherwydd bod angen 500 erw o wlyptir ar ryw lyffant diawledig. Mae wedi mynd yn hurt.*

(Gogledd-orllewin Cymru C – bach iawn, defaid ac eidion)

Er eu bod yn wynebu colli taliadau cynlluniau eraill, roedd rhai ffermwyr yn amharod i ymuno â Glastir. Er enghraifft, yng ngogledd-orllewin Cymru, roedd ffermwr defaid, bach (Gogledd-orllewin Cymru-B) yn bruderus iawn am eu bod yn colli eu holl daliadau Tir Gofal, sef £22,000 y flwyddyn, ar ôl colli taliadau Tir Mynydd o £10,000 y flwyddyn. Fodd bynnag, roedd yn amharod i gofrestru gyda Glastir. Ymddengys fod y penderfyniad hwn yn seiliedig ar y lefel ganfyddedig o gyfyngiadau ac ar adroddiadau gan gymheiriaid. Nid oedd yn gwybod am unrhyw un a oedd yn mynd i gofrestru gyda Glastir; roedd hyn yn gwneud gwahaniaeth ac yn dylanwadu arno. Dyma oedd yr achos ar gyfer ffermwyr eraill megis y ffermwr hwn a oedd wedi bod yn rhan o Tir Mynydd a Tir Cynnal ond nad oeddent yn bwriadu ymuno â Glastir. Dadleuodd fod gormod o gyfyngiadau a bod ofn arno eu torri rhag ofn y byddai'n cael ei gosbi'n drwm:

> *‘Ydw o bosibl, efallai fy mod i’n poeni gormod ond nid wyf yn hoffi ymuno â rhywbeth yr wyf yn gwybod y byddaf yn cael fy nghosbi, ond efallai y byddai’n well yn y pen draw i mi gymryd yr arian gyda’r cosbau, mae’n well na dim, ond yna mae’n teimlo fel beirniadaeth o’ch cymeriad os cewch eich cosbi.’*
>
> (Gogledd-orllewin Cymru J – mawr, defaid ac eidion)

Dadleuodd y ffermwr hefyd nad oedd y rheoliadau a'r diffiniadau gan y llywodraeth yn ymwneud â'r amgylchedd yn glir iawn. Ac nad oedd amcanion a dyheadau cynlluniau amgylcheddol wedi eu cyfathrebu’n eglur.

Yn ogystal, dadleuodd fod y cadwraethwyr yn ymuno â'r ffermwyr hynny a fyddai'n cymryd y taliadau – a fyddai'n gwneud unrhyw beth am arian parod - hyd yn oed pe baent yn cael eu talu i wneud pethau gwahanol bob blwyddyn:

> *‘A bod yn onest, ymddygiad rhai gweision sifil sydd wrth wraidd hyn, maent yn gwthio unrhyw beth. Mae rhai ohonynt yn gwbl gyfrwys.’*
>
> (Gogledd-orllewin Cymru J – mawr, defaid ac eidion)

I eraill, penderfyniad economaidd oedd peidio â chofrestru gyda Glastir:

> *‘Na, mae cryn dipyn o waith dan sylw. Rhaid i chi wario llawer o arian, gyda chontractwyr a phethau er mwyn ei wneud. Mae'n un neu'r llall on'd yw e? A thrwy wneud y ffensio dwbwl hwn ac ati, wel rwy'n cael trafferth cadw fy ffensys yn daclus fel y mae - y rhai sydd gennyf eisoes, heb wneud dwywaith cymaint ohonynt.’*
>
> (Canolbarth Cymru D - canolig, da byw)
>
> *‘Nid wyf yn dweud na fyddem fyth yn eu hystyried nhw ond a bod yn onest nid yw maint yr adenillion ohonynt o’u cymharu â’r drafferth yn eu gwneud yn hyfyw.’*
>
> (De-orllewin Cymru H – mawr iawn, llaeth)

Nid oedd y ffermwr hwn yn ymwneud â chynlluniau amaeth-amgylchedd, ers i Tŷ Mynydd ddod i ben, gan ddadlau nad oedd ei fath yntau o fferm yn addas. I ymuno â Glastir byddai'n rhaid iddo leihau niferoedd stocio, ac nid oedd ganddo dir i'w sbario ar gyfer coetir, ffensio, a gofynion eraill:

> *‘Byddai'n rhaid i mi neidio drwy gynifer o gylchau i gael ychydig bach o arian yn ôl. Rwy'n credu y byddai'n costio mwy nag y byddwn yn ei ennill ohono.’*
>
> (Canolbarth Cymru C – canolig, defaid ac eidion)

Mynegodd ddicter at ffermydd cyfagos nad oeddent yn gweithio a gynhaliwyd gan ffermwyr wedi ymddeol neu ffermwyr 'hobi' a wnaeth waith amgylcheddol a chadwraeth i gael cymhorthdal er mwyn cadw'r fferm i fynd. Ymhlith ei sylwadau roedd: *'Roedd yn arian am wneud dim byd'*, ac: *'Mae ganddynt ffensys gorau'r byd ond dim stoc yn eu caeau'*. Dadleuodd fod y math hwn o arfer yn cyfyngu ar gyfleoedd i ffermwyr iau.

Ar gyfer y ffermwr canolig, defaid ac eidion hwn yng ngogledd-orllewin Cymru ni fyddai wedi bod yn hyfyw ymuno â'r adran 'wedi'i thargedu':

> *'Do, gwnaethom ymuno â'r elfen wedi'i thargedu ac roedd hynny'n chwerthinllyd. Ydy mae'n chwerthinllyd. Wel mae 110 o wartheg sugno a'r mwyaf y gallech fod wedi eu rhoi allan i bori oedd 27 a 1,400 o famogiaid. Ar gyfartaledd, y mwyaf y gallech eu rhoi allan i bori oedd 380 rwy'n credu. Felly gweithiwch chi hynny allan eich hun - byddai'n rhaid i chi werthu 1,000 o famogiaid a 70 o wartheg.'*
>
> (Gogledd-orllewin Cymru G – canolig, defaid ac eidion)

Byddai wedi ei gwneud yn ofynnol cael dad-stocio difrifol ar y fferm, gyda sgîl-effeithiau ar gyfer yr economi leol o ran llai o angen am lafur ar y fferm a gwario ar fewnbynnau fferm:

> *'Stocio fu'r ergyd farwol….Oherwydd pan fyddwch yn meddwl am yr holl dir dim ond hyn a hyn o ddefaid oedd gennych i ddechrau ni fyddai rhaid i chi brynu unrhyw fwyd anifeiliaid felly ni fyddai angen y contractwr cneifio arnoch, ni fyddai angen bêls arnoch felly mewn gwirionedd byddai'n effeithio ar ein holl wariant, byddai'n diflannu allan o'r wlad, byddai'n diflannu oni fyddai?'*
>
> (Gogledd-orllewin Cymru G – canolig, defaid ac eidion)

Dadleuodd y ffermwr fod elfenau 'wedi'u targedu' Glastir yn talu ffermwyr i leihau llafur a chyfleoedd gwario, a oedd yn niweidiol i'r economi, yn enwedig mewn dirwasgiad.

Yn olaf yn yr adran hon ar 'Glastir', nid oedd y ffermwr hwn ar fferm ganolig, ddefaid ac eidion yn ne-orllewin Cymru yn mynd i ymuno â Glastir, yn rhannaol am resymau'n gysylltiedig â'r tir roedd yn ei rentu, nad oedd yn gymwys ar gyfer Glastir. Roedd y fferm wedi bod yn rhan o Dir Mynydd a Thir Gofal ac roedd bellach yn rhan o Dir Cynnal. Roeddent wedi gwneud llawer o waith dan y cynlluniau hyn, fel codi ffensys dwbl, a phlannu coed a pherthi. Fodd bynnag, nid oeddent yn gallu ymuno â Glastir gan nad oeddent yn gallu ennill digon o bwyntiau. Nid oeddent yn gallu cynnwys eu tir rhent gan nad oedd y perchnogion yn barod i ymrwymo i gynllun pum mlynedd, yn enwedig gan mai lesoedd o ddim ond blwyddyn oedd ganddynt:

> *'Rydym ni yn Nhir Cynnal, sy'n dod i ben eleni. Nawr Glastir yw'r un sy'n dilyn, ac ni allwn gael digon o bwyntiau i ymuno â'r cynllun ar hyn o bryd. Ac ni allwn ddefnyddio'r tir rhent gan nad yw'r bobl rydym yn rhentu ganddyn nhw, ac mae hyn yn eithaf pwysig, yn fodlon cael eu clymu i gynllun amaeth-amgylcheddol. Felly gan nad ydynt ar denantiaethau pum mlynedd - rydym ni ar denantiaethau blynyddol ac mae'n debyg y byddwn ni ar denantiaethau blynyddol am flynyddoedd - nid ydynt eisiau ei ymrwymo ar sail bum mlynedd felly mae hynny'n diystyru'r holl dir hwnnw.'*
>
> (De-orllewin Cymru C – canolig, defaid ac eidion)

Yn ogystal, dadleuodd nad oeddent, ar hyn o bryd, am ollwng eu dwysedd stocio, fel y byddai'n ofynnol ar dir yn Glastir.

Nododd y ffermwr hwn anghydbwysedd sylfaenol rhwng cynlluniau amaeth-amgylcheddol fel Glastir a'r costau a'r prisiau sy'n gysylltiedig â thir a chynhyrchu:

*'Chi'n gweld dyma'r broblem gyda ffermio. Mae'r bloc hwn o dir i fyny'r ffordd yn gan erw ac maent yn gofyn £4000 a mwy fesul erw. Wel nid yw'r tir, ansawdd y tir yno, werth £4000 oherwydd mae llawer ohono yn dir gwlyb a gwrychog na ellir ffermio arno. Yr unig beth y byddech yn ei gael o hynny yw eich taliad sengl ac mae'n debygol y gallech ymuno â Glastir yn hawdd gyda'r gwlyptiroedd. A chi'n gwybod, mae'n debyg eich bod yn siarad am £180 yr hectar. Wel nid yw hynny yn gyfwerth â £4000 yr erw. Ni fyddai'n talu'r llog ar yr arian chi'n gwybod. Dyna'r drafferth gyda'r Glastir hwn, maent yn siarad mewn hectarau, ac rydym yn siarad mewn erwau nawr. Mae £34 yr erw yn llai na choes o gig oen. Felly pe baem yn cymryd un famog i ffwrdd byddem yn colli er mwyn ymuno â Glastir, byddem yn colli sawl coes o gig oen chi'n gwybod.*

*Dyna faint yw coes o gig oen mewn cigydd nawr, mae tua £34 y goes ac nid ydym yn cael £34 ond dyna'r pris y mae'r defnyddiwr yn gorfod ei dalu amdano ond na mae wastad wedi bod yn anodd ond y peth yw gydag unrhyw gymhorthdal, nid y ffermwr sy'n cael y cymhorthdal, y defnyddiwr sy'n ei gael am nad ydym yn gwerthu ein cynnyrch am gost y cynhyrchu. Ac os oes rhaid i ni ei werthu am gost y cynhyrchu yna bydd y Cynnyrch Mewnwladol Crynswth yn mynd allan o'r ffenestr yn llwyr, ac mae hwn yn ddangosydd ar gyfer cyflwr y wlad on'd yw e? Felly'r defnyddiwr sy'n cael y cymhorthdal, y defnyddiwr sy'n cael yr amgylchedd rydym yn ei ofalu amdano.'*

(De-orllewin Cymru C – canolig, defaid ac eidion)

### 5.2.10 Incwm oddi ar y fferm

Casgliad a gyrhaeddwyd yn yr adroddiad ar Gamau Un a Dau oedd bod incwm oddi ar y fferm yn gynyddol bwysig i aelwydydd ffermio. Ynghyd ag incwm o arallgyfeirio a mentrau ynni amgen, roedd incwm oddi ar y fferm yn un o'r llinynnau incwm lluosog yn gysylltiedig â ffermydd amlswyddogaethol. Dadleuwyd yn eang, yn yr amgylchedd economaidd ac amaethyddol presennol, bod angen ffynonellau incwm ychwanegol ar aelwydydd ffermio.

Rhoddodd nifer o gyweleion yng ngogledd-orllewin Cymru dystiolaeth a dadleuon am incwm oddi ar y fferm. Er enghraifft, nododd ffermwr defaid fach iawn (Gogledd-orllewin Cymru- L) nad oedd unrhyw un â llai na 70-80 erw yn gweithio'n amser llawn ar eu fferm. Roedd y bobl hyn i gyd â swyddi eraill yn lleol, yn aml yn contractio ond hefyd amrywiaeth o weithgarwch arall. Roedd fferm fach arall (Gogledd-orllewin Cymru- E) â 90 o ddefaid, 30 o ŵyn, 10 o wartheg a hawliau pori ar gyfer 200 ar y mynydd yn cael ei rhedeg yn rhan-amser gan gwpwl yr oedd gan y ddau ohonynt gyflogaeth amser llawn oddi ar y fferm. Gweithiodd ef yn Llechi Gogledd Cymru ym Methesda ac roedd hithau'n nyrs. Roedd ef yn gwneud yr holl waith corfforol ar y fferm, ac roedd hi'n gwneud y gwaith cyfrifiadur: e.e. symudiadau da byw ar-lein. Arferai ei fam a'i dad redeg y fferm fel busnes llawn amser pan oedd yn fwy proffidiol i wneud hynny. Bellach nid oedd yn broffidiol fel busnes ar ei ben ei hun, felly roedd yn rhywbeth yr oedd ef yn parhau i wneud fel ymrwymiad i'r ffordd o fyw, gwir fwynhad o ffermio ac anifeiliaid, a'r daliad lle yr oedd wedi'i fagu a lle yr oedd am barhau i fyw. Ar fferm ganolig, defaid ac eidion (Gogledd-orllewin Cymru- D) roedd gwraig y ffermwr yn nyrs a nodwyd bod ei hincwm yn rhan hanfodol o incwm yr aelwyd, fel erioed. A gwnaeth y ffermwr hwn atgyfnerthu'r sefyllfa yn ymwneud ag incwm oddi ar y fferm:

*'Rwy'n credu bod llawer o ffermwyr wedi mynd am ail swydd, a dyna ddigwyddodd yma. Mae fy holl gymdogion yn dibynnu ar incwm arall ac nid dim ond nhw, mae eu gwragedd wedi mynd i weithio hefyd - maent wedi gorfod gwneud hynny. Mae llawer o bobl rwy'n eu hadnabod wedi gorfod dod o hyd i waith arall. Mae gan lawer o bobl dir ond maent yn gwneud pethau eraill fel ymgynghorwyr neu maent yn gweithio i'r*

*weinyddiaeth ac maent yn ffermio'n rhan-amser am nad ydynt yn gallu cael dau ben llinyn ynghyd o'r fferm.'*

(Gogledd-orllewin Cymru A – bach, defaid ac eidion)

Ar gyfer fferm ganolig, defaid ac eidion (Gogledd-orllewin Cymru- D), roedd incwm oddi ar y fferm bob amser wedi bod yn gydran hanfodol o incwm y cartref, er bod y busnes fferm ei hun wedi gwneud colled. I raddau helaeth, llwyddodd i barhau trwy gyfuniad o incwm oddi ar y fferm, taliadau amaeth-amgylcheddol a'r Taliad Sengl. Nid oedd unrhyw gynlluniau i arallgyfeirio, er bod y ffermwr yn ymchwilio i fuddsoddi mewn ynni gwynt a dŵr. Wedi'u gyrru gan synnwyr o le a diwylliant, roedd penderfyniad i wneud toriadau a pharhau â 'busnes fel arfer.'

Yng Nghanolbarth Cymru, pwysleisiodd ffermwr defaid ac eidion canolig (Canolbarth Cymru- D) bwysigrwydd incwm oddi ar y fferm. Roeddent yn gwneud y gwahaniaeth rhwng '*dim ond bodoli a byw'* : er enghraifft, cael rhywfaint o wyliau. A nododd mab y ffermwr, a oedd yn gweithio ar y fferm, fod ei wraig, oedd â swydd amser llawn, yn ei gefnogi. Ar fferm fach, defaid ac eidion (Canolbarth Cymru- E) roedd gan y tad a'r mab swyddi yn gyrru lorïau. Roeddent yn bwriadu cadw'r swyddi hyn oni bai eu bod yn colli'r hyblygrwydd i barhau i ffermio. Roedd y wraig yn gweithio mewn siop leol.

Roedd gan dde-orllewin Cymru hefyd aelwydydd ffermio gydag incwm oddi ar y fferm:

*'Rwy'n credu bod angen i'r rhan fwyaf o ffermydd gael un person yn rhedeg y fferm ac un person yn mynd allan i weithio. Mae hynny wedi gweithio yma - mae'r rhan fwyaf yn gwneud hynny. Mae llawer yn gwneud hynny ac mae wedi gweithio'n dda yma, tan i mi wahanu oddi wrth fy ngŵr, oherwydd ni allwn ymdopi heb ei incwm ef.'*

(De-orllewin Cymru E – bach, cymysg)

Fodd bynnag, pwysleisiodd ffermwyr ar rai o'r mentrau llaeth mwy fod eu 'hincwm oddi ar y fferm' yn gwbl ar wahân i'w gweithgarwch ffermio ac nid oeddent yn gydran hanfodol o incwm yr aelwyd ffermio. Er enghraifft, roedd fferm laeth fawr iawn (De-orllewin Cymru - H) wedi arallgyfeirio i fusnes buddsoddi, a oedd yn rheoli eiddo preswyl a swyddfeydd ac a oedd wedi'i leoli yn Sweden. Roedd y fenter hon mewn partneriaeth â ffermwyr eraill, yn lleol ac yn rhyngwladol, ac yn dod â thua £120,000 y flwyddyn i mewn i'r cartref. Yn ogystal, roedd ganddynt fusnes buddsoddi eiddo llai yn ne Cymru. Ar fferm laeth fawr iawn arall, roedd gan wraig y ffermwr incwm oddi ar y fferm fel athrawes. Fodd bynnag, dadleuwyd bod hynny'n incwm atodol ac nad oedd yn hanfodol i ddyfodol y fferm ac nad oedd yn dylanwadu ar y ffordd roedd y fferm yn gweithredu. Yn ogystal, roedd gan y teulu fusnes rhentu, nad oedd yn gysylltiedig â busnes y fferm:

*'Mae gen i eiddo rhent, ond nid yw hyn yn gysylltiedig â'r fferm. Mae fy ngwraig a finnau'n gwneud hwnnw fel menter breifat.'*

(De-orllewin Cymru F – mawr iawn, llaeth)

Cafwyd dadleuon tebyg gan ffermwr llaeth canolig (De-orllewin Cymru - D) a ddadleuodd fod ffermio llaeth yn swydd amser llawn, nad oedd yn caniatáu amser ar gyfer gwaith arall. Fodd bynnag, roedd gan y wraig swydd oddi ar y fferm, ond ni thybiwyd ei bod yn hanfodol i incwm yr aelwyd, ac roedd gan y mab, a oedd yn gweithio ar y fferm, incwm oddi ar y fferm. Yn ogystal, gwnaethant waith contract achlysurol, a oedd yn cyfrannu rhwng £40,000 a £50,000 y flwyddyn i'r aelwyd.

### 5.2.11 Olyniaeth

Mae olyniaeth yn fater pwysig i aelwydydd ffermydd teuluol. Yn wir, awgrymodd y ffermwr hwn mai olyniaeth deuluol oedd diben ffermio, er mwyn i chi allu trosglwyddo rhywbeth o werth emosiynol ac ariannol i'r teulu yn y dyfodol. Fodd bynnag, dadleuodd y byddai llai o olyniaeth deuluol yn y dyfodol oherwydd bod ffermydd teuluol yn cael eu prynu a'r ffaith bod gan lawer o bobl swyddi eraill yn lle hynny. Felly, fe fyddai olyniaeth a ffermio teuluol o hyd ond nid o reidrwydd yn yr un teulu:

> *'Mae'r rhan fwyaf o ffermwyr gan gynnwys mi fy hun yn credu mai olyniaeth yw holl ddiben ffermio oherwydd rydych am drosglwyddo rhywbeth o werth emosiynol ac ariannol i'r genhedlaeth nesaf. Mae rhai ffermwyr nad ydynt yn meddwl fel hynny, er enghraifft nid oedd fy nhad o'r farn honno, ond dyna yw fy marn i. Felly i'r rhan fwyaf o ffermwyr mae'n hanfodol ac yn enwedig oherwydd bod llawer ohonynt wedi cael budd o'u rhieni'n cymryd yr un farn genhedlaeth yn ôl. Mae eu cynlluniau penodol yn dibynnu ar y gael olynydd felly mae hynny'n gofyn y cwestiwn, a oes gennych olynydd ac nid oes gan lawer o ffermydd da byw bach olynydd naturiol mwyach. Maent i gyd wedi gwneud y peth synhwyrol a chael swydd yn lle hynny, a dyna pam nad oes rhaid i chi ddyfalu'n wybodus neu'n anwybodus am y dyfodol. Rydych yn cael eich cyflog ac yn dilyn eich gyrfa ac mae gennych fwy o reolaeth o lawer dros hynny. Pan oeddwn yn ymarfer roedd gennym yrfa a gallwn benderfynu a oeddwn eisiau gwneud hyn neu'r llall; rydych yn gweithio'n galetach neu'n cymryd llawer o amser i ffwrdd neu beth bynnag felly gallech gael rhywfaint o reolaeth dros eich dilyniant gyrfa a gallech gynllunio eich ymddeoliad. Nid oes gan y rhan fwyaf o ffermwyr y moethusrwydd hwnnw. Rydym yn wynebu newidiadau mewn polisi nad oes gennym reolaeth drostynt neu ychydig iawn o fewnbwn yn unig, sy'n pennu proffidioldeb ymhell i'r dyfodol. Waeth pa mor galed fyddwch yn gweithio, os byddant yn cymryd y taliad sengl i ffwrdd rydych yn mynd i fod mewn picil, er enghraifft. Felly mae olyniaeth yn mynd i fod yn fwy anodd. O'r hyn y gallaf weld, bydd llai a llai o ffermydd teuluol yn cael eu trosglwyddo yn y teulu ond nid yw hynny'n golygu bod ffermydd teuluol yn farw - byddwn yn dweud eu bod yn mynd i fynd yn fwy oherwydd bydd ffermydd teuluol eraill yn eu cymryd drosodd. Dyna beth sy'n digwydd, onid ai? Pan roeddwn i'n ŵr ifanc, roedd fy nhad yn ffermio 70 erw. Rwyf i'n ffermio 350 - 400 erw. Pe bai fy mab neu ferch yn ffermio, byddwn yn disgwyl y byddent yn ffermio 600 neu 700 erw. Nid wyf yn dweud eu bod yn mynd i fod yn fwy llewyrchus, mae'n debyg na fyddant, ond maen nhw'n aros yn y diwydiant wedyn. Bydd olyniaeth yn dal i fod yn bwysig ond i nifer lai o bobl wrth i'r niferoedd a gyflogir yn ein diwylliant ostwng. Mae'n broblem go iawn.'*
>
> (De-orllewin Cymru K – bach, eidion)

Mae'r dyfyniad eithaf hir uchod yn amlygu sawl mater sy'n ymwneud â ffermio yn gyffredinol, ac olyniaeth yn arbennig. Er enghraifft, roedd dwy duedd mewn ffermio a oedd yn gwrthdaro. Yn gyntaf, roedd y duedd tuag at unedau mwy, gyda ffermydd teuluol yn cael eu prynu gan ffermydd mwy, ac unedau llai gweddilliol yn cael eu prynu gan ffermwyr 'hobi' neu bobl wedi ymddeol:

> *Yn sylfaenol, mae'r ffermydd teuluol o'n maint ni yn tueddu i gael eu rhannu a'u prynu gan ffermwyr mwy, ar hyn o bryd, sy'n drueni. Pan fydd fferm deuluol wedi mynd nid yw byth yn mynd i fod yno eto. Ond na, prin iawn o'm cenhedlaeth i sy'n cymryd yr awenau ar ffermydd yn yr ardal hon sy'n anffodus ond…maent yn cael eu llyncu gan y rhai mwy, ydynt. Neu eu prynu gan bobl am resymau'n ymwneud â ffordd o fyw, chi'n gwybod? Pobl sydd wedi ymddeol! '*
>
> (Canolbarth Cymru C – canolig, defaid ac eidion)

Yn ail, roedd y problemau a achosir gan olyniaeth pan oedd mwy nag un olynydd. Fel y dadleuodd ffermwr defaid bach iawn (Gogledd-orllewin Cymru - L) gallai olyniaeth greu problemau oherwydd pan oedd yn rhaid i ddau fab rannu'r fferm roedd yn dueddol o gael ei rhannu'n unedau llai a chynyddol anymarferol o ran cynnal teulu. Er enghraifft, roedd ffermwr canolig, da byw (Canolbarth Cymru-D) yn bwriadu rhannu'r busnes fferm, a oedd yn cynnwys dwy o ffermydd 200 erw rhwng dau o'i feibion. Fodd bynnag, roedd yn pryderu bod 200 erw yn dir annigonol i fod yn hyfyw. O dan yr amodau presennol roedd yn angenrheidiol cadw niferoedd uwch o dda byw i wneud elw. A chyda tir mor ddrud, roedd yn anodd ehangu. Felly, efallai y bydd y fferm yn cael ei gwerthu, os na fydd y meibion am gymryd yr awenau arni.

Yn fwy cyffredinol, nodwyd mor anodd ydoedd i bobl ifanc fynd i ffermio a sut nad oedd llawer ohonynt am wneud hynny oherwydd amodau ansicr a pholisïau'r llywodraeth:

> *'Yn anffodus gyda'r ffermio mae ein pobl ifanc yn ei chael mor anodd dod o hyd i ffermydd neu fynd i ffermio oherwydd y costau ac maent bellach yn gadael ac yn mynd i ddiwydiannau eraill oherwydd maent wedi gweld faint y mae eu rhieni wedi bod yn ymdrechu drwy weithio saith diwrnod yr wythnos ac ansicrwydd o ran cymorth y llywodraeth i amaethyddiaeth a'r ffaith bod prisiau yn cynyddu a gostwng drwy'r amser. Nid yw'n ddiwydiant lle y gallwch ddweud iawn, gallaf aros yma a gallai fod yn swydd am oes, fel athro neu beiriannydd neu beth bynnag neu weithiwr cyngor. Mae hi i fyny ac i lawr bob blwyddyn, onid yw?'*
>
> (Gogledd-orllewin Cymru A – bach, defaid ac eidion)

Mae dwy enghraifft yn dangos cymaint yr oedd rhai ffermwyr wedi eu dadrithio. Yn gyntaf, roedd ffermwr defaid bach a oedd yn ystyried gadael ffermio ac a oedd wedi:

> *'…wedi treulio'r 10 mlynedd diwethaf yn difaru mynd i ffermio'*
>
> (Gogledd-orllewin Cymru B – bach, defaid)

Nid oedd unrhyw gynlluniau olyniaeth ar waith. Yn wir, nododd y ffermwr hwn:

> *'….ni allaf gynghori fy merched i fynd i ffermio o ystyried fy mhrofiad.'*
>
> (Gogledd-orllewin Cymru B – bach, defaid)

Ac yna ffermwr arall a oedd yn teimlo nad oedd dewis ganddo, gan wneud yr hyn oedd disgwyl iddo ei wneud ar fferm deuluol. Gydag amser roedd ei deimladau ynghylch ffermio wedi newid er gwaeth. Roeddent ynghlwm wrth y fferm nid yn unig gan y teulu, y lle a'r diwylliant ond gan ddiffyg dewis amgen hyfyw.

> *'Rwy'n dwlu ar y bywyd; dyna dwi 'di wneud erioed ac ni allaf weld fy hun yn gwneud unrhyw beth yn wahanol. Ond y cwestiwn yw a oes dyfodol i fferm o'r maint hwn. Dwi ddim yn gwybod mewn gwirionedd. Dwi'n amlwg ddim yn gwybod beth sy'n mynd i ddigwydd yn fy mywyd, yn oes fy mhlant, dwi ddim yn gwybod. Hoffwn feddwl y gallai ffermydd bach fel hyn ddod yn economaidd ymarferol unwaith eto ond ar hyn o bryd nid yw hyn yn wir at ddibenion ffermio.'*
>
> (De-orllewin Cymru E – bach, cymysg)

### 5.2.12 Cymorth

O ran diwygio'r PAC, cafwyd sylwadau bod y cymorth yn annigonol. Roedd y ffermwr hwn yn feirniadol o Cyswllt Ffermio, gan ddadlau na fyddent yn gwybod unrhyw beth am ddiwygio'r PAC:

*Mae ganddynt eu cynghorwyr fel y'u gelwir, a does dim amheuaeth bod rhai ohonynt yn dda iawn ond nid yw rhai ohonynt cystal, gadewch i ni ddweud hynny. Maent yn gwneud rhai pethau da, ond rwy'n credu eu bod yn gwastraff llawer iawn o arian hefyd. Wel mae pethau da ac mae pethau drwg yno, ond nid ydynt wedi gwneud argraff arbennig o dda arnaf. O ran diwygio'r PAC, does dim syniad ganddyn nhw, a bod yn onest gyda chi.'*

(Canolbarth Cymru C – canolig, defaid ac eidion)

Er i'r ffermwr hwn ddadlau nad oedd yr undebau ffermio yn hyddysg iawn am sefyllfa'r PAC ac nad oeddent yn galluogi ffermwyr i gadw mewn cysylltiad:

*'O ran yr adborth gan Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, yr undebau neu undeb amaethwyr Cymru, nid ydym wedi cael llawer iawn ganddyn nhw ydyn ni? '*

(Canolbarth Cymru D –canolig, defaid ac eidion)

I raddau cafodd ei gefnogi gan y ffermwr hwn a oedd yn feirniadol o'r undebau, gan ddadlau nad oedd ganddynt ddiddordeb mewn ffermydd bach ac nad oedd cyfiawnhad dros dalu'r ffi i ymuno â hwy:

*'Na, dwi erioed wedi ymwneud ag Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, Unden Amaethwyr Cymru nac unrhyw rai o'r pethau eraill oherwydd rydw i bob amser wedi teimlo nad oes ganddynt ddiddordeb yn y ffermwr bach ac nad oedd yn werth talu'r hyn roedd angen i chi ei dalu i ymuno â nhw. Rydw i wedi bod mewn grwpiau glaswelltir a grwpiau trafod chi'n gwybod, ond nid wyf wedi bod yn y rheiny am tua 10 neu 12 mlynedd bellach mae'n debyg. '*

(De-orllewin Cymru B – bach iawn, eidion)

Ac roedd y ffermwr hwn yn targedu'r llywodraeth o ran cyngor a chymorth am y PAC a'r taliad sengl, ac am fiwrocratiaeth ormodol:

*'Felly rydym yn mynd i gael ein cosbi am fod yn ffermwyr da. Ond nid ydynt wedi ystyried hynny o gwbl a dwi ddim yn gwybod a yw...oherwydd os ewch chi i'r cyfarfodydd hyn rwy'n credu eu bod yn siarad atoch chi ac nid â chi. Dwi ddim yn gwybod i ble rydych yn mynd i gael cyngor ac nid yw'n ymddangos bod ganddynt unrhyw adborth amdano. Dwi ddim yn gwybod beth yw eu cynllun, maent yn cynnal seminarau arno, ond os ewch chi i'r seminarau hyn, mae llawer o'r ffermwyr sydd wedi bod yn credu eu bod yn chwerthinllyd oherwydd mae rhai o'r pethau sy'n cael eu dweud gan y bobl hyn yn hurt.*

*Os oeddech am ymuno roedd yn rhaid i chi lenwi llyfr 78 o dudalennau bob blwyddyn. Roedd y llywodraeth hon a'r llywodraeth flaenorol wedi addo torri tâp coch. Felly sawl coeden a gymerir i lenwi 78 o dudalennau? Y peth nesaf yw bod ffermwyr yn mynd yn hŷn, felly os ydynt yn ei roi ar gyfrifiadur nid ydynt yn mynd i ymgysylltu. Dwi ddim yn gwybod i ble maent yn mynd i fynd gyda hyn yn bersonol. Wel fe ddywedon nhw am flynyddoedd "Byddwn yn lleihau maint y llyfr". Maent yn anfon llyfr trwchus atoch bob blwyddyn gyda ffurflen. Maent yn dweud "Rydym yn mynd i dorri i lawr ar y tâp coch". A'r flwyddyn ganlynol daw'r llyfr ddwywaith mor drwchus.'*

(Canolbarth Cymru E – bach, defaid ac eidion)

O ran Cyswllt Ffermio yn fwy cyffredinol, er bod rhai cyfweleion wedi cael profiadau da, roedd eraill yn fwy beirniadol o Cyswllt Ffermio, gan ddadlau eu bod yn rhy ddrud ac nad oedd ganddynt arbenigedd gwych:

*'Dwi ddim yn ffan mawr o Cyswllt Ffermio. Cawsom grant ar un sied ganddynt, roedd hynny'n dda iawn, ond o ran y gwasanaethau maent yn eu cynnig ar hyn o bryd…. Y tro diwethaf i mi holi oedd er mwyn gwneud rhywfaint o brofion ar y prif. Rwy'n amcan eu bod yn codi £50 fesul sampl? Rhywbeth fel hynny beth bynnag. Felly roedd yn mynd i gostio… tua £50 rwy'n credu. Rwyf bob amser wedi defnyddio labordy bach i wneud fy mhrofion pridd. Felly buais yn rhefru ychydig bach wrth y fenyw neis yn Cyswllt Ffermio, oherwydd meddyliais fod rhywun yn rhywle yn gwneud llawer iawn o arian ar draul ffermwyr!*

(Canolbarth Cymru C – canolig, defaid ac eidion)

A dadleuodd y ffermwr hwn y dylai Cyswllt Ffermio fod yn fwy gweledol ac yn fwy hygyrch i ffermwyr:

*Hoffwn weld mwy o Cyswllt Ffermio a bod yn onest… hoffwn. Pwy uffern yw Cyswllt Ffermio, chi'n gwybod, mae'n… chi ddim yn eu gweld nhw'n aml, chi'n gwybod? Rwy'n credu y gallen nhw gael ychydig bach mwy o bresenoldeb, chi'n gwybod*

(Gogledd-orllewin Cymru D – canolig, defaid ac eidion)

Ar y cyfan, ystyriwyd bod y cynlluniau cymorth sydd ar gael i helpu ffermwyr ifanc yn annigonol a dim ond o ddefnydd i bobl ifanc a oedd eisoes yn ffermio drwy eu teulu:

*'A'r cymorth maent yn ei roi mae pobl yn ymuno â'r cynlluniau gallgof hyn o ddechrau ar bethau - i gael grant am flwyddyn ac ar ôl blwyddyn i'r diawl ag e. Does dim parhad yno. Maent ond yn ei wneud am fy flwyddyn, chi'n gwybd…Rydym wedi gwneud cais, oherwydd bod ein mab yn y busnes, rydym wedi gwneud cais am grant ffermwr ifanc ond mae'r grant hwn yn fychan o gymharu â'r hyn y mae'n ei gostio…on'd yw e? Rydych chi'n gwybod nad ydyn nhw, iawn mae'n help…..maen nhw'n cael…mae ffermwyr ifanc yn cael cymorth yn y ffordd honno ond mae'n wel beth ydyw, 50% o £15, 000, felly dyna'r uchafswm grant. Mae'n helpu ond nid yw'n mynd i wneud i bobl ddechrau ffermio.'*

(De-orllewin Cymru D – canolig, llaeth)

Fel y nodwyd yn gynharach, roedd sawl cyfwelai yng ngogledd-orllewin Cymru yn denantiaid yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol neu roeddent wedi eu lleoli ym Mharc Cenedlaethol Eryri. Awgrymodd y ffermwr hwn, er ei fod wedi cael budd o gynlluniau, a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a'r Awdurdod Parc Cenedlaethol wedi gweithio gydag ef, fod angen i'r sefydliadau hyn weithio'n fwy effeithiol gyda'i gilydd, oherwydd gallent wrth-ddweud ei gilydd o ran yr hyn roeddent yn ei gefnogi a sut y dylid gwneud pethau. Yn ogystal, fel ffermwr organig, dadleuodd nad oedd ffermio organig, ac i raddau, ffermio mynydd yn gyffredinol yn cael cymorth digonol gan y cyrff hyn:

*Mae'r Comisiwn Cefn Gwlad a'r Parc Cenedlaethol a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a'r llywodraeth i gyd am i wartheg gael eu cadw ar ucheldiroedd Cymru ond nid ydynt wedi gwneud, beth yw'r gair, rhywbeth yn ei le i ni allu eu bwydo. Ac oherwydd fy mod i'n organig mae'r porthiant organig yn ddrud iawn, iawn er nad yw'r elw ar y gwartheg rydym yn eu gwerthu mor uchel*

*â hynny nawr. Mae'r un peth â'r confensiynol felly rydym yn gorfod talu mwy i ffermio'n organig nawr, sydd ychydig yn wirion mewn gwirionedd ond rwy'n credu yn hynny a dyna pam rwy'n ei wneud. Mae llawer o'm cymdogion sydd wedi rhoi cynnig ar organig wedi gadael ar ôl pum mlynedd - wedi cymryd yr arian a dianc. A dyna'r darlun ledled Cymru oherwydd ni all llawer o ffermwyr godro weld gwerth yng nghost bod yn organig i'r hyn y maent yn ei gael am y llaeth nid oes digon o incwm iddynt.*

(Gogledd-orllewin Cymru A – bach, defaid ac eidion)

Yn fwy cyffredinol, roedd galw am well cymorth i ffermwyr o ran cymorth cynllunio busnes i helpu pobl i sefydlu mentrau mwy hyfyw. Er enghraifft, dadleuodd ffermwr defaid bach iawn (Gogledd-orllewin Cymru - L) nad oedd ffermwyr, ar hyn o bryd, yn cael cyngor digonol i wneud eu busnes yn unigryw ac yn ymarferol yn y tymor hwy. Hyd yn oed o ran busnesau arallgyfeirio ffermydd (yn hytrach nag incwm sy'n dechrau busnes o'r newydd) dadleuodd fod angen am gyngor da gan ymgynghorydd rheoli. Ar hyn o bryd nid oedd syniadau'n cael eu hystyried yn ofalus ac roedd llawer o bobl naill ai'n methu neu'n methu manteisio'n llawn o ganlyniad i hynny. Roedd angen gwell cyngor a rhwydweithiau cyngor oherwydd bod gan ffermwyr a thrigolion lleol sgiliau busnes gwael. Dadleuodd fod y diwylliant o ddymuno cael rhywbeth am ddim yn broblem o ran annog buddsoddi amser ac arian digonol. Roedd pethau syml fel gwybodaeth am gyfraith cyflogaeth a TAW yn rhwystr i rai nad oeddent yn sicr o'r rheolau ac felly'n gweithio mewn trefniadau a oedd yn wael iddynt hwy a'u gweision fferm. O ran llawer o fentrau busnes, roedd angen gwell dealltwriaeth o'r broses gynllunio a sut i wneud ceisiadau cynllunio. Yn yr un modd, roedd angen mwy o gymorth gyda cheisiadau am grantiau, ynghyd â phroses haws, am ei bod yn rhy amrywiol a chymhleth ar hyn o bryd. Ar ôl cael grantiau, awgrymodd y byddai llai o archwilio yn ei gwneud yn fwy deniadol. Nid oedd y broses bresennol yn rhoi gwerth am arian. Roeddent yn cael eu rheoleiddio'n ormodol, a oedd yn golygu bod llawer o bobl yn digalonni. Roedd angen llai o feini prawf i'w bodloni a mwy o gymhelliant i bobl arbrofi.

I raddau ategwyd y sylwadau uchod gan brofiadau'r fferwr hwn, a oedd wedi ymchwilio i gyllid er mwyn ehangu gweithgarwch arallgyfeirio'r fferm busnes ond a oedd wedi ei chael yn anodd cymhwyso ar gyfer rhai grantiau. Dadleuwyd bod gormod o dâp coch er mwyn defnyddio'r fferm ar gyfer gweithgarwch arall. Roedd y prosesau ar gyfer cael cyllid a chaniatâd cynllunio yn araf. Er enghraifft, roeddent wedi cysylltu â'r Awdurdod Lleol sawl gwaith ynglŷn â thrwydded ar gyfer y podiau gwersylla. Bob tro addawodd yr Awdurdod Lleol ymdrin ag ef a hyd yma roeddent wedi methu gwneud hynny. Yn gyffredinol, roeddent yn teimlo bod y cyngor wedi eu siomi, gydag oedi hir, addewidion a dorrwyd, a methu gallu manteisio ar gyllid yr oedd ganddynt hawl iddo:

*'Ac mewn egwyddor mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn hybu twristiaeth ac mae Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin am gael pobl yn dod i'r ardal ond pan fyddwch yn ceisio, maent yn eich rhwystro yr holl ffordd. Ac rwy'n credu mai dyma yw'r broblem; maent yn dweud bod yna, yr holl bethau hyn sydd yno, potiau amrywiol o arian yn yr UE ond mewn gwirionedd mae'n benodol iawn, iawn a phrin iawn yw'r bobl sy'n gymwys ar ei gyfer. Ond na, ni wnaethom gymhwyso ar y sail honno oherwydd nid oeddent eisoes mewn twristiaeth. Felly rwy'n credu mai dyma yw'r broblem, mae cymaint o dâp coch gyda phopeth, yr holl gymorthdaliadau, yr holl grantiau, rydych yn teimlo eich bod yn neidio drwy gylchau drwy'r amser a heb gael llawer yn gyfnewid am hynny.'*

(De-orllewin Cymru E – bach, cymysg)

### 5.2.13 Sylwadau eraill: Materion tir a diogelwch bwyd

Cafwyd nifer o sylwadau am bris cynyddol tir. Crybwyllwyd y mater hwn yn gynharach yn yr adroddiad hwn, yn enwedig yn yr adrannau ar Gymorthdaliadau ac ar Olyniaeth. Rhoddodd sawl cyfwelai enghreifftiau o brisiau tir yn cynyddu. Roedd y ffermwr hwn am ehangu ond roedd tir yn rhy ddrud. Roedd yn beio'r taliad sengl:

> *Y cynllun clir yw cynyddu ein maint yn raddol ond… nid yw hynny'n digwydd ar hyn o bryd. Na, mae'r tir a ddaw ar gael, mae'n rhy ddrud. Roeddem yn rhentu 100 o erwau drws nesaf, am 10-15 mlynedd ac yna daeth ar werth ddwy neu dair blynedd yn ôl. Ceisiais brynu rhywfaint ohono, ond na. Fe es mor uchel ag y meiddiwn, ond na. Does dim digon o dir ar gael yn yr ardal hon mewn gwirionedd. Yn syml oherwydd bod pobl yn dal i eistedd arno ac yn hawlio eu Taliad Sengl.) Rwy'n credu pe bai hynny'n dod i ben byddai llawer iawn o dir.'*
>
> (Canolbarth Cymru C – canolig, defaid ac eidion)

Nododd y ffermwr hwn broblem benodol gyda phrisiau tir a ffermydd llaeth yn Sir Benfro. Dadleuodd fod prisiau tir, ar gyfer gwerthu a rhentu, yn uchel iawn oherwydd gallai ffermydd llaeth mwy fforddio tir, ac roedd angen y tir hwnnw arnynt, ar draul mathau eraill o ffermydd:

> *'Y broblem yn Sir Benfro yw nad oes unrhyw dir rhent rhad. Ceir llawer o ffermydd llaeth sydd bob amser yn chwilio am fwy o dir ar gyfer porthiant ac maent yn parhau i gael mwy o fuchod ac mae angen mwy o dir arnynt ac maent yn barod i dalu mwy nag ydwyf i am ddefaid ac eidion.*
>
> *Ceir llawer o ffermydd llaeth, llawer o ffermydd llaeth mawr. Mae'n debygol mai Sir Benfro yw'r sir fwyaf yng Nghymru o ran ffermydd llaeth. Am eu bod i gyd yn ehangu - mae'r rhai mwyaf yn ehangu - mae angen mwy a mwy arnynt.'*
>
> *'A'r peth yw mae'r ffermydd yn cael eu prynu gan ffermwyr eraill, felly mae hynny'n gwthio'r pris i fyny ac yn ei wthio allan o gyrraedd ffermwr ifanc sydd am ddechrau arni, a'r peth arall rwy'n credu sydd wedi mynd o'i le yw bod ffermydd y cyngor wedi'u gwerthu, yn hytrach na chael eu cadw ar gyfer ffermwyr ifanc i ddechrau ffermio, yn lle hynny maent yn eu gwerthu.'*
>
> (De-orllewin Cymru C – canolig, defaid ac eidion)

Gwnaeth y sefyllfa hon bethau'n anodd i newydd-ddyfodiaid i ffermio, nad oeddent o bosibl yn meddu ar y cyfalaf. Nodwyd ei bod yn haws i ffermwyr tymor hwy, gyda sawl cenhedlaeth y tu ôl iddynt, a oedd yn tueddu i fod yn berchen ar eu ffermydd eu hunain, heb ddyledion. Fodd bynnag, roedd problem bendant o ran llai o ffermwyr ifanc yn dod i mewn.

Nodwyd bod llawer o ffermydd yn y de-orllewin yn cael eu gorfodi i mewn i weithgarwch arall ac allan o ffermydd teuluol. Nodwyd er bod hon wedi bod hon wedi bod yn ardal gyda llawer o ffermydd llaeth bach, roedd y rhan fwyaf ohonynt yn rhedeg ceffylau erbyn hyn. Roedd tir yn cael ei rentu i fermydd llaeth mawr neu ei ddefnyddio ar gyfer cynlluniau mawr i ddefnyddio ynni'r haul, a oedd yn golygu nad oedd modd ei ddefnyddio ar gyfer cynhyrchu, gyda'r elw yn mynd dramor:

> *'Felly mae'n dir fferm o safon ac mae ganddynt ganiatâd i roi 70 erw o baneli haul - dwi ddim yn gwybod sut maen nhw wedi gwneud hynny. Y peth trist gyda hynny yw, mae'n fenter fasnachol fawr, maent yn cael llawer o arian yn amlwg chi'n gweld am rentu'r tir i'r cwmni sy'n ei wneud ac mae'r holl arian yn mynd yn ôl i'r Almaen ac i mi*

*mae hynny'n swnio'n gwbl anghywir. Pe bai'n gwmni Prydeinig ni fyddech yn teimlo mor ddig am y cyfan, ond mae'n gadael y wlad ac mae'n wirion.'*

(De-orllewin Cymru E – bach, cymysg)

Roedd y ffermwr yn pryderu bod rhoi'r goraui ddefnyddio tir am resymau ecolegol ac amgylcheddol ac ar gyfer ynni amgen wedi gadael y DU yn fregus o ran diogelwch bwyd, o ran ein bod yn dibynnu gormod ar fewnforion, i'r graddau pe bai problem, byddai'r archfarchnadoedd yn rhedeg allan o fwyd ymhen pum diwrnod. Yn gyffredinol, dadleuwyd bod prinder gwybodaeth, yn enwedig mewn ardaloedd trefol, am ffermio a chynhyrchu bwyd:

*'Rwy'n credu y dylid gwneud mwy ym maes addysg oherwydd does dim syniad gan bobl drefol mewn gwirionedd. Ac rwy'n credu dylai pobl fod yn ymwybodol cyn-lleied o hunangynhaliaeth sydd yno mewn gwirionedd yn y wlad hon – faint o'n bwyd o ddydd i ddydd sy'n cael ei brynu oddi wrth wledydd eraill.'*

(De-orllewin Cymru E – bach, cymysg)

Hefyd o ran diogelwch bwyd, dadleuodd y ffermwr hwn y byddai'r rhannau hynny o'r byd a oedd yn dda gyda chynhyrchu da byw, megis Brasil a'r Ariannin, yn gynyddol yn trosglwyddo tir, gan gynnwys coetir gwyryfol, i gynhyrchu ŷd a soia. O ganlyniad, byddai eu buchesi yn prinhau. Fodd bynnag, dadleuodd nad oedd gwleidyddion a gwneuthurwyr polisi wedi cydnabod y sefyllfa ac nid oeddent yn gwneud penderfyniadau i fynd i'r afael â'r materion hyn yn yr amserlenni cywir:

*'Yr anhawster mae Cymru yn ei wynebu yw iawn, gallwch gynyddu'r ddiadell ddefaid o fewn dwy neu dair blynedd. Ond gydag eidion, mae'n gyfnod rhagarweiniol hir. Er enghraifft, mae gennyf loi sy'n cale eu geni nawr ac rwy'n gobeithio cael lloi ohonynt i'w pesgi. Felly mae gennyf ychydig o loi yma rwyf wedi eu nodi ar gyfer bridwyr sydd tua mis oed. Felly erbyn i'w lloi gael eu gwerthu ar gyfer eu pesgi bydd y llo hwnnw yn bump oed. Felly mae gennyf gyfnod rhagarweiniol o bum mlynedd. Dyna pam mae'r rhan fwyaf o gynlluniau busnes yn rhai pum mlynedd am ei bod yn cymryd pum mlynedd i gyrraedd unrhyw le - ond pum munud iddo fynd o'i le. Rydym i gyd wedi bod yno. Felly dwi ddim yn credu bod gwneuthurwyr polisi yn deall bod gan sectorau gwahanol ofynion gwahanol o ran amser. Gyda'r sector defaid, gallwch ailwampio hwnnw. Ond mae gan y sector eidion dueddiadau hirdymor, lan neu lawr. Ar hyn o bryd mae'r duedd hirdymor ar i lawr, yma ac yn Swydd Stirling yn yr Alban. Ac mae hynny mewn rhanbarth arall â gogwydd amaethyddol cryf ac mae'r fuches eidion yn prinhau. Ar yr union adeg pan fo gwledydd cynhyrchu eidion mawr ledled y byd yn rhoi'r aradr i mewn yn lle hynny. A dwi ddim yn credu bod unrhyw gydnabyddiaeth bod - nid y dylid ei wrthdroi, ond y dylid gwneud penderfyniad - a yw'n syniad da cael diwydiant eidion sy'n prinhau? Efallai mai'r ateb yw ie, efallai mai'r ateb yw na, beth am gael buches magu eidion yn ôl. Ond nid wyf yn gweld bod camau i fynd i'r afael â hyn ac yn wahanol i ddefaid lle gallwch wrthdroi pethau yn eithaf cyflym, gyda'r eidion bydd yn cymryd pum mlynedd i'w newid yn ôl, sy'n rhan fawr o fywyd unrhyw un.'*

(De-orllewin Cymru K – bach, eidion)

Nododd ei bod yn ymddangos bod y diwydiant eidion yn cael ei ddirwyn i ben. Yn ei farn ef byddai hyn yn gamgymeriad, a chwestiynodd bolisi bwyd yr UE:

*'Rydym yn gorfod dyfalu a dyfaliad y rhan fwyaf o bobl yw ei fod yn cael ei ddirwyn i ben yn araf. Rwy'n dweud fy mod i'n credu mai dyna'r casgliad naturiol ond mae'r emosiwn yn fy ymennydd yn dweud "O na!". Ond rwy'n credu, gan gymryd barn resymegol, rwy'n credu bod penderfyniadau'n cael eu gwneud bod eidion yn gig*

*eithaf drud i'w gynhyrchu ac rwy'n tybio mai'r is-destun yw a allan nhw, chi y defnyddiwr, barhau i fforddio cig drud, sy'n gwestiwn hollol wahanol. A oes gan yr UE bolisi bwyd? Ceir polisi amaethyddol yr UE. A yw hynny yr un peth â pholisi bwyd yr UE mewn gwirionedd?*

*Cafwyd awgrymiadau rai blynyddoedd yn ôl y gallai diogelwch bwyd symud i fyny'r agenda o'r cyrion lle y mae wedi bod am 30 mlynedd. Ymddengys fod hynny wedi mynd yn dawel, felly byddwn yn dweud ymhlith y dryswch o wybodaeth rydych yn ei chael, y cwestiwn pwysicaf yw lle y mae polisi bwyd yr UE a sut beth ydyw? Dim ond wedyn y gallwch wneud rhai penderfyniadau synhwyrol, hirdymor megis a yw'n bwysicach cael bwyd ynteu i wella'r amgylchedd? A yw'n bwysicach bod gennym economi leol fywiog, neu fwyd rhatach gan lai o ffermwyr a llai o gyflenwyr? A yw'n bwysig cynnal ffermydd teuluol drwy'r system dreth a budd-dal lles neu a yw allbwn yn bwysicach ar gyfer y dyfodol? A dyna'r cwestiynau mawr.'*

(De-orllewin Cymru K – bach, eidion)

**Adran Chwech Crynodeb**

I raddau helaeth atgyfnerthodd dadansoddiad y cyfweliad ganfyddiadau'r arolwg ac er na all dadansoddiad ansoddol o 31 o gyfweliadau honni bod yn gynrychiadol, rhoddwyd mewnwelediad i'r hyn roedd ffermwyr yng Nghymru yn ei gredu am amrywiaeth o faterion cyfoes. Yn ogystal, cododd y dadansoddiad rai materion newydd pwysig.

Roedd modd trefnu'r pwyntiau allweddol a nodwyd gan y dadansoddiad yn dri grŵp. Aeth y grŵp cyntaf i'r afael yn uniongyrchol ag un o nodau ymchwil y prosiect: archwilio beth y gall sgîl-effetihiau diwygio'r PAC fod ar gymdeithas wledig a'r economi yng Nghymru wledig. Roedd y grŵp hwn yn cynnwys materion rhyng-gysylltiedig y farn wahanol a arddelir gan ffermwyr am y taliad sengl ac am effeithiau posibl newidiadau i'r taliad sengl; y dystiolaeth o ymgorffori yn yr economi leol; a'r berthynas rhwng ffermwyr a chymunedau lleol. Gwnaeth yr ail gyfres o bwyntiau allweddol o ddadansoddiad y cyfweliad bwysleisio pwysigrwydd agweddau ar swyddogaethau amryfal megis arallgyfeirio, mentrau amgen, cofrestru mewn cynllun amaeth-amgylcheddol ac incwm oddi ar y fferm o ran cadernid a natur fregus cymharol aelwydydd ffermio yng Nghymru wledig. Yn olaf, cafwyd sylwadau ynglŷn â chymorth a dau fater sy'n aml yn gysylltiedig, sef olyniaeth ac argaeledd tir.

Gan gymryd yr archwiliad o sgîl-effeithiau diwygio'r PAC ar gymdeithas wledig, a'r economi yng Nghymru wledig yn gyntaf, fel y gellid bod wedi disgwyl roedd gan y ffermwyr y cyfwelwyd â hwy amrywiaeth o farn ar system gymhorthdal y taliad sengl. Cafwyd dadleuon bod y system yn ddiffygiol yn sylfaenol o ran ei bod yn hyrwyddo 'system mewnbwn uchel, cost uchel'. Dadleuodd eraill y dylai'r taliad sengl fod yn gysylltiedig â chynhyrchu bwyd, ynni neu wasanaethau amgylcheddol. Cafwyd hefyd sylwadau bod modd camddefnyddio'r taliad sengl. Tynnodd sawl cyfwelai sylw at achosion lle roedd ffermwyr yn rhentu eu tir ac yn hawlio'r taliad sengl. At hynny, dadleuwyd bod y math hwn o arfer yn gwaethygu problemau o ran newydd-ddyfodiaid i ffermio a ffermwyr iau, a rhoddir crynodeb o'r problemau hyn isod. Dylid nodi dau sylw arall ar y taliad sengl. Honnodd rhai cyfweleion fod 'diwylliant o ofn' o amgylch cydymffurfio â'r taliad sengl ac archwiliadau. Ac roedd dyfalu a phryder am y posibilrwydd o gyflwyno 'model Seland Newydd'. Hynny, beth fyddai'n digwydd pe bai'r cymorthdaliadau yn dod i ben yn llwyr?

O ran effeithiau posibl newidiadau i'r taliad sengl ar fusnesau fferm, cafwyd tair barn. I rai ffermydd, roedd y taliad sengl yn rhy fach fel cyfran o incwm i newidiadau gael effaith. Dyma oedd barn y ffermydd mwy, rhai llaeth ar y cyfan, ffermydd â throsiant ac elw uchel a ffermydd a oedd yn cael swm cymharol fach o'r taliad sengl. Yna roedd grŵp, eto yn fwy ar y cyfan ac yn ffermydd llaeth, a nododd y byddai unrhyw newidiadau i'r taliad sengl yn effeithio ar lefel yr elw a wnaed gan fusnes y fferm ac ni fyddai'n effeithio ar sut roedd busnes y fferm yn cael ei gynnal.

Yn hyn o beth, mae'n ddefnyddiol tynnu sylw at sut roedd data'r cyfweliad yn ategu data'r arolwg o ran dangos bod ffermydd llaeth yn dueddol o fod yn unigryw. Roeddent yn dueddol o ganolbwyntio ar odro, cael eu hysgogi gan y farchnad, peidio ag arallgyfeirio a chyda'r taliad sengl yn cyfateb i gyfran fach o'u hincwm busnes. Ymhlith canfyddiadau pwysig eraill a ddaeth i'r amlwg o'r cyfweliadau roedd perthynas ffermydd llaeth â phroseswyr. Ar y cyfan, roedd ffermydd llaeth yn cyflenwi un prosesydd yn unig, ac roedd hyn yn eu gwneud yn agored i fethiant busnes. A nododd ffermwyr godro fod yn well gan broseswyr grynodiadau o ffermydd llaeth mewn ardal, a oedd yn creu anawsterau i ffermydd llaeth llai a mwy anghysbell.

Gan ddychwelyd at ganfyddiadau ffermwyr o effeithiau posibl newidiadau i'r taliad sengl, awgrymodd y trydydd grŵp, a oedd yn dueddol o fod yn ffermydd llai heb allu

amlswyddogaethol presennol, fod y taliad sengl yn hanfodol i'r aelwyd fferm ac y byddai unrhyw newidiadau yn effeithio ar yr arfer ffermio a'r symiau o arian roeddent yn eu cyfrannu i'r economi leol.

Mewn perthynas â'r economi leol, unwaith eto roedd data'r cyfweliad yn atgyfnerthu data'r arolwg. Nododd y ddwy set ddata fod y ffermwyr yn tueddu i brynu'r rhan fwyaf o bethau gan gyflenwyr lleol. Mynegodd y cyfweleion awydd i gynorthwyo busnesau lleol, gyda phenderfyniadau ddim o reidrwydd yn cael eu gwneud o ran costau ond gan ystyried dibynadwyedd a rhwyddineb cymorth ar ôl gwerthu ac, yn bwysicaf oll, roedd angen amlwg i gynorthwyo a chynnal yr economi leol, a oedd yn cael ei gweld fel rhan annatod o'r gymuned leol a diwylliant Cymru. Roedd rhywfaint o swmp-brynu o'r tu allan i'r ardal leol ac roedd da byw yn aml yn cael eu prynu a'u gwerthu yn lleol ac i ffwrdd o'r ardal leol, mewn rhai achosion mor bell i ffwrdd â'r Alban. Mae'r patrymau hyn o brynu a gwerthu wedi'u dangos ar y diagramau rhosyn yn Atodiad Tri ac Atodiad Pedwar.

Tynnwyd sylw at y cysylltiad rhwng yr economi leol a'r gymdeithas leol. Nododd mwyafrif y ffermwyr y cyfwelwyd â hwy eu bod wedi'u hymgorffori mewn diwylliant ffermio, ymdeimlad o le, a'r angen i gynhyrchu bwyd. Iddynt hwy, roedd ffermio yn 'lud diwylliannol' a oedd yn dal y gymuned a'r gymdeithas leol gyda'i gilydd. Fodd bynnag, roedd canfyddiadau o gryfder y gymuned leol yn amrywio a chyflwynwyd y dadleuon i'r gwrthwyneb. Er enghraifft, roedd dadleuon bod cymunedau yn cael eu herydu gan unedau fferm mwy a chan ffermydd a oedd yn cael eu gwerthu neu eu rhentu i fewnfudwyr; bod gan ffermwyr eu cymuned eu hunain, a oedd yn gryfach na'r gymuned 'gyffredin'; a bod model y 'fferm deuluol' yn israddio pwysigrwydd ffermio fel busnes. Mae'r ddadl olaf yn cyd-fynd â dadleuon tebyg yn y llenyddiaeth academaidd sy'n ymwneud â 'Ffordd o fyw o gymharu â Busnes'. Ac yn wahanol i'r ffermwyr hynny sy'n ymrwymedig i ffermio fel ffordd o fyw a diwylliant, ac a fyddai ond yn gadael ffermio 'mewn arch', nododd rhai ffermwyr llaeth y byddent yn gadael ffermio pe na baent yn gwneud elw.

O'r dystiolaeth, felly, mae gan newidiadau i'r taliad sengl y potensial i effeithio ar yr economi leol ac, yn gydgysylltiedig, ar y gymdeithas leol. Mae'r graph yn Ffigur 3.2, sydd, ar gyfer pob un o'r 30 o ffermydd a holwyd, yn mapio'r taliad sengl fel cyfran o incwm yr aelwyd yn erbyn gwario lleol ar gyflenwadau fferm, yn rhoi arwydd o'r sgîl-effeithiau hyn.

Pwysleisiodd yr ail set o bwyntiau allweddol o ddadansoddiad y cyfweliad bwysigrwydd agweddau ar amlswyddogaeth o ran creu cadernid. Gan neilltuo fel rhai unigryw'r ffermydd llaeth mwy hynny a oedd ar hyn o bryd yn broffidiol ac yn gadarn drwy rinwedd eu marchnadoedd, roedd aelwydydd ffermio cadarn yn dueddol o ymwneud â chyfuniadau amrywiol o ffermio craidd, arallgyfeirio, mentrau amgen, cofrestru mewn cynllun amaeth-amgylcheddol ac incwm oddi ar y fferm.

Roedd ymgysylltu â'r agweddau hyn ar amlswyddogaeth yn fater o ddewis a chyfle personol ond nododd y cyfweleion hefyd rwystrau a phroblemau. Er enghraifft, crybwyllwyd gorlenwi mewn ardal fel rheswm dros beidio ag arallgyfeirio, yn enwedig o ran cynnig gwely a brecwast, siopau fferm a llety gwyliau. Tynnodd sawl cyfwelai sylw at rwystrau o ran arallgyfeirio, gyda landlordiaid yn nodi rhwystrau i osodiadau ynni amgen a mastiau telathrebu, gan gynnwys yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, a chan sefydliadau ac awdurdodau cynllunio megis Parciau Cenedlaethol a llywodraeth leol. Yn fwy cyffredinol, dadleuwyd bod angen mynediad i ymchwil a chanllawiau'n ymwneud â'r elw posibl o fentrau amlswyddogaethol.

Roedd y mathau o incwm oddi ar y fferm a oedd yn cyfrannu at lawer o'r aelwydydd ffermio yn amrywiol. Yn eu plith roedd gwaith rhan-amser lleol, nyrsys, athrawon a swyddogion llywodraeth leol amser llawn, gyrru lorïau a chontractio. Roedd hefyd ffermwyr â phortffolio o fusnesau llety a busnesau dramor. Un cwestiwn perthnasol yn ymwneud â'r ffermwyr hynny

â mwy o incwm oddi ar y fferm lleol ac a oedd wedi'u clymu wrth eu tir gan awydd, dewis, hanes, diwylliant a thylwyth yw - pa mor fregus o bosibl oedd eu hincwm oddi ar y fferm yn yr hinsawdd economaidd a pholisi presennol?

Gan droi at gynlluniau amaeth-amgylcheddol, daw hyn â ni i Glastir. Er bod llawer o'r cyfweleion wedi cofrestru gyda Glastir, naill ai ar gyfer yr incwm neu o argyhoeddiad amgylcheddol, nid oedd eraill yn rhan o'r cynllun nac yn bwriadu ymuno ag ef, er eu bod, mewn rhai achosion, wedi colli incwm yn ddiweddar oherwydd bod cynlluniau eraill megis Tir Mynydd wedi dod i ben. I grynhoi, ymhlith y rhesymau a roddwyd dros beidio â chofrestru roedd gormod o reolau a chyfyngiadau a dadleuon bod y cymhellion ariannol yn annigonol. Cafwyd hefyd sylwadau y byddai'r elfen wedi'i thargedu yn arwain at ostyngiad mewn llafur, a fyddai'n ddrwg i'r economi leol. A mynegodd sawl cyfwelai bryderon am y defnydd o dir i gynhyrchu tirwedd yn hytrach na bwyd a 'ffermio nad ydynt yn ffermio' yn Glastir. Un ffactor na ddylid ei anwybyddu oedd dylanwad cymheiriaid. Nododd rhai cyfweleion nad oedd unrhyw rai o'u cymdogion a'u cyd-ffermwyr wedi ymuno â Glastir, nid oedd unrhyw un roeddent yn ei adnabod yn siarad o'i blaid, ac felly ni fyddent yn cofrestru.

Roedd mater y 'ffermwyr nad ydynt yn ffermio' yn Glastir yn un o becyn o faterion yn ymwneud â phroblemau canfyddedig olyniaeth a newydd-ddyfodiaid i ffermio. Dadleuwyd bod mynediad i ffermydd a thir i ffermwyr ifanc a newydd-ddyfodiaid yn cael ei rwystro gan gyfuniad o 'ffermwyr nad ydynt yn ffermio' a oedd yn hawlio incwm Glastir a ffermwyr hŷn yn 'dal eu gafael' ac yn gosod eu ffermydd tra oeddent yn hawlio'r taliad sengl. Yn gysylltiedig â'r materion hyn roedd cyfalafu canfyddedig cymorthdaliadau i werthoedd tir ac, yn enwedig yn ne-orllewin Cymru, colli unedau ffermio llai a achoswyd gan ffermydd llaeth yn ehangu a chymryd drosodd y ffermydd llai a phrynu tir.

Fel y gellid bod wedi disgwyl, roedd y sylwadau hynny'n ymwneud â chymorth yn rhai amrywiol. Roedd rhai cyfweleion wedi cael profiadau da o Cyswllt Ffermio. Ond nododd eraill fod Cyswllt Ffermio yn rhy ddrud ac y dylai fod yn fwy gweladwy. Cafwyd hefyd sylwadau mai prin oedd gwybodaeth neu arbenigedd personél Cyswllt Ffermio o ran diwygio'r PAC. Yn fwy cyffredinol, dadleuwyd y dylai cymorth i ffermwyr fod yn fwy integredig; mae'n debyg y cafwyd yn aml gyngor anghyson gan gyrff gwahanol. Dadleuwyd nad oedd Llywodraeth Cymru mewn cysylltiad â ffermwyr a ffermio.

I gloi, i raddau helaeth mae'r dadansoddiad yn yr adroddiad hwn yn ategu'r hyn a geir yn yr adroddiad ar Gamau Un a Dau y prosiect ymchwil. Yn fwy penodol, mae'n galluogi dealltwriaeth ddyfnach o effeithiau posibl diwygio'r PAC a newidiadau i'r taliad sengl ar yr economi leol a'r gymdeithas yng Nghymru wledig. Yn ogystal, mae'n atgyfnerthu pwysigrwydd, a nodwyd gan yr arolwg, amlswyddogaeth ar gyfer cynaliadwyedd a chadernid ffermio teuluol yng Nghymru. Bydd y casgliadau hyn, a'r rhai yn yr adroddiad ar Gamau Un a Dau, yn cael eu dwyn ynghyd yn adroddiad terfynol y prosiect ymchwil hwn.